


B B C



100 MLYNEDD O'N BBC

Adroddiad Blynyddol a
Chyfrifon Grŵp y BBC **2021/22**

Adroddiad Blynyddol a
Chyfrifon Grŵp y BBC **2021/22**

(h) Hawlfraint y BBC 2022

Gellir atgynhychu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y BBC a nodi teitl y ddogfen. Defnyddir ffotograffau (h) BBC neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, oni nodir fel arall. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhychu unrhyw ffotograffau.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o bbc.co.uk/annualreport

Dyluniwyd gan Emperor emperor works

Cyfieithwyd gan Prysg prysg cymru

Paratowyd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2016 (Erth 37)

Yn yr adroddiad hwn

Y BBC

- 2 Y BBC yn 100
- 4 Hysbysu, Addysgu, Diddanu
- 6 Y BBC yn 2021/22

Adroddiad strategol

- 8 Strategaeth i sicrhau gwerth i bawb
- 10 Datganiad gan y Cadeirydd
- 12 Adolygiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
- 16 Cyflawni ein dibenion cyhoeddus
 - Newyddion a gwybodaeth ddiuedd
 - Dysgu i bobl o bob oedran
 - Allbwn creadigol, nodedig, o'r ansawdd gorau
 - Adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU
 - Cyflwyno'r DU i'r byd
- 48 Sicrhau gwerth i gynulleidfaeodd
- 50 Ymgysylltu â chynulleidfaeodd
- 51 Adroddiad gweithredol
 - Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu
 - Ein sefyllfa ariannol
 - Gwariant Darlledu Cyhoeddus
 - Ein pobl gweithio i'r BBC
 - Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
 - Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiâu yn y BBC
 - Ymgynghoriadau
 - Cynaliadwyedd amgylcheddol
 - Gwaith elusenol
 - Partneriaethau a mentrau cydweithredol
- 75 Gweithrediadau masnachol
 - Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredol
 - BBC Studios
 - BBC Studioworks

Llywodraethu

- 84 Bwrdd y BBC
- 85 Adroddiad cydymffurfiaeth gorfforaethol
- 86 Pwyllgor Gweithredol
- 86 Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf
- 87 Adroddiad cydnabyddiaeth
- 96 Datgeliadau cyflogau
- 103 Barn C&AG ar ddatgeliadau cyflogau
- 104 Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau
- 105 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg
- 110 Ein prif risgiau
- 127 Datganiad ynghylch hyfywedd
- 128 Adroddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol
- 129 Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol
- 131 Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd
- 133 Adroddiad y Pwyllgor Masnachu Teg
- 135 Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg
- 136 Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd
- 137 Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus
- 168 Pecynnau data perfformiad
- 202 Barn C&AG ar ddata perfformiad y gwledydd

Datganiadau ariannol (yn Saesneg)

- 204 Tystysgrif ac Adroddiad C&AG ar Ddatganiadau Ariannol Grŵp y BBC
- 214 Datganiad incwm cyfunol
- 214 Datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol
- 215 Mantolen gyfunol
- 216 Datganiad newidiadau mewn ecwiti cyfunol
- 217 Datganiad llif arian parod cyfunol
- 219 Nodiadau i'r cyfrifon

Gwybodaeth ychwanegol

- 273 Mynegai
- 274 Credydau delweddau
- 275 Gwybodaeth gyswllt ac adborth

T8

Adroddiad strategol



T83

Llywodraethu



T203

Datganiadau ariannol



1922



Ffufiwyd y Cwmni Darlledu Prydeinig ar 18 Hydref 1922, a mis yn ddiweddarach, darlledodd am y tro cyntaf, gan ddechrau â'i signal galw enwog: *2LO calling*. Dros y deg degawd nesaf, byddai darllediadau'r BBC yn trawsnewid bywyd pob un ohonom, gan ein diffinio'n bersonol ac fel cenedl.

1927

**Promsy BBC**

Llwyddodd y BBC i sicrhau bod cerddoriaeth glasurol yn hygyrch i bawb, gan arallgyfeirio dros amser i ddathlu cerddoriaeth o bob genre, o gerddoriaeth glasurol a chanu gwlad i gerddoriaeth werin a jazz.

1932

**BBC Empire Service**

Wedi'i lansio gan Frenin Siôr V, daw yn un o weithrediadau casglu newyddion mwyaf y byd fel y World Service, gan osod y safon ar gyfer newyddion diduedd ledled y byd.

Ers 100 mlynedd, mae'r BBC wedi bod yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu'r genedl. Yma, cawn olwg ar rai o'n cerrig milltir...

100

mlynedd


o'n BBC

1936

**Teledu'r BBC yn dechrau ym Mhalas Alexandra**

Adeg arloesol, dyma oedd "gwasanaeth teledu manylder uwch" rheolaidd cyntaf y byd, gan greu strwythur teledu fel sy'n gyfarwydd i ni o hyd heddiw. Cyn 1936, roedd system 30-llinell manylder isel arbrofol ar waith.

1939



Yr Ail Ryfel Byd, y rhyfel cyntaf a ddarlledwyd

Ar radio'r BBC, cyhoeddodd Neville Chamberlain ddechrau'r rhyfel, aeth Churchill ati i gymell y genedl â'i areithiau a lledaenwyd newyddion y gellid ymddiried ynddo i'r byd dan oresgyniad.

1958



Blue Peter

Hwylodd y llong enwog am y tro cyntaf, gan greu rhaglen blant fwyaf hirsefydledig y byd, gan ysbrydoli cenedlaethau o blant i fod yn greadigol a gwneud gwahaniaeth.

1963



Doctor Who

Cyrhaeddodd y Doctor yn y Tardis, gan adnewyddu ei hun bob ychydig flynyddoedd a thrwy hynny ddod yn seren un o'r cyfresi teledu ffuglen wyddonol fwyaf hirsefydledig yn y byd.

1979



Life on Earth

Cyflwynodd David Attenborough fyd hanes naturiol i bawb yn y gyfres garreg filltir gyfareddol hon, gan osod y safon ar gyfer gwneud rhaglenni dogfen yn y genre hwn.

1985



EastEnders

Dechreuodd hoff opera sebon y genedl, gan ddenu cynulleidfaoedd mawr bob wythnos â'i ddiweddglu cyffrous a straeon cyfoes a pherthnasol.

1997



BBC Ar-lein

Newidiodd y byd darlledu – a'n bywydau ni – am byth, wrth i'r BBC ddod yn rhan o'r we fyd-eang, a chyflwyno'r iPlayer arloesol yn 2007.

2007



BBC iPlayer

Lansiodd BBC iPlayer fel gwasanaeth dal i'fyny 7-diwrnod i'w lawrlwytho'n unig – cyn dod yn un o hoff lwyfannau ffrydio'r DU, a'r llwyfan a gaiff ei ddefnyddio fwyaf.

2020



BBC Bitesize Dysgu yn ystod y Cyfyngiadau Symud

Ehangodd BBC Bitesize, sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus, er mwyn cynnig gwasanaeth ysgol gartref cynhwysfawr, gan gefnogi plant a'u rhieni yn ystod y pandemig.

Cipolwg

Hysbysu, Addysgu, Diddanu

Hysbysu

Mae'r BBC yn darparu lefel heb ei hail o newyddion a materion cyfoes lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y wlad hon o hyd a'r darlledwr newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf. Rydym yn chwarae rhan bwysig wrth helpu i drechu'r gamwybodaeth a'r dryswch sydd mor gyffredin erbyn hyn.

8/10

Cyrhaeddiad BBC News

Nifer yr oedolion yn y DU (16+) sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos – sy'n golygu mai BBC News yw'r darparwr newyddion a ddefnyddir fwyaf yn y DU o bell ffordd.

Ffynhonnell: Compass gan Ipsos MORI | 16+

Addysgu

Bu addysg a dysgu wrth wraidd dibenion cyhoeddus y BBC ers bron i 100 mlynedd, gan ddechrau â Radio i Ysgolion yn 1924. Heddiw, mae ein rhaglenni ar CBeebies a CBBC, a gwasanaethau a mentrau fel BBC Teach, BBC Bitesize a Gohebydd Ifanc y BBC yn boblogaidd iawn ac yn cael eu gwerthfawrogi gan fyfyrwyr, athrawon a rhieni ledled y DU.

75%

% y disgyblion ysgol uwchradd a ddefnyddiodd BBC Bitesize yn 2021/22.

Ffynhonnell: DJS

Diddanu

Mae mwy na 27 miliwn o bobl yn troi at y BBC i gael adloniant gyda'r nos ar ddiwrnod cyffredin. Rydym yn darparu dihangfa bwysig a phan ofynnir i'r gynulleidfa, ni sy'n ei diddanu fwyaf.

6.6^{bn}

Nifer y rhaglenni a ffrydiwyd ar BBC iPlayer, record newydd ac i fyny 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ffynhonnell: AT Internet

70%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod Newyddion/Materion Cyfoes y BBC yn effeithiol wrth eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU/byd heddiw (aneffeithiol: 15%).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

492^m

Y gynulleidfa fyd-eang wythnosol uchaf erioed
Mae'r BBC bellach yn cyrraedd y gynulleidfa fyd-eang fwyaf erioed, sef 492 miliwn o bobl.

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang



Steve Rosenberg yn gohebu o Moscow

72%

% yr athrawon ysgol gynradd a arolygwyd a ddywedodd eu bod yn dangos Newsround yn y dosbarth o leiaf unwaith yr wythnos.

Ffynhonnell Teacher Tracker

400^k

Nifer y myfyrwyr yr ymwelwyd â nhw fel rhan o brosiect BBC 100 Share Your Story.



Newsround, 1982

1.54^{bn}

Yr eitemau o radio, cerddoriaeth a phodlediadau a chwaraewyd yn y DU ar BBC Sounds yn 2021/22, record newydd ac i fyny 23% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ffynhonnell AT Internet

13^m

Gwylwyr *Vigil* – y ddrama newydd a wylwyd fwyaf yn y DU ers tair blynedd.

Ffynhonnell BARB



Vigil ar BBC One

Y BBC yn 2021/22

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i roi ein strategaeth gwerth i bawb ar waith. Rydym wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad i fod yn ddiuedd; wedi darparu cynnwys o bwys; ac wedi gwella ein harlwy digidol, gan gynyddu incwm masnachol y BBC a chreu sefydliad modern ac effeithlon sy'n addas ar gyfer y dyfodol ar yr un pryd.

Y darlledwr newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd

Mae'r BBC yn rhan hanfodol o gymell tawel y DU. Dyma allforyn diwyllianol mwyaf adnabyddus y DU â lefel ymwybyddiaeth o 60% ledled y byd – sy'n uwch nag allforion diwyllianol eraill y DU fel chwaraeon, prifysgolion a thechnoleg Brydeinig.

Yn cyrraedd 492 miliwn o bobl bob wythnos ledled y byd

Mae hyn yn fwy na chyfanswm tanysgrifwyr byd-eang Netflix a Disney gyda'i gilydd ac yn rhoi llwyfan eithriadol i'r DU hyrwyddo diwylliant, democratiaeth a gwerthoedd Prydain ledled y byd.

Yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ganfyddiadau'r byd o'r DU

Mae dros 50% o ddefnyddwyr byd-eang yn dweud bod defnyddio'r BBC yn gwneud iddynt ystyried y DU mewn ffordd fwy cadarnhaol.



Mae'r BBC yn ganolog i fywyd yn y DU

Rhif 1

Brand mwyaf poblogaidd y DU ar gyfer y cyfryngau.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

260^m

Mae'r cyhoedd yn y DU yn dewis y BBC 260 miliwn o weithiau bob dydd.

Ffynhonnell Compass (16+) a Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI

90%

% yr oedolion yn y DU a ddefnyddiodd wasanaethau'r BBC ar gyfartaledd bob wythnos yn 2021/22. Dros gyfnod o fis, mae bron i bob oedolyn yn y DU – 97% – yn defnyddio'r BBC.

Ffynhonnell Compass by Ipsos MORI

81%

% y bobl rhwng 16 a 34 oed a ddefnyddiodd wasanaethau'r BBC ar gyfartaledd bob wythnos yn 2021/22, sef ffigur misol o 94%.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI

73%

Ymhlith pobl ifanc o dan 16 oed – â chyrraeddwyd wythnosol cyfartalog o 73% – y BBC yw'r unig ddarparwr yn y DU a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o'r grŵp oedran hwn bob wythnos ac roedd yn fwy poblogaidd na Netflix a Disney.

Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI

53^{bn}

Yn ystod 2021/22, treuliodd pobl y DU 53 biliwn o oriau yn defnyddio cynnwys y BBC.

Ffynhonnell BARB, AT Internet, RAJAR, Ipsos MORI, ONS

Chwith uchaf i isaf

Lyse Doucet yn gohebu o Kyiv, Wcráin / Time ar BBC One / The Green Planet ar BBC One.

Dde uchaf i isaf

Ffilmio The Responder ar BBC One / The Zoe Ball Breakfast Show, BBC Radio 2 / The Tourist ar BBC One



Yn cael effaith economaidd gadarnhaol sylweddol ledled y DU

£1 > £2.63

Mae'r BBC yn cael amrywiaeth eang o effeithiau economaidd ar economi'r DU. Am bob £1 o weithgarwch economaidd y BBC, caiff £2.63 ei greu yn yr economi.

Incwm masnachol

£1,718^m

2021/22: £1,384 miliwn.

Arbedion cronol

£1^{bn}

Cyflawnwyd ers 2016/1.

Y gorbenion gorau yn y diwydiant

o fewn

5%

i'r sail costau gwasanaeth cyhoeddus



Mae cefnogaeth gref o blaid rôl a chenhadaeth y BBC

86%

Yn ystod y flwyddyn hon, sef canmlwyddiant y BBC, ceir cryn gydnabyddiaeth gan y cyhoedd i'r rôl y mae'r BBC wedi'i chwarae ym mywyd y DU. Mae 86% o'r cyhoedd yn y DU yn dweud bod y BBC wedi bod yn bwysig i bobl y DU dros y cyfnod hwn, ac mae 75% o'r farn bod y BBC wedi darparu gwasanaeth angenrheidiol yn ystod y cyfnod hwn.

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

78%

Heddiw – o ystyried y dewis eang sydd ar gael – mae'r BBC yn parhau i fod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth, addysg ac adloniant ac mae'r cyhoedd yn gadarn o'r farn y dylai hyn barhau fel cenhadaeth y BBC. Yn gyffredinol, mae 78% o oedolion yn y DU yn credu yng nghenhadaeth gyffredinol y BBC, â mwyafrif clir ar draws pob grŵp cynulleidfa ni waeth beth fo'i oedran, rhywedd, grŵp economaidd-gymdeithasol, tarddiad ethnig a lleoliad.

Ffynhonnell ICM Unlimited 18+

75%

Mae tri chwarter cyhoedd y DU yn dweud bod y BBC yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr i bobl y DU heddiw.

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

Rhif 1

Ar draws amrywiaeth o straeon, BBC News yw'r lle cyntaf y mae nifer llethol o'r cyhoedd yn y DU yn troi ato i gael darllediadau newyddion diduedd.

Ffynhonnell Yonder 18+

Arweinydd ym maes fideo, sain a newyddion

O ran fideo, mae 73% o bobl yn y DU yn gwyllo teledu'r BBC mewn wythnos ar gyfartaledd – mwy nag unrhyw ddarparwr teledu neu SVOD arall.

O ran sain, mae 62% o oedolion yn gwrandao ar Radio'r BBC ar gyfartaledd bob wythnos – canran uwch na'r ganran ar gyfer cwmnïau radio darlledu unigol a ddarparwr sain ar alw.

O ran newyddion, y BBC yw'r brif ffynhonnell yn y DU – caiff ei dewis fwy nag unrhyw ddarparwr arall.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI, BARB, RAJAR, Yonder



Strategaeth i sicrhau gwerth i bawb



Adnewyddu ein hymrwymiad i ddiueddrwydd

Mae didueddrwydd yn hanfodol er mwyn i gynulleidfaeod ymddiried yn y BBC. Mae'n gonglfaen i bwy ydym a'r hyn a wnawn, a'r rheswm y cawn ein gwerthfawrogi fel llais annibynnol ledled y byd.

Ni fu didueddrwydd yn hawdd erioed, ond mae ein cynulleidfaeod yn llygad eu lle wrth ddisgwyl y safonau uchaf posibl. Yn y BBC, rydym yn gwybod bod angen i ni ennill ein henw da am fod yn ddiuedd bob dydd, ym mhob peth a wnawn.

Y flwyddyn hon, rydym wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddiueddrwydd drwy wneud y canlynol:

- ymateb i adroddiad Dyson drwy lansio Adolygiad Serota a ystyriodd brosesau golygyddol, trefniadau llywodraethu a diwylliant y BBC
- cyhoeddi cynllun deg pwynt cynhwysfawr i wella safonau ymhellach ym mhob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys adolygiadau thematig rheolaidd o'n hallbwn mewn meysydd trafod allweddol
- parhau i gyflwyno hyfforddiant didueddrwydd ym mhob rhan o'r BBC a chydymffurfio â chanllawiau a rheolau newydd i staff ar y cyfryngau cymdeithasol a datgan ymrwymiadau allanol
- darparu darllediadau y gellir ymddiried ynddynt o'r ymosodiadau ar Wcráin y dibynnwyd arnynt gan gynulleidfaeod o filiynau gartref ac ym mhob cwr o'r byd



Canolbwyntio ar gynnwys unigryw o bwys

Rhaid i'r BBC sicrhau gwerth ardderchog i bawb, ni waeth pwy ydynt na ble y maent. Mae hynny'n golygu canolbwyntio ein hadnoddau ar gynhyrchu'r gwaith unigryw o bwys sydd fwyaf perthnasol i'n cynulleidfaeod.

Er mwyn cynnig gwerth ardderchog, mae angen i ni wneud cynnwys eithriadol ym mhob genre, ond ni allwn rannu ein hadnoddau yn rhy denau. Heddiw, mae angen i'r BBC wneud llai nag yn y gorffennol, ond ni ddylem byth gyfaddawdu ar ansawdd.

Y flwyddyn hon, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gynnwys o bwys drwy:

- ailddyrrannu arian i'r meysydd lle y bydd yn creu'r gwerth gorau a sicrhau bod ein hallbwn yn gwbl nodedig
- parhau i gynhyrchu allbwn poblogaidd nodedig ac arloesol – mae'r tudalennau hyn yn llawn enghreifftiau, o *The Tourist* i *Time*, *The Green Planet* i *The House of Maxwell*, *MasterChef* i *Motherland*, *Forgotten Composers* ar Radio 3 i *Things Fall Apart* ar Radio 4
- buddsoddi £112 miliwn o'n cyllideb comisiynu fideo a sain dros dair blynedd mewn cynnwys amrywiol a chynhwysol, fel *Uprising* a *Then Barbara Met Alan*
- cyflwyno BBC Three fel sianel ddarlledu unwaith eto – gan gefnogi llwyddiant, syniadau dewr a thalent newydd, fel *Conversations With Friends* gan Sally Rooney ac *In My Skin* gan Kayleigh Llewellyn a enillodd wobwr BAFTA



Cael mwy o werth o gynnyrch ar-lein

Rhaid i BBC digidol yn gyntaf sicrhau ei fod yn cynnig cynhyrchion a gwasanaethau ar-lein o'r radd flaenaf, gan roi'r profiad gorau posibl i gynulleidfaeod yn y DU a ledled y byd.

Mae BBC Ar-lein wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan gynnig Newyddion, Chwaraeon, iPlayer a Sounds. Ond mae angen i ni wneud mwy a sicrhau bod ein harlwy yn gydgyssylltiedig ym mhob peth a wnawn. Po fwyaf o'n cynnwys nodedig y gall cynulleidfaeod ei ddarganfod, y mwyaf o werth y byddant yn ei gael gan y BBC.

Y flwyddyn hon, rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau gwerth uwch o'n darpariaeth ar-lein drwy wneud y canlynol:

- diweddarau ein gwasanaethau a'n hapiau er mwyn cynnig profiad ar-lein mwy cydlynol a di-dor, a'i gwneud hi'n haws i gynulleidfaeod ddarganfod popeth a gynigir gynnym
- torri recordiau newydd ar gyfer iPlayer gyda 6.6 biliwn o raglenni yn cael eu ffrydio yn 2021, i fyny 8% o gymharu â 2020/21
- bodloni ceisiadau i chwarae 1.54 biliwn o eitemau o radio, cerddoriaeth a phodlediadau ar Sounds yn 2021, i fyny 23% o gymharu â 2020/21
- cyrraedd un o bob tri oedolyn ar gyfartaledd bob wythnos â BBC News Online, yn uwch na'r targed

6.6^{bn}

Nifer y rhaglenni a ffrydiwyd ar iPlayer yn 2021/22.

Ffynhonnell AT Internet

1.54^{bn}

Nifer yr eitemau o radio, cerddoriaeth a phodlediadau a chwaraewyd yn y DU ar BBC Sounds yn 2021/22.

Ffynhonnell AT Internet



Edrychwch am y symbolau hyn drwy'r adroddiad strategol er mwyn gweld sut mae'r chwe blaenoriaeth hyn yn sail i bopeth a wnawn.



Cynyddu ein hincwm masnachol

Mae adeiladu ein hincwm masnachol yn hollbwysig i'n strategaeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Rydym yn benderfynol o gynyddu enillion ariannol yn sylweddol er mwyn gallu sicrhau'r gwerth gorau posibl i dalwyr ffi'r drwydded.

Mae BBC Studios yn ganolog i'n cynlluniau. Mae wedi ennill ei blwyf fel y prif ddsbarthwr teledu rhyngwladol y tu allan i Hollywood, ag allforion gwerth £800 miliwn yn 2021/22. Mae'n parhau i greu cynnwys sy'n ddi-au yn perthyn i'r BBC, gan gynhyrchu enillion cystadleuol ar yr un pryd.

Y flwyddyn hon, rydym wedi profi ein gallu i dyfu incwm masnachol a byd-eang drwy wneud y canlynol:

- cyflawni'r gwerthiannau a'r elw uchaf erioed i BBC Studios yn 2021/22, ag elw o dros £200 miliwn am y tro cyntaf
- cyflawni mwy na £400 miliwn o werthiannau cynnwys am y drydedd flwyddyn yn olynol
- rhagori ar ein targed i sicrhau bod BBC Studios yn cyflawni £1.2 biliwn o enillion dros bum mlynedd gyntaf y Siarter bresennol
- cyrraedd y gyfran uchaf erioed o'r gynulleidfa ar gyfer UKTV yn 2021, gyda hysbysebu yn rhoi hwb sylweddol i referniw
- sicrhau'r enillion uchaf erioed, sef £3 miliwn, gan BBC Studioworks yn ôl i'r BBC

£1.2^{bn}

rhagori ar ein targed i sicrhau bod BBC Studios yn cyflawni £1.2 biliwn o enillion dros bum mlynedd gyntaf y Siarter bresennol.

£274^m

cyflawni £274 miliwn o arbedion yn ystod y flwyddyn.

5%

gwella ein cyfradd gorbenion i fod o fewn 5%, gan roi'r BBC unwaith eto o fewn chwarter uchaf y sefydliadau cymharol.



Creu BBC modern, hynod effeithlon

Mae BBC modern yn fwy effeithlon, yn fwy ystwyth ac yn fwy cynrychioliadol o'r gwledydd a wasanaethir gennym. Mae ganddo ffyrdd symlach o weithio, heb unrhyw rai o'r rhwystrau a all ei atal rhag cyflawni'r gwerth uchaf posibl i'n cynulleidfaeod.

Dyna pam ein bod yn gweithio'n galed i greu sefydliad cryfach, mwy effeithiol. Sefydliad a fydd yn gallu darparu'r gwerth unigryw y mae ein llwyddiant yn y dyfodol yn dibynnu arno.

Y flwyddyn hon, gwnaethom barhau i greu BBC modern drwy wneud y canlynol:

- cyflawni gostyngiad net o 409 o rolau gwasanaeth cyhoeddus a £274 miliwn o arbedion yn ystod y flwyddyn
- gwella ein cyfradd gorbenion i fod o fewn 5%, gan roi'r BBC unwaith eto o fewn chwarter uchaf y sefydliadau cymharol, a nodi ein cynlluniau i wella arbedion sefydliadol ymhellach
- datblygu ein huchelgais i greu sefydliad 50:20:12 sy'n adlewyrchu'r gymdeithas a wasanaethir gennym yn fwy cywir, a chyflwyno targed newydd o 25% ar gyfer amrywiaeth economaidd-gymdeithasol
- ehangu ein Prosiect Cydraddoldeb 50:50 er mwyn helpu i sicrhau cydraddoldeb o ran lefelau cynrychiolaeth rhywedd, ethnigrwydd ac anabled ym mhob rhan o'r BBC
- nodi ein llwybr i gyrraedd Sero Net erbyn 2030 â thargedau'n seiliedig ar wyddoniaeth ar gyfer lleihau ein hallyriadau.



'Across the UK'

'Across the UK' yw ein cynllun i drawsnewid y BBC yn sylweddol drwy symud llawer mwy o'n pobl, ein pŵer a'n grym gwneud penderfyniadau i wledydd a rhanbarthau'r DU.

Mae'n rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu'r DU gyfan, â'i holl safbwyntiau a'i lleisiau. Ond mae hefyd yn gynllun i sicrhau bod buddiannau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y BBC yn cyrraedd pob cymuned.

Y flwyddyn hon, rydym wedi datblygu ein cynlluniau 'Across the UK' ymhellach drwy wneud y canlynol:

- gwneud cyfresi newydd a chyfresi sy'n dychwelyd ledled y gwledydd a'r rhanbarthau – *Shetland*, *The Pact*, *Bloodlands*, *Gentleman Jack*, *The Responder*, *Peaky Blinders*, *Waterloo Road*
- symud rhai o frandiau mawr y BBC ledled y DU – *MasterChef* i Birmingham, *Top Gear* i Fryste, *Morning Live* i Fanceinion Fwyaf
- sicrhau bod BBC Scotland wrth wraidd ein darllediadau o COP26, lansio partneriaeth swyddogol rhwng y BBC a Chymru Greadigol, ac adlewyrchu canmlwyddiant y Rhaniad â chymysgedd o raglenni nodedig o Ogledd Iwerddon
- cyhoeddi buddsoddiad mwyaf y BBC yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr ers degawdau – £25 miliwn dros y pum mlynedd nesaf
- agor Canolfan i Brentisiaid newydd yn Birmingham a dyblu ein hymrwymiad cyffredinol i brentisiaethau er mwyn cynnig 1,000 erbyn 2025



Uchod:
Jeremy Bowen yn gohebu o Kyiv, Wcráin /
darllediadau o'r Gemau Olympaidd



100 mlynedd a thu hwnt

Y flwyddyn hon, mae'r BBC yn dathlu ei ganmlwyddiant, a chan mlynedd o fod yn rhan greiddiol o fywyd cenedlaethol y DU

Adeg sefydlu'r BBC yn 1922, gwelwyd dechrau oes newydd eithriadol o gyfathrebu. Roedd sawl un yn poeni y byddai'r sector darlledu mor dreiddiol, a darbwyllol, fel y gallai gael effaith andwyol ar gymdeithas. Gallai propaganda o gartref a thramor darfu ar ddemocratiaeth. Gallai buddiannau masnachol amharu ar y sgwrs genedlaethol. Byddai'r dechnoleg newydd yn creu rhaniadau ac anghydfodau.

Roedd arloeswyr y BBC o'r farn bod angen defnyddio'r adnodd newydd pwerus hwn er budd y cyhoedd. Dylid gwarchod nifer o ddefnyddwyr. Dylid gallu ymddiried yn y wybodaeth. Dylai darlledu fod o fudd i bawb. Dylai rhaglenni gyfoethogi bywydau pobl. Ac felly ganed cenhadaeth Arglwydd Reith "i hysbysu, addysgu a diddanu".

Heddiw, mae'r chwyldro digidol wedi arwain at oes gyfathrebu newydd sbon, a megis dechrau dod i'r amlwg y mae'r effeithiau ar ein cymdeithas.

Mae darparwyr y cyfryngau masnachol bellach yn cystadlu mewn tirwedd lle y mae'n rhaid iddynt ymgysylltu'n rheolaidd yn anad dim. Caiff darparwyr newyddion eu cymell yn gynyddol gan y buddiannau sy'n gysylltiedig â safbwyntiau pleidiol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi datblygu'n seiliedig ar yr egwyddor bod cadarnhad yn rhoi mwy o foddhad na gwybodaeth, ac mae'r endorffin a gaiff ei greu gan ein hymddygiad ar-lein mor gryf fel ei bod yn ddigon naturiol bod corfforaethau am wneud elw ohono, a bod cyfranogwyr drwg am gamfanteisio arno.

Bu clychau larwm yn canu ers cryn amser ynghylch peryglon yr amgylchedd gwybodaeth newydd hwn i ddemocratiaeth; eleni, daeth hynny'n amlwg wrth i Rwsia ymosod ar Wcráin.

Rwy'n hynod falch o'r ffordd yr aeth timau newyddion y BBC ati i arwain darllediadau o'r ymosodiadau – boed hynny gan ein gohebwyr ar lawr gwlad yn Wcráin a Rwsia, ein staff yn BBC Monitoring, neu ein gohebwyr twyllwbyodaeth arbenigol a weithiodd i ddadansoddi honiadau gan y ddwy ochr mewn amser real (gweler y crynodeb ar dudalen 19).

Rwy'n arbennig o falch o'r rheini sy'n gweithio i'n gwasanaethau iaith, a'u hymrwymiad i wasanaethu cynulleidfaoedd yn Wcráin a Rwsia o dan yr amgylchiadau proffesiynol a phersonol mwyaf heriol.

Mae'r rhyfel wybodaeth yn Wcráin yn brawf o'r ymosodiadau cynyddol ar y gwir a democratiaeth sydd i'w gweld ledled y byd. Ond mae hefyd yn dangos sefyllfa unigryw'r BBC ym maes y cyfryngau byd-eang.

Heddiw, mae'r BBC yn cyrraedd cynulleidfifa wythnosol o 492 miliwn o bobl ledled y byd, ffigur sydd wedi mwy na dyblu yn ystod y degawd diwethaf. Dyma allforyn diwyllianol mwyaf adnabyddus Prydain, ac mae 60% o bobl ledled y byd yn ymwybodol ohono. Dyma hefyd y darlledwr rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf ledled y byd, y dibynnir arno'n arbennig mewn ardaloedd lle ceir cyfyngiadau ar ryddid.

Mae'r cyfuniad hwn o ymddiriedaeth a maint yn rhoi gallu unigryw i'r BBC ymdrin â thwyllwbyodaeth a hyrwyddo dylanwad democrataidd Prydain ledled y byd. Mae'r hyn y mae hynny'n ei gyflawni i'r DU dramor wedi'i gydnabod ers amser.

Er mwyn cyflawni'r cylch gwaith rhyngwladol hwn, yn ogystal â'i genhadaeth gwasanaeth cyhoeddus gartref, mae'r BBC yn dibynnu ar un peth: ei ymrwymiad i'r safonau didueddrwydd uchaf a'i enw da am y safonau hynny.

Credaf fod yr achos dros ddefnyddio grym newidiadau technolegol er budd y cyhoedd yr un mor gryf heddiw ag yr oedd gan mlynedd yn ôl. Mewn gwirionedd, o ystyried y bygythiadau sy'n cynyddu'n gyflym mewn perthynas â thwyllwbyodaeth, dylanwad drwg gwladwriaethau, ac ymosodiadau ar ddemocratiaeth, mae'n gryfach byth.

Mae'r Bwrdd wedi cadarnhau'n rheolaidd mai didueddrwydd yw prif flaenoriaeth y BBC. Mae'n cynnig dull atebolrwydd hanfodol er mwyn sicrhau bod safonau'r BBC wedi'u hategu gan systemau llywodraethu priodol.

Y flwyddyn hon, cyhoeddwyd ymchwiliad yr Arglwydd Dyson i amgylchiadau'r cyfweliad â Diana, Tywysoges Cymru ar raglen Panorama y BBC yn 1995. Nododd fethiannau annerbiniol yn y gorffennol. Ymatebodd y Bwrdd drwy gomisiynu adolygiad eang o brosesau golygyddol, trefniadau llywodraethu a diwylliant y BBC, o dan arweiniad Syr Nicholas Serota.

Cyhoeddwyd Adolygiad Serota ym mis Hydref a gwnaeth argymhellion clir a dderbyniwyd yn llwyr gan y BBC. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r BBC â chynllun deg pwynt i gynnwys y safonau uchaf ym mhob rhan o'r sefydliad ac i ymdrin â phryderon am duedd anymwybodol a meddwl grŵp, gan gynnwys adolygiadau thematig rheolaidd o allbwn y BBC mewn meysydd allweddol sy'n destun trafodaethau cyhoeddus.

Rydym wedi cyflawni cryn dipyn yn y maes hwn. Mae angen BBC nad oes unrhyw amheuan yn ei glych o ran safonau, prosesau a thryloywder. Mae angen i ni ennill ein henw da am ddiueddrwydd bob un dydd.

Credaf fod yr achos dros ddefnyddio grym newidiadau technolegol er budd y cyhoedd yr un mor gryf heddiw ag yr oedd gan mlynedd yn ôl. Mewn gwirionedd, o ystyried y bygythiadau sy'n cynyddu'n gyflym mewn perthynas â thwyllwbyodaeth, dylanwad drwg gwladwriaethau, ac ymosodiadau ar ddemocratiaeth, mae'n gryfach byth.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod gan y BBC bellach sicrwydd setliad ffi'r drwydded am chwe blynedd. Mae'r Bwrdd yn croesawu'r strategaeth a nodwyd yn ddiweddar gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol i weithredu o fewn y setliad hwnnw a chyflymu'r broses o drawsnewid y BBC i sefydliad mwy modern, effeithlon a digidol. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at ymgysylltu'n agos â'r drafodaeth

gyhoeddus ynghylch cyllido'r BBC yn y dyfodol y tu hwnt i 2027.

Hoffwn ddiolch i Tom Ilube, Y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Steve Morrison a Fran Unsworth y gwnaeth pob un ohonynt adael y Bwrdd y flwyddyn hon. Roedd yn bleser gennyf hefyd goesawu pedwar aelod newydd – Syr Robbie Gibb, Shumeet Banerji, Syr Damon Buffini a Muriel Gray (gweler tudalen 84).

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd y Bwrdd gynnig i greu Bwrdd Masnachol newydd a fydd, o dan gadeiryddiaeth Damon Buffini, yn canolbwyntio ar dyfu incwm masnachol y BBC fel un o elfennau allweddol strategaeth gyffredinol y sefydliad ar gyfer sicrhau gwerth gwell i bawb. Bydd hyn yn adeiladu ar waith y Bwrdd Daliadau Masnachol a hoffwn ddiolch i Elan Closs Stephens am ei holl waith yn cadeirio'r Bwrdd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022.

Rwy'n falch o'r cyflawniadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mae'n dangos bod gan y BBC weledigaeth glir o ran sut i sicrhau gwerth gwasanaeth cyhoeddus i bawb yn yr oes ddigidol, ac i'r DU yn gyffredinol.

Mae hefyd yn dangos BBC sy'n rhoi sylw manwl i gyflawni – boed hynny o ran effeithlonrwydd sefydliadol (gweler tudalen 52), newyddion a gwybodaeth y gellir ymddiried ynddynt (tudalen 18), cynnwys Prydeinig o'r radd flaenaf (tudalen 26) neu ledaenu buddiannau economaidd y BBC ledled y DU (tudalen 34).

Rwy'n hyderus yn nyfodol y BBC. Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein bod wrthi'n creu sefydliad cyfryngau digidol a all barhau i hysbysu, addysgu a diddanu pob cynulleidfifa, ac a fydd yr un mor bwysig i fywyd cenedlaethol a dylanwad byd-eang y DU yn ei ail ganrif ag y bu yn ystod ei ganrif gyntaf.

Richard Sharp

Richard Sharp
Cadeirydd
23 Mehefin 2022

Sicrhau gwerth i bawb



Mae canmlwyddiant y BBC yn garreg filltir arbennig iawn. Rydym yn dathlu 100 mlynedd wrth wraidd bywyd creadigol a diwylliannol y DU. Ond nid dim ond edrych yn ôl y mae'r BBC sydd ohoni yn ei wneud. Rydym yn canolbwyntio'n gadarn ar y dyfodol, a'n nod o sicrhau gwerth eithriadol i bob cynulleidfa yn yr oes ddigidol.

Gwnaed diwygiadau sylweddol y flwyddyn hon er mwyn sicrhau ein bod yn parhau'n berthnasol a'n bod yn parhau i gyflwyno buddiannau hollbwysig darlledu gwasanaeth cyhoeddus – cymdeithasol, economaidd a diwylliannol – yn yr hirdymor.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cynnydd. Mae'n dangos ein bod yn benderfynol o addasu a llwyddo fel sefydliad digidol yn gyntaf ym marchnad cyfryngau byd-eang yr oes sydd ohoni, ond gan barhau'n drwm i'w gwerthoedd a fu'n sail i'r BBC ers canrif.

Rwy'n falch o'r ffordd y mae ein timau wedi gweithio'n ddiflino i fodloni gofynion cynulleidfaoedd y flwyddyn hon. Maent wedi llwyddo, unwaith eto, i ddangos gwydnwch eithriadol o ystyried cyfyngiadau a heriau COVID-19. A boed yn darparu newyddion neu gymorth addysgol yr ymddiriedir ynddynt neu gynnwys Prydeinig o'r radd flaenaf, maent wedi dangos pwysigrwydd a pherthnasedd parhaus cenhadaeth a gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

Mae'n hanfodol bod gennym bellach eglurder setliad ffi'r drwydded am chwe blynedd. Wrth gwrs, mae'n siomedig ein bod yn wynebu penderfyniad i rewi incwm ffi'r drwydded am ddwy flynedd, sy'n golygu y bydd yn rhaid i ni amsugno costau sylweddol chwyddiant yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn cyflwyno heriau sylweddol i ni, yn enwedig o ystyried bod incwm y BBC ar gyfer gwasanaethau'r DU eisoes 30% yn is na degawd yn ôl mewn termau real.

Fodd bynnag, mae gennym sefydlogrwydd ariannol yn y DU am weddill cyfnod y Siarter bresennol. Ochr yn ochr â'r potensial i dyfu referniw masnachol, mae hyn yn golygu y gall y BBC ganolbwyntio ar y dyfodol ac ar gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau clir.

Mae'n ymwneud â llawer mwy na dim ond byw o fewn ein setliad ariannol. Mae'n ymwneud â thrawsnewid y BBC i sefydliad a all lwyddo er gwaethaf cyflymder a maint eithriadol y newidiadau yn y farchnad, a all gynnig perthnasedd i'n cynulleidfaoedd er gwaethaf cystadleuaeth ffyrnig am amser mewn byd ar-lein.

Ein blaenoriaeth gyntaf yw didueddrwydd ac ymddiriedaeth. Yma gallwn gyfeirio at gynnydd da wrth gyflwyno rheolau a chanllawiau newydd ym mhob rhan o'r sefydliad. Y flwyddyn hon, gwnaethom hefyd



Chwith:
Peaky Blinders BBC One

Uchod:
Clive Myrie yn gohebu o Kyiv, Wcráin / Woman's Hour a gyflwynir gan Emma Barnett ac a enillodd wobwr ARIA

Yr her nawr i'r BBC yw gweithredu mewn ffordd fwy pendant byth wrth anelu at ddiueddrwydd. Mae angen i ni barhau'n gadarn yn erbyn yr ymosodiad cynyddol ar y gwir a rhyddid y cyfryngau ledled y byd.

ymateb i Adolygiad Serota drwy gyflwyno cynllun deg pwynt cynhwysfawr sy'n ailymrwymo i gyrraedd y safonau uchaf.

Yr her nawr i'r BBC yw gweithredu mewn ffordd fwy pendant byth wrth anelu at ddiueddrwydd. Mae angen i ni barhau'n gadarn yn erbyn yr ymosodiad cynyddol ar y gwir a rhyddid y cyfryngau ledled y byd.

Nôl ym mis Chwefror, y noson cyn yr ymosodiadau ar Wcráin, canfu adroddiad gan Freedom House yn UDA fod cyfanswm o 60 o wledydd wedi profi dirywiad democrataidd yn 2021, ac mai dim ond mewn 25 o wledydd y gwnaeth y sefyllfa wella. Mae tua 20% o bobl bellach yn byw mewn gwledydd yr ystyrir eu bod yn wledydd rhydd – cyfran sydd wedi haneru yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Yn y cyfamser, mae'r mynegai diweddaraf ar gyfer Rhyddid Gwasg y Byd yn nodi bod newyddiaduraeth wedi'i hatal yn llwyr neu'n rhannol mewn dros 70% o'r 180 o wledydd a ystyrir ganddo. Ystyrir bod y sefyllfa yn "ddifrifol iawn" mewn 28 o

wledydd, y nifer uchaf erioed.

Dangosodd y ffordd yr ymatebodd y cynulleidfaoedd uchaf erioed gartref a thramor i'n darllediadau o'r ymosodiad ar Wcráin faint y maent yn gwerthfawrogi newyddion a dadansoddiadau diduedd (tudalen 18). Gwnaeth ein hatgoffa hefyd o'r rôl y gall y BBC ei chwarae wrth arddel gwerthoedd democrataidd Prydain yn y byd o dwyllwbyodaeth sydd ohoni.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein ffocws golygyddol ar sicrhau'r gwirionedd a darparu dadansoddiadau o'r radd flaenaf – o Reality Check ac esbonwyr feiral i bodlediadau fel *UkraineCast* a *The War on Truth*. Rydym hefyd yn deall yr effaith y gall rhwydwaith byd-eang unigryw'r BBC ei chael o ran cefnogi addysg y cyfryngau ledled y byd. Gwelais hyn yn bersonol yn ddiweddar yn India, lle mae cynllun llythrennedd y cyfryngau Gohebydd Ifanc y BBC wedi cyrraedd dros 8,000 o fyfyrwyr mewn 160 o ysgolion ledled 27 o daleithiau.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod rôl y BBC wrth helpu i drechu twyllwbyodaeth a

1af

Hoff ddewis cynulleidfaoedd ar gyfer newyddion diduedd ar draws amrywiaeth o straeon.

Ffynhonnell Yonder, 18+

9

Nifer y gwobrau BAFTA a enillwyd, yn ogystal ag 13 o wobrau aur ARIA.

141^m

Cyfanswm yr eitemau a ffrwydiwyd ar gyfer gemau Olympaidd Tokyo a Beijing.

Ffynhonnell AT Internet

hyrwyddo gwerthoedd democrataidd Prydeinig ledled y byd unwaith eto wedi cael ei chydabod gan y Llywodraeth yn ei phenderfyniad i ehangu cymorth i'r World Service am dair blynedd arall. Mae'r adroddiad hwn yn dangos pa mor galed mae ein timau newyddion byd-eang yn gweithio er mwyn sicrhau bod y cyfrifoldeb hwnnw yn cael effaith ledled y byd (tudalen 44).

Ein hail flaenoriaeth yw cyflwyno cynnwys eithriadol a nodedig ar draws pob genre. Y flwyddyn hon, rydym wedi denu cynulleidfaoedd darlledu o dros 10 miliwn ar gyfer rhaglenni fel *Vigil*, *Strictly* a *Line of Duty*. Cafodd cyfresi fel *The Tourist*, *Peaky Blinders* a *The Apprentice* eu ffrydio mwy na 30 miliwn o weithiau ar iPlayer.

Rydym wedi gweld effaith rhaglenni dogfen fel *The Green Planet*: dywedodd bron i hanner y gwylwyr a arolygwyd ei bod wedi gwneud iddynt werthfawrogi'r amgylchedd mwy, a dywedodd dros eu chwarter ei bod wedi'u hysbrydoli i weithredu. Ac rydym wedi gweld miliynau yn heidio i'r BBC i rannu haf eithriadol o chwaraeon, gyda 25 miliwn yn gwyllo rownd derfynol Ewro 2020 ar BBC One a 7.8 miliwn yn ymuno â ni ar gyfer Rownd Derfynol Dynion Wimbledon yr un diwrnod.

Cafodd rhagoriaeth greadigol y BBC hefyd ei chydabod yn eang gan y diwydiant. Enillwyd naw gwobr BAFTA eleni, gan gynnwys gwobrau ar gyfer *Time*, *Uprising*, *Motherland*, *In My Skin* ac *Alma's Not Normal* – yn ogystal â'r wobwr "eiliad sy'n rhaid ei gweld" ar gyfer dawns dawel Rose a Giovanni ar *Strictly*. Yn y flwyddyn,

Adolygiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol – parhad



enillodd y BBC hefyd 31 gwobr ARIA, a 13 gwobr Aur gan gynnwys dwy i *Woman's Hour* ac un yr un i BBC Radio Merseyside a BBC Radio Kent.

Rydym yn gyfrifol nid yn unig am gystadlu â'r ffrydwr byd-eang mawr o ran cyfaint cynnwys ond hefyd am sicrhau ein bod yn cynnig y gwerth unigryw gorau posibl i gynulleidfaedd drwy ganolbwyntio ar adrodd straeon Prydeinig nodedig o ansawdd eithriadol. Hysbysu, addysgu a diddanu. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut rydym yn gwneud yn union hynny (tudalen 26).

Wrth gws, nid dim ond beth a gynigir gennym sy'n bwysig o ran cynnig gwerth ardderchog yn yr oes ddigidol, ond sut rydym yn ei gynnig. Dyna pam ein bod yn canolbwyntio'n ddwys ar ein strategaeth i drawsnewid ein cynhyrchion digidol a sicrhau eu bod o'r radd flaenaf. Yn syml, llwyddiant ein gwasanaethau ar-lein fydd yn diffinio llwyddiant y BBC yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Y flwyddyn hon, gallwn gyfeirio at gynnydd sylweddol (tudalen 32). Torrodd BBC iPlayer recordiau newydd, â rhaglenni yn cael eu ffrydio 6.6 biliwn o weithiau – i fyny 8% o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Chwaraeodd BBC Sounds 1.54 biliwn o eitemau o radio, cerddoriaeth a phodlediadau – i fyny 23% o gymharu â 2020/21. Cyrhaeddodd BBC News Online 34% o oedolion y DU ar gyfartaledd bob wythnos – sef 18 miliwn o bobl bob wythnos, gan ragori ar ein targed.

Bydd cynulleidfaedd hefyd wedi sylwi ein bod wedi cyflwyno profiad llawer mwy cydlynol a di-dor ar draws ein harlwy ar-lein, gan ei gwneud hi'n haws iddynt ddarganfod popeth a wnawn. Po fwyaf o'n cynnwys nodedig y gallant ddod o hyd iddo, y mwyaf o werth y byddant yn ei gael gan y BBC.

Yn olaf, mae hybu ein hincwm masnachol yn parhau'n flaenoriaeth bwysig. Mae'n hanfodol y gall y BBC sicrhau'r buddsoddiad a'r partneriaid i wneud y rhaglenni gorau posibl mewn marchnad hynod gystadleuol, ac y gallwn hefyd greu'r enillion uchaf posibl i dalwyr ffi'r drwydded.

Mae BBC Studios wedi cofnodi'r gwerthiannau a'r elw uchaf erioed y flwyddyn hon, gan nodi mwy na £400 miliwn o werthiannau cynnwys am y drydedd flwyddyn yn olynol ac elw o dros £200 miliwn am y tro cyntaf. Rydym bellach wedi rhagori ar ein targed i sicrhau bod BBC Studios yn cyflawni £1.2 biliwn o enillion dros bum mlynedd gyntaf y Siarter bresennol. Ac rydym wedi cael cytundeb gan y Llywodraeth i gynyddu ein terfyn benthyca masnachol sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ni gystadlu'n rhyngwladol fel sydd ei angen arnom.

Mae adrannau cynhyrchu mewnol Newyddion Byd-eang a Phlant bellach wedi ymuno â BBC Studios, sy'n golygu bod ein holl weithgareddau masnachol rhyngwladol o dan arweinyddiaeth unigol, wedi'i goruchwyllo gan Fwrdd Masnachol newydd y BBC (tudalen 79).

Ochr yn ochr â'r blaenoriaethau hyn sy'n ymwneud â chynulleidfaedd mae ein cynlluniau i drawsnewid ble y caiff ein cynnwys ei wneud a sut rydym yn rhedeg y sefydliad. Un maes lle gwelwyd o bosibl y dystiolaeth fwyaf amlwg o hyn yw ein cynllun i symud y BBC allan o Lundain ac i wahanol rannau o'r DU.

Nod ein cynllun 'Across the UK' a gyflwynwyd gennym y llynedd oedd sicrhau ein bod yn llawer agosach at ein cynulleidfaedd a'n helpu i'w hadlewyrchu'n well. Roedd hefyd yn anelu at sicrhau y gallai'r BBC chwarae cymaint o ran â phosibl wrth gefnogi twf economaidd ym mhob cwr o'r DU. Heddiw, mae hanner cyfraniad economaidd y BBC y tu allan i Lundain, mae dros hanner ein cyflogeion wedi'u lleoli y tu allan i'r M25, ac mae dros hanner ein gwaith cynhyrchu teledu rhwydwaith yn digwydd yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Ond gallwn wneud mwy.

Yn ystod y misoedd diwethaf, bûm yn Tyneside yn cyhoeddi buddsoddiad £25 miliwn yn y rhanbarth dros y 5 mlynedd nesaf. Ymwelais â Gortlewin Canolbarth Lloegr i lansio ein canolfan newydd i brentisiaid er mwyn helpu mwy o bobl i ddod o hyd i waith yn y sector creadigol. Rydym wedi cyhoeddi ein bod yn dyblu ein hymrwymiad i brentisiaethau ledled y DU, â chynlluniau i recriwtio 1,000 erbyn 2025 ag 80% ohonynt y tu allan i Lundain.

Y flwyddyn hon, gwelwyd newidiadau pwysig i rai o'n rhaglenni mwyaf, wrth i'r gwaith o gynhyrchu *Top Gear* symud i

53^k

o swyddi ledled y DU yn cael eu cefnogi gan ein buddsoddiad yn yr economi greadigol

Ffynhonnell KPMG
Effaith economaidd
Adroddiad y BBC

700^m

Oriau o gynnwys a chwaraewyd drwy BBC Sounds yn ystod 2021/22

Ffynhonnell Data
Cyfrif AT Internet/y
BBC

£1.2^{bn}

Dros £1.2 biliwn o enillion gan BBC Studios yn ystod pum mlynedd gyntaf y Siarter.

Fryste, *MasterChef* i Birmingham a *Morning Live* i Fanceinion.

Mae mwy o'n timau newyddion hefyd wedi symud allan o Lundain yn ystod y flwyddyn, ac mae mwy o'n rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn cael eu darlledu o rannau gwahanol o'r DU.

Rydym yn gwybod cymaint y mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi rhaglennu o'u gwlad neu eu rhanbarth, gyda chyfresi fel *Bloodlands*, *Shetland*, *Guilt*, *The Pact*, *The Responder*, *Sherwood* a *Gentleman Jack*, a llawer mwy i ddod fel *Happy Valley* a dychweliad *Waterloo Road*.

Rydym hefyd yn gwybod pa mor bwysig ydyw bod allbwn y BBC yn mynd ati o ddirif i adlewyrchu pob cymuned yn y DU. Dyna pam y gwnaethom ymrwymo £112 miliwn o'n cyllideb comisysnu fideo a sain dros dair blynedd i gynnwys amrywiol a chynhwysol, fel *Uprising* a *Then Barbara Met Alan*. Rydym yn benderfynol o fuddsoddi mewn pobl, lleoedd, cyfleoedd a straeon o bob rhan o'r DU, ac mae'r flwyddyn hon wedi profi ein bod yn llwyddo i wneud hynny (tudalen 34).

Un rhan bwysig o'n cyfrifoldeb i'r DU gyfan yw sicrhau bod y BBC yn cynrychioli pob cymuned, oddi ar y sgrin yn ogystal ag arni. Dyna pam y gosodais darged clir ar gyfer sefydliad 50:20:12 – sy'n golygu sefydliad lle ceir cydbwysedd rhwng y rhywiau, gydag o leiaf 20% o'r staff yn bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac o leiaf 12% o'r staff yn bobl anabl. Y flwyddyn hon, gwnaethom hefyd ymrwymo i gyrraedd targed newydd o 25% ar gyfer amrywiaeth economaidd-gymdeithasol is erbyn 2027.

Dyma'r targedau y byddaf yn disgwyl i bob un o arweinwyr y BBC anelu atynt er mwyn ysgogi newid ar bob lefel o'n sefydliad, a chaiff

ein cynnydd diweddaraf ei nodi ar y tudalennau hyn (tudalen 59).

Mae hyn oll yn rhan o'n hymdrech ehangach i sicrhau ein bod yn BBC gwirioneddol fodern. Mae hynny'n golygu BBC hynod effeithlon, sy'n anelu at sicrhau'r gwerth uchaf posibl yn gyfnewid am ffi'r drwydded.

Y flwyddyn hon, rydym wedi lleihau ein cyfradd gorbenion i fod o fewn 5% o'n cyfanswm costau. Rydym wedi cyflawni gostyngiad net o 409 o rolau gwasanaeth cyhoeddus, yn ychwanegol at y gostyngiad o dros 1,200 o rolau a gyhoeddwyd gennym y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd wedi cyflawni dros £274 miliwn o arbedion yn ystod y flwyddyn (tudalen 57). Maes o law, byddwn yn cyflwyno cynlluniau pellach i leihau costau a symleiddio'r BBC.

Mae sefydliad modern hefyd yn sefydliad sy'n ceisio arwain y ffordd ar gynaliadwyedd amgylcheddol, a'r flwyddyn hon, gwnaethom nodi ein llwybr tuag at gyrraedd Sero Net erbyn 2030. Mae ein targedau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth (tudalen 69) yn ein hymrwymo i leihau ein hallyriadau cwmpas 1 a 2 46% yn ystod y cyfnod amser hwnnw, ac i leihau ein hallyriadau cwmpas 3 28%.

Mae llawer o waith i'w wneud yn y maes hwn, ond rwy'n falch bod y BBC hefyd wedi dod yn un o 12 darlledwr a ffrydiwr a ymrwymodd i Addewid Cynnwys Hinsawdd newydd y flwyddyn hon. Gyda'i gilydd, mae'r llofnodwyr yn cynrychioli dros 70% o'r amser y mae cynulleidfaoedd y DU yn ei dreulio yn gwyltio teledu a ffilm, ac rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio ein holl gynnwys – nid dim ond ein hallbwn arbenigol – i ymgysylltu â chynulleidfaoedd a'u hysbysu am y mater hollbwysig hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod cyfle clir i'r BBC yn y farchnad cyfryngau byd-eang hynod

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod cyfle clir i'r BBC yn y farchnad cyfryngau byd-eang hynod gystadleuol sydd ohoni. Mae'n gyfle i sicrhau rhywbeth pwysig i'r DU: cynnwys a gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf mewn oes gwbl ddigidol, ar gael i bawb am ddim, er budd i bawb.

£112^m

o'r gyllideb comisysnu fideo a sain ar gyfer cynnwys amrywiol a chynhwysol.

1,000

o brentisiaethau erbyn 2025, 80% y tu allan i Lundain.

gystadleuol sydd ohoni. Mae'n gyfle i sicrhau rhywbeth pwysig i'r DU: cynnwys a gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf mewn oes gwbl ddigidol, ar gael i bawb am ddim, er budd i bawb.

Y BBC yw hoff frand y DU o hyd ar gyfer y cyfryngau, ac fe'i defnyddir gan 90% o oedolion ar gyfartaledd bob wythnos. Ni yw hoff ddewis cynulleidfaoedd y DU o bell ffordd am newyddion diduedd. Ni yw'r darlledwr rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd, ac rydym yn cyrraedd bron i hanner biliwn o bobl bob wythnos ledled y byd.

Rydym yn parhau'n gonglfaen i'r diwydiannau creadigol ledled y DU. Mae pob £1 o weithgarwch economaidd y BBC yn creu cyfanswm o £2.63 i'r economi ehangach. Rydym yn cefnogi dros 53,000 o swyddi ac mae eu hanner y tu allan i Lundain. Mae ein buddsoddiad yn y sector creadigol yn cefnogi 14,000 o sefydliadau ledled y DU, y mae dros 8,000 ohonynt yn fusnesau bach a chanolig.

Mae llawer mwy y mae'n rhaid i ni ei wneud i drawsnewid y BBC yn sefydliad digidol yn gyntaf gwirioneddol fodern, ond mae'r adroddiad hwn yn dangos bod gennym gynllun clir ar waith a'n bod yn llwyddo i gyflawni yn erbyn y cynllun hwnnw. Rydym yn awyddus i ddatblygu'r BBC i fod yn sefydliad cyfryngau digidol byd-eang blaenllaw, a all ddarparu buddiannau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i'r DU ymhell i mewn i'n hail ganrif.

Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol
23 Mehefin 2022



Tudalen gyferbyn:

Drama BBC *Three In My Skin* a enillodd wobr BAFTA / *podlediadau'r BBC / MasterChef / The Weakest Link*

Uchod:

Ffilmio *Gentleman Jack* ar BBC One

Cyflawni ein dibenion cyhoeddus

Caiff dibenion cyhoeddus y BBC eu cynnwys yn y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb. Maent wrth wraidd popeth a wnawn.

Cenhadaeth y BBC, fel y'i nodir yn ein Siarter Frenhinol, yw "gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau sy'n ddiudedd, o ansawdd uchel ac yn nodedig sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu." Mae pum diben cyhoeddus y BBC hefyd wedi'u cynnwys yn ein Siarter Frenhinol. Mae'r rhain yn amlinellu ein gwerthoedd wrth geisio cyflawni ein cenhadaeth ac maent yn rhoi fframwaith clir ar gyfer ein dwyn i gyfrif.

Dros y tudalennau nesaf, rydym yn nodi ein perfformiad wrth gyflawni yn erbyn ein dibenion, a gellir dod o hyd i adroddiadau manylach ar ein hymrwymadau a'n cwotâu rheoleiddiol ar dudalen 137 a thudalen 168.

Yn 2021/22, ar gyfartaledd, defnyddiodd 90% o oedolion y BBC bob wythnos yn gyffredinol ac 81% o oedolion ifanc – mwy nag unrhyw frand arall ar gyfer y cyfryngau. Ymhlith pobl ifanc o dan 16 oed – â chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 73% – y BBC oedd yr unig ddarparwr yn y DU a ddefnyddiwyd gan y rhan fwyaf o'r grŵp oedran hwn bob wythnos.

Bob blwyddyn, mae Ipsos MORI yn cynnal arolwg o aelodau o'r cyhoedd yn y DU er mwyn canfod a ydynt o'r farn ein bod yn cyflawni ein cenhadaeth a'n dibenion. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, cynhaliwyd arolwg y flwyddyn hon wyneb-yn-wyneb eto. Oherwydd y gwahaniaeth mewn dull, ni allwn gymharu'r canlyniadau ag arolwg 2020/21 (a gynhaliwyd dros y ffôn/ffôn symudol oherwydd y pandemig) ond gallwn gymharu'n ôl ag arolwg wyneb-yn-wyneb 2019/20.

Y flwyddyn hon, roedd 68% o oedolion yn y DU o'r farn bod y BBC yn effeithiol wrth gyflawni'r genhadaeth*, yn gymharol gyson â 70% yn 2019/20, er gwaethaf y newidiadau i'r cyfryngau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (dywedodd 14% ei fod yn aneffeithiol).

Ym mhob grŵp cynulleidfa, ni waeth beth fo'i oedran, rhywedd, gradd gymdeithasol, tarddiad ethnig neu ddaearyddiaeth, mae'r nifer mwyaf o bobl yn dal i deimlo ein bod wedi cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion. Mae'r sgoriau uchaf ar gyfer helpu pobl i ddeall beth sy'n mynd ymlaen yn y DU a'r byd, ac ar gyfer ansawdd cynnwys a gwasanaethau. Rydym yn anelu at wella'r sgoriau hyn, yn enwedig o ran canfyddiadau o ddiudeddrwydd, a'r gwahaniaethau rydym am eu lleihau, yn enwedig o ran pa mor dda rydym yn adlewyrchu gwahanol bobl a gwahanol rannau o'r DU.

Ein nod yw cynnig gwerth ardderchog i bawb. Mae ein cenhadaeth a'n dibenion cyhoeddus yn llywio ein gwaith ar bob cam ac, ar y tudalennau canlynol, rydym yn nodi'n fanwl yr hyn rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau'r gwerth hwnnw.

* Ipsos MORI, oedolion 16+ yn y DU, Chwefror-Ebrill 2022. Sgôr gyfartalog o ran hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU a nhw

69%


% yr oedolion yn y DU sy'n cytuno y byddai pobl yn y DU yn gweld eisiau'r BBC pe na fyddai yno (anghytuno: 20%).

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+


Y pum brand a ddefnyddiwyd fwyaf ar gyfer y cyfryngau yn 2021/22

Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog


Dan 16 oed




16-34 oed



35-54 oed



55+ oed



Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI yn seiliedig ar gyrrhaeddiad wythnosol cyfartalog cronedig o 15 munud, Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI

68%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth hysbysu, addysgu a diddanu fi/pobl yn y DU (aneffeithiol: 14%).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

67%

% yr oedolion yn y DU sy'n cytuno bod y BBC yn rhan hanfodol o ddiwylliant y DU (anghytuno: 21%).

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+




1 Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

→ **t.18** i weld mwy



2 Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu

→ **t.22** i weld mwy



3 Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

→ **t.26** i weld mwy



4 Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol

→ **t.34** i weld mwy



5 Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

→ **t.44** i weld mwy

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Dibenion cyhoeddus





Diben 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

Mae'r tudalennau hyn yn dangos y ffyrdd y cyflawnodd y BBC ei rwymedigaeth i ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Heddiw, mae'r BBC yn darparu lefel heb ei hail o newyddion a materion cyfoes lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU o hyd, ac mae gennym ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i drechu'r dwyllwbybodaeth sydd mor gyffredin erbyn hyn yn ein trafodaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae BBC News yn dal i fod ymhell ar y blaen i unrhyw ddarparwr newyddion arall pan ofynnir i gynulleidfaedd ddewis yr un ffynhonnell y maent fwyaf tebygol o droi ati i gael newyddion sy'n ddiuedd a chywir y gellir ymddiried ynddo.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd yr hyn a wnawn i sicrhau bod pawb yn cael newyddion a gwybodaeth y gallant ymddiried ynddynt dro ar ôl tro y flwyddyn hon, ac yn arbennig wrth i Rwsia ymosod ar Wcráin. Yn ystod wythnos gyntaf y rhyfel yn Wcráin, denodd allbwn newyddion ar-lein y BBC gynulleidfa amcangyfrifedig o dros 280 miliwn o bobl. Gwelwyd y defnydd uchaf erioed o wasanaethau'r BBC yn Wcráin a Rwsia, gyda'n llwyfannau iaith Wcreineg yn cyrraedd 6 miliwn o bobl a'n llwyfannau iaith Rwsieg yn cyrraedd 17 miliwn o bobl cyn i'r gwasanaethau gael eu hatal. Yn y cyfamser, ein bwletinau newyddion rhanbarthol ar BBC One yw'r rhaglenni newyddion teledu sy'n denu'r nifer mwyaf o wylwyr o hyd.

280^m

Yn ystod wythnos gyntaf y rhyfel yn Wcráin, denodd allbwn newyddion ar-lein y BBC gynulleidfa amcangyfrifedig o dros 280 miliwn o bobl.

Ffynhonnell Ipsos MORI/Compass; Piano Analytics/Social Media Analytics

Reeta Chakrabarti yn cyflwyno yn y stiwdio newyddion teledu yn y Ganolfan Ddarlledu Newydd

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Dibenion cyhoeddus

Diben 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch



Wcráin

Mewn adegau o argyfwng, mae pobl yn troi at y BBC yn eu miliynau i gael gwybodaeth gywir a diduedd – ac mae hyn yn wir o ran y rhyfel yn Wcráin.

Defnyddiodd y darllediadau o ymosodiadau Rwsia ar Wcráin ddyfnder ac ehangder arbenigedd y BBC – o'r newyddiaduron, y cynhyrchwyr a'r staff gweithrediadau a oedd yn creu adroddiadau pwerus ar lawr gwlad i dimau arbenigol fel BBC Reality Check a oedd wrthi'n ddiwyd yn ymchwilio i dwyllwbyodaeth ac yn canfod y ffeithiau.

Cyflwynodd Clive Myrie y bwletinâu newyddion bob nos o Kyiv, ar adegau o'r byncher lle roedd ef a thîm y BBC yn cysgodi.

Er gwaethaf cyfreithiau cosbol Rwsia mewn perthynas â'r cyfryngau, llwyddodd golygydd Rwsia, Steve Rosenberg, a gafodd ei ddyrchafu i'r swydd yn ddiweddar, a'i dîm i adrodd yr hanes o'r tu mewn i'r wlad honno.

Casglwyd yr arbenigedd hwn ynghyd ar dudalennau gwe byw y BBC, a ddaeth yn gyrchfan hanfodol i gannoedd o filiynau o bobl ledled y byd, yn ogystal ag ar bodlediad newydd, *UkraineCast*, a lanswyd ar ddiwrnod cyntaf yr ymosodiadau.

8/10 ^{20/21} 8/10

Cyrhaeddiad Newyddion y BBC

Nifer yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

63%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes y gellir ymddiried ynddynt (aneffeithiol: 20%).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

63%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes sy'n gywir (aneffeithiol 18%).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

51%

% yr oedolion yn y DU sy'n credu bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes sy'n ddiuedd (aneffeithiol 25%).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

83%

% yr oedolion sy'n cefnogi cenhadaeth y BBC i addysgu (anghytuno 5%).

Ffynhonnell ICM Unlimited 18+



Newyddion teledu rhanbarthol yn Lloegr

Bwletinâu newyddion Lloegr am 6:30pm ar BBC One yw'r rhaglenni newyddion teledu sy'n denu'r nifer mwyaf o wylwyr o hyd. Mae'r 15 o fwletinâu lleol yn darlledu'r straeon newyddion sydd bwysicaf i'n cynulleidfaoedd. Bu'n flwyddyn nodedig o ystyried statws Cofentri fel y Ddinas Diwylliant, y ffaith ein bod yn cefnogi cynulleidfaoedd drwy agenda newyddion anodd â COVID-19 yn bresennol o hyd, effaith y rhyfel yn Wcráin ar ble rydym yn byw a'r argyfwng costau byw. Mae'r slot 6:30pm yn denu cyfanswm o 3.7 miliwn o wylwyr ar gyfartaledd.



Trechu Twyllwbyodaeth

Ar adeg o gynnwrf rhyngwladol, mae twyllwbyodaeth yn ffynnu, gan olygu bod newyddion y gellir ymddiried ynddo yn fwy hanfodol nag erioed. Drwy gydol y pandemig, bu gohebydd twyllwbyodaeth a chyfryngau cymdeithasol arbenigol y BBC, Marianna Spring, yn gohebu'n ddiflino ar y wybodaeth gamarweiniol am COVID-19 a'r mudiad 'gwrthfrechu'. Ynghyd â thîm ehangach o arbenigwyr twyllwbyodaeth, bu'n gwrthbrofi damcaniaethau cynllwyn, yn amlgu newyddion ffug ac yn siarad â'r bobl yr effeithiwyd arnynt, yn fwyaf amlwg ar ei chyfres radio a phodlediad *Death by Conspiracy?* Yn ddiweddar, bu'n canolbwyntio ar y rhyfel wybodaeth dros Wcráin, gan gyflwyno'r podlediad *War on Truth*.

O'r uchaf i'r isaf

Cyfweliad y cyn olygydd gwleidyddol Laura Kuenssberg â Dominic Cummings a enillodd wobwr RTS /UkraineCast / Chris Mason / The Cost of Covid-19





Ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU o hyd, ac mae gennym ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i drechu'r dwyllwbyodaeth sydd mor gyffredin erbyn hyn yn ein trafodaethau cenedlaethol.



Cost COVID-19

Ochr yn ochr â dadansoddiadau arbenigol parhaus o COVID-19 gan ohebwyer iechyd a gwyddoniaeth, aed ati i ystyried costau dynol yr argyfwng mewn ffordd dosturiol.

Am flwyddyn, treuliodd tîm y BBC amser ag arweinwyr ffydd yn un o rannau mwyaf difreintiedig Burnley. Ymchwiliodd The Cost of Covid i'r anghydraddoldebau syfrdanol a ddaeth i'r amlwg yn sgil y pandemig, a chyflwynwyd adroddiadau estynedig ar News at Ten ac ar draws y BBC.

Llwyddodd y gyfres i ddenu rhoddion digymell o bron i filiwn o bunnoedd i'r gymuned gan y gynulleidfa. Enillodd wobwr RTS a gwobr Ymddiriedolwyr Sandford St Martin.



COP26


Dyluniwyd rhaglen moderneiddio newyddion y BBC i leihau achosion o ddyblygu ac i gael cymaint o effaith â phosibl ar gynulleidfaeodd.

Roedd darllediadau'r BBC o Gynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig – COP26 – yn esiampl o'n ffordd newydd o weithio. Cydweithiodd timau teledu a thimau digidol â'r tîm Hinsawdd a Gwyddoniaeth newydd ar ddarllediadau byw o'r digwyddiad, a llwyddodd y tudalennau byw digidol i ddenu 15 miliwn o ymweliadau. Gwnaethom gynnig hysbysiadau wedi'u teilwra drwy ap newyddion y DU.

Denwyd cyfanswm o 16 miliwn o ymwelwyr unigryw i'n heitemau COP, gan ddarllen nifer uwch na'r cyffredin o straeon.


O blith yr holl ffynonellau newyddion (teledu, radio, papurau newydd, cylchgronau, gwefannau, apiau neu'r cyfryngau cymdeithasol) pa ffynhonnell rydych fwyaf tebygol o'i defnyddio...

...ar gyfer newyddion rydych yn ymddiried ynddo fwyaf



● BBC	48%	● Arall	24%
● Sky News	8%	● Dim un	6%
● ITV News	6%	● Wn i ddim	3%
● Guardian	5%		

...i gael darllediadau newyddion diduedd



● BBC	39%	● Arall	25%
● Sky News	9%	● Dim un	8%
● ITV News	7%	● Wn i ddim	8%
● C4 News	4%		

...i gael darllediadau newyddion cywir




● BBC	49%	● Arall	22%
● Sky News	8%	● Dim un	6%
● ITV News	6%	● Wn i ddim	4%
● Guardian	5%		

Ffynhonnell Ipsos MORI, 928 o oedolion 18+ sy'n dilyn y newyddion, Mawrth 2022


Y tair ffynhonnell newyddion fwyaf dibynadwy wedi'u sgorio gan eu defnyddwyr

I ba raddau rydych yn ymddiried yn fel ffynhonnell newyddion? (Graddfa 1 = ddim yn ymddiried ynddi o gwbl; 10 = yn ymddiried ynddi'n fawr) Sgôr nifer y defnyddwyr 6+/10 (miliynau)



Y tair ffynhonnell newyddion fwyaf diduedd wedi'u sgorio gan eu defnyddwyr

Yn eich barn chi, pa mor unochrog neu ddiuedd yw'r ffynhonnell newyddion hon? (Graddfa 1 = unochrog iawn; 10 = diduedd iawn) Sgôr nifer y defnyddwyr 6+/10 (miliynau)



Ffynhonnell Ipsos MORI, defnyddwyr fesul darparwr o sampl cynrychioliadol cenedlaethol o 993 o oedolion 18+ oed yn y DU, Mawrth 2022 Sgôr % 6+/10 a gafodd ei thrawsnewid i'r ffigur poblogaeth cyfatebol Ffigurau poblogaeth gan ONS Cyfrifiadau'r BBC

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Dibenion cyhoeddus



Diben 2: Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos ehangder y cynnwys y mae'r BBC yn ei ddarparu i gynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu.

Mae addysg wedi bod yn rhan o DNA y BBC erioed. Y flwyddyn hon, mae ein cenhadaeth addysg a dysgu wedi parhau i gefnogi myfyrwyr, athrawon a rhieni sy'n dal i wynebu heriau addysgol eithriadol pandemig COVID-19.

Y flwyddyn hon, defnyddiodd 64% o ddisgyblion ysgol gynradd wasanaeth addysgol BBC Bitesize, ynghyd â 75% o ddisgyblion ysgol uwchradd. Dywed 82% o blant dan 16 oed sy'n defnyddio Bitesize ei fod yn eu helpu i ddeall eu hastudiaethau'n well, a dywed 65% o ddefnyddwyr ysgol uwchradd ei fod yn eu helpu i ennill graddau gwell. Yn dilyn menter "Lockdown Learning" y flwyddyn ddiwethaf, cynhyrchodd BBC Education fwy na 80 o oriau o gynnwys Bitesize Daily i'w darlledu ar CBBC yn ystod tymor haf 2021, a 2021/22 hefyd oedd blwyddyn gyntaf cynllun tair blynedd sydd â'r nod o gynyddu cyfraniad Bitesize at ddeilliannau dysgwyr 5-16 oed.

Mae arlwy addysg a dysgu'r BBC yn parhau i gyrraedd ymhell y tu hwnt i Bitesize a'n ffocws ar y rheini yn yr ysgol. Ein nod yw helpu pobl, ni waeth eu hoedran, i gyflawni eu potensial llawn drwy gynnwys a gwasanaethau addysgol, a chyfleoedd i gymryd rhan, a roddir iddynt gan y BBC, partneriaid a'i gilydd.

Rhif 1

Mae'r cyhoedd yn y DU yn treulio mwy o amser yn gwyllo rhaglennu ffeithiol gan y BBC nag unrhyw ddarparwr arall.

Ffynhonnell BARB

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Dibenion cyhoeddus

Diben 2: Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu



Dodger

Antur gomedi sy'n dilyn hynt cryts ifanc afreolus ar hyd strydoedd Llundain yn Oes Fictoria yw *Dodger*, lle mae'r awduron Rhys Thomas a Lucy Montgomery yn rhoi bywyd newydd i lond llaw o gymeriadau Oliver Twist ochr yn ochr â'u cymeriadau eu hunain. Cafodd y rhaglen ei darlledu am y tro cyntaf ar CBBC a BBC iPlayer, a'i darlledu wedyn ar BBC One. Ar y cyd â BBC Education, crëwyd hefyd ffilmiau ar gyfer BBC Teach a Live Lessons ar blant a gwaith yn Oes Fictoria. Ffilmwyd *Dodger* mewn lleoliadau trawiadol ledled gogledd-orllewin Lloegr, gyda chast yn cynnwys Christopher Eccleston, David Threlfall, Alex Kingston a Danny John Jules.



Newsround

Wrth i'r BBC ddatlu can mlynedd, rydym hefyd yn datlu 50 mlynedd ers creu *Newsround*. Efallai na fu gwerth *Newsround* erioed yn gliriach, gyda'r cynulleidfaoedd mwyaf erioed yn troi at y rhaglen am wybodaeth yn ystod y pandemig, a nawr yn ystod y rhyfel yn Wcráin. Mae *Newsround* yn cyflwyno gwybodaeth ddiduedd sy'n addas i blant ac y gellir ymddiried ynddi am ddigwyddiadau cyfoes drwy fwletinau ar-lein, gwefan *Newsround*, sianel CBBC, a'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd mwy na 72% o'r athrawon ysgol gynradd a arolygwyd eu bod yn dangos *Newsround* yn y dosbarth o leiaf unwaith yr wythnos. (Ffynhonnell: Teacher Tracker)



Tiny Happy People

Mae addysg wrth wraidd allbwn gwasanaeth cyhoeddus y BBC, gan ein galluogi i gefnogi plant a rheini ledled y DU. Mae Tiny Happy People yn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg caffael iaith sy'n golygu bod plant yn ardaloedd tlotaf y DU ar ei hôl hi o'u diwrnod cyntaf yn yr ysgol. Mae hyn yn rhan o Nodau Ffyniant Bro y BBC i helpu i sicrhau mwy o gyfle cyfartal ledled y DU. Mae'r BBC yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a llywodraethau cenedlaethol i osod Tiny Happy People wrth wraidd ymdrechion lleol, gyda gweithwyr gofal plant proffesiynol yn defnyddio adnoddau'r BBC, a chefnogaeth gan sefydliadau fel Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, sy'n argymhell ein gwaith i aelodau a rhieni ledled y DU.



Bitesize Careers

Mae BBC Bitesize Careers yn darparu mwy na 300 o broffiliau swydd o ansawdd uchel gan gyfranwyr o feysydd fel creffttau, adeiladu, peirianeg a theledu, ochr yn ochr â chyflogau, sgiliau a llwybrau gyrfa cyfredol gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol. Y wefan hon oedd enillydd gwobr y Wefan Cyngor Cyflogaeth Orau yng Ngwobrau NORA yn 2021, ac yn ystod 2022/23 caiff proffiliau eu hehangu mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored a chyflwynir cyfres newydd o 'Baneli Gyrfaoedd' yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ar gam cynnar yn eu gyrfa o gyflogwyr proffil uchel ar draws amrywiaeth o sectorau fel gofal iechyd a chwaraeon, yn cynnwys AstraZeneca, Electronic Arts, Clwb Pêl-droed Aston Villa a'r BBC ei hun!

BITESIZE

64% ^{20/21} 67%

Disgyblion cynradd
% y disgyblion ysgol gynradd sy'n defnyddio Bitesize.

Ffynhonnell DJS

75% ^{20/21} 77%

Disgyblion uwchradd
% y disgyblion ysgol uwchradd sy'n defnyddio Bitesize.

Ffynhonnell DJS

82% ^{20/21} 80%

% y defnyddwyr dan 16 oed sy'n dweud bod Bitesize yn eu helpu i ddeall eu hastudiaethau/dysgu yn well.

Source DJS

65% ^{20/21} 57%

% y defnyddwyr ysgol uwchradd sy'n dweud bod Bitesize yn eu helpu i ennill graddau gwell.

Ffynhonnell DJS

1.8m ^{20/21} 2.7m

Porwyr unigryw
Nifer y porwyr unigryw yn y DU ar gyfartaledd sy'n defnyddio Bitesize bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell AT Internet



O'r uchaf i'r isaf
Newsround ar CBBC /
Digwyddiad Holi ac Ateb
Gohebydd Ifanc y BBC



O'r uchaf i'r isaf
*Llysgennad Tiny Happy People
 Dani Dyer / Biff & Chip ar
 CBeebies / Cyflwynydd Radio 1
 Greg James yn siarad yn ystod
 taith ysgolion Share Your Story*



Gohebydd Ifanc y BBC
 Mae Gohebydd Ifanc y BBC yn parhau i helpu pobl ifanc i ymgysylltu â'r cyfryngau a'u deall, ac yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc 11-18 oed adrodd eu straeon eu hunain. Mae'r bartneriaeth hon rhwng BBC News, BBC Academy a BBC Education yn gweithio gydag ysgolion, colegau a grwpiau ieuentid ledled y DU, gan gynnwys gwirfoddolwyr y BBC i rannu sgiliau ym maes llythrennedd newyddion, creu cynnwys, a rhoi gwybodaeth a chynghor ar yrfaeoddd ym maes darlledu.

I nodi canmlwyddiant y BBC, bydd taith ysgolion Share Your Story a Chystadleuaeth Gohebydd Ifanc y BBC yn nodi 100 o straeon i'w darlledu ar draws rhaglenni a llwyfannau'r BBC yn 2022.

→ t.170

Ar gyfer y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol ar Ddiben Cyhoeddus 2

Rydym wedi parhau i gefnogi myfyrwyr, athrawon a rhieni sy'n dal i wynebu heriau addysgol eithriadol pandemig COVID-19.

04:33 ^{20/21} 05:00

Amser a gaiff ei dreulio gyda'r BBC cyfan gan y rhai dan 16 oed
 Y cyfnod o amser y mae'r rhai dan 16 oed yn ei dreulio gyda'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau:munudau).

Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI

73% ^{20/21} 77%

Cyrhaeddiad ar draws y BBC ar gyfer y rhai dan 16 oed
 % y rhai dan 16 oed sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight by Ipsos MORI

60%

% y rhieni sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran helpu plant a phobl ifanc yn eu harddegau i ddysgu (mae 17% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

61%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddysgu pethau newydd (mae 18% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

62%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran archwilio pynciau y byddent yn gwybod llai amdanynt fel arall (mae 17% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Dibenion cyhoeddus





Diben 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

Mae'r tudalennau hyn yn rhoi enghreifftiau o'r amrywiaeth o gynnwys creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau a gynhyrchwyd ar draws y BBC y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r BBC yma i greu rhaglenni a gwasanaethau gwych. Dyna pam mae cynulleidfaoedd yn troi atom ac yn ein gwerthfawrogi. Mae'r hyn rydym wedi'i gynhyrchu y flwyddyn hon – ar draws cynnwys ffeithiol, y celfyddydau, drama, adloniant, comedi, chwaraeon a cherddoriaeth - unwaith eto yn dangos ein hymrwymiad i gynnig gwerth gwych i bawb drwy gynnal y safonau cynhyrchu a golygyddol uchaf ar draws yr amrywiaeth ehangaf o allbwn.

BBC sy'n diddanu yw prif flaenoriaeth y cyhoedd yn gyfnewid am ffi'r drwydded. Rydym wedi cyflawni ein cenhadaeth ar draws pob genre y flwyddyn hon, gan ddenu cynulleidfaoedd enfawr i raglenni fel *The Tourist*, *Vigil*, *Peaky Blinders* a *The Apprentice*, ennill clod mawr am raglenni fel *The Green Planet*, *Uprising*, *UkraineCast*, a *The House of Maxwell*, ac ennill naw gwobr BAFTA am raglenni fel *Time*, *Motherland*, *In My Skin*, yn ogystal â dawns fythgofiadwy Rose a Giovanni ar *Strictly*.

Rydym yn parhau i sicrhau bod creadigrwydd Prydeinig, ansawdd a chymryd risgiau wrth wraidd y BBC. Dyma sy'n helpu i'n gosod ar wahân ym maes y cyfryngau: allbwn o ansawdd uchel ar deledu a radio sy'n unigryw am ei natur nodedig a'i ffocws ar gynnwys Prydeinig o bob cwr o'r DU.

83%

% yr oedolion yn y DU sy'n cefnogi cenhadaeth y BBC i diddanu (5% yn anghytuno).

Ffynhonnell ICM Unlimited 18+

The Green Planet ar BBC One wedi'i chyflwyno gan Syr David Attenborough

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Dibenion cyhoeddus

Diben 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau



The Green Planet

Defnyddiodd *The Green Planet*, a gyflwynwyd gan Syr David Attenborough ac a gynhyrchwyd gan Uned Hanes Naturiol BBC Studios, dechnoleg gwneud ffilmiau newydd arloesol a'r wyddoniaeth ddiweddaraf i gyflwyno'r byd planhigion rhyfedd a rhyfeddol mewn ffordd nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Dyma'r gyfres ffeithiol a wylwyd fwyaf y flwyddyn hon hyd yma, gyda'r bennod gyntaf yn denu 8.7 miliwn o wylwyr yn ystod y 30 diwrnod cyntaf. Cafodd y gyfres glod mawr gan y beirniaid, a'i galw'n 'glorious visual spectacle' gan The Guardian ac yn 'miracle of film-making' gan The i.



Uprising

Mae *Uprising*, gan yr enillydd Gwobr Academy Steve McQueen, yn gyfres deiran nwyfus a dwys sy'n archwilio digwyddiadau allweddol yn 1981 a'u heffaith ar gysylltiadau hil ym Mhrydain. Cafodd ei galw'n 'fierce, urgent and eloquent document of racial history' yn y Daily Telegraph ac yn 'brilliant and furious and human' yn The Guardian. Enillodd *Uprising* wobwr Rhaglenni'r RTS am y Rhaglen Hanes Orau a BAFTA am y Gyfres Ffeithiol Orau.



Digwyddiadau chwaraeon mawr yn dychwelyd

Cafodd digwyddiadau chwaraeon mawr eu darlledu unwaith eto yn 2021. Roedd Gemau Terfynol hirdisgwyliedig Ewro 2020 yn cynnwys tair o bedair gwlad y Deyrnas Unedig; Cymru, Lloegr a'r Alban, ac

ar ôl 12 mis o oedi, roedd cryn gyffro a disgwyliadau. Darparodd y BBC ddarllediadau helaeth ar y teledu, y radio ac ar-lein, gan dorri'r record ffrydio byw a denu'r gynulleidfa deledu fwyaf, sef 25 miliwn, wrth i dîm Lloegr Gareth Southgate wynebu mwy o dorcalon wrth gicio o'r smoty.



Proms y BBC

Yn 2021, dathlodd *Proms* y BBC ddychweliad cerddoriaeth fyw ar raddfa nas gwelwyd ei thebyg ers cyn y pandemig, gyda 61 o gyngherddau dros 44 diwrnod, a pherfformiadau gan fwy na 2,000 o gerddorion. Llwyddodd y *Proms* i oresgyn rhwystrau'r pandemig a chynhaliwyd pob cyngerdd a gynlluniwyd yn ôl y bwriad o flaen cynulleidfaoedd byw – ac fel bob amser, cafodd pob nodyn ei ddarlledu ar BBC Radio 3 a BBC Sounds a gwyliodd mwy na 9.7 miliwn o bobl *Proms* 2022 ar Deledu'r BBC a BBC iPlayer. Roedd cerddorfeidd ac artistiaid o Brydain wrth wradded yr ŵyl, gan arddangos yr amrywiaeth o dalent sy'n bodoli yn y DU. Ymhlith y 50 o artistiaid a berfformiodd am y tro cyntaf yn y *Proms* roedd cerddorfa newydd sbon, sef Cerddorfa Gŵyl y *Proms*, a oedd yn cynnwys cerddorion llawrydd yn bennaf, gan dynnu sylw at yr anawsterau a wynebwyd yn y sector yn sgil y pandemig.



High: Confessions of a Drug Mule

Adroddodd *High: Confessions of a Drug Mule*, a gyfarwyddwyd gan y cyfarwyddwr clodwiw Stuart Bernard, stori Michaela McCollum a'i hymgais aflwyddiannus i smyglo gwerth £1.5 miliwn o gocên drwy faes awyr Lima. Denodd y gyfres pum rhan 2.6 miliwn o wylwyr ar gyfartaledd, gyda 58% o'r

90%
20/21
90%

Cyrhaeddiad ar draws y BBC
% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

17:30
20/21
18:02

Amser a gaiff ei dreulio gyda'r BBC cyfan
Y cyfnod o amser y mae oedolion y DU yn ei dreulio gyda'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (orïau:munudau).

Ffynhonnell Amcangyfrif ar sail data BARB, BARB Establishment Survey, AT Internet, RAJAR, SYG 16++

67%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd (mae 14% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

O'r uchaf i'r isaf

Vigil ar BBC One / *Proms* y BBC / *Uprising* ar BBC One a enillodd wobwr BAFTA





gynulleidfa honno'n gwlyio drwy BBC iPlayer, gan olygu mai hon oedd y gyfres ffeithiol fwyaf poblogaidd ar BBC Three yn 2021/22.

Llwyddodd hefyd i ddenu cynulleidfa oedd newydd ac anaml i iPlayer: yn ystod yr wythnos y cafodd ei rhyddhau, cafodd mwy na 12,000 o bobl eu denu i BBC iPlayer am y tro cyntaf mewn cyfnod o 13 wythnos o leiaf.



Vigil

Cafodd cynulleidfa oedd yn y DU eu cyfareddu gan *Vigil*, a gafodd ei chynhyrchu a'i lleoli yn yr Alban, wrth i DCI Amy Silva, wedi'i chwarae gan Suranne Jones, lanio mewn hofrennydd ar long niwclear danfor HMS Vigil i ymchwilio i farwolaeth anesboniadwy ymhlith ei chriw. Y gyfres chwe rhan hon ar gyfer BBC One ac iPlayer oedd y ddrama deledu newydd a wylwyd fwyaf yn y DU ers tair blynedd, gan ddenu cynulleidfa o fwy na 13 miliwn o wylwyr, a chyfartaledd o 12.6 miliwn o wylwyr ar gyfer y gyfres gyfan (ffigurau cyfunol 30 diwrnod). Mae ail gyfres wedi cael ei chadarnhau.



Talent newydd ar BBC Radio 1

Mae Radio 1 wedi parhau i gefnogi a datblygu talent newydd ar ei sianelau, Mae chwe chyflwynydd addawol newydd wedi sicrhau eu rhaglenni eu hunain ar y rhwydwaith ar ôl cymryd rhan yn *Christmas Takeover* Radio 1, lle rhoddir cyfle amhrisiadwy i gyflwynwyr newydd ddarlledu ar orsaf radio ieuencid fwyaf y DU dros gyfnod y Nadolig. Ymunodd Sian

O'r uchaf i'r isaf

Gêm derfynol Ewro 2020 / High: Confessions of a Drug Mule ar BBC Three / Vigil ar BBC One / Cyflwynwydd BBC Radio 1 Victoria Jane / Ffilmio The Green Planet ar BBC One



Rydym yn parhau i sicrhau bod creadigrwydd Prydeinig, ansawdd a chymryd risgiau wrth wraidd y BBC: rhaglenni teledu a radio sy'n unigryw o ran eu natur nodedig a'u ffocws ar gynnwys Prydeinig o bob cwr o'r DU



61%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran creadigrwydd (mae 17% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

61%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n nodedig (mae 15% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

70%

Gwnaeth tua 70% o boblogaeth 16 oed a throsodd y DU fwynhau o leiaf 15 munud o gynnwys radio neu deledu'r BBC y tu hwnt i fwletinau Newyddion yn adlewyrchu themâu amgylcheddol

Ffynhonnell Compass 16+



Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Dibenion cyhoeddus

Diben 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

Eleri, Dean McCullough, Sarah Story a Victoria Jane yn barhaol â Radio 1 yn 2021, ac ym mis Medi 2022, bydd Alyx Holcombe a Charlie Tee hefyd yn ymuno â'r orsaf.



Survivors: Portraits of the Holocaust

Dilynodd y ffilm hynod o deimladwy hon ar BBC Two, a gomisiynwyd gan BBC Arts ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust, saith arlunydd a gomisiynwyd gan Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru i baentio portread o saith o oroeswyr yr Holocaust, i'w cynnwys yn y Casgliad Brenhinol. Dangosodd y ffilm hon y gydberthynas hyfryd a ddatblygodd rhwng yr artistiaid a'r eisteddwyr, a chafodd straeon rhyfeddol y goroeswyr eu hategu gan y gelfyddyd gymaint ag y cafodd y gelfyddyd ei hategu gan eu straeon.



Gwasanaeth cyfoethocach i gefnogwyr y bêl gron

Lansiodd BBC Sport arlwy gwell ar gyfer timau'r Uwch-gynghrair ar y wefan a'r ap, gan gynnig mwy o newyddion a gwybodaeth i gynulleidfaoedd am eu hoff glwb o bob rhan o'r BBC. Bellach, gall defnyddwyr fwynhau'r cynnwys gorau o ran chwaraeon rhwydwaith a radio lleol mewn un lle. Ers ei lansio, mae defnyddwyr yn treulio dwywaith yn fwy o amser ar y tudalennau yn ystod y tymor pêl-droed, ac erbyn hyn, mae mwy na miliwn o ddefnyddwyr yn ymweld â'r tudalennau bob wythnos.



O'r uchaf i'r isaf
Things Fell Apart ar BBC Radio 4 / *Fieri Consort* yn perfformio gwaith *Maddalena Casulana* ar gyfer BBC Radio 3 / *Rose Ayling-Ellis* a *Giovanni Pernice* yn perfformio eu teyrnged i'r gymuned fyddar, ac *"Eiliad Teledu'r Flwyddyn"* ar *Strictly Come Dancing*



Alma's Not Normal

Sefydlwyd Bwrsari Caroline Aherne yn 2017 gyda'r nod o ganfod, datblygu a chefnogi talent gomedï newydd, ac enillydd y wobr gyntaf oedd Sophie Willan, a aeth ymlaen i ddatblygu sgript ar gyfer comedi hynod bersonol, *Alma's Not Normal*, sy'n dilyn hynt y ferch wyllt o Bolton (wedi'i chwarae gan Sophie) a'i theulu o fenywod eccentrig afreolus.

Comisiynwyd pennod beilot o dan llyn New on Two ar gyfer BBC Two, ynghyd â chyfres lawn wedi hynny ym mis Medi 2021, a gafodd glod mawr. Enillodd Sophie wobr BAFTA yn 2022 am y Perfformiad Gorau gan Ferch mewn Rhaglen Gomedï.



Big Bee Challenge ar BBC Radio 2

Cododd Big Bee Challenge Radio 2 ymwybyddiaeth o helyntion gwenwyn drwy gystadlueth i blant 6-12 oed i ddylunio gardd sy'n denu gwenyn. Cafodd y dyluniad buddugol ei adeiladu ar un o safleoedd y GIG i bobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl. Anogodd y Big Bee Challenge Weekend wrandawyr i wneud un peth i helpu gwenwyn, a rhoddodd podlediad ar BBC Sounds, *Bees In A Pod*, wedi'i gyflwyno gan Rob Becket, wybodaeth ddiddorol am wenyn a sut y gallwn eu helpu. Aeth y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol ati i ymgysylltu ag ysgolion, ac ymunodd sefydliadau cenedlaethol eraill a rhaglenni ar draws y BBC yn y gwaith hwnnw.



Cyfansoddwyr Coll ar BBC Radio 3

Mae BBC Radio 3 yn ehangu'r arlwy o gerddoriaeth glasurol draddodiadol ac yn cyflwyno gwrandawyr i weithiau gan gyfansoddwyr sydd wedi cael eu hanwybyddu yn y gorffennol. Yn ogystal â'r prosiect parhaus ar y cyd â Chyngor Ymchwil i Celfyddydau a'r Dyniaethau, lle mae'r orsaf yn cefnogi ymchwil academiaidd i gyfansoddwyr hanesyddol o gefndiroedd ethnig amrywiol sydd wedi mynd yn angof, nododd Radio 3 Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod 2022 drwy ddarlledu llyfr cyntaf o fadrigalau pum llais y gyfansoddwraig o gyfnod y Dadeni Maddalena Casulana, a gyhoeddwyd yn 1583, ynghyd â'r rhan Alto a ganfuwyd yn ddiweddar, wedi'i berfformio am y tro cyntaf mewn 400 mlynedd gan ensemble lleisiol Fieri Consort.





O'r uchaf i'r isaf

Survivors: Portraits of the Holocaust ar BBC Two / *Big Bee Challenge* ar BBC Radio 2 / *Alma s Not Normal* ar BBC Two a enillodd wobwr BAFTA

→ t.171

Am restr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 3



Things Fell Apart

Roedd *Things Fell Apart* ar Radio 4 yn gyfres a phodlediadau unigryw gan yr awdur rhyngwladol llwyddiannus a phodlediwr Jon Ronson. Roedd yn adrodd wyth stori annisgwyl a hynod bersonol o hanes y 'rhyfeloedd diwylliannol', fel y'u gelwid. Yn ogystal â chael clod mawr yn gyffredinol, roedd yn un o'r podlediadau mwyaf poblogaidd ar BBC Sounds ymhlith gwrandawyr o bob oed. Roedd pob pennod yn afaelgar, ac yn tynnu sylw at ddigwyddiadau mwyaf cythryblus ein hanes diweddar.



Strictly Come Dancing

Parhaodd *Strictly* i ddiddanu'r genedl yn 2021. Un o berfformiadau mwyaf cofiadwy'r gyfres oedd y ddawns gan Rose Ayling-Ellis, cystadleuydd byddar cyntaf erioed y rhaglen, a aeth ymlaen i gipio Glitterball 2021. Chwalodd Rose bob ystrydeb i brofi nad oes rhaid i fyddardod fod yn rhwystr. Roedd y deg eiliad drydanol yng nghanol y perfformiad pan orchuddiodd glustiau Giovanni a dawnsio heb gerddoriaeth – wrth i ddeg miliwn o bobl brofi'r byd drwy lygaid a chlustiau Rose - yn deyrnged gyfareddol ac eithriadol i'r gymuned fyddar. Aeth Rose a Giovanni ymlaen i ennill gwobr BAFTA yn 2022 am Eiliad Teledu'r Flwyddyn, sef gwobr sy'n seiliedig ar bleidlais gyhoeddus.

Rhaglennu cynaliadwy

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, llwyddodd y BBC i ddenu cynulleidfaoedd mwy i'w raglenni â themâu amgylcheddol. Gwnaeth tua 70% o boblogaeth 16 oed a throsodd y DU fwynhau o leiaf 15 munud o gynnwys radio neu deledu y tu hwnt i fwletinâu Newyddion yn adlewyrchu'r pwnc.

Ffactor allweddol yn hyn o beth oedd yr amrywiaeth eang o raglenni a roddodd sylw i Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, COP26, a gynhaliwyd yn Glasgow ym mis Tachwedd. Roedd cynnwys i bob cynulleidfa; o gartref dros dro *The One Show*'s yn Glasgow (lle cafodd y set ei wneud yn gyfan gwbl o ddeunyddiau wedi'u hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu benthyg) i waith tîm radio lleol, Radio 1, y World Service a Gohebwyr Ifanc ar gyfer *Climate Voices* i adlewyrchu gobeithion ac ofnau pobl ifanc. Rhwng mis Gorffennaf a chanol mis Tachwedd, cynyddodd gwybodaeth honedig am COP26 yn aruthrol o 20% i fwy na 80%.

Yn sgil COP26 hefyd, gwelwyd y BBC, ynghyd ag 11 o ddarlledwyr a ffrydwy'r eraill, yn llofnodi Addewid Cynnwys Hinsawdd, gan ymrwymo i ystyried themâu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, lle y bo'n briodol, yn ein holl gynnwys. Mae hyn yn adeiladu ar waith sydd eisoes yn mynd rhagddo i ystyried y pwnc mewn ffordd ysgafn y gall y cynulleidfaoedd ehangaf uniaethu â hi, o gyfleoedd busnes gwyrdd yn *The Apprentice*, i wobrau cynaliadwy yn *House of Games Richard Osman*.

Mae ein cynnwys arbenigol clodwïw yn parhau i ysbrydoli, gyda *The Green Planet* Syr David Attenborough yn denu 8.7 miliwn o wylwyr mewn 30 diwrnod ar gyfer y bennod a wylwyd fwyaf, a bron hanner y gwylwyr yn dweud ei bod wedi gwneud iddynt werthfawrogi a theimlo mwy o gysylltiad â byd natur. Atebion oedd ffocws *The Earthshot Prize: Repairing our Planet* a *39 Ways to Save the Planet* ar Radio 4, a dangosodd *Shop Well for the Planet?*, *Big Bee Challenge* ar Radio 2 a *The Regenerators* gan BBC Education gamau ymarferol y gall cynulleidfaoedd eu cymryd i wneud gwahaniaeth. Mae BBC News yn parhau i fod yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth ddiduedd a'r newyddion diweddaraf.

→ t.69

Am ragor o wybodaeth am gynaliadwyedd

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Dibenion cyhoeddus

Diben 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau



BBC iPlayer

Mae twf a thrawsnewidiad BBC iPlayer yn parhau i fod wrth wraidd ein strategaeth wrth i ni roi mwy o ddewis a rheolaeth i gynulleidfaedd dros eu profiad gwyllo. Parhaodd y newidiadau a wnaed i'r gwasanaeth yn 2021/22 i gyflawni dros wylwyr, gan adeiladu ar y twf pendant a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf. 2021/22 oedd blwyddyn orau iPlayer, gyda 6.6 biliwn o raglenni'n cael eu ffrydio, sef y nifer mwyaf erioed – i fyny 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cafwyd dechrau mwy cadarn i 2022 nag unrhyw flwyddyn arall o ran BBC iPlayer – sicrhawyd mwy o gyrhaeddiad ac oriau gwyllo nag erioed o'r blaen ym mis Ionawr (13.3 miliwn o gyfrifon yn mewngofnodi bob wythnos ar gyfartaledd a 54 miliwn o oriau bob wythnos) ac eto ym mis Chwefror, gyda chynnydd o fwy na 2% o gymharu â ffigurau mis Ionawr, i fyny i 13.5 miliwn.

Yn ystod y flwyddyn cynigiodd BBC iPlayer fwy o arlwy i'r gwylwyr nag erioed o'r blaen – gyda mwy o focs-setiau o gyfresi sy'n dychwelyd a rhaglenni clasur i'w mwynhau - o'r Gemau Olympaidd i'r Ewros i Gwpan yr FA - yn ogystal â'r holl newyddion, gan gynnwys y diweddaraf am y pandemig a'r rhyfel yn Wcráin.

Heidiodd miliynau ohonom i iPlayer i fwynhau cyfres epig ddiweddaraf *Line Of Duty*, wrth i "H" gael ei ddatgelu o'r diwedd. Cyrhaeddodd i'r Ewros i Gwpan yr FA - yn ogystal â'r holl newyddion, gan gynnwys y diweddaraf am y pandemig a'r rhyfel yn Wcráin.

Roedd dramâu Prydeinig o safon yn boblogaidd iawn ar iPlayer, gyda sawl drama newydd lwyddiannus yn cynnwys *Vigil*, *Time*, *The Tourist* a *The Responder*, y cafodd y pedair eu gwyllo

gan filiynau a'u comisiynu ar gyfer cyfres arall. Ymhlith y teitlau poblogaidd eraill roedd y Gemau Olympaidd hirddisgwyliedig yn Tokyo, a gafodd eu ffrydio mwy na 100 miliwn o weithiau, y gyfres Americanaidd lwyddiannus *Pretty Little Liars*, a gafodd ei ffrydio mwy na 80 miliwn o weithiau – yn ogystal â holl gemau'r Ewros, a gafodd eu ffrydio 68 miliwn o weithiau yn 2021.

Hefyd yn ystod y flwyddyn cyflwynodd iPlayer olwg a naws newydd sbon. Ar setiau teledu sydd â chysylltiad â'r rhynggrwyd, gwnaethom foderneiddio'r ffordd mae'r gwasanaeth yn edrych drwy gynnwys bar llywio ar ochr chwith y sgrin, i'w gwneud yn haws cael gafael ar fwy o ddewis yn ardaloedd y categorïau genre. Gwnaethom symleiddio'r sgrin yn gyffredinol a rhoi mwy o le ar gyfer crynoluniau trawiadol er mwyn helpu i dynnu sylw gwylwyr ar rywbeth newydd i'w wyllo. Gwnaethom ddiweddarau'r ffordd y mae'r rheiliau cynnwys yn gweithio a chyflwyno sawl un newydd er mwyn helpu gwylwyr i ddod o hyd i'r rhaglennu sydd fwyaf perthnasol iddynt.

I blant, gwnaethom adeiladu ar y gwaith diweddar sy'n eu galluogi i gael eu profiliau eu hunain a pharhau i fireinio'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithio ar eu cyfer wrth iddynt fynd yn hŷn, gan sicrhau deunydd hyrwyddo sy'n addas i'w hoedran a fydd fwyaf perthnasol iddynt ar gamau gwahanol mewn bywyd.

Gwnaethom hefyd welliannau sylweddol i'r ffordd y gall gwylwyr reoli isdeitlau ar iPlayer. Mae safle newydd y ddewislen isdeitlau a gosodiadau yn ei gwneud yn haws troi'r isdeitlau ymlaen neu eu diffodd, ac yn ei gwneud yn haws dewis y fersiynau â disgrifiadau sain ac iaith arwyddion lle maent ar gael; hefyd, rydym wedi ychwanegu'r gallu i newid a rheoli maint yr isdeitlau.

Ac rydym wedi ei gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i iPlayer o leoliadau eraill, gan gynnwys ffyn ffrydio ac amryw lwyfannau teledu, gan weithio gyda sefydliadau partner i'w gwneud yn haws i wylwyr gyrraedd iPlayer o unrhyw fan cychwyn.

Cyrhaeddiad BBC iPlayer o ran defnyddwyr sy'n mewngofnodi
Cyfrifon sy'n mewngofnodi i iPlayer bob wythnos ar gyfartaledd

Cyfrifon i gyd

12.1^m

Cyfrifon pobl dan 35 oed

3.8^m

(2020/21: 10.7 miliwn i gyd; 3.2 miliwn o bobl dan 35 oed).

Ffynhonnell Data Cyfrif AT Internet/y BBC

Amser yn ffrydio BBC iPlayer

44.5^m

Oriau a chwaraewyd drwy iPlayer bob wythnos ar gyfartaledd (2020/21: 39.7 miliwn).

Ffynhonnell data dal i fyny AT Internet/Sky

Pawb

16%
20/21 13%

16-34

43%
20/21 34%

% gwyllo teledu'r BBC drwy iPlayer.

Ffynhonnell Data dal i fyny BARB/AT Internet/Sky Ailddatganwyd yn 2020/21 yn seiliedig ar newidiadau i'r dull cyfrifo

16+

8/10
20/21 8/10

16-34

8/10
20/21 8/10

Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC iPlayer (sgôr gymedrig/10).

Ffynhonnell YouGov 16+

16+

81%
20/21 81%

16-34

77%
20/21 78%

% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r genhadaeth yn gyffredinol (mae 10% o ddefnyddwyr 16+ oed a 15% o ddefnyddwyr 16-34 oed o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI

16+


83%
20/21 81%

16-34

79%
20/21 79%

% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r dibenion cyhoeddus yn gyffredinol (mae 7% o ddefnyddwyr 16+ oed a 9% o ddefnyddwyr 16-34 oed o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI



→ t.173
Am restr lawn o wybodaeth ystadegol am iPlayer



BBC Sounds

Mae twf BBC Sounds wedi parhau y flwyddyn hon, ynghyd â'i uchelgais barhaus a'i waith datblygu cynnyrch. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio BBC Sounds i wrando ar holl gynnwys sain y BBC pryd bynnag a lle bynnag y maent yn dymuno gwneud hynny, yn gynyddol ar ffonau symudol, seinyddion clyfar a setiau teledu cysylltiedig. Yn 2021/22, cafwyd ceisiadau i chwarae 1.54 biliwn o eitemau o radio, cerddoriaeth a phodlediadau ar BBC Sounds yn y DU, i fyny 23% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae rhai o bodledwyr gorau'r byd a newyddiadurwyr arbenigol y BBC wedi darparu podlediadau eithriadol i wrandawyr, gan gynnig dadansoddiadau manwl o rai o ddigwyddiadau a straeon pwysicaf ein hoes, fel y gwnaeth y podlediadau cyfoes *UkraineCast*, *Putin*, a *War on Truth* ar ôl i Rwsia ymosod ar Wcráin. Roedd *Things Fell Apart* gan Jon Ronson a *The Coming Storm* ar Radio 4, a archwiliodd y rhyfeloedd diwyllianol a datblygiad QAnon, yn y drefn honno, hefyd yn boblogaidd ymysg y gwrandawyr.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi ehangu'r ffyrdd y gall dilynwyr fwynhau sioeau teledu mwyaf y BBC ar Sounds, gan gynnwys *Obsessed With...*, sef cyfres o bodlediadau i ategu rhaglenni fel *Line of Duty* a *Strictly Come Dancing*, penodau arbennig o *Bad People* ar gyfer *The Tourist* ac *A Very British Scandal*, a thraciau sain teledu sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd fel *The Sound of Peaky Blinders*. Gwnaethom hefyd lansio cymysgeddau cerddoriaeth *My Sounds* i nodi canmlwyddiant y BBC gyda rhai o wynebau mwyaf poblogaidd y BBC yn rhannu eu hoff draciau, gan gynnwys Louis Theroux, Stacey Dooley, Ade Adepitan a Ruth Madeley.

Rydym wedi denu amrywiaeth o leisiau gwych i'r byd podledu, o'r dylanwadwyr Mariam ac Adeola ar *Pressed*, y cyn-bencampwr bocsi ar *Tony Bellew is Angry*, i Marian Keyes a Tara Flynn ar *Now You're Asking*. Cawsom Callum Wilson a Michail Antonio ar *Footballer's Football Podcast*, Danny Robins ar *The Battersea Poltergeist* ac *Uncanny*, a Michelle Visage a Marianna Spring ar *Death by Conspiracy*. Rydym wedi lansio crewyr cyntaf BBC Sounds Audio Lab, sef ein menter newydd i fwyhau'r genhedlaeth nesaf o bodledwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae ein harlwy cerddoriaeth ar alw wedi mynd o nerth i nerth, ac mae cyfresi gwych gyda Fearnie Cotton, Cillian Murphy, Arlo Parks, Big Narstie, Sophie Ellis-Bextor a Romesh Ranganathan wedi bod yn boblogaidd ymysg y gwrandawyr. Rydym wedi parhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o alluogi pobl i ganfod cerddoriaeth berthnasol o bob cwr o'r BBC, ac rydym wedi lansio Radio 1 Relax, sy'n helpu gwrandawyr ifanc i ddod o hyd i amrywiaeth o gynnwys i gefnogi llesiant

Rydym yn parhau i wella profiad gwrandawr rhai sy'n defnyddio BBC Sounds ar y wefan a'r ap, ac rydym wedi ychwanegu cyfleuster y flwyddyn hon i alluogi gwrandawyr i ychwanegu, dethol a dileu eitemau yn y ciw chwarae fel y gallant ddewis yn hawdd beth sy'n cael ei chwarae nesaf. Gwnaethom wella'r tudalennau cerddoriaeth a phodlediadau drwy ychwanegu categorïau newydd fel *Stay in the Know*, *True Crime*, *Life Stories* a *Feel Good Tunes*, gan arddangos yn well amrywiaeth enfawr o gynnwys sain ar draws y gwahanol genres er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i'r hyn sydd o ddiddordeb iddynt. Gwnaethom hefyd lansio BBC Sounds yn yr ap Sonos y flwyddyn hon, gan roi ffordd arall i bobl fwynhau cynnwys sain byw ac ar alw y BBC.

Sut y defnyddiodd cynulleidfaoedd BBC iPlayer a BBC Sounds yn 2021/22

Ceisiadau i BBC iPlayer yn ôl dyfais a math

Allan o 6.6 biliwn o geisiadau:

Dyfais deledu	70%
Llechen	12%
Cyfrifiadur	9%
Ffôn symudol	9%
Yn fyw	21%
Ar alw	79%

Cyfrifon sy'n mewngofnodi i BBC iPlayer bob wythnos

% y proffil oedran

Dan 35 oed	31%
35-54 oed	31%
55+ oed	28%
Oedran yn anhysbys	9%

Eitemau a chwaraewyd ar BBC Sounds yn ôl math

Allan o 1.54 biliwn o eitemau a chwaraewyd:

Yn fyw	55%
Ar alw	45%
Llafar byw	32%
Cerddoriaeth fyw	24%
Llafar ar alw	37%
Cerddoriaeth ar alw	7%

Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y ffigurau'n creu cyfanswm o 100%
Ffynhonnell AT Internet

8/10 ^{20/21}
8/10

Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC Sounds (sgôr gymedrig/10).

Ffynhonnell YouGov 16+

Pawb

3.8m ^{20/21} 3.5m ¹⁶⁻³⁴ 570k ^{20/21} 572k

Cyfrifon sy'n defnyddio BBC Sounds bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell AT Internet/BBC Account data

13.2m ^{20/21}
10.9m

Amser yn ffrydio BBC Sounds

Oriau a chwaraewyd drwy Sounds bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Data Cyfrif AT Internet/y BBC

→ t.174

Am restr lawn o wybodaeth ystadegol am BBC Sounds

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Dibenion cyhoeddus



Diben 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos ymrwymiad y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa ledled y DU.

Mae gan y BBC fodel ariannu sy'n golygu bod yn rhaid i ni gynnig gwerth da i bawb, pwy bynnag a ble bynnag y bônt. Mae hynny'n golygu sicrhau ein bod yn cynrychioli'r DU gyfan, yn portreadu cymunedau amrywiol mewn ffordd ddilys yn ein holl allbwn ac yn sicrhau bod safbwyntiau a lleisiau'r DU i gyd yn cael eu clywed. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r hyn rydym yn ei wneud i sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y DU ym mhopeth a wnawn.

Heddiw, caiff dros hanner allbwn teledu rhwydwaith y BBC ei gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac mae gennym ganolfannau cynhyrchu mawr ledled y DU. Mae dros hanner ein cyflogeion wedi'u lleoli y tu allan i'r M25, ac mae hanner o gyfanswm cyfraniad economaidd y BBC y tu allan i Lundain o gymharu â chyfartaledd y sector, sef 20%.

Ond gwyddom y gallwn wneud mwy. Dyna pam, ar ddechrau'r flwyddyn ddiwethaf, y gwnaethom amlinellu ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer ein trawsnewidiad mwyaf ers degawdau: symud pobl, pŵer a grym gwneud penderfyniadau'r BBC i wledydd a rhanbarthau'r DU. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut mae'r cynlluniau hynny bellach yn arwain at ganlyniadau pendant ym mhob rhan o'r DU.

54%

Caiff dros hanner y teledu rhwydwaith ei gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gyda 54% o'r tu allan i Lundain.

53%

Rydym yn ymrwymedig o hyd i leoli o leiaf 50% o'n cyflogeion y tu allan i Lundain ac mae tua 53% wedi'u lleoli y tu allan i'r M25 ar hyn o bryd.

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Dibenion cyhoeddus

Diben 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol



O'r uchaf i'r isaf
Angels of the North ar BBC Three / *Dosbarth 2022*
Audio Lab

54%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (24% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

58%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n berthnasol iddyn nhw (21% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

Gwasanaethau penodedig

Mae'r BBC yn darparu amrywiaeth o allbwn penodedig, traws-genre yn benodol ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Rhanbarthau Lloegr ar deledu, radio ac ar-lein. Mae pob ardal yn creu rhaglenni teledu a radio a chynnwys ar-lein ar gyfer ei chynulleidfa leol ac ar gyfer y rhwydwaith.

Mae gennym ganolfannau cynhyrchu mawr yng Nghaerdydd, Glasgow, Belfast, Salford, Bryste, Birmingham a Llundain.

Cyflenwi'r rhwydwaith

Caiff dros hanner teledu rhwydwaith ei gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gyda 54% o'r tu allan i Lundain a 19.8% o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Y gwariant ar raglennu teledu rhwydwaith yn ôl rhanbarth fel canran o wariant cymwys

	2021	2020
Llundain	46.4%	52.1%
Yr Alban	8.6%	6.5%
Cymru	7.2%	8.2%
Gogledd Iwerddon	3.9%	1.7%

Cyfanswm y gwledydd	19.7%	16.4%
Canolbarth Lloegr	2.0%	2.5%
Gogledd Lloegr	17.4%	17.4%
De Lloegr	10.2%	10.1%
Aml-ranbarth*	4.3%	1.5%

Cyfanswm y rhanbarthau ac eithrio Llundain	33.9%	31.5%
---	-------	-------

Cyfanswm y gwledydd a'r rhanbarthau	54%	47.9%
--	-----	-------

Cyfanswm cyfan	100%	100%
-----------------------	------	------

Oriau o allbwn Radio Lleol a radio'r gwledydd y BBC**

	2021	2020
Lloegr (ac eithrio Llundain)	243,251	243,417
Llundain	7,283	7,789
Yr Alban	12,036	11,843
Cymru	14,771	14,806
Gogledd Iwerddon	8,041	7,875

Gwariant ar deledu rhwydwaith yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom yn ôl blwyddyn galendr

* Mae aml-ranbarth yn cwmpasu rhaglenni a wnaed y tu allan i Lundain ond na ellir eu priodoli i unrhyw ranbarth na gwlad

** Dim ond rhaglenni gwreiddiol gan y BBC y mae oriau allbwn Radio Lleol a radio'r gwledydd y BBC yn eu cynnwys ac nid yw'n cynnwys unrhyw raglenni a gaiff eu hailddarlledu

➔ **t.174**

Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 4



Uchod:
Drama The Responder ar BBC One. Cafodd cymeriad Chris Carson, a chwaraewyd gan Martin Freeman, ei ddatblygu fel rhan o brosiect Northern Voices Writersroom y BBC

Tudalen gyferbyn:
Disclosure: Should I Tell You I'm Trans? ar BBC Scotland / *Dreaming Whilst Black* ar BBC Three



Nid oes unrhyw ddarparwr ym maes y cyfryngau yn gwneud mwy na'r BBC i wasanaethu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU. Mae ein buddsoddiad yn yr economi greadigol yn cefnogi twf economaidd a 53,000 o swyddi ledled y DU.

54%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu'r rhan o'r DU lle maent yn byw (22% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

55%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran gwasanaethu'r rhan o'r DU lle maent yn byw (21% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

59%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod gan y BBC raglenni, cynnwys a gwasanaethau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd o fyw a'r safbwyntiau gwahanol mewn cymdeithas yn y DU (19% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).


Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

Staff darlledu cyhoeddus y DU yn ôl gwlad

Rydym hefyd yn ymrwymedig o hyd i leoli o leiaf 50% o'n cyflogeion y tu allan i Lundain ac mae tua 53% wedi'u lleoli y tu allan i'r M25 ar hyn o bryd.

% staff darlledu cyhoeddus y DU yn ôl gwlad (cyfwerth ag amser llawn) (ac eithrio BBC Studios yn 2021)

Gwlad	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2021
Lloegr (ac eithrio Llundain)	34	33
Llundain	47	48
Yr Alban	8	8
Cymru	7	7
Gogledd Iwerddon	4	4



Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Dibenion cyhoeddus

Diben 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol

90% 20/21
92%

Cyrhaeddiad ar draws y BBC
% yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

71%

% yr oedolion yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (14% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

50%

% yr oedolion yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (26% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+



Y BBC yng Nghymru

Parhaodd dramâu cynhenid, sy'n creu argraff i fod yn rhan fawr o'n stori y flwyddyn hon. Mwynhaodd miliynau o wylwyr ledled y DU *The Pact* dros fisoedd yr haf ac roedd *Hidden*, sef cyd-gomisiwn poblogaidd rhwng BBC Cymru ac S4C a ddychwelodd i'r sgrin, wedi cyfareddu cynulleidfaoedd. Cafodd cyfres ddogfen ddirlynnol *A Killing in Tiger Bay* ei darlledu ledled y DU i ganmoliaeth gan y beirniaid wrth iddi ailadrodd hanes un o'r achosion mwyaf o gamweinyddu cyfiawnder yn y DU tra roedd *Slammed* wedi adrodd stori rygbi Cymru yn ystod degawd cythryblus yn ei hanes.

Parhaodd comedi i fod yn flaenoriaeth i Radio Wales ac ar y teledu gyda thymor *A Festival of Funny* ar y teledu ac fel casgliad o raglenni eithriadol a hynod o ddoniol ar BBC iPlayer a ddilynwyd gan ail gyfres o *The Tuckers* a ddarledwyd ym mis Ionawr.

Gwnaethom ddilyn tîm pêl-droed dynion Cymru ar bob llwyfan yn ystod Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop UEFA a gafodd ei haildrefnu, gyda darllediadau, sylwebaethau ac uchafbwyntiau yn ogystal â chynnwys ychwanegol i gefnogwyr wrth i *Elis James' Feast of Football* newid o fod yn bodlediad i fod yn rhaglen deledu.

Ym mis Medi lanswyd partneriaeth swyddogol rhwng y BBC a Chymru Greadigol, sydd wedi arwain at gydweithio effeithiol a chomisiynau. Ac wrth i'r pandemig barhau i effeithio ar ddigwyddiadau diwylliannol ledled Cymru,



O'r uchaf i'r isaf
A Killing in Tiger Bay / The Pact / Slammed

gweithiodd BBC Cymru gyda phartneriaid fel yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ar fformatau arloesol, newydd a gyflwynodd yr uchafbwyntiau diwylliannol i gynulleidfaoedd ar y teledu, Radio Cymru a llwyfannau ar-lein.

Wrth i'r pandemig barhau i hoelio sylw, trodd cynulleidfaoedd at ein gwasanaethau newyddion ar y teledu, Radio Cymru, Radio Wales ac ar-lein i gael arlwy cynhwysfawr a gwybodaeth hollbwysig. Darparodd ein gohebwyr fewnwelediadau a gwybodaeth ddiuedd a chyfredol wrth i Gymru ymdopi â'r argyfwng iechyd y cyhoedd dros 12 mis.

Roedd rhoi sylw dibynadwy a diduedd i etholiadau Senedd Cymru ym mis Mai ar gyfer pleidleiswyr hen a newydd yng Nghymru a chynulleidfaoedd ledled gweddill y DU yn flaenoriaeth hefyd. Roedd darllediadau parhaus ar ein gwasanaethau newyddion digidol, a ategwyd gan bodlediadau gwleidyddol fel *Walescast* ynghyd â darllediadau ar y teledu a'r radio. Hefyd, comisynwyd cynnwys yn arbennig ar gyfer pobl ifanc a oedd yn gymwys i bleidleisio am y tro cyntaf. Gan i'r pleidleisiau gael eu cyfrif yn ystod y dydd, denodd ein rhaglenni gynulleidfaoedd mwy na'r arfer, a wnaeth droi atom i weld democratiaeth ar waith. Gwylodd dros 1.1 miliwn ein rhaglenni am yr etholiad, sy'n cyfateb i bron i hanner yr holl oedolion yng Nghymru.

Fel rhan o'n cynnwys ar gyfer radio rhwydwaith, parhaodd BBC Cymru i gynhyrchu'r rhaglen boblogaidd *Composer of the Week* ar gyfer Radio 3, a chynhyrchodd sawl cyfres ddogfen i Radio 4 gan gynnwys *Young Farmers* a *Past Forward: a Century of Sound*, i ddynodi dathliadau canmlwyddiant y BBC. Gweithiodd ein tîm drama gyda BBC Scotland i gynhyrchu *United Kingdoms*, sef cyfres o ficro-ddramâu gan awduron a chynhyrchwyr ledled y gwledydd. Ymhlith yr uchafbwyntiau drama eraill roedd *The Miser* ar gyfer Radio 3, yn cynnwys Toby Jones, i ddynodi 400 mlynedd ers geni Molière.

→ t.177

Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Gymru

→ t.131

I ddarllen mwy am y ffordd y mae Pwyllgor Cymru wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Nghymru



Y BBC yn yr Alban

Roedd BBC Scotland wrth galon COP26, y gynhadledd hinsawdd fyd-eang a gynhaliwyd gerllaw ein canolfan ddarlledu yn Pacific Quay, Glasgow, yn ystod hydref 2021. Yn ogystal â'n darllediadau newyddion arbennig, roedd ein cynnwys arall wedi cynnwys: *Our Planet Now – Scotland Climate Change Special* a oedd yn edrych ar sut mae pobl, arloeswyr ac arbenigwyr yr Alban yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd; *Climate Tales* ar Radio Scotland a oedd yn galluogi pobl ifanc i fynegi eu gobeithion, eu hofnau, eu huchelgeisiau a'u barn ynghylch newid yn yr hinsawdd; *Black Black Oil* a oedd yn edrych ar gysylltiad hanesyddol ac emosïynol yr Alban â'r diwydiant olew ym Môr y Gogledd; a *The Hermit of Treig* oedd yn rhannu bywyd o unigrwydd mewn rhan wledig o'r Alban.

Parhaodd cysgod pandemig COVID-19 i greu galw ymhlith cynulleidfaoedd am newyddion diduedd, gwybodaeth am iechyd a dadansoddiadau o'r Alban, yn amrywio o sylw i gyfyngiadau symud amrywiol yr Alban i ddau ddiwrnod llawn o ganlyniadau etholiad Senedd yr Alban, a dadansoddiad o'r camau i ffurfio llywodraeth glymblaid gyntaf yr Alban ers 2007.

Wrth i ddigwyddiadau byw ddychwelyd, cyflwynodd BBC Scotland werth sylweddol i gynulleidfaoedd. Cydweithiodd BBC ALBA a Radio Scotland i gyd-ddarlledu rowndiau terfynol *BBC Radio Scotland Young Traditional Musician*. Cafodd Gŵyl Ryngwladol Caeredin, Gŵyl y Fringe a Gŵyl Lyfrau Caeredin sylw ar y teledu, y radio ac ar-lein; ac roedd allbwn o Wyl TRNSMT a *Celtic Connections* yn Glasgow wedi galluogi cynulleidfaoedd i ailgysylltu â cherddoriaeth fyw.

Yn y cyfamser, dathlodd dros un filiwn o Albanwyr Flwyddyn Newydd 2022 gyda BBC One Scotland a sianel BBC Scotland – 60% o'r holl wylwyr yn yr Alban bryd hynny – gyda *Hogmanay* a gyflwynwyd gan Edith Bowman. Dros y 12 mis o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022, sianel BBC Scotland oedd y sianel ddigidol fwyaf yn yr Alban, ar wahân i'r pum prif sianel, gyda mwy nag un o bob chwech yn ei gwyllo bob wythnos, a bu cynnydd o fwy na 18% yn nifer y ceisiadau a wnaed ar iPlayer am gynnwys o'r Alban.

88%^{20/21}
88%

Cyrhaeddiad ar draws y BBC
% yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

66%

% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (10% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

55%

% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (25% o'r farn ei fod yn aneffeithiol%).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

Adlewyrchodd y BBC yr awyrgylch wrth i bedair gêm ym mhencampwriaeth *Euro 2020* gael eu cynnal yn yr Alban, ac yn sgil llwyddiant tîm dynion yr Alban i gyrraedd ei dwrnamaint rhyngwladol cyntaf ers 1998, gwnaethom gomisiynu cynnwys Gaeleg a Saesneg arbennig. Roedd hyn yn cynnwys yr *Euros Breakfast Show*, sef cymysgedd unigryw o ddadansoddiadau, sgrysiâu pêl-droed, cerddoriaeth a chomedi fyw, nad oedd ar gael unrhyw le arall yn yr Alban amser brecwast.

Fel rhan o'n ffocws ar gynnwys trawiadol y flwyddyn hon, darlledwyd ail gyfres y ddrama *Guilt* sydd wedi denu dros 11 miliwn o geisiadau ffrydio ar iPlayer ers iddi ddechrau; *#CancelKarenDunbar*, lle roedd y comediwr yn ymdrin â materion yn ymwneud â chwaeth a thramgwydd; y llinyn newyddiaduraeth ymchwiliadol *Disclosure*; *The Hunt for Bible John*, a oedd yn ailedrych ar lofruddiaethau o 1968; a *Scotland's Home of the Year*, a gyrrhaeddodd chwarter yr oedolion yn y wlad. Cafodd Mis Hanes Pobl Dduon ei ddynodi â *Trusadh Afro-Gàidheil*, golwg rymus ar siaradwyr Gaeleg o dras Affricanaidd; edrychodd rhaglen arbennig yng nghyfres *Eòrpa* ar hunaniaeth o ran rhywedd; ac mewn ffilm fer i blant, *Cùm Sùil Orm (Keep an Eye on Me)* adroddodd ffoadur 10 oed o Syria hanes ceisiwr lloches ifanc.

Wrth i'n harlwy ddigidol dyfu, llwyddodd BBC Scotland i sicrhau mwy o werth o'n cynnwys ar-lein, gan gynnwys: *Float*, cyfres o chwe drama, 10 munud yr un, ar iPlayer; mwy o bêl-droed merched ar y botwm coch; ffrydio chwaraeon byw gan gynnwys pêl-rwyd a chyrlio; a phodlediadau fel *Sacked in the Morning* a *Podlitical*.


Fel rhan o *SpeakGaelic*, prosiect partneriaeth, darparwyd cyfres o adnoddau dysgu gan gynnwys gwefan, podlediadau, a rhaglenni radio a theledu a lanswyd yn ddigidol yn gyntaf, ar BBC iPlayer, Sounds, ar-lein ac ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymgysylltu â chynulleidfya fyd-eang o ddysgwyr Gaeleg a phobl a arferai siarad yr iaith. Dysgwch fwy yn: <https://speakgaelic.scot/>.

→ t.176

Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am yr Alban

→ t.131

I ddarllen mwy am y ffordd y mae Pwyllgor yr Alban wedi monitro ac adolygu perfformiad yn yr Alban



O'r uchaf i'r isaf
Float / Guilt / SpeakGaelic

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Dibenion cyhoeddus

Diben 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol

91% 20/21
88%

Cyrhaeddiad ar draws y BBC
% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

67%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (8% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

57%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (16% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+



Y BBC yng Ngogledd Iwerddon

Drwy gydol y flwyddyn, darparodd y BBC yng Ngogledd Iwerddon raglenni ag ehangder, dyfnder ac apêl eang a oedd yn adlewyrchu anghenion amrywiol ac yn cynnig pwyntiau o gysylltiad ar adegau anodd.

Cafodd COVID-19 a'i effaith ar fywyd cymunedol eu hadlewyrchu yn ein hallbwn newyddion, a roddodd wybodaeth hanfodol i gynulleidfa oedd y BBC yn ogystal â llwyfan trafod. Eglurodd ein newyddiadurwyr yr anawsterau sy'n gysylltiedig â Phrotocol Gogledd Iwerddon, y tensiynau gwleidyddol yn Stormont, a'r materion a oedd yn effeithio ar y gwasanaeth iechyd a'r economi.

Cafwyd cynnwys trawiadol fel rhan o gyd-gomisiynau â theledu rhwydwaith y BBC, gan gynnwys y rhaglen sebon boblogaidd a ddarllidir yn ystod y dydd *Hope Street*, a ffilmwyd yn Donaghadee a'r wleddd gyrru tractorau o Ballymoney yn *The Fast and the Farmer-ish*. Roedd hyn yn ychwanegol at gyfraniad lleol at ddramâu rhwydwaith y BBC fel *Bloodlands*, *Conversations With Friends* a *Blue Lights* a'r buddiannau a ddaeth yn eu sgil i'r diwydiannau creadigol yng Ngogledd Iwerddon.

Adroddodd rhaglenni teledu hanesion pobl a lleoedd lleol ac amrywiaeth bywyd cyfoes. Roedd themâu'r awyr agored a'r amgylchedd yn nodwedd o *Barra's Wild Days Out* a *The Chronicles of Strangford*; adroddodd *True North: Pride of Place* stori parêd Pride cyntaf Cookstown; gwnaethom ddathlu athrylith y dramodydd Brian Friel fel



O'r uchaf i'r isaf
Patrick Kielty: One Hundred Years of Union / The Fast and the Farmer-ish / Hope Street

rhan o dymor Celfyddydau arbennig yn *Friel – Shy Man Showman*; a chafodd gwylwyr gyfle i fwynhau gwyliau carafân rhithwir yn *Ulster By The Sea*. Cafodd y sioe banel gomedi hir sefydledig *The Blame Game* ei recordio mewn lleoliadau rhanbarthol a chafodd cenhedlaeth newydd o dalent comedi a pherfformio gyfle i ddangos ei doniau yn *Dry Your Eyes* a *Comedy Pilots*.

Cafwyd cymysgedd o raglenni nodedig i ddynodi can mlynedd ers y Rhaniad a ffurfio Gogledd Iwerddon. Yn eu plith roedd *Patrick Kielty: One Hundred Years of Union*, *The Road to Partition* a darllediad byw o wasanaeth crefyddol rhynggenwadol o Gadeirlan Armagh, a ddangoswyd i gyd ar deledu rhwydwaith y BBC. Cafodd cymhlethdodau a pherthnasedd cyfoes y gorffennol eu hystyried hefyd drwy gyfres o adnoddau sain ac ar-lein, y cafodd rhai ohonynt eu datblygu mewn partneriaeth â Phrifysgol Queen's.

Llwyddodd BBC Radio Ulster a Foyle i gadw eu cyrhaeddiad a'u poblogrwydd, a llwyddodd rhaglenni a gynhyrwyd yn lleol i gynyddu eu cynulleidfa oedd yng Ngogledd Iwerddon a ledled y DU ar BBC Sounds. Roedd y rhaglenni hyn yn cynnwys y cyfresi podllediad arloesol *Assume Nothing a Nolan Investigates: Stonewall*. Gwnaethom hefyd gynhyrchu amrywiaeth o gynnwys ar gyfer radio rhwydwaith y BBC, gan gynnwys dramâu, straeon byrion, rhaglenni dogfen a cherddoriaeth glasurol.

Wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio, roeddem wedi gallu gwneud rhywfaint o ddarlledu awyr agored, gan gynnwys cyfres estynedig o raglenni o Sioe Balmoral. Gwnaethom ddangos talent gerddorol amrywiol yn *Where Music Matters Day*, cynllun Llwyfan Cerddor Ifanc (a gaiff ei gynnal ar y cyd â Chyngor y Celfyddydau) a menter newydd *BBC NI School Soloist of the Year*.

Cafodd ein harlwy chwaraeon lleol ei hailwampio a'i hymestyn a gwnaethom fwy o ddefnydd o lwyfannau digidol y BBC i wneud pethau newydd a chyrraedd cynulleidfa ehangach. Gwnaethom hefyd chwarae ein rhan wrth gyfrannu at gyfoeth diwyllianol y rhanbarth drwy fentrau ar y cyd â sefydliadau partner strategol gan gynnwys Northern Ireland Screen, Cerddorfa Ulster a Libraries NI.

→ **t.178**
Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ogledd Iwerddon

→ **t.132**
I ddarllen mwy am y ffordd y mae Pwyllgor Gogledd Iwerddon wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Ngogledd Iwerddon



Y BBC yn Lloegr

Parhaodd ein gwasanaethau yn Lloegr i roi gwybodaeth a dadansoddiadau diduedd i'n cynulleidfaoedd drwy gydol y pandemig yn ogystal â chynnwys trawiadol i ddiddanu a helpu pobl drwy gyfnodau anodd. Gwnaethom gynnig newyddion dibynadwy a lleisiau cyfarwydd ledled y wlad ynghyd â'r newyddion lleol diweddaraf.

Fel y mae wedi'i wneud drwy gydol argyfwng COVID-19, mae Radio Lleol y BBC wedi bod yn cynnig gwerth i gynulleidfaoedd drwy gysylltu cymunedau a darparu gwasanaethau hanfodol fel newyddion, chwaraeon, adloniant, a gwasanaethau crefyddol. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod ein 39 o orsafoedd lleol yn Lloegr yn cyrraedd dros chwe miliwn o wrandawyr bob wythnos.

Cyrhaeddodd ymgyrch Make A Difference y BBC gymunedau ledled Lloegr gan weithredu fel hysbysfwrdd rhithwir mewn trefi a dinasoedd ledled y wlad. Rydym wedi lansio nifer o fentrau o dan fantell Make A Difference gan gynnwys cynllun gwobrwyo cymunedol newydd a Kit Out the Nation, a roddodd fwy na 50,000 o eitemau o ddillad chwaraeon i bobl ifanc mewn angen. Ar ddiwedd 2021, darlledodd ein gorsafoddedd gyfres drawiadol o raglenni o'r enw Christmas Together, i anrhydeddu gweithwyr allweddol ledled Lloegr. Helpodd sêr fel Ed Sheeran ni i ddiolch i'r bobl sydd wedi cadw'r wlad i fynd yn ystod y pandemig. Helpodd y gantores Katie Melua ni gydag ymgyrch digartrefedd.

Ar y radio, y teledu ac ar-lein, mae ein gwasanaethau lleol wedi cynnig gwerth gwirioneddol drwy gadw pobl yn ddiogel a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn ystod adegau anodd fel Storm Arwen, lle cafodd cynulleidfaoedd yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr eu gadael heb bŵer am wythnosau. Yn ogystal â newyddion lleol dibynadwy a diduedd, gwnaethom hefyd ddarlledu cynnwys nodedig a thrawiadol o ddathliadau Dinas Diwylliant Cofentri. Rydym bellach yn canolbwyntio ar faterion mawr sy'n bwysig i'n cynulleidfaoedd, yn enwedig yr argyfwng costau byw sy'n cael cymaint o effaith ar gyllidebau cartrefi.

90% ^{20/21} 90%

Cyrhaeddiad ar draws y BBC
% yr oedolion yn Lloegr sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

68%

% yr oedolion yn Lloegr sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (14% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

54%

% yr oedolion yn Lloegr sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (24% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).


Ffynhonnell Ipsos MORI 16+

Ein bwletin newyddion rhanbarthol am 6:30 ar BBC One, sy'n cynnig gwerth i'n holl gynulleidfaoedd ledled Lloegr, yw'r rhaglenni newyddion teledu sy'n denu'r nifer mwyaf o wylwyr o hyd. Mae'r slot 6:30pm yn denu cyfanswm o 3.7 miliwn o wylwyr ar gyfartaledd.

Rydym yn parhau i ystyried ffyrdd newydd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd ac rydym yn gweithio i sicrhau y bydd holl amrywiadau rhanbarthol BBC One yn Lloegr ar gael yn HD. Rydym wedi bod yn treialu technoleg newydd i wneud ein cyfleusterau cynhyrchu yn fwy effeithlon a chydnerth. Rydym wedi dechrau gwaith i ailwampio cyfleusterau galeri ac yn Southampton rydym yn defnyddio'r cyntaf o genhedlaeth newydd o galeriau awtomataidd i gefnogi ein gwaith cynhyrchu.

Mae ein rhaglen wleidyddol ranbarthol wythnosol yn ychwanegu gwerth sylweddol oherwydd dyma'r unig raglen deledu o'i bath o hyd yn Lloegr, gydag 11 o fersiynau rhanbarthol yn cael eu darlledu bob dydd Sul. Mae gennym 12 o olygyddion rhanbarthol yn gweithio ar deledu rhanbarthol a 43 o ohebwyr gwleidyddol ar radio lleol sydd i gyd yn gweithio i roi sylw diduedd i wleidyddiaeth leol sy'n effeithio ar gynulleidfaoedd ledled Lloegr.

Rydym yn parhau i gomisiynu rhaglenni mewn genres gwahanol a gweithio gyda rhannau eraill o'r BBC i gynhyrchu rhaglenni sy'n adlewyrchu Lloegr. Yn sgil hynny, cafodd rhaglenni fel *Yorkshire Firefighters*, *Villages by the Sea*, *Winter Walks*, a *Chris Packham: The Walk That Made Me* eu darlledu drwy gydol y flwyddyn. Ar ddechrau'r flwyddyn, cafodd *We Are England*, sef cyfres yn edrych ar faterion cymdeithasol drwy lygaid cymunedau ledled Lloegr, a gafodd ei chynhyrchu mewn canolfannau yn Leeds, Newcastle, Birmingham, Bryste, Llundain a Norwich, ei darlledu ar BBC One. Mae tîm comisiynu Lloegr wedi cyhoeddi partneriaethau creadigol yng Ngorllewin y Canolbarth ac yn y Gogledd-ddwyrain i weithio gyda chwmnïau cynhyrchu annibynnol er mwyn cynhyrchu rhaglenni rhydwraith grymus wedi'u gwreiddio yn y rhanbarthau ar gyfer BBC Three.



O'r uchaf i'r isaf
Yorkshire Firefighters / Villages by the Sea / BBC Radio Devon

→ t.179

Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Loegr

→ t.132

I ddarllen mwy am y ffordd y mae Pwyllgor Lloegr wedi monitro ac adolygu perfformiad yn Lloegr

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Dibenion cyhoeddus

Diben 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol



Cynrychioli a phortreadu

Er mwyn i'r BBC gyflwyno gwerth i bawb, mae'n hanfodol ei fod yn cynrychioli ac yn portreadu cymunedau amrywiol y DU mewn ffordd ddilys. Dylai'r lleisiau a glywn ar yr awyr a'r bobl a welwn ar y sgrin adlewyrchu ehangder y DU, ac mae amrywiaeth y dalent gynhyrchu y tu ôl i'r llenni yn hanfodol er mwyn darparu cynnwys sy'n berthnasol i'r cymunedau amrywiol yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac sy'n eu portreadu mewn ffordd ddilys.

Cynrychioli ar y sgrin ac ar yr awyr

Mae Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth y BBC yn nodi pum egwyddor sy'n allweddol er mwyn sicrhau y caiff holl gymunedau amrywiol y DU eu cynrychioli yn ein cynnwys, ac y caiff eu profiadau a'u safbwyntiau eu portreadu mewn ffordd ddilys. Mae'r adroddiad blynyddol ar gomisiynu amrywiaeth yn monitro cynnydd y BBC a'i gyflenwyr.

Bydd Adroddiad Cyflenwi Teledu 2022 y BBC yn olrhain faint o'n Hymrwymiad i Amrywiaeth Greadigol – sef blaenoriaethu £100 miliwn o gyllidebau comisiynu presennol i gynnwys amrywiol sy'n portreadu ein cynulleidfaoedd mewn ffordd ddilys – sydd wedi cael ei wario hyd yma.

Prosiect Cydraddoldeb 50:50 y BBC yw'r ymdrech gyfunol fwyaf erioed i gynyddu cynrychiolaeth yng nghynnwys y BBC. Mae 750 o dimau ar draws llwyfannau'r BBC wedi dewis mesur a chynyddu cynrychiolaeth menywod yn eu cynnwys. Roedd 61% o'r timau yn cynnwys 50% o gyfranwyr benywaidd yn ystod

Mis Her 50:50 ym mis Mawrth o gymharu â 34% pan wnaethant ymuno â'r prosiect yn wreiddiol. Am y tro cyntaf, mae'r BBC hefyd wedi cyhoeddi ei gynnydd o ran cynrychioli anabled ac ethnigrwydd.

Bu sawl enghraifft nodedig o amrywiaeth ar yr awyr yn ystod y flwyddyn hon, gan gynnwys *Extraordinary Portraits* a oedd wedi cysylltu artistiaid a phobl i'w peintio o bob cwr o'r DU. Roedd y bobl hyn yn cynnwys pobl ag anabledau, rhai gweladwy ac anweladwy, a chawsant eu cysylltu ag artistiaid a oedd wedi cael profiadau tebyg, gan gynnwys rhai a oedd wedi bod drwy'r system ofal, rhai sy'n LHDTC a'r rhai a oedd yn rhannu treftadaeth ddiwylliannol debyg. Yn yr Alban, cafodd y prosiect ymchwiliadol *Disclosure – Should I Say I'm Trans?* ei arwain gan y cyflwynydd traws Jax Sinclair ar BBC One.

Ym maes comedi hefyd, rydym wedi gweithio'n galed i bortreadu cymunedau mewn ffordd wybodus – gan gynnwys yn *The Scotts*, lle mae'r digrifwr dall Jamie MacDonald yn chwarae rhan Uncle Ronnie, ac yn y gyfres lwyddiannus *Dreaming Whilst Black* gyda Adjani Salmon.

Portreadu cymunedau amrywiol y DU mewn ffordd ddilys

Mae amrywiaeth talent y tu ôl i'r llenni y BBC ac adrodd storïau o ystod eang o safbwyntiau yn hollbwysig er mwyn darparu cynnwys sy'n portreadu cymunedau amrywiol y DU mewn ffordd sy'n teimlo'n ddilys.

Mae BBC Sounds Audio Lab yn ceisio mwyhau'r genhedlaeth nesaf o bodledwyr a gweithwyr sain creadigol amrywiol y DU. Mae Dosbarth 2022 Audio Lab yn cynnwys saith podlediwr o ystod o gefndiroedd amrywiol sy'n trawsnewid eu syniadau yn bodlediadau ac mae'r cynllun hefyd wedi creu cyfleoedd i 14 o Fentoriaid Cynhyrchu a 12 o Gynhyrchwyr Technegol. Mae Radio 3

wedi parhau â'i bartneriaeth â Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau gan ariannu saith ymchwilydd i ymestyn hyd a lled ac amrywiaeth yr hyn y derbynir ei fod yn perthyn i'r canon cerddoriaeth glasurrol.

Er mwyn adrodd straeon ein gwledydd a'n cymunedau, rhaid dod o hyd i leisiau amrywiol. Er enghraifft, dilynodd *Angels of the North* weithwyr proffesiynol yn y diwydiant harddwch yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr wrth iddynt addasu yn ystod y pandemig. Ac ym maes drama, adroddodd *Then Barbara Met Alan* stori dau ymgyrchydd dros hawliau pobl anabl a arweiniodd ymgyrch gweithredu uniongyrchol digynsail. Cafodd y ddrama ei hysgrifennu gan awduron anabl ac roedd yn cynnwys cast ensemble mawr o bobl anabl. Rydym hefyd wedi comisiynu rhaglenni newydd gan Theresa Ikoko a Candice Carty-Williams, ymhlith eraill.

Cynllun yw BBC Elevate sy'n ceisio datblygu gyrfaedd talent fyddar, anabl a niwrowahanol lefel ganolig yn y diwydiant teledu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cynllun wedi cefnogi lleoliadau gan gynnwys rôl Cynhyrchydd Cynorthwyol ar *Two Doors Down* a Chynhyrchydd Castio ar *Eating With My Ex*. Mae Cynllun Cyfarwyddwyr Newydd BBC Three yn canolbwyntio ar ddatblygu talent newydd, ac ymhlith ei lwyddiannau mae'r rhaglen ddogfen arsylwadol *Defending Digga D*.

Cynrychioli ar lefel leol

Ym mhob rhan o arlwy'r BBC, rydym wedi cynrychioli cymunedau lleol ledled y DU. Adroddodd y ddrama *Three Families* straeon go iawn y teuluoedd y tu ôl i'r ymgyrch ddadleuol yn 2013 yn erbyn cyfraith erthyliad Gogledd Iwerddon. Edrychodd *Villages By The Sea* ar y rolau hanesyddol pwysig y mae pentrefi wedi'u chwarae ar arfordir Lloegr. Fel rhan o gyfres ddiwethaf *Our Lives*, cafwyd rhaglen o'r enw 'The City of Horses' a ddilynodd aelodau o gymunedau ceffylau hir sefydledig Abertawe.

Portreadu'r gwledydd a'r rhanbarthau ar y rhwydwaith

Mae'r BBC yn falch o'i gysylltiadau creadigol dwfn sy'n ymestyn ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Rydym wedi gwneud cynnydd cadarn o ran ein hymrwymiad i gomisiynu 100 o deitlau portreadu sy'n cynrychioli cymunedau yn y gwledydd a'r rhanbarthau erbyn 2024. Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r rhain wedi cynnwys *Peaky Blinders* – y denodd ei lansiad y gynulleidfa fwyaf erioed – a *Vigil*, sef drama newydd fwyaf llwyddiannus y BBC yn y DU ers tair blynedd.

Yn ystod y flwyddyn hon hefyd, darlledwyd cyfres o ddramâu oriau brig o Ogledd Lloegr a adlewyrchai

amrywiaeth o brofiadau bywyd go iawn – o gyffro a thorcalon *The Syndicate*, i gynllwynion yn y gweithle a thrasiediau *Rules of the Game*. Roedd cymeriad Martin Freeman yn *The Responder*, a oedd wedi rhoi ei werthoedd moesegol i'r neilltu, yn deillio o brosiect Writersroom Northern Voices y BBC.

Mewn achosion eraill, mae'r BBC wedi ailgomisiynu ail gyfres o *Hope Street*, sef cyfres ddrama a ddarlledir yn ystod y dydd ac sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Iwerddon sy'n dilyn hynt a helynt y rhai sy'n gweithio yn adran heddlu tref glan môr ffuglennol Port Devine, ac mae hefyd wedi ailgomisiynu drama *The Pact* sydd wedi'i lleoli mewn gweithle yng Nghymru. Gwnaethom hefyd ddarlledu tair cyfres wedi'u lleoli yn Ne-orllewin Lloegr: *Chloe*, *Showtrial* a *The Offenders*.

Cefnogi'r sector

Mae cryfder economi greadigol y DU yn hollbwysig i'r BBC. Yn 2021, sefydlodd y BBC bartneriaeth â Phartneriaeth Diwydiannau Sgrin Gogledd-ddwyrain Lloegr (NESIP) gan ymrwymo i fuddsoddi o leiaf £25 miliwn o wariant comisiynu teledu rhwydwaith yn y rhanbarth dros y pum mlynedd nesaf. Mae NESIP wedi ymrwymo £11.4 miliwn i ddatblygu sgiliau, cefnogi cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n tyfu a rhai newydd, a sefydlu cronfa gynhyrchu ar gyfer y rhanbarth.



The Outlaws

Amrywiaeth wirioneddol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin

Data a ddarparwyd o gyfraniadau gan unigolion sydd â rôl mewn rhaglenni cymwys.

	Gwirioneddol oddi ar y sgrin 2021/22	Gwirioneddol ar y sgrin 2021/22	Gwirioneddol oddi ar y sgrin 2020/21	Gwirioneddol ar y sgrin 2020/21
Benywaidd	54.5%	53.6%	55.0%	54.8%
Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	10.5%	27.9%	10.4%	26.5%
Anabl	7.4%	8.9%	7.0%	8.2%
Lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol	12.6%	12.9%	11.9%	12.0%
Trawsryweddol	0.2%	0.5%	0.3%	0.5%
Nifer y cyfraniadau*	260,254	78,493	230,582	73,878

* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni

Amrywiaeth ganfyddedig ar y sgrin

Mewnbnw data gan gwmnïau cynhyrchu sy'n rhoi safbwynt gwylwr o'r hyn y mae'n ei weld a'i glywed.

	Canfyddedig ar y sgrin 2021/22	Canfyddedig ar y sgrin 2020/21
Benywaidd	47.0%	46.7%
Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	26.5%	23.5%
Anabl	5.4%	5.9%
Lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol	7.8%	6.8%
Trawsryweddol	0.1%	0.1%
Nifer y cyfraniadau*	424,393	431,255
% y pennwyd nodweddion amrywiaeth ar eu cyfer	91.2%	89.3%

* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% pob grŵp cynulleidfa sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

	Dynion 16+	Menywod 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 16+	Anabl 16+	Ddim yn Anabl16+
2021/22	90%	90%	92%	88%	81%	89%	98%	92%	77%	91%	90%
2020/21	91%	89%	92%	87%	80%	90%	98%	92%	77%	91%	90%

% pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw

	Dynion 16+	Menywod 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 16+	Anabl 16+	Ddim yn Anabl16+
2021/22	66%	70%	75%	59%	64%	67%	72%	69%	62%	64%	69%
2021/22	16%	12%	12%	16%	13%	16%	13%	14%	17%	17%	14%

% pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw

	Dynion 16+	Menywod 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 16+	Anabl 16+	Ddim yn Anabl 16+
2021/22	51%	57%	58%	48%	50%	51%	59%	54%	47%	46%	55%
2021/22	26%	22%	23%	25%	24%	26%	22%	24%	27%	28%	24%

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+ Ipsos MORI 16+

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Dibenion cyhoeddus



Diben 5: Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

Mae'r dudalen ganlynol yn dangos y ffordd y mae'r BBC yn gweithio i hysbysu, addysgu a diddanu pobl ledled y byd

Mae gwasanaethau byd-eang y BBC yn ased gwerthfawr i'r DU. Bob wythnos maent yn cyflwyno diwylliant, llais a gwerthoedd nodedig y DU i gynulleidfa o 492 miliwn o bobl ledled y byd. Y BBC yw allforyn diwylliannol mwyaf adnabyddus y DU o hyd, gyda 60% o ymwybyddiaeth ledled y byd, ac mae dros 50% o ddefnyddwyr byd-eang yn dweud bod defnyddio'r BBC yn gwneud iddynt ystyried y DU mewn ffordd fwy cadarnhaol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld droeon y perygl cynyddol sy'n wynebu cymdeithasau a democrataethau ledled y byd yn sgil twyllwbyodaeth a chyfyngiadau ar ryddid y wasg - o ddamcaniaethau cynllwyn ynghylch brechlyn COVID-19 i'r rhyfel gwybodaeth yn Rwsia a Wcráin. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o Fyngai Rhyddid y Wasg Fyd-eang yn dangos bod newyddiaduraeth wedi'i hatal yn llwyr neu'n rhannol yn 73% o'r gwledydd a gaiff eu sgorio, ac ystyrir bod y sefyllfa yn "ddifrifol iawn" mewn 28 o wledydd, sef y nifer uchaf erioed. Yn ein darllediadau o'r ymosodiad ar Wcráin yn arbennig, mae'r BBC wedi dangos cymaint y gallwn ei wneud i amddiffyn uniondeb mewn newyddion a hyrwyddo gwerthoedd democrataidd yn fyd-eang.

Mae safle'r BBC fel un o'r brandiau cyfryngau yr ymddiriedir yn do fwyaf ac a gydnabyddir fwyaf yn y byd bob amser wedi cael rôl hollbwysig i'w chwarae ar gyfer y DU, ein cryfder diwylliannol a'n dylanwad ehangach dramor. Mae wedi dod hyd yn oed yn bwysicach yn yr oes twyllwbyodaeth fyd-eang.

60%

Y BBC yw allforyn diwylliannol mwyaf adnabyddus y DU o hyd, gyda 60% o ymwybyddiaeth ledled y byd.

Ffynhonnell: Tapestry Research

51%

Mae 51% o ddefnyddwyr byd-eang yn dweud bod defnyddio'r BBC yn gwneud iddynt ystyried y DU mewn ffordd fwy cadarnhaol.

Ffynhonnell: Tapestry Research

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Dibenion cyhoeddus

Diben 5: Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

492m Ifyny 1%

Cyrhaeddiad wythnosol byd-eang
Yn cynnwys BBC News a BBC Studios.

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

458m Ifyny 0.3%

BBC News
Cyfanswm y gynulleidfa wythnosol ryngwladol.

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

365m Ifyny 0.3%

Cyrhaeddiad wythnosol BBC World Service
Yn cynnwys teledu, radio, ar-lein a chyfryngau cymdeithasol yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

148m Ifyny 4%

Cyfanswm cyrhaeddiad digidol BBC World Service
Saesneg ac ieithoedd eraill.

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

Rhif 1

Y gorau am Ymddiriedaeth a Dibynadwyedd ymysg darparwyr newyddion rhyngwladol.

Ffynhonnell BBC Brand Tracker 2021 (heb y DU)

130m Ilawr 1%

Cyrhaeddiad wythnosol teledu BBC World Service
Ieithoedd heblaw am Saesneg.

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

159m Ifyny 1%

Cyrhaeddiad wythnosol radio BBC World Service
Saesneg ac ieithoedd eraill

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

63%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu'r DU i'r byd (14% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos MORI (UK) 16+



Uchod
Sana Safi o BBC Pashto, cyflwynydd Afghanistan and Me / Fideos esboniadol Ros Atkins On...

Tudalen gyferbyn
Podlediad A Wish for Afghanistan a gyflwynwyd gan Lyse Doucet



Gwasanaethau yn Wcráin a Rwsia

Wrth i Rwsia ddechrau ei hymosodiad ar Wcráin, trodd miliynau o bobl at BBC News yn Rwsieg ac Wcreineg i gael gwybodaeth annibynnol a chywir. Cynyddodd nifer yr ymwelwyr â'r wefan Rwsieg fwy na thair gwaith ar ddechrau'r rhyfel.

Yn wyneb ymdrechion Rwsia i atal cynnwys newyddion rhyngwladol, gweithiodd y BBC yn galetach i geisio cyrraedd cynulleidfaoedd ym mha bynnag ffordd y gallai. Lansiodd y BBC sianelau TikTok newydd, rhoddodd gyngor ar adnoddau osgoi a fyddai'n galluogi pobl i gyrraedd gwefannau newyddion, cynigiodd raglenni newyddion teledu'r BBC am ddim i rwydweithiau teledu eraill yn Ewrop, a lansiodd ddau amledd tonfedd fer newydd o raglenni Saesneg y World Service.



Affganistan

Mae newyddiadurwyr y BBC wedi bod yn dyst i gyfnodau eithriadol a brawychus yn Affganistan. Ochr yn ochr â gohebu diflino a dewr gan bob tîm wrth i Kabul syrthio i ddwylo'r Taliban, cafwyd dadansoddiad ehangach o'r wlad a'i dyfodol, gan ddefnyddio arbenigedd a phrofiadau personol.

Yn ei phodlediad *A Wish for Afghanistan* cyfwelodd Lyse Doucet ag Affganiaid, o arlywyddion i feirdd, gan drafod sut roedd yr 20 mlynedd diwethaf wedi dylanwadu arnyh nhw a'u gwlad. Cyflwynodd Sana Safi o BBC Pashto *Afghanistan and Me*, sef rhaglen ddogfen am y ffordd y mae ei bywyd ei hun wedi'i gysylltu â thynged ei gwlad. Cynhaliodd Yalda Hakim rai cyfweiliadau dadlennol â ffigurau blaenllaw o fewn y Taliban.

Mae gwasanaethau byd-eang y BBC yn ased gwerthfawr i'r DU. Bob wythnos maent yn cyflwyno diwylliant, llais a gwerthoedd nodedig y wlad hon i gynulleidfa o 492 miliwn o bobl ledled y byd



Ros Atkins

Cafodd cyfres o fideos esboniadol gan Ros Atkins yn amlinellu'r cefndir i bynciau a oedd yn werth rhoi sylw iddynt ei chanmol am ei didueddrwydd arloesol. Daeth y fideos yn llwyddiannau feirol ar y cyfryngau cymdeithasol, gan ddenu miliynau o wylwyr.

Defnyddiodd Ros, cyflwynydd *Outside Source* ar Sianel BBC News a BBC World News, ddeunydd fideo, erthyglau papur newydd, a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol i ddangos ei esboniadau cryno a chwbl ddiudedd o bynciau yn amrywio o iechyd i wleidyddiaeth ac economeg.



COVID-19

Parhaodd pandemig COVID-19 i hawlio'r penawdau byd-eang drwy gydol y flwyddyn. Defnyddiodd BBC World Service ei lwyfannau i gyd, gan gynnwys ei wasanaethau mewn 41 o ieithoedd, i addysgu a hysbysu ei gynulleidfa oedd ynghylch pynciau yn amrywio o'r gwaith ymchwil gwyddonol diweddaraf i gost ddynol y pandemig.

Mae mynd i'r afael â thwyllwbyodaeth am COVID-19 hefyd wedi bod yn rhan fawr o newyddiaduraeth y BBC, gyda thimau arbenigol fel BBC Reality Check a BBC Monitoring yn ymchwilio i ddamcaniaethau cynllwyn am y feirws a enillodd eu plwy ledled y byd.

→ t.180

Ar gyfer y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben 5



Cyrhaeddiad BBC World Service bob wythnos ar bob llwyfan fesul gwasanaeth

	2021/22 Miliynau	Newid o un flwyddyn i'r llall %		2021/22 Miliynau	Newid o un flwyddyn i'r llall %
Afaan Oromoo	1.7	1%	Rwsieg	4.7	-13%
Afrique	20.9	10%	Serbaidd	1.0	19%
Amhareg	2.0	-2%	Sinhala**	0.3	-65%
Arabeg	39.2	-6%	Somalieg	5.7	0%
Azeri	0.4	25%	Swahili	27.6	11%
Bengaleg	12.6	4%	Tamil*	13.0	-4%
Brasil	9.2	-12%	Telugu	9.5	2%
Byrmaneg	7.1	1%	Thai	1.4	-23%
Coreaidd	0.7	13%	Tigrinya	0.4	-6%
Dari	4.8	8%	Tsieina y DU	0.1	-18%
Dysgu Saesneg	2.4	-20%	Tsieinëeg	2.2	-18%
Fietnameg	1.5	14%	Twrceg	3.0	-14%
Gahuza	2.0	-0.4%	Wcreineg	4.2	4%
Gujarati	3.7	-17%	World Service Saesneg	92.5	1%
Hawsa	16.8	-1%	Wrdw***	5.3	-42%
Hindi*	32.3	31%	Wsbeg	3.5	19%
Igbo	1.8	-48%	Yoruba	6.3	9%
Indoneseg	5.6	-5%			
Kyrgyz	3.1	-1%			
Marathi	5.4	12%			
Mundo	12.6	-11%			
Nepali	4.9	18%			
Pashto	10.6	2%			
Perseg	18.9	2%			
Pidgin	7.9	-15%			
Punjabi	1.7	7%			

Mae'r Mesur Cynulleidfa Fyd-eang yn mesur faint o bobl sy'n defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob gwlad ar bob llwyfan (teledu, radio, gwefan a chyfryngau cymdeithasol) Mae dad-ddyblygu yn allweddol i hyn h y sicrhau na chaiff person sy'n defnyddio sawl gwasanaeth neu lwyfan gan y BBC neu ar ddyfeisiau lloosog ei gyfrif fwy nag unwaith yn y cyfanswm lefel uchaf Er enghraifft, mae'r gynulleidfa teledu, radio ac ar-lein ar gyfer BBC World Service yn llai na chyfanswm ei rhannau er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfrif pobl fwy nag unwaith wrth edrych ar gyfanswm cynulleidfa'r World Service

* Addaswyd y ffigurau ar gyfer 2021 i adlewyrchu'r ffaith bod fersiynau tonfedd fer y gwasanaethau hyn wedi cau ar y pryd Hindi 2021 cofnodwyd 28 miliwn, 2021 addaswyd 25 miliwn Tamil 2021 cofnodwyd 13.6 miliwn, 2021 addaswyd 13.5 miliwn Wrdw 2021 cofnodwyd 9.25 miliwn, 2021 addaswyd 9.24 miliwn

** Cafwyd lleihad yng nghyrrhaeddiad Sinhala am i'r gwasanaeth radio gau

*** Cafwyd lleihad yng nghyrrhaeddiad Wrdw ar ôl colli hawliau dosbarthu teledu drwy syndicet

Sicrhau gwerth i gynulleidfaeod

Mae'r BBC wedi parhau i sicrhau lefelau uchel o werth i gynulleidfaeod y flwyddyn hon mewn marchnad gyfryngau sy'n newid yn gyflym.

Gwelwyd perfformiad da y flwyddyn hon yn erbyn ein targedau cynulleidfaeod craidd, gyda 90% o oedolion y DU yn defnyddio ein gwasanaethau yn 2021/22 ar gyfartaledd bob wythnos. Yn ogystal, rhagorwyd ar ein targedau ym mhob un o'r elfennau sy'n helpu i wneud y BBC yn rhan a werthfawrogir o fywydau pobl o ran y cyfryngau: pa mor rheolaidd yw'r rhyngweithio, faint o amser a gaiff ei dreulio a faint o foddau'r BBC a ddefnyddir gan bobl yn ystod wythnos gyffredin.

Marchnad y cyfryngau dros y ddwy flwyddyn ddiwethaf

Fel gyda phob agwedd ar fywyd dros y ddwy flynedd diwethaf, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar ddefnydd pobl o'r cyfryngau.

Yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig – 2020/21 – arweiniodd y cyfyngiadau symud at gynnydd yn lefelau gwyllo teledu darlledu, gan gynnwys y BBC, a oedd wedi bod yn gostwng ers 2013/14. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn lefelau gwyllo fideo drwy danysgrifiad ar alw (SVOD) fel Netflix, Amazon Prime Video a Disney+. Wrth i bawb geisio cael y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod argyfwng byd-eang, cafwyd cynnydd mawr yn

nifer y rhai a oedd yn defnyddio cynnwys newyddion, yn enwedig ar-lein. Ar yr un pryd, wrth i'r pandemig darfu ar arferion dyddiol ac wrth i bobl deithio llai, bu gostyngiad yn nifer y gwrandawyr radio.

Yn ystod yr ail flwyddyn a ffocws yr adroddiad hwn – 2021/22 – mae'r effaith ar y cyfryngau yn parhau. Mae rhai tueddiadau a oedd i'w gweld cyn y pandemig wedi ailymddangos – er enghraifft, mae lefelau gwyllo teledu darlledu yn is o lawer o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf a'r cyfnod cyn COVID-19. Wrth i'r pandemig gyflymu tueddiadau a oedd eisoes i'w gweld, bu gostyngiad yn lefelau gwyllo gwasanaethau SVOD a'r defnydd o newyddion ar-lein o gymharu â chyfnod y cyfyngiadau symud yn 2020/21, ond maent yn dal i fod yn uwch nag yr oeddent yn 2019 cyn COVID-19. Mae nifer y gwrandawyr radio wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf wrth i bobl ddechrau cymudo a mynd nôl i'w trefn arferol unwaith eto. Mae cynigion diweddar Disney+ a TikTok bellach ymhlith y pum darparwr fideo mwyaf ar gyfer y rhai o dan 25 oed, yn ôl yr amser a gaiff ei dreulio.

Nawr – yn 2022/23 – wrth i gostau byw gynyddu, mae dylanwadau newydd yn dod i'r

amlwg. Mae dadansoddwyr yn rhagweld y bydd cartrefi yn lleihau nifer y tanysgrifiadau y maent yn eu talu.

Sut mae asesu perfformiad y BBC yn y byd cyfryngau datblygol hwn?

Gan edrych ar ein perfformiad yn 2021/22 ar ôl COVID-19, rydym yn dal i deimlo'r effeithiau, fel gweddill y farchnad.


Mae lefelau gwyllo'r BBC wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, ond yn llai na'r farchnad darlledu teledu gyffredinol. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio BBC News Online bob wythnos yn is o gymharu â 2021/22 pan roedd ffocws mawr ar newyddion ond yn uwch o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig. Mae lefelau defnydd wythnosol BBC Bitesize bellach wedi dychwelyd i lefelau 2019/20 ar ôl cyrraedd eu brig pan fu'n rhaid addysgu disgyblion gartref yn 2020/21, ac wrth i arholiadau dychwelyd, mae mwy o ddefnyddwyr mewn ysgolion uwchradd yn dweud bod y gwasanaeth yn eu helpu i ennill graddau uwch. Mae nifer y bobl sy'n gwrandao ar Radio'r BBC yn uwch o gymharu â chyfnod COVID-19 ond nid dros y tymor hwy tra bod Radio Masnachol yn fwy sefydlog, ar ôl i nifer y gwasanaethau gynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Gan edrych ar ein perfformiad yn 2021/22 ar sail y targedau a bennwyd gennym, rydym wedi cyflawni pob un ohonynt heblaw un.

Fel rhan o'n targedau i sicrhau gwerth i bawb, defnyddiodd 90% o oedolion yn y DU y BBC bob wythnos ar gyfartaledd yn ystod 2021/22 – yn unol â'n nod. Mae hyn yn debyg i'r cyrhaeddiad wythnosol o 92% ar ddechrau'r Siarter hon yn 2017/18 er gwaethaf y newidiadau amlwg yn ymddygiad y cyfryngau yn ystod y cyfnod hwn. Mae lefelau mabwysiadu gwasanaethau SVOD a gwasanaethau sain ar alw wedi dyblu bron ers 2017 sy'n golygu bod gan 26 miliwn yn fwy o bobl fynediad at wasanaethau SVOD nawr a bod 12 miliwn yn fwy o oedolion yn defnyddio cynhyrchion sain ar alw fel Spotify.

Fel rhan o'n ffocws ar heriau allweddol sy'n ymwneud â chynulleidfaeod, defnyddiodd 81% o bobl rhwng 16 a 34 oed y BBC bob wythnos ar gyfartaledd yn 2021/22, sy'n

Cyfryngau dros gyfnod y Siarter hyd yma



Rôl ymdrechion y BBC o ystyried maint y newid yn y cyfryngau dros y pum mlynedd diwethaf
Ffynhonnell BARB Establishment Survey; Ofcom; RAJAR/MIDAS; Compass by Ipsos MORI

uwch na'r targed. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd diwethaf er gwaetha'r gystadleuaeth ffyrnig. Mae'r grŵp oedran hwn yn gadarnhaol iawn am ein hymdrechion i gyflawni'r genhadaeth ac mae eu sgôr i berthnasedd personol y BBC yn unol â'r targed ond mae eu sgoriau'n is na chynulleidfaeodd hŷn.

Ymhlith pobl ifanc o dan 16 oed, defnyddiodd 73% y BBC yn gyffredinol a defnyddiodd 53% ein gwasanaethau plant ac addysg bob wythnos ar gyfartaledd yn 2021/22 ac mae'r ddau ffigur yn unol â'n targedau. Fodd bynnag, mae ein lefelau perfformiad yn tueddu i fod yn is, yn enwedig ymhlith plant 7 i 12 oed, wrth i gwmnïau cyfryngau byd-eang ganolbwytio ar bobl ifanc o dan 16 oed.

Y BBC yw'r unig ddarparwr yn y DU sy'n cystadlu ag YouTube a Netflix ymhlith pobl ifanc o dan 16 oed a phobl rhwng 16 a 34 oed. Fel rhan o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar, caiff £300 miliwn ei ailfuddsoddi mewn dulliau digidol, gan gynnwys symud symiau sylweddol o arian i raglenni newydd ar gyfer iPlayer. Rydym yn canolbwytio ar helpu i gynnal effaith cynnwys a darlledu cyhoeddus yn y DU i bobl o bob oed, yn enwedig pan amcangyfrifir bod cynulleidfaeodd yn y DU yn treulio tri chwarter o'u hamser ar wasanaethau SVOD yn gwylio teitlau o'r Unol Daleithiau, sy'n cynyddu i bron i 80% ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed yn y DU.

Ymhlith ein cynhyrchion ar-lein, cyflawnwyd y targedau ar gyfer iPlayer, a oedd yn uwch na'r flwyddyn ddiwethaf, a rhagorwyd ar y targedau ar gyfer BBC News Online. Llwyddodd Sounds i gyflawni'r uchelgais a bennwyd ar gyfer nifer y cyfrifon sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos ond roedd ychydig islaw'r targed ar gyfer cyfrifon sy'n perthyn i bobl rhwng 16 a 34 oed. Fodd bynnag, ers hynny, mae wedi bod yn cyflawni'r nod hwn yn ystod wythnosau cyntaf 2022/23. Er mwyn adlewyrchu ein strategaeth digidol yn gyntaf, o'n Hadroddiad Blynyddol nesaf byddwn yn gwella'r dull o adrodd ar berfformiad gwasanaethau digidol y BBC a'u cyfraniad at y genhadaeth a'r dibenion.

Gan edrych ar asesiad y cyhoedd o'n perfformiad yn 2021/22, dyma'r farn sydd bwysicaf i ni.

Yn 2021/22, parhaodd 58 miliwn o bobl yn y DU i ddefnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd. Gyda'r dewisiadau sydd ar gael heddiw, treuliodd oedolion 17½ awr gyda ni bob wythnos ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu â 18 awr yn 2020/21, a oedd yn uwch oherwydd y cyfyngiadau symud, a 17¾ awr yn 2019/20. Mae apêl greadigol a gallu'r BBC i'n dwyn ynghyd yn parhau: yn 2021, roedd y BBC yn gyfrifol am 15 o'r 18 o ddarllediadau drama teledu a ddenodd cynulleidfaeodd o fwy na deg miliwn, cynnydd o gymharu â 2019 pan lwyddodd wyth drama, a gynhyrchwyd i gyd gan y BBC, i ddenu mwy na deg miliwn (y BBC i gyd). Parhaodd sgôr gyfartalog oedolion ar gyfer gwerth am arian yn bump allan o ddeg ac argraff gyffredinol yn saith allan o ddeg.

Yn gyffredinol, mae 75% o oedolion y DU o'r farn bod y BBC yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr i bobl y DU. Y BBC sy'n cael ei enwi amlaf pan ofynnir i'r cyhoedd

Perfformiad yn erbyn targedau cynulleidfaeodd 2021/22 Sicrhau gwerth i gynulleidfaeodd yn gyffredinol

Cyrhaeddiad y BBC % yr oedolion 16+ yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI	90% Targed 85-90%
Arfer a werthfawrogrir gyda'r BBC % yr oedolion 16+ yn y DU sy'n defnyddio'r BBC 5+ diwrnod bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI	72% Targed 65-70%
% yr oedolion 16+ yn y DU sy'n defnyddio'r BBC 5+ awr bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI	62% Targed 55-60%
% yr oedolion 16+ yn y DU sy'n defnyddio dau neu fwy o foddau'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI	71% Targed 65-70%
Parhau i ganolbwytio ar heriau allweddol o ran cynulleidfaeodd	
Oedolion ifanc	
Cyrhaeddiad y BBC % y bobl 16-34 oed yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI	81% Targed 75-80%
Perthnasedd personol Sgôr pobl 16-34 oed yn y DU ar gyfer 'mae'r BBC ar fy nghyfer i' (sgôr gymedrig allan o 10) Ffynhonnell Kantar Media	6/10 Targed 6/10
O dan 16 oed	
Cyrhaeddiad y BBC % y rhai o dan 16 oed yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI	73% Targed 70-75%
Cyrhaeddiad gwasanaethau Plant/Addysg y BBC % y rhai o dan 16 oed yn y DU sy'n defnyddio gwasanaethau Plant/Addysg y BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI	53% Targed 50-55%
Cyflymu gweithgarwch sy'n ganolog i ymdrechion parhaus ac ymdrechion yn y dyfodol i sicrhau gwerth i gynulleidfaeodd	
Cyrhaeddiad BBC iPlayer ar gyfer defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi Cyfrifon wythnosol cyfartalog sy'n mewngofnodi i BBC iPlayer Cyfrifon yn gyffredinol Ffynhonnell Data Cyfrif AT Internet/y BBC	12.1m Target 12-12.5m
Cyfrifon y rhai o dan 35 oed Ffynhonnell Data Cyfrif AT Internet/y BBC	3.8m Targed 3.5-4m
Amser a dreulir ar BBC iPlayer y pen bob wythnos Amser cyfartalog a dreulir y pen bob wythnos Ffynhonnell Munudau gwylwyr wedi'u dad-ddyblygu wedi'u modelu o BARB/AT Internet	01:00^o:m Targed 1 awr
Sgôr BBC iPlayer Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC iPlayer (sgôr gymedrig allan o 10) Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU Ffynhonnell YouGov	8 allan o 10 Targed 8 allan o 10
Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU Ffynhonnell YouGov	8 allan o 10 Targed 8 allan o 10
Cyrhaeddiad BBC Sounds ar gyfer defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi Cyfrifon wythnosol cyfartalog sy'n mewngofnodi i BBC Sounds Cyfrifon yn gyffredinol Ffynhonnell Data Cyfrif AT Internet/y BBC	3.8m Targed 3.8-4.1m
Cyfrifon y rhai o dan 35 oed Ffynhonnell Data Cyfrif AT Internet/y BBC	0.57m Targed 0.6m+
Cyrhaeddiad BBC News Online % sy'n defnyddio BBC News Online bob wythnos ar gyfartaledd Oedolion yn y DU 16+ Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI	34% Targed 30%+
16-34 oed yn y DU Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI	33% Targed 30%+

→ **t.168**

Am ragor o wybodaeth am berfformiad y BBC gweler y pecynnau data ar berfformiad

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

ddewis un darparwr sy'n pennu'r safon ar gyfer y cyfryngau yn y DU ac mae ymhell o flaen y darparwr nesaf. Ond nid ydym yn hunanfodlon.

Bydd hi'n fwyfwy anodd sicrhau pob rhyngweithiad, o ystyried y dewis sydd ar gael i bawb; tueddiadau sy'n symud yn gyflym yn y cyfryngau, yn enwedig ymhlith cynulleidfaoedd hŷn; a chostau byw. Mae angen i ni weithio'n barhaus i sicrhau ein bod yn cynnig rhywbeth i bawb. Mae gwahaniaethau yn y modd rydym yn gwasanaethu cynulleidfaoedd gwahanol rydym yn ceisio eu lleihau. Mae hyn yn arbennig o wir ymhlith y rhai sy'n fwy tebygol o ddod o gefndiroedd llai cefnog, pobl sy'n perthyn i leiafrifoedd ethnig, pobl sy'n anabl a phobl iau o gymharu â'u grwpiau cymharol. Mae perfformiad mewn gwahanol rannau o'r DU yn amrywio gormod hefyd. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella canfyddiadau o ddiueddrwydd.

Fel y dengys ein hymrwymadau diweddar, rydym wedi amlinellu ein huchelgeisiau i ddatblygu sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn amlinellu sut mae ein cynlluniau Across the UK eisoes yn cael eu rhoi ar waith i adlewyrchu pob rhan o'r wlad yn well yn ogystal â chynrychioli lleisiau a safbwyntiau gwahanol yn fwy effeithiol. Mae ein cynllun gweithredu deg pwynt ar ddiueddrwydd hefyd ar waith.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau 2021/22 ac yn parhau i geisio gwasanaethu'r cyhoedd yn well.

Ymgysylltu â chynulleidfaoedd



Mae'n bwysicach nag erioed bod y BBC yn sicrhau gwerth i bawb a chaiff ein strategaeth ei hategu gan ddealltwriaeth ddofn o gynulleidfaoedd ledled y DU.

Mae'r BBC yn casglu barn ac adborth gan gynulleidfaoedd mewn llawer o ffyrdd ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad; drwy gomisiynu cynnwys, newyddiaduraeth, datblygu cynhyrchion digidol, marchnata a thu hwnt.

Mae'r ffynonellau a ddefnyddiwn yn amrywio o rai arsylwadol – drwy adnoddau mesur y cyfryngau ac adnoddau dadansoddi digidol, i rai mwy myfyriol lle rydym yn gofyn i bobl y DU am eu barn ystyrion ar yr hyn y maent yn ei werthfawrogi gan y BBC. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys:

- un o ymarferion mwyaf blaenllaw'r diwydiant i fesur dewisiadau o ran y

cyfryngau yn y DU ar bob llwyfan (Teledu, Radio, Ar-lein)

- buddsoddiad parhaus yng ngwerthoedd mesur y cyfryngau yn y DU
- adnoddau dadansoddi digidol dwfn: gyda set ddata ddigidol gynhwysfawr i'n helpu i ddeall sut mae pobl yn defnyddio ein cynhyrchion digidol
- arolygon a pholau piniwn rheolaidd i ddeall agweddau ac ymatebion y DU i'n harlwy
- cysylltiadau dyddiol gan ein cynulleidfa – gyda mwy na 630,000 o ffurflenni gwe, negeseuon e-bost, llythyrau a galwadau i'n canolfannau cyswllt bob blwyddyn

Ar y cyd, mae'r data hyn yn ein helpu i feithrin dealltwriaeth gyfoethog o fywyd ledled y DU; ond gwyddom nad oes dim yn well na chwrdd â'n cynulleidfaoedd yn y cnawd ac am y rheswm hwn, rydym wedi datblygu rhaglen ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar gyfer y sefydliad cyfan ('BBC Virtual In Person') sy'n ein galluogi i gysylltu ein staff ag aelodau o'r cyhoedd yn rheolaidd.

Cyn COVID-19, gweithgarwch wyneb yn wyneb oedd hwn ond ar ôl cynnal sesiynau ar-lein drwy gydol y pandemig, daeth yn amlwg bod gweithio'n 'rhithwir' yn ffordd hynod o effeithiol a chost-effeithiol o siarad â chynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU. Sefydlwyd BBC Virtual In Person (VIP) ar ddechrau cyfnod y cyfyngiadau symud cyntaf ac mae'n cynnig rhaglen o drafodaethau fideo byw

rhwng aelodau o'r gynulleidfa a staff y BBC, a gaiff eu harsylwi gan lunwyr cynnwys, newyddiadurwyr, uwch-arweinwyr ac aelodau bwrdd.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi cynnal 122 o sesiynau Virtual In Person unigol lle cafodd 3,192 o gynrychiolwyr o'r BBC gyfle i gyfarfod â 738 o aelodau o'r gynulleidfa. Rydym wedi siarad â nhw am amrywiaeth eang o bynciau, o straeon newyddion lleol a chenedlaethol, radio lleol a chenedlaethol, podlediadau, y mathau o gynnwys teledu y maent yn eu mwynhau, yn ogystal â sesiynau ar bynciau penodol fel newid yn yr hinsawdd, costau byw a phortreadu pobl ar sgrin mewn ffordd ddilys.

Mae'r sesiynau VIP yn ein galluogi i siarad â phobl yn eu cartrefi eu hunain, sy'n golygu eu bod yn fwy cyfforddus a hyderus i leisio eu barn onest ar gynnwys, cynhyrchion a gwasanaethau'r BBC. At hynny, gallwn siarad â chynulleidfaoedd o bedair rhan y DU, o wahanol gefndiroedd ethnig a chymdeithasol, hen ac ifanc, yn llawer haws nag yn y gorffennol.

Roedd aelodau o Fwrdd y BBC, Pwyllgor Gweithredol y BBC, Pwyllgorau Gwledydd y BBC a'r Uwch-grŵp Gweithredol, yn ogystal â gwneuthurwyr penderfyniadau o feysydd Newyddion, Cynnwys, y Gwledydd a meysydd corfforaethol eraill, yn bresennol yn y sesiynau.

Cyfranogwyr Virtual in Person





ADRODDIAD GWEITHREDOL

t.52

Adolygiad y Prif
Swyddog Gweithredu

t.59

Ein pobl

t.65

Adroddiad ar y Bwlch
Cyflog rhwng y Rhywiâu

t.68

Ymgynoriadau

t.69

Cynaliadwyedd

t.73

Gwaith elusennol

t.74

Partneriaethau a
mentrau cydweithredol

Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu

Fel y dangosir yn yr adroddiad hwn, ein prif ffocws yw sicrhau gwerth i bob cynulleidfa. Rydym yn parhau i adeiladu BBC sy'n ddigidol yn gyntaf er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn mewn byd sy'n newid.



Prif Benawdau ar gyfer 2021/22

Incwm o ffi'r drwydded

£3,800^m

2021/22: £3,750m

Incwm masnachol

£1,718^m

2021/22: £1,384 miliwn

Arbedion cronrol

£1^{bn}

cyflawnwyd ers 2016/17

Y gorbenion gorau yn y diwydiant o fewn

5%

i sylfaen costau gwasanaeth cyhoeddus

Gwneud yn siŵr bod ffi'r drwydded yn parhau i sicrhau gwerth i gynulleidfa oedd yw ein prif flaenoriaeth – rydym yn parhau i ddarparu cynnwys a gwasanaethau o'r flaenaf i'n cynulleidfa oedd am gyn lleied â 44c y diwrnod.

Ar ddiwedd y flwyddyn, rydym mewn sefyllfa ariannol gadarn gyda gwarged grŵp o £206 miliwn. Gan ein bod wedi rheoli ein cyllid a'n gweithrediadau'n ofalus ac wedi gweithredu mentrau arbed arian a dulliau lliniaru chwyddiant, mae ein cronfeydd arian parod gwasanaeth cyhoeddus yn £573 miliwn ar 31 Mawrth 2022. Cyrhaeddodd yr incwm o ffi'r drwydded £3.8 biliwn, sy'n dangos ymrwymiad ein cynulleidfa oedd i dalu ffi'r drwydded. Gwnaethom fuddsoddi £3 biliwn mewn cynnwys a gwasanaethau digidol, gan gyflwyno rhaglennu a gwasanaethau o safon i gynulleidfa oedd gan gynnwys darllediadau o ddigwyddiadau chwaraeon mawr gan gynnwys Gemau Olympaidd yr Haf yn Tokyo a Phencampwriaeth Pêl-droed Ewrop.

Cynyddu incwm masnachol yw un o'n pedair prif flaenoriaeth, ynghyd ag ymrwymiad o'r newydd i sicrhau natur ddiudedd, ffocws ar gynnwys unigryw, o bwys a sicrhau mwy o werth ar-lein. Y flwyddyn hon, gwelsom y perfformiad gorau erioed gan ein his-gwmniau masnachol, gyda BBC Studios yn rhagori ar ei darged o gyflawni enillion o £1.2 biliwn i Grŵp y BBC gyda chyfanswm o £353

miliwn, sef ei enillion blynyddol mwyaf erioed. Cyflawnodd y Grŵp Masnachol dwf o 24% mewn incwm i £1,718 miliwn a thwf o 57% mewn EBITDA i £226 miliwn.

Ein nod yw adeiladu ar lwyddiannau ein gweithrediadau masnachol, gan fanteisio ar y galw cynyddol am gynnwys o safon. Bydd y Bwrdd Masnachol diwygiedig yn helpu drwy gynyddu'r sylw a roddwn ar dwf a gwerth hirdymor.

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon setliad ffi'r drwydded hyd at ddiwedd y Siarter. Caiff ffi'r drwydded ei rhewi am ddwy flynedd o 2022/23 ac yna bydd yn cynyddu yn unol â chwyddiant y Mynegai Pris Defnyddwyr dros y pedair blynedd ddilynol. O ganlyniad, rydym yn rhagweld y bydd yn ofynnol i ni sicrhau arbedion blynyddol o £285 miliwn erbyn 2027/28 i liniaru colled y cynnydd chwyddiant ar ffi'r drwydded dros y ddwy flynedd nesaf. Daw hyn ar adeg o chwyddiant economaidd cyffredinol uchel a chwyddiant uwch yn y diwydiant (lle mae cystadleuaeth am adnoddau cynhyrchu cyfyngedig yn cynyddu prisiau cynnwys ar gyfradd gyflymach nag yn yr economi ehangach) yn y dirwedd cyfryngau hynod gystadleuol, yr ydym yn parhau i'w fonitro'n agos.

Fodd bynnag, mae gennym hanes sicr o gyflawni arbedion a byddwn yn parhau i nodi arbedion lliniarol wrth i risgiau ddod i'r amlwg. Yn 2016, mewn ymateb i setliad ffi'r drwydded yn 2015, dechreuodd y BBC ar raglen o arbedion a diwygiadau gan dargedu arbedion parhaus o £800 miliwn erbyn 2021/22. Y flwyddyn hon, rydym wedi llwyddo i gyflawni £274 miliwn ychwanegol o arbedion blynyddol gan ddod â chyfanswm yr arbedion ar ddiwedd y cynllun i £1,029 miliwn, gan gynnwys £38 miliwn o arbedion untro. Daeth adolygiad SAG o arbedion a diwygiadau ym mis Rhagfyr 2021 i'r casgliad ein bod wedi cyflawni arbedion yn gyson dros y degawd diwethaf. Mae'r ffaith y nodwyd arbedion a gyflawnwyd i'w groesawu a byddwn yn parhau i geisio rhagor o gyfleoedd i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i gynnal ein cyfraddau gorbenion gorau yn y diwydiant, o fewn 5% i sylfaen costau gwasanaethau cyhoeddus, sy'n golygu ein bod yn y chwarter uchaf ar gyfer sefydliadau cymaradwy.

Rydym yn ymrwymedig i gyflawni BBC sy'n fwy darbodus ac yn fwy effeithlon. Cyflwynodd y pandemig gyfle i ail-lunio a symleiddio strwythur y BBC wrth i ni roi rhaglen diswyddiadau gwirfoddol ar waith ac atal prosesau recriwtio ar gyfer rolau nad ydynt yn hanfodol i'r busnes. Gwnaethom barhau i weld effaith hyn y flwyddyn hon ac, ynghyd â mentrau arbedion, gostyngodd nifer y gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus cyfwerth ag amser llawn 409 o un flwyddyn i'r llall i 17,781. Fel rhan o gynlluniau'r BBC i gefnogi ffyniant bro ledled y DU, rydym wedi ymrwmo i gynyddu nifer y prentisiaid i 1,000 erbyn 2025. Ym mis Chwefror 2022, gwnaethom agor ein canolfan gyntaf i brentisiaid, sef menter newydd i greu amrywiaeth eang o gyfleoedd creadigol a digidol wedi'u lleoli yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a'r cyffiniau.

Aethom ati'n llwyddiannus i ddelio â'r heriau a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19 gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch ein cydweithwyr. Ynghyd â gweddill diwydiant creadigol y DU, amharodd COVID-19 yn ddifrifol ar ein gweithrediadau a chafodd effaith sylweddol ar ein cynlluniau a'n sefyllfa ariannol yn 2020/21. Arweiniodd cyfyngiadau symud y Llywodraeth at oedi o ran cynrychiadau a gohirio digwyddiadau byw a digwyddiadau chwaraeon. Gwnaethom barhau i weld effaith hyn yn 2021/22 gan fod protocolau iechyd a diogelwch llym a gofynion i gadw pellter cymdeithasol ar waith o hyd, a arweiniodd at gostau ychwanegol. Aethom i wariant ychwanegol hefyd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon mawr a ohiriwyd a gwariant cynhyrchu o 2020/21.

Ar ôl wynebu ail flwyddyn lawn o'r ymateb i bandemig COVID-19, mae'r BBC wedi dechrau symud i ffyrdd arloesol newydd o weithio; gwnaed hyn wrth ymateb i sawl argyfwng rhyngwladol. Rydym wedi tynnu'r rhan fwyaf o'n pobl o Affganistan ac Wcráin ac wedi rhoi rhagor o gynlluniau wrth gefn ar waith i gefnogi ein cydweithwyr yn ein Swyddfa ym Moscow. Drwy gydol y digwyddiadau hyn, rydym wedi llwyddo i barhau i gyflwyno darllediadau annibynnol a diduedd i filiynau o bobl yn ddiogel.

Ar ran y Pwyllgor Gweithredol cyfan, hoffwn ddiolch i bob aelod o staff am yr hyblygrwydd, yr ymroddiad a'r gwydnwch anhygoel a ddangoswyd ganddynt. Rwy'n hynod o falch o'r cynnwys, y creadigrwydd a'r arloesedd eithriadol y mae ein timau yn eu cyflawni a'u galluogi bob dydd. Hoffwn ddiolch yn bersonol i'n cyflenwyr a'n contractwyr sydd wedi parhau i gefnogi ein gweithrediadau a'n hallbwn drwy gydol y cyfnod heriol hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am berfformiad Grŵp y BBC dros y flwyddyn ddiwethaf a materion penodol fel cyfraniadau pensiwn, treth a pharhau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Gwnaethom hefyd nodi manylion ar y cymorth a gynigir gennym i'n pobl; ein metrigau staffio craidd; crynodeb o'n hadroddiad gwybodaeth am gydraddoldeb; a'n hadroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ceir gwybodaeth am ein cefnogaeth i elusennau ar dudalen 73, ynghyd â'r modd rydym wedi ymgysylltu â chynulleidfaoedd (tudalen 50) a phartneriaid (tudalen 74). Rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn targedau cynaliadwyedd amgylcheddol ar dudalen 69.

Gan edrych i'r dyfodol, rydym mewn sefyllfa ariannol gadarn i wrthsefyll pwysau ariannol parhaus ac mae camau lliniaru ar waith i reoli blwyddyn gyntaf setliad ffi'r drwydded a chynnydd mewn chwyddiant yn y farchnad. Dros y flwyddyn i ddod mae'n rhaid i ni barhau i reoli ein gweithrediadau a'n cyllid yn ofalus i sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o drawsnewid y sefydliad a bod yn fwy effeithlon. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein huchelgeisiau strategol a sicrhau gwerth i bob cynulleidfa.



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog Gweithredu
23 Mehefin 2022

Adroddiad gweithredol Ein sefyllfa ariannol

Drwy reoli ein cyllid yn ofalus, rydym mewn sefyllfa ariannol gadarn ar ddiwedd y flwyddyn i helpu i liniaru'r heriau ariannol a gyflwynir gan setliad diweddar ffi'r drwydded yn 2022/23.

Incwm

Rydym yn parhau i weld ymrwymiad cryf gan gynulleidfaoedd i dalu ffi'r drwydded. Mae nifer y trwyddedau y telir amdanynt sydd mewn grym wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, ers i'r hysbysiad cyffredinol ddirwyn i ben, a weithredwyd fel rhan o'r broses o drosglwyddo i'r polisi newydd ar gyfer pobl dros 75 oed, mae cyfanswm y trwyddedau cyffredinol sydd mewn grym wedi gostwng. Cynyddodd ffi flynyddol y drwydded yn unol â chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o £157.50 i £159.00 ym mis Ebrill 2021. Gwnaethom gasglu £3.8 biliwn o incwm ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn, i fyny 1% o gymharu â 2020/21. Cadarnhaodd setliad diweddar ffi'r drwydded y bydd ffi'r drwydded yn parhau yn £159.00 hyd at fis Mawrth 2024, gan godi yn unol â chwyddiant ar gyfer y pedair blynedd ddilynol. Ceir rhagor o fanylion ar incwm ffi'r drwydded yn nodyn B2 o'r datganiadau ariannol.

Ymhlith yr incwm arall mae cyfraniad ein gweithrediadau masnachol ac incwm o werthiannau trydydd parti. Cynyddodd yr incwm arall 16% o un flwyddyn i'r llall i £1,530 miliwn, wedi'i ysgogi gan flwyddyn o

dwf masnachol sylweddol er gwaethaf y ffaith bod COVID-19 wedi creu tarfu ac ansicrwydd parhaus, a chystadleuaeth ddwys yn y farchnad am dalent a chwsmeriaid. Cyflawnodd BBC Studios y gwerthiannau gorau erioed o ganlyniad i gynnydd mewn referniw cynyrchiadau, gwerthiannau cynnwys yn cyrraedd £400 miliwn am y drydedd flwyddyn yn olynol, UKTV yn cyflawni ei gyfran fwyaf erioed o'r gynulleidfa yn 2021, a referniw hysbysebu sylweddol wrth i'r farchnad adfer ar ôl COVID-19.

O ystyried y sefyllfa sy'n gwaethygu yn Wcráin a'r galw cynyddol am newyddiaduraeth ddiduedd sy'n seiliedig ar ffeithiau, cafodd BBC World Service gyllid ychwanegol o £4 miliwn gan Lywodraeth EM. Mae'r cyllid yn helpu i greu cynnwys i wrthwynebu twyllwbyodaeth ac i barhau i gyflwyno darllediadau newyddion diduedd a chywir yn Wcráin a Rwsia drwy amrywiaeth o sianelau.

Casglu ffi'r drwydded

Mae systemau rheoli ariannol effeithiol yn rhan allweddol o gydberthynas unigryw'r BBC a'n cynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys gwario ffi'r drwydded yn effeithlon a chasglu ffi'r drwydded deledu gan bawb y mae'n ofynnol iddynt brynu un. Caiff y broses o gasglu ffi'r drwydded ei hategu gan ofyniad cyfreithiol i brynu trwydded os byddwch yn gwylio neu'n recordio rhaglenni sy'n cael eu dangos ar y teledu; yn gwylio ffrydiau byw drwy wasanaeth teledu ar-lein;

1% o gynnydd mewn incwm o ffi'r drwydded

24% o dwf incwm masnachol

£3 biliwn o fuddsoddiad mewn cynnwys o safon ac ehangu gwasanaethau digidol

Mwy na 95% o wariant gwasanaeth cyhoeddus wedi'i neilltuo ar gyfer cynnwys a'i ddarparu

£1 biliwn o arbedion wedi'u sicrhau ers 2016/17

Mae cronfeydd arian parod yn helpu i reoli blwyddyn gyntaf setliad ffi'r drwydded

neu'n lawrlwytho neu'n gwylio rhaglenni'r BBC ar iPlayer (yn fyw, drwy'r gwasanaeth dal i fyny neu ar alw).


Mae gan y BBC nifer o drefniadau cytundebol sy'n cwmpasu'r gwaith o gasglu, gweinyddu a gorfodi ffi'r drwydded, marchnata, rheoli sianelau talu a rhwydweithiau manwerthu. Mae'r mwyafrif o'r gwaith gweinyddol wedi ei roi ar contract i Capita Business Services Ltd. Dyma ddegfed blwyddyn y contract casglu cyfredol, sydd wedi cael ei ymestyn 5 mlynedd arall o fis Gorffennaf 2022.

Datganiad Incwm

Datganiad incwm	Beth ydyw?	2021/22 £m	2020/21 £m	Beth sydd wedi digwydd?
Incwm o ffi'r drwydded	Cyfanswm y ffioedd trwyddedau a gasglwyd	3,800	3,750	Cynnydd o 1% o ganlyniad i'r cynnydd yn y Mynegai Pris Defnyddwyr ac ymrwymiad cynulleidfaoedd i dalu ffi'r drwydded
Incwm arall	Incwm masnachol ac incwm grant	1,530	1,314	Mae'r perfformiad masnachol gorau erioed wedi arwain at gynnydd o 16% mewn incwm
Cyfanswm incwm		5,330	5,064	
Costau gweithredu	Cost cynhyrchu'r holl gynnwys a rhedeg y BBC	(5,231)	(4,799)	Cynnydd mewn gwariant oherwydd blwyddyn gadarn o ddarparu cynnwys a thwf masnachol
Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau	Ein cyfran o elw'r busnesau lle rydym yn rheoli 50% neu lai	25	25	Mae'r canlyniadau'n cynnwys BritBox International a BBC America
Gwaged weithredu		124	290	
Enillion ar waredu	Elw/colled o waredu gweithrediadau ac asedau sefydlog	28	(1)	Yn cynnwys gwerthu eiddo Llandaf a gwaredu tybiedig House Productions Ltd
Colledion eraill	Colled net ar symudiadau mewn offerynnau ariannol	(13)	(2)	Yn adlewyrchu newidiadau yng ngwerth teg deilliadau ac opsiynau gwerthu a ddefnyddiwyd
Incwm/costau ariannu net	Y llog net ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn y BBC, llog ar fenthyciadau a symudiadau gwerth teg ar ddeilliadau	47	(74)	Enillion net o offerynnau ariannol o ganlyniad i symudiadau ffafriol yn y farchnad.
Trethiant	Y credyd treth net ar gyfer y flwyddyn	20	14	Yn cynnwys credydau treth teledu o'r radd flaenaf a gaiff eu gwrthbwysu'n rhannol gan daliadau treth gorfforaeth
Gwaged y Grŵp am y flwyddyn		206	227	

Sut y caiff ffi fisol y drwydded ei gwario

2021/22 £13.25 fesul aelwyd (2020/21: £13.13)



Rydym yn parhau i reoli ein gwariant yn ofalus i sicrhau ein bod yn buddsoddi'r adnoddau sydd ar gael mewn cynnwys a gwasanaethau o safon. Mae ein cyfraddau gorbenion yn parhau i fod o fewn 5% o sylfaen costau gwasanaeth cyhoeddus, ac felly mae mwy na 95% o'n gwariant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnwys a'i gyflwyno.

Arian parod a dyled net

Balans arian parod gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2022 oedd £573 miliwn. Mae hyn yn gynydd o £308 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol wedi'i ysgogi gan fentrau arbedion a gyflawnwyd, yn cynnwys arbedion untro, ac amseru'r gwariant. Mae ein cronfeydd arian parod yn golygu ein bod mewn sefyllfa ariannol gadarn i reoli drwy gydol blwyddyn gyntaf setliad ffi'r drwydded, gan gadw digon o gronfeydd arian parod i allu amseru llif arian parod ar gyfer gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Caiff ein terfynau benthyca eu gosod gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ar 31 Mawrth 2022, ein dyled net oedd £1,199 miliwn, a oedd o fewn ein terfynau benthyca o £2,750 miliwn, sy'n cynnwys £2,200 miliwn yn benodol ar gyfer prydlesau. Mae Grŵp y BBC wrthi'n cadarnhau trefniadau gyda Llywodraeth EM i gynyddu'r cyfyngiad benthyca ar gyfer cangen fasnachol y BBC i £750 miliwn (heb gynnwys prydlesau) dros amser. Bydd hyn yn galluogi BBC Studios, fel prif is-gwmni masnachol y BBC, i fuddsoddi mewn mentrau twf er mwyn cynyddu incwm masnachol. Ceir rhagor o fanylion ar ein benthyciadau yn nodiadau G2 a G3 o'r datganiadau ariannol.

Is-gwmnïau masnachol

Un o'n pedair prif flaenoriaeth strategol yw cynyddu ein hincwm masnachol. Bydd ein gweithgarwch masnachol yn dod yn gynyddol bwysicach yn y dyfodol wrth i ni ehangu ein gweithrediadau i gyflawni'r enillion uchaf posibl i Grŵp y BBC. Bydd Bwrdd Masnachol newydd y BBC (Bwrdd Daliadau Masnachol y BBC yn flaenorol), sy'n weithredol o 1 Ebrill 2022, yn goruchwyllo'r broses o gyflawni ein huchelgeisiau gan ganolbwyntio ar ysgogi twf drwy ddwyn ynghyd brofiad masnachol, ariannol a digidol ychwanegol o'r aelodau bwrdd sydd newydd gael eu penodi. Sicrhaodd Grŵp Masnachol y BBC EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amortiddiad) o £226 miliwn, o gymharu â £144 miliwn yn 2020/21.

Gwelodd BBC Studios, prif is-gwmni masnachol y BBC, dwf cadarn dros y flwyddyn ddiwethaf wrth i'r busnes adfer ar ôl y pandemig. Cofnododd BBC Studios incwm o £1,630 miliwn, i fyny 30% o un flwyddyn i'r llall, gan arwain at gynydd o 50% mewn EBITDA i £226 miliwn. Daeth BBC Studios yn gyfrifol am reoli BBC Global News ar 1 Gorffennaf 2021, gan gyfuno

Mae'r dull casglu presennol yn parhau i fod yn deg ac yn effeithiol gan sicrhau gwerth am arian. Rydym yn cynnig amrywiaeth o ddulliau talu yn cynnwys mewn siopau, dros y ffôn ac ar-lein. Rydym yn parhau i gefnogi'r sawl sy'n cael anawsterau ariannol drwy gynnig y Cynllun Talu Syml, cynllun talu hyblyg sy'n lledaenu cost ffi'r drwydded dros 12 mis. Ym mis Awst 2020, llwyddom i ddechrau casglu ffi'r drwydded gan bobl gymwys sydd dros 75 oed. Roedd y Llywodraeth yn arfer darparu trwyddedau am ddim, ond trosglwyddwyd y ddarpariaeth i'r BBC fel rhan o setliad diwethaf ffi'r drwydded. Mae trwyddedau teledu am ddim ar gael i unrhyw un dros 75 oed sy'n cael Credyd Pensiwn*.

* Mae deiliaid trwydded sydd dros 75 oed ac sy'n byw mewn Llety Gofal Preswyl (ARC) gyda Hawliau a Gedwir hefyd yn gymwys i gael trwydded am ddim. Ar gyfer Tiriogaethau Dibynnol y Goron, rhoddwyd trefniadau cyfatebol ar waith, gan ddechrau o 1 Ionawr 2021, yn seiliedig ar fudd-daliadau lleol.

Effeithiodd tân ar drosglwyddydd teledu yng ngogledd-ddwyrain Lloegr ym mis Awst 2021 ar y gwasanaethau teledu a radio ar gyfer nifer o wylwyr yn yr ardal. Cynigiwyd y cyfle i dalwyr ffi'r drwydded a fethodd â chael signal teledu Freeview am fwy na mis hawlio ad-daliad rhannol neu estyniad ar eu trwydded teledu.

Datganiad ffi'r drwydded

Rydym yn paratoui datganiad blynyddol o refferw ffi'r drwydded a gaiff ei archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r symiau a gasglwyd gennym ac a dalwyd i Lywodraeth EM yn ystod y flwyddyn. Ynghyd â'i gwaith archwilio, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn edrych ar ein trefniadau casglu ac yn adrodd arnynt i Senedd y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganiad refferw ffi'r drwydded yn: [tvlicensing.co.uk/about/bbc-trust-statement-AB21](https://www.tvlicensing.co.uk/about/bbc-trust-statement-AB21).

Gwariant ar gynnwys

Gwnaethom fuddsoddi £2,956 miliwn mewn gwariant ar gynnwys yn 2021/22, i fyny 17% o un flwyddyn i'r llall. Amharodd COVID-19 ar weithgarwch cynhyrchu yn 2020/21 gyda chynrychiadau'n cael eu hoedi am nifer o fisoedd a rhoddwyd protocolau iechyd a diogelwch ar waith i sicrhau diogelwch ein timau. O ganlyniad cafodd rhywfaint o wariant a fwriadwyd ar gyfer 2020/21 ei ohirio i 2021/22. Aethom hefyd i gostau ar gyfer Gemau Olympaidd yr Haf yn Tokyo a Phencampwriaeth Pêl-droed Ewrop a ohiriwyd. Er bod cyfyngiadau COVID-19 wedi cael eu llacio yn ystod y flwyddyn, gwelsom effaith barhaus ar ein cynrychiadau wrth i ni weithredu gan ddilyn canllawiau llym, sy'n cynyddu costau. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom fuddsoddi'n sylweddol mewn cynnwys newydd ar gyfer cynulleidfaoedd, a ariannwyd o arian a arbedwyd yn ystod blynyddoedd cynnar setliad ffi'r drwydded ac o gynlluniau arbed parhaus.

Sut rydym yn defnyddio ffi'r drwydded

Mae'r ffordd y caiff y BBC ei ariannu yn gosod cyfrifoldebau sylweddol ar y sefydliad i wneud y canlynol:

- sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon ar gyfer casglu ffi'r drwydded;
- sicrhau'r cyllid mwyaf o ffynonellau eraill, mewn ffordd sy'n gyson â thelerau ei Siarter a rhwymedigaethau eraill;
- rhoi gwerth am arian drwy ganolbwyntio gwariant ar y rhaglenni a'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd am eu cael fwyaf gan y BBC; a
- sicrhau bod yr allbwn yn cael ei gyflwyno mewn ffordd mor gosteffeithlon â phosibl.

Adroddiad gweithredol Ein sefyllfa ariannol – parhad

gweithgareddau masnachol rhyngwladol o dan arweinyddiaeth unigol, a chynnig dull cyfannol i gynulleidfaoedd rhyngwladol. Er mwyn manteisio ar ein model cynhyrchu yn y DU, trosglwyddodd gweithgarwch mewnol BBC Three i BBC Studios ar 1 Ebrill 2021, a throsglwyddodd BBC Children's Productions Limited i Studios Group ar 1 Ebrill 2022. Mae BBC Studios yn parhau i ysgogi gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded, drwy raglenni o ansawdd uchel a gynhyrchir ac a ddsberthir a'i gyfraniad ariannol at Grŵp y BBC.

Mae BBC Studioworks yn darparu cyfleusterau stiwdio a golygu ar gyfer y BBC a nifer mawr o gleientiaid allanol. Cyflawnodd BBC Studioworks EBITDA o £8 miliwn, i fyny £2 miliwn o un flwyddyn i'r llall. Effeithiodd COVID-19 ar y gallu i ddefnyddio gofod stiwdio yn ystod hanner cyntaf 2020/21. Drwy greu amgylcheddau gweithio sy'n ddiogel o ran COVID-19, cynyddodd y gweithgarwch yn ystod ail hanner y flwyddyn a pharhaodd hyn yn 2021/20. Hefyd, cynyddodd y twf yn sgil llacio'r mesurau cadw pellter cymdeithasol a'r cyfyngiadau symud.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein perfformiad masnachol y flwyddyn hon ar dudalennau 75-82 .

Difidendau

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth BBC Commercial Limited ddatgan a thalu difidend gwerth £144 miliwn i'r gwasanaeth cyhoeddus (2020/21: £73 miliwn), o ganlyniad i berfformiad cadarn BBC Studios.

Cyflawnodd BBC Studios £353 miliwn o enillion i'r BBC, sef ei lefel uchaf erioed, sy'n fwy na dwbl yr hyn a gyflawnwyd y flwyddyn flaenorol (2020/21: £137 miliwn). O ganlyniad, mae'r busnes wedi rhagori ar ei darged o £1.2 biliwn mewn enillion i'r BBC dros bum mlynedd cyntaf y Siarter gyfredol, gan sicrhau buddsoddiad sylweddol mewn rhaglennu. Mae BBC Studios wedi ymrwngwyo i dyfu'r cyfanswm hwn 30% ymhellach i darged newydd o £1.5 biliwn yn y pum mlynedd o 2022/23. Hefyd, cyflawnodd

BBC Studioworks enillion o £3 miliwn, sef ei enillion uchaf erioed.

Costau pensiwn

Rydym wrthi'n adolygu ein darpariaeth pensiwn, gyda'r nod o ddeall sut y gallwn ddiwygio ein pensiynau i sicrhau bod y BBC yn cynnig darpariaeth pensiwn deg a chyson i'w holl gyflogoion, gan sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Mae gwariant ar bensiynau wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a disgwylir i'r duedd hon barhau, sy'n rhoi pwysau cynyddol ar ffi'r drwydded. Byddwn yn gweithio'n agos gyda chyflogoion ac undebau i lywio ein darpariaeth pensiwn yn y dyfodol. Ni chaiff unrhyw newidiadau a gynigir eu gweithredu cyn 2024 ar y cynharaf a dim ond o'r dyddiad hwnnw ymlaen y byddant yn effeithio ar fuddiannau yn y dyfodol.

Cwblhawyd y prisiad actiwaraid teirblwydd diweddaraf, fel sy'n ofynnol gan y gyfraith, ym mis Mehefin 2020 a dangosodd ddiffyg ariannu o £1,138 miliwn ar 1 Ebrill 2019. Mae'r BBC ac Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi cytuno ar gynllun ad-dalu sy'n para tan 31 Rhagfyr 2028. Talodd y BBC £173 i mewn i'r Cynlluniau Pensiwn yn 2021/22. Mae'r prisiad actiwaraid ffurfiol nesaf, a gynhelir ar 1 Ebrill 2022, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd yn arfarnu asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn yn seiliedig ar ystod o ragdybiaethau ariannol a demograffig er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyllido'n ddigonol i gyflawni ei rwymedigaethau yn y dyfodol.

Mae'r safonau cyfrifyddu (Buddiannau Cyflogoion IAS 19) yn ei gwneud yn ofynnol i brisiad cyfrifyddu blynyddol gael ei gyflawni, a arweiniodd at warged o £1,241 miliwn (2020/21: £190 miliwn) ar 31 Mawrth 2022. Nid yw'r prisiad hwn yn effeithio ar gost arian parod wirioneddol adfer diffyg actiwaraid y cynllun pensiwn ac felly nid yw'n effeithio ar y cynllun ad-daliadau sydd eisoes ar waith. Dim ond 'cipolwg' cyfrifyddu ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r prisiad cyfrifyddu yn ei roi ac mae'n sensitif i newidiadau byrdymor yn y farchnad. Dyna pam nad yw'n effeithio ar y

cynllun ad-daliadau na'r buddiannau pensiwn i aelodau. Yn aml, mae'r prisiad cyfrifyddu yn cyflwyno sefyllfa ariannol fwy ffafriol oherwydd y cyfraddau disgowntio y mae'n rhaid eu defnyddio..

Strategaeth treth

Rydym yn ymrwymedig i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir yn yr holl awdurdodaethau rydym yn gweithredu ynddynt, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, dreth gyflogaeth, TAW a threth gorfforaeth. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd talu'r swm cywir o dreth i'r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt, ac rydym yn cymryd ein rhwymedigaethau cydymffurfio â rheolau treth o ddifrif.

Rydym yn rheoli ein materion treth o fewn fframwaith deddfwriaeth trethi'r DU a'r awdurdodaethau eraill rydym yn gweithredu ynddynt. Mae lefel goddefiant y BBC mewn perthynas â threth yn isel, a dangosir hyn yn ein dull o gynllunio a llywodraethu treth. Mae ein hasesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â threth yn ystyried nid yn unig y swm ariannol sydd yn y fantol, ond hefyd effaith y mater dan sylw ar ein henw da.

Yn 2021/22 gwnaethom gydnabod credyd treth net o £20 miliwn (2020/21: £14 miliwn) o ganlyniad i gredydau treth teledu o'r radd flaenaf, sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn, wedi'i wrthbwysio'n rhannol gan daliadau treth corfforaeth. Rydym yn cyhoeddi ein strategaeth treth yn unol â Deddf Cyllid 2016, y gellir dod o hyd iddi ar ein gwefan: bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/bbctaxstrategy_2022.pdf

Sicrhau arbedion

Ein nod yw sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cyfeirio cymaint o gyllid â phosibl tuag at gynnwys i'n cynulleidfaoedd. Fel y nodwyd yn adolygiad SAG o arbedion a diwygiadau ym mis Rhagfyr 2021, rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol yn diwygio'r BBC. Yn 2021/22 gwnaethom gyflawni £274 o arbedion blynyddol. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm yr arbedion a gyflawnwyd gennym ers 2016/17 yn £1,029 miliwn, yn cynnwys £38 miliwn o arbedion untro, gan ragori ar ein targed gwreiddiol o £800 miliwn.

Yn ystod blynyddoedd cynnar y cynllun, roedd arbedion yn canolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd cynhyrchiant, er mwyn gwneud y gorau o'n gwariant ar gynnwys. O ganlyniad, gwnaethom leihau ein gorbenion i'r lefelau gorau yn y diwydiant o gyn lleied â 5% o sylfaen costau darlledu cyhoeddus, sy'n golygu ein bod yn y chwartzel uchaf ar gyfer sefydliadau cymharol a feincnodwyd. Sicrhawyd arbedion drwy weithgarwch cynhyrchu a gweithredol, ailstrwythuro a rheoli contractau yn ofalus. Mewn ymateb i'r pandemig, gwnaethom nodi arbedion effeithlonrwydd newydd yn cynnwys newidiadau i'n ffyrdd o weithio a gwneud

Is-gwmnïau masnachol

EBITDA BBC Studios

£226^m

2020/21: £151 miliwn

**BBC
STUDIOS**

EBITDA BBC Studioworks

£8^m

2020/21: £6 miliwn



Mae EBITDA yn deillio o etw gweithredu a gofnodir, ychwanegu credydau treth cynhyrchu yn ôl (yn dilyn arfer y farchnad ar gyfer cwmnïau cynhyrchu), dibrisio ac amorteiddio (ac eithrio amorteiddiad sy'n ymwneud â hawliau dosbarthu neu raglennu) Mae'r dibrisiant a'r amorteiddiad a ychwanegir yn ôl yn cynnwys unrhyw amhariadau neu brosesau gostwng gwerth mewn perthynas ag asedau Rydym o'r farn mai 'EBITDA' yw'r dull anstatudol o fesur perfformiad ariannol sy'n cynnig yr arweiniad gorau er mwyn helpu i ddeall perfformiad ar sail gyfaradwy o flwyddyn i flwyddyn Bwriad hyn yw dangos proffidioldeb sylfaenol y gellir ei feincnodi'n gymharol hawdd ac sy'n rhoi sylfaen resymol ar gyfer cysylltu â mesurau llif arian

defnydd gwell o dechnoleg gan ein galluogi i leihau ein hól-troed eiddo a chreu gweithle mwy dynamig.

Cynnwys

Wrth i'r galw am gynnwys o safon gynyddu, mae diwydiant y cyfryngau yn wynebu cystadleuaeth gynyddol sy'n achosi i gost talent a chynnwys godi'n gyflymach na chwyddiant. Mae hyn yn rhoi pwysau dwys ar ein cyllidebau comisiynu. Er mwyn parhau i gyflwyno cynnwys trawiadol a gwerth i'n cynulleidfaoedd, rydym yn ceisio sicrhau arbedion o ran darparu cynnwys drwy reoli piblinellau cynhyrchu yn ofalus ac ailflaenoriaethu gwariant oddi wrth raglenni sy'n perfformio'n wael i arlwy newydd i'r gynulleidfifa. Aethpwyd i'r afael â lefelau chwyddiant uwch hyd yma drwy reoli costau, cynyddu buddsoddiad gan drydydd partion a sicrhau telerau llif arian parod mwy ffafriol â chynhyrchwyr.

Eiddo

Ein nod o hyd yw creu amgylcheddau gweithio modern ac effeithlon i'n staff. Mae lleihau ein hystad eiddo yn agwedd bwysig ar ein strategaeth busnes. Yn y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi gadael sawl eiddo, gan leihau maint y portffolio fwy na 22,000m². Hefyd, rydym yn cyfuno safleoedd sy'n bodoli yn Llundain, a disgwylir i hyn leihau ein hól-troed 16,000m² pellach yn 2022/23. Caiff hyn ei gyflawni fel rhan o strategaeth Across the UK gyda'r nod o gydbwysu gweithgarwch y BBC yn holl wledydd a rhanbarthau'r DU i gynrychioli amrywiaeth ein cynulleidfaoedd. Mae'r strategaeth yn cynnwys trosglwyddo timau Newyddion a Radio i leoliadau newydd yn Salford, Leeds, Glasgow a Chaerdydd, lansio comisiynau teledu a chynrychiadau newydd yn

rhanbarthau'r DU, a chefnogi mentrau rhanbarthol i feithrin sgiliau a thalent allweddol.

Mae lleihau'r ystad hefyd yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymadau sero net. Bydd llai o adeiladau, ac adeiladau mwy effeithlon, yn lleihau ein hallyriadau. Mae buddsoddiad wedi'i dargedu at sicrhau bod ein hadeiladau yn fwy cynaliadwy a lleihau'r defnydd o ynni fel mentrau i leihau ein hól-troed carbon gydag oerwyr newydd, goleuadau LED a chreu pŵer ffotofoltäig pan fo'n briodol.

Caffael

Parhaodd digwyddiadau byd-eang i roi pwysau ar gadwyni cyflenwi yn ystod y flwyddyn, gan gynyddu'r risg o gyflenwyr yn methu. Gwnaethom fonitro sefydlogrwydd a gallu ein cyflenwyr allweddol yn fanwl a, phan fo angen, gwnaethom ymateb yn gyflym er mwyn sicrhau nad amharwyd ar y cyflenwad.

Er y gwelwyd adferiad mewn gwariant trydydd parti, yn enwedig mewn meysydd sy'n gysylltiedig â chynnwys, parhaodd y galw am nwyddau a gwasanaethau i ddirywio, a gwelwyd gostyngiad o 0.3% ar ddiwedd y flwyddyn. Er hyn, cafodd arbedion o £54 miliwn eu sicrhau wrth brynu nwyddau a gwasanaethau yn 2021/22, a chwaraeodd y cyflenwyr rôl allweddol yn cefnogi'r digwyddiadau yn Affganistan ac Wcráin.

Technoleg

Gwnaethom sicrhau gwerth £45 miliwn o arbedion ar draws y portffolio technoleg yn 2021/22. Arweiniodd y pandemig parhaus at ddefnydd parhaus o ddatrysiadau gweithio o bell, ynghyd â'r buddiannau cysylltiedig, drwy leihau'r defnydd o nwyddau traul fel teleffoni ac argraffu. Gwnaethom hefyd

barhau i weithio ar symleiddio'r rhwydwaith cysylltiedig, sy'n cyflwyno arbedion ychwanegol y flwyddyn hon.

Dechreuwyd ar y broses o drawsnewid ein technoleg a'n gweithrediadau peirianeg tuag at ddiwedd y flwyddyn, a nodwyd cyfleoedd i symleiddio ein gwasanaethau wrth gadw'r BBC ar yr awyr ac ar-lein 24/7 a gallu addasu i dechnolegau newydd. Mae hefyd yn ein galluogi i barhau i ailflaenoriaethu cyllid a llwythi gwaith er mwyn cefnogi strategaeth ddigidol y BBC. Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau digidol a'u datblygu, yn cynnwys gwelliannau o ran personoli a phrofiad defnyddwyr, a meithrin galluoedd hanfodol fel gwyddor data a dysgu peirianyddol.

Arbedion effeithlonrwydd

Arbedion yn ystod y flwyddyn

£274^m

2020/21: £272m

Arbedion cronol


£1,029^m

2020/21: £890m

Arbedion a gyflawnwyd yn 2021/22:

- Arbedion effeithlonrwydd mewn gwaith cynhyrchu, ailgymysgu ac ailflaenoriaethu rhaglenni
- Telerau llif arian parod gwell â chynhyrchwyr
- Cadw prisiau'n wastad a buddsoddiad gan drydydd partion
- Arbedion o ran nifer y staff ac arbedion effeithlonrwydd o ran staff
- Arbedion effeithlonrwydd gweithredol
- Ailnegodi contractau

Arbedion effeithlonrwydd (£m)



● Arbedion cronol a gyflawnwyd

Mae arbedion cronol yn adlewyrchu arbedion parhaus ac arbedion untro a gyflawnir mewn blwyddyn

Adroddiad gweithredol

Gwariant Darlledu Cyhoeddus

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae arian ffi'r drwydded wedi'i wario yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys gofyniad y Siarter i'r BBC adrodd ar wariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU fesul genre (fel y'i diffinnir yn unol â safonau'r diwydiant). Mae cyfanswm y gwariant ar gynnwys yn cynrychioli'r gost o wneud cynnwys ar draws holl wasanaethau'r BBC. Mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau yn cynrychioli holl gostau cynhyrchu, cefnogi a chyflwyno cynnwys y BBC i gynulleidfaoedd.

Trwydded Weithredu'r World Service

Ymrwymodd y BBC i ddiogelu ei wariant blynyddol ar y World Service am gyfnod o bum mlynedd o 1 Ebrill 2017 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddarlledwr cyhoeddus o fri yn y dyfodol. Yn cynnwys costau cynnwys, dosbarthu a chymorth cyffredinol a gwariant yr aed iddo ar World News TV, cafodd £277 miliwn (2021: £251 miliwn) ei wario ar Drwydded Weithredu BBC World Service.

Arian grant y World Service

Yn 2016/17 dyfarnodd y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu grant o £291 miliwn i'r BBC, i'w wario dros y pedair blynedd ddilynol, er mwyn ei helpu i ehangu'r World Service. Ym mis Ebrill 2022, yn dilyn adolygiad o wariant y Llywodraeth yn 2021, cadarnhaodd y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu fuddsoddiad pellach o £283 miliwn yn y World Service ar gyfer y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2025. Mewn ymateb i'r ymosodiadau ar Wcráin, rhoddodd y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu gyllid ychwanegol o £4 miliwn i helpu i ddarparu darllediadau newyddion annibynnol a diduedd yn Wcráin a Rwsia, gan wrthwynebu twyllwyoadaeth.

Gwariant Darlledu Cyhoeddus

	2021/22 £m	2020/21 £m
Newyddion a Materion Cyfoes	314	310
Ffeithiol a Dysgu	235	216
Y Celfyddydau a Cherddoriaeth	31	30
Ffilm a Drama	376	289
Adloniant a Chomedi	214	182
Cynrychiadau Chwaraeon	94	49
Plant	90	74
Gwariant ar gynnwys teledu arall	431	251
Gwasanaethau teledu fesul genre	1,785	1,401
Radio	477	474
BBC Ar-lein a Red Button	247	236
Gwariant ar gynnwys gwasanaethau fesul llwyfan	2,509	2,111
Cerddorfeidd a grwpiau perfformio	25	23
S4C (gwariant ar y gwasanaeth)	24	21
Gwariant ar ddatblygu	58	61
Grant BBC World Service	97	88
Trwydded Weithredu BBC World Service*	243	214
Gwariant arall ar y gwasanaeth	447	407
Cyfanswm gwariant ar gynnwys	2,956	2,518
Costau dosbarthu	185	191
Cynnwys a chymorth dosbarthu	395	404
Cymorth cyffredinol	158	161
Cyfanswm gwariant ar y gwasanaeth	3,694	3,274
Costau casglu ffi'r drwydded	122	136
Rhwymedigaethau eraill (S4C)	75	75
Monitro	4	4
Taliad gostwng diffyg pensiwn Grŵp PSB	50	63
Costau PSB i gynhyrchu incwm heblaw am ffi'r drwydded	183	159
Costau ailstrwythuro	13	102
Cyfanswm gwariant Grŵp PSB	4,141	3,813
Eitemau a nodwyd y tu allan i wariant gweithredu**	(70)	(54)
Gwariant Grŵp PSB	4,071	3,759

* Mae Trwydded Weithredu BBC World Service yn cynnwys gwariant dosbarthu o £30 miliwn (2021 £33 miliwn)

** Er mwyn adlewyrchu cost lawn gwariant Grŵp PSB fesul gwasanaeth, caiff costau penodol eu cynnwys uchod a nodir y tu allan i wariant gweithredu. Er enghraifft, caiff llog prydles gyllidol ei chynnwys er mwyn adlewyrchu cost lawn eiddo, er nad yw wedi'i chynnwys yng ngwariant gweithredu'r Grŵp

Ein pobl: gweithio yn y BBC

Er gwaethaf her barhaus y coronafeirws yn 2021/22, rydym wedi gwneud cynnydd yn cyflwyno newidiadau i'n gweithlu, ein ffyrdd o weithio a'n diwylliant yn unol â'n strategaeth o sicrhau gwerth i bawb. Rydym yn parhau i gefnogi pob Is-adran a'r sefydliad cyfan i greu BBC modern a chynhwysol. Cyflawnwyd hyn oll wrth gefnogi staff drwy ddarllodiadau newyddion hollbwsig yn Affganistan, Wcráin a Rwsia.

Ad-drefnu ein gweithlu

Drwy gydol 2021/22 buom yn gweithio gyda phob Is-adran yn cynllunio'r gweithlu er mwyn cefnogi eu rhaglenni newid ac ailstrwythuro a'u cynlluniau i gyflawni eu targedau 50:20:12. Bydd y targedau hynny'n creu sefydliad lle ceir cydbwysedd rhwng y rhywiau, gydag o leiaf 20% o'r staff yn bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac o leiaf 12% o'r staff yn bobl anabl.

Mae'r holl gynlluniau gweithlu Is-adrannol yn seiliedig ar dair egwyddor gan Grŵp y BBC:

- trawsnewid ein dull recriwtio;
- dull mwy cadarn o gynllunio ar gyfer olyniaeth;
- ymrwymiad i gynyddu nifer y prentisiaid (mewnol ac allanol) i 1,000 erbyn 2025

Gwnaethom nodi ein strategaeth Caffael Talent newydd ym mis Mawrth 2022, sy'n canolbwyntio ar gaffael talent rhagweithiol, mwy o gysondeb a gallu yn ein tîm adnoddau. Gwnaethom greu dull cyflogi cynhwysol newydd gydag ymrwymiad o'r newydd i fodloni gofynion amrywiaeth penodol ar gyfer rhestrau byrion a phaneli cyfweled.

Rydym wedi cytuno ar strategaeth talent ac olyniaeth hirdymor ac wedi cwblhau'r cam cyntaf, yn cynnwys llunio cynlluniau olyniaeth ar gyfer rolau hanfodol. Rydym yn gweithio gyda'r Pwyllgor Gweithredol fel grŵp a Chyfarwyddwyr Is-adrannol ac Adnoddau Dynol unigol i adolygu ein piblinellau talent. Mae ein dull yn seiliedig ar yr egwyddor o gynhwysiant ac mae wedi'i gynllunio er mwyn gwella amrywiaeth ein cynlluniau olyniaeth drwy nifer o weithgareddau yn cynnwys datblygu cynlluniau datblygu penodol ac wedi'u teiwlra. Mae'r dull yn cyd-fynd â rhaglen Accelerator a nodir isod.

Rydym wedi cyflawni ein targed ar gyfer y flwyddyn gyntaf o gynyddu nifer ein prentisiaid i 1,000 erbyn 2025, gan gyfrannu at ddyheadau'r BBC o wella cyfle cyfartal ledled y DU. Rydym wedi gweithio gyda phob Is-adran i greu gofod ar gyfer prentisiaid, gan adnewyddu'r gweithlu Is-adrannol a mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau allweddol. Y flwyddyn hon, mae ein tîm Gyrfaoedd Cynnar yn rheoli mwy na 30 o gynlluniau prentisiaeth safonol gwahanol a mwy na 260 o brentisiaid Gyrfaoedd Cynnar ledled y

sefydliad. Mae gan garfan Prentisiaid Gyrfaoedd Cynnar 21/22 broffil amrywiaeth o 61% o staff benywaidd, 23% o staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a 15% o staff anabl.

Cymeradwywyd ein cais i'r Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau i sefydlu Canolfan Prentisiaid yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr ym mis Ionawr 2022. Mae Canolfan Prentisiaid y BBC yn fenter newydd sbon sy'n creu cyfleoedd prentisiaeth mewn amrywiaeth eang o fusnesau creadigol, hapchwarae, diwylliannol a digidol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a'r cyffiniau. Ym mis Chwefror 2022, gwnaethom lofnodi ein contractau cyflogwr cyntaf ac aeth safle ein Canolfan yn fyw, gan hysbysebu ar gyfer 20 o rolau prentisiaid ar chwe safon prentisiaeth gwahanol: bbc.co.uk/apprenticehub.

Mae ein cyfleoedd prentisiaeth hefyd yn agored i staff y BBC, ac ym mis Chwefror 2022, gwnaethom ail-lansio ein rhaglen prentisiaeth staff fewnol, fel rhan o'n strategaeth gynhwysfawr i ddatblygu gyrfaoedd ac arweinyddiaeth. Cynigiwyd y cyfle i'r staff gael cymwysterau mewn sawl maes, fel Gweinyddu Busnes, Peirianeg Systemau Darlledu, Gwyddor Data, Cynhyrchion Digidol, Rheoli Cyllid a Chynhyrchu (wedi'u cynllunio naill ai gan y BBC neu gyda sefydliadau masnachol a llywodraethu eraill). Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn treulio o leiaf 20% o'u hamser gwaith yn hyfforddi, naill ai mewn lleoliad academaidd, neu gan ddefnyddio e-ddysgu rithwir dan arweiniad.

Rydym yn ymrwymedig i leihau nifer y staff gwasanaeth cyhoeddus i greu sefydliad mwy darbodus ac effeithlon. Mewn ymateb i'r pandemig yn y flwyddyn flaenorol, gwnaethom atal prosesau recriwtio ar gyfer rolau nad ydynt yn hanfodol i'r busnes a sefydlu rhaglen diswyddiadau gwirfoddol gyda'r bwriad o gyflawni arbedion yn gyflym yn wyneb yr her ariannol gynyddol. Creodd hyn gyfle i ail-lunio a symleiddio strwythur y BBC, a pharhaodd y strategaeth hon i 2021/22.

Gostyngodd nifer cyfartalog gweithwyr cyfwerth ag amser llawn grŵp y BBC i 21,125 yn 2021/22, i lawr 156 o un flwyddyn i'r llall. Wrth gymharu nifer y cyflogeion ar 31 Mawrth, gostyngodd nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn y grŵp 241 i 21,252.

Gadawodd mwy o gyflogeion yn 2021/22 drwy'r cynllun diswyddiadau gwirfoddol a mentrau arbedion eraill, gan arwain at gyfanswm gostyngiad o 409 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn o un flwyddyn i'r llall gyda nifer y staff gwasanaeth cyhoeddus yn 17,781 ar 31 Mawrth 2022.

Ceir rhagor o fanylion am ein pobl a nifer y staff ar dudalen 62.

Datblygu gyrfaoedd ac arweinyddiaeth

Drwy ein tîm dysgu a datblygu, BBC Academy, rydym yn parhau i gefnogi gweithlu'r BBC i gaffael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu eu gyrfaoedd drwy amrywiaeth eang o ymyriadau dysgu ffurfiol ac anffurfiol (ceir rhagor o fanylion ar dudalen 6). Yn ogystal â chefnogi staff y BBC a gweithwyr llawrydd, mae BBC Academy wedi cynnig cyfleoedd dysgu i'r sector creadigol ehangach drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau, cynadleddau a phartneriaethau.

Y flwyddyn hon, rydym wedi gwella ein cynnig datblygu gyrfa i staff yn sylweddol. Gwnaethom lansio safle myCareer, sy'n cynnig siop un stop ar gyfer cymorth, adnoddau a chyfleoedd i alluogi staff i ffynnu yn y BBC ac i ddatblygu gyrfaoedd eang a gwerth chweil. Ymwelwyd â'r safle hwn fwy na 70,000 o weithiau ers iddo gael ei lansio ym mis Medi 2021, gan sicrhau mai dyma'r safle yr ymwelwyd ag ef fwyaf ar y llwyfan dysgu. Gwnaethom hefyd lansio ein menter 80/20 yn ffurfiol ar ôl cynllun peilot llwyddiannus yn 2020/21. Mae'r cynllun hwn yn helpu staff i fagu profiad o weithio mewn meysydd eraill ar draws y sefydliad cyfan, gan gynnig lleoliadau lle caiff 20% o'u hamser gweithio arferol ei dreulio mewn rôl arall, am hyd at chwe mis.

Cafodd ein cynllun Hot Shoes ei ddiwygio yn 2021/22 gan gynnig 300 o leoliadau. Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymysgedd o leoliadau personol, rhithiol a hybrid ym mhob rhan o'r BBC, gan roi'r cyfle i'r staff dreulio rhwng dau ddiwrnod a dwy wythnos mewn rhan arall o'r sefydliad. Gwnaeth mwy na 1,150 o bobl gais am un o'r 120 o leoliadau a ymgygiwyd yn Rownd 1.

Buom yn cynnig cyfres o ddigwyddiadau Gyrfaoedd Byw drwy gydol y flwyddyn. Mae'r digwyddiadau hyn wedi cyfuno hud brandiau'r BBC – *Strictly*, *Glastonbury*, *Line of Duty*, BBC Three a *The Apprentice* – gyda chynghor ymarferol ar yrfaedd gan arbenigwyr y diwydiant a gweithwyr datblygu gyrfaoedd proffesiynol. Gellir gweld pob digwyddiad ar safle myCareer.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi ceisio dod â'n Fframwaith Llwybrau Gyrfya yn fyw drwy lansio'r Living Library (mae'r tabl ar dudalen 62 yn nodi manylion y Fframwaith Llwybrau Gyrfya). Mae'r llyfrgell yn cynnwys 120 (sy'n cynyddu) o genhadon rolau swyddi o'r prif deuluoedd o swyddi. Mae'r cenhadon hyn ar gael i sgwrsio'n anffurfiol am eu rôl, diwrnod yn eu bywyd ac i roi cipolwg ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i wneud eu swydd.

Ar gyfer y genhedlaeth nesaf o uwch-arweinwyr, gwnaethom lansio rhaglen Accelerator – rhaglen uchelgeisiol i nodi hyd at 30 o arweinwyr y BBC sydd â'r potensial i symud i rolau uwch yn y sefydliad ac i gynnig ffyrdd o feddwl, dulliau gweithredu a

Adroddiad gweithredol Ein pobl – parhad

phrofiad mwy amrywiol i'r rolau hynny. Gwnaeth 903 o bobl gais i ymuno â'r rhaglen hon, a dewiswyd 25 o gydweithwyr i ffurfio carfan gyntaf Accelerator ym mis Chwefror 2022.

Llwyddom i gyflwyno'r Mynegai Uwch-arweinwyr ym mis Mehefin 2021, gan sicrhau y gellir mesur effaith arweinyddiaeth ochr yn ochr â metrigau perfformiad eraill. Cafodd pob Uwch-arweinydd adroddiad unigol, yn mesur ei arweinyddiaeth yn erbyn lefelau ymgysylltu, perfformiad a datblygu, ac amrywiaeth a chynhwysiant, a chymharu eu sgoriau â'r cyfartaledd yn eu His-adran a ledled y BBC.

Ym mis Ionawr 2022, gwnaethom gyflwyno proses adborth flynyddol 360° i Uwch-arweinwyr a byddwn yn ehangu hon i gynnwys holl arweinwyr Band F.

Caiff ein hymrwymiad i greu diwylliant perfformiad a datblygiad uchel ei ategu gan myConversation. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i bob cyflogai gael trafodaeth o safon â'i reolwr llinell ddwywaith y flwyddyn am ei berfformiad, ei nodau a'i ddatblygiad gyrfa. Cyflwynwyd hyn am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2021, gyda 85% o gyflogeion yn cwblhau'r broses, a chynyddodd hyn i fwy na 90% ym mis Hydref 2021.

Ein hymrwymiad i ddiueddrwydd

Drwy gydol 2021/22, mae BBC Academy, gan weithio'n agos gyda'r Is-adranau a Pholisi Golygyddol, wedi cyflwyno hyfforddiant didueddrwydd ym mhob rhan o'r BBC. Roedd y rhaglen hyfforddi - sy'n seiliedig ar astudiaethau achos go iawn a diwylliant o drafod - yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar staff golygyddol a chyflwynwyr ac yna cafodd ei hehangu i bob aelod o staff. Erbyn 31 Mawrth 2022, roedd 92.6% o'r staff wedi cwblhau un o'r cyfresi o gyrsiau Safeguarding Impartiality. Yn arolwg staff 2022, dywedodd 94% o gyflogeion eu bod yn deall pam y mae didueddrwydd yn bwysig i'r BBC.

Fel rhan o'r cynllun deg pwynt ar ddiueddrwydd a safonau golygyddol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, bydd yr Academi yn cefnogi'r broses o gyflwyno'r hyfforddiant hwn yn ehangach i gynhyrchwyr annibynnol a gweithwyr llawrydd.

Rydym wedi ychwanegu didueddrwydd fel mesur i'n Mynegai Uwch-arweinwyr. Mae'r 'Mynegai Didueddrwydd' yn cynnwys defnyddio sgoriau sy'n gysylltiedig â phedwar cwestiwn penodol yn ein harolwg i gyflogeion a gynhelir ddwywaith y flwyddyn i asesu pa mor effeithiol y mae ein harweinwyr yn hyrwyddo didueddrwydd.

Adnewyddu ein gwerthoeddes

Gwnaethom adnewyddu Gwerthoedd y BBC ar gyfer blwyddyn ein canmlwyddiant, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad iddynt a sicrhau bod pob un yn cyd-fynd â chyfres o ymddygiadau y cytunwyd arnynt:

— Mae CYNULLEIDFAOEDD wrth wraidd popeth a wnawn;

— CREADIGRWYDD yw hanfod ein sefydliad;

— YMDDIRIEDAETH yw sail y BBC – rydym yn annibynnol, yn ddiuedd ac yn onest;

— Rydym yn PARCHU ein gilydd – rydym yn garedig, ac yn hyrwyddo cynhwysiant;

— Rydym yn ATEBOL ac yn gwneud gwaith o'r ansawdd uchaf;

— Rydym yn UN BBC – rydym yn cymdeithio, yn dysgu ac yn tyfu gyda'n gilydd

Cymerodd Uwch-dimau Is-adrannol ran mewn sesiynau 'Leading and Living the Values' ac maent yn datblygu eu cynlluniau gweithredu a'u hymyriadau eu hunain yn seiliedig ar adborth o arolygon staff.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dechrau trawsnewid y ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chydweithwyr yn y BBC. Rydym wedi cyflwyno darllediad misol newydd ar draws y BBC i rannu ein blaenoriaethau strategol ac rydym wedi gwella effeithiolrwydd ein sianelau cyfathrebu. Drwy gydol y flwyddyn, buom yn cyflwyno cyfres o sesiynau ac ymgyrchoedd i ddod â'n strategaeth yn fyw i gydweithwyr, i hyrwyddo ein gwerthoedd a'n cynnig gyrfaoedd gwell newydd, ac i hysbysu a hyfforddi ein huwch-arweinwyr.

Gwnaethom gynnal ein harolwg ymgysylltu â chyflogeion ar draws y BBC ym mis Chwefror 2022. Cododd ein cyfradd cyfranogiad 18 pwynt canran i 75%. Dywedodd 83% o'n staff eu bod yn teimlo'n falch o fod yn gweithio i'r BBC a byddai 70% yn argymhell y BBC fel lle gwych i weithio ynddo. Gwelwyd sgoriau uchel ar gyfer cael gafael ar gymorth ar adegau anodd, cydweithredu fel tîm, dulliau cyfathrebu agored a gonest ac amgylchedd tîm cynhwysol, sy'n well na'r sgoriau yn yr arolwg blaenorol yn 2021. Er y gwelwyd cynnydd o saith pwynt canran ers yr arolwg blaenorol yn y staff a oedd yn teimlo eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa (i fyny i 45%), maent yn teimlo'n llai clir ynghylch sut y dylent fynd ati i wneud hyn (gostyngiad o bum pwynt i 33%). Y meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol yw datblygu cynllun gweithredu mwy cynhwysfawr a deall sut y gallwn wella hyder yn y meysydd hynny o'r busnes sydd wedi gweld newidiadau sylweddol yn ddiweddar.

Cymorth rhyngwladol

Ers newid y gyfundrefn yn Affganistan ym mis Awst 2021, rydym wedi cynnig cymorth sylweddol i gydweithwyr yn y BBC (170 o staff a gweithwyr llawrydd) a oedd wedi'u lleoli yn Affganistan. Bu'r BBC yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu y DU i helpu staff a'u teuluoedd agos i symud i'r DU dros y misoedd dilynol, gan dalu costau trafndiaeth, llety, bwyd a rhoi cymorth arall.

Datganiad Gwybodaeth Adrodd Anariannol

Rydym yn cydnabod gofynion adrodd anariannol Deddf Cwmnïau 2006 ac wedi datgelu gwybodaeth gysylltiedig a pherthnasol drwy gydol yr adroddiad strategol. Er hwylustod, gellir dod o hyd i wybodaeth am y pum mater a gwmpesir gan y rheoliad ar y tudalennau canlynol: cynaliadwyedd amgylcheddol (tudalennau 69 i 72); ein pobl (tudalennau 59 i 63); hawliau dynol, caethwasiaeth fodern, gwrth-lwgrwobrwyo (isod). Hefyd, ceir rhagor o wybodaeth am ein model busnes (tudalen 84), ein prif risgiau (tudalennau 110 i 126) a'n perfformiad anariannol (drwy gydol yr adroddiad strategol).

Hawliau dynol, caethwasiaeth fodern a gwrth-lwgrwobrwyo

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol y rhai sy'n gweithio i ni neu gyda ni. Mae ein Telerau Masnach yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyflenwyr rydym yn cydweithio â nhw, ac unrhyw isgcontractwyr a ddefnyddir ganddynt, ddilyn codau ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Hefyd, mae'n ofynnol i gyflenwyr ac isgcontractwyr ddilyn ein Cod Polisi Moesegol. Gellir gweld y cod llawn yma: downloads.bbc.co.uk/supplying/pdf/BBC_Ethical_Policy.pdf

Rydym yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu'r gwaith o fynd i'r afael â'r achosion mwyaf difrifol o ymyrryd â hawliau dynol, yn cynnwys caethwasiaeth fodern. Rydym yn glynu wrth Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac yn cyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn unol â hynny. Mae'r datganiad llawn ar gael yn: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/reports/modern-slavery-statement-2021.pdf

Rydym wedi ymrwmo i bolisi dim goddefgarwch mewn perthynas â llwgrwobrwyo a llygredd. Rydym yn disgwyl i bawb sy'n cynrychioli'r BBC ddilyn Cod Ymddygiad Gwrth-lwgrwobrwyo y BBC. Gellir gweld y cod llawn yma: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/pdf/bbc_anti_bribery.pdf

Ers dechrau'r rhyfel yn Wcráin ym mis Chwefror 2022, rydym wedi rhoi cymorth adleoli, cyflogaeth, iechyd meddwl a llesiant sylweddol i gydweithwyr yn y BBC sydd wedi'u lleoli yn Wcráin a Rwsia. Rydym wedi cefnogi rhai gydweithwyr a'u teuluoedd i symud i leoliadau mwy diogel ac i adleoli i Wlad Pwyl, Serbia a Latfia. O ganlyniad i'r sefyllfa wleidyddol barhaus yn Rwsia, rydym

wedi atal allbwn o Moscow ac wedi adleoli'r gwasanaeth Rwsieg yn barhaol i Riga, Latfia.

Cysylltiadau cyflogeion a chydabyddiaeth
Gweithio'n agos gyda'n holl gydweithwyr, ein Hundebau a gydnabyddir a'n rhwydweithiau staff yw un o'r blaenoriaethau craidd o hyd. Drwy weithio mewn partneriaeth ac adolygu adborth drwy arolygon cyflogeion, rydym

wedi creu cynnig cryf i gyflogeion o dan bennawd unigol Gweithio yn y BBC.

Yn 2022/23, bydd ein gwaith yn adeiladu ar holl elfennau allweddol fframwaith Gweithio yn y BBC yn cynnwys rhoi ein dull gweithredu newydd ar waith i ddatblygu cyflog a ganolbwyntio ar sut y gallwn helpu i gefnogi dyheadau'r BBC i gyflawni



Astudiaeth achos: Prentisiaid yn y BBC

Y flwyddyn hon, cynyddodd y BBC nifer y prentisiaid a dderbynnir fwy na 200 fel rhan o'i ymrwymiad i ddarparu 1000 o brentisiaid i'r BBC bob blwyddyn erbyn 2025

Roedd Miriam, a gafodd brentisiaeth yn y BBC, yn teimlo'n angerddol am newyddiaduraeth o oedran ifanc ond doedd hi byth yn teimlo bod y BBC addas i rywun fel hi – o gefndir hil gymysg, hoyw ac o gefndir economaidd-gymdeithasol isel.

Yn 2019, penderfynodd Miriam ddilyn ei hangerdd a gwneud cais am le ar gynllun

Prentisiaeth Newyddiaduraeth Ddigidol y BBC.

Aeth o nerth i nerth yn y cynllun, gan ddod o hyd i straeon newydd a oedd yn gysylltiedig â'i chefnidir ar gyfer yr holl lwyfannau Newyddion. Aeth ymlaen i gael Gwobr Prentis y Flwyddyn yng Ngwobrau QSA 2021 ac ym mis Medi 2021 cafodd rôl barhaol fel Newyddiadurwr yn adran Newyddion a Materion Cyfoes BBC Cymru.

Dywedodd Miriam, "Mae'r brentisiaeth wedi newid fy mywyd. Roeddwn wedi diystyru fy mreuddwyd o ddilyn gyrfa mewn newyddiaduraeth, a gallaf ddweud yn onest, heblaw am y brentisiaeth, fyddwn i ddim yn eistedd yma heddiw - yn gweithio ar gynnwys ar draws llwyfannau'r BBC ac yn cael y fraint o rannu straeon pobl."



Adroddiad gweithredol

Ein pobl – parhad

cyfraddau sero net drwy adlewyrchu pwysigrwydd cynaliadwyedd wrth bennu nodau, cynnal adolygiadau datblygu ac yn y buddiannau cyflogaion y gallwn eu darparu i staff.

Edrych ymlaen

Rydym wedi wynebu nifer sylweddol o heriau dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi gwneud newidiadau mawr wrth i ni edrych tuag at ddyfodol y BBC. Dros y flwyddyn nesaf rydym yn bwriadu ymgorffori'r newidiadau hyn a pharhau i adeiladu diwylliant o berfformiad uchel, a chyflwyno'r cynnig gorau yn y diwydiant i gyflogaion.

Tablau data

Ar y tudalennau canlynol, rydym yn rhoi rhagor o ddata i ategu'r wybodaeth yn yr adran hon.

Cyfanswm nifer y staff cyfartalog 2021/22 (cyfwerth ag amser llawn)

	2022		2021	
	Staff ac eithrio prentisiaid	Prentisiaid	Cyfanswm	Cyfanswm*
Grŵp PSB	17,738	152	17,890	18,977
BBC Studios	3,155	4	3,159	2,723
Busnesau masnachol eraill	232	0	232	519
Cyfanswm y Grŵp	21,125	156	21,281	22,219

O fewn y niferoedd cyfartalog uchod, mae 2,606 (2021 2,998) o gyflogaion rhan-amser wedi'u cynnwys ar sail cyfwerth ag amser llawn o 1,683 (2021 1,923). Yn ogystal â'r uchod, cyflogodd y Grŵp nifer cyfartalog cyfwerth ag amser llawn o 1,521 (2021 1,067) o bobl ar gontractau achlysurol.

* Nid yw data prentisiaid yn wahanadwy ar gyfer yr holl flwyddyn flaenorol i gyfrifo'r cyfartaledd.

Fframwaith Llwybr Gyrfa

Caiff rolau cyflogaion eu mapio ar draws 27 o deuluoedd o swyddi a saith band gyrfa (yn amrywio o Fand A i uwch-arweinwyr).

Cyfwerth ag amser llawn (CALL)/Nifer y staff yn ôl Band CPF Grŵp y BBC (ac eithrio Grwpiau Perfformio, Hyfforddeion a Phrentisiaid a Rhai Nad Ydynt yn CPF).

Band CPF	CALL		Nifer y staff	
	CALL	CALL (%)	Nifer y staff	Nifer y staff (%)
A	231	1%	294	1%
B	2,089	11%	2,235	11%
C	5,921	33%	6,356	33%
D	6,403	35%	6,784	35%
E	2,131	12%	2,227	12%
F	875	5%	888	5%
FP	94	1%	105	1%
SL	306	2%	309	2%
Cyfanswm	18,050	100%	19,198	100%

Nifer yr uwch-arweinwyr yn y DU yn ôl band cyflog (PSB yn unig)

Band cyflog	2021/22 Gwioneddol	2020/21 Gwioneddol
£50,000 – £99,999	28	42
£100,000 – £149,999	102	100
£150,000 – £199,999	74	70
£200,000 – £249,999	21	22
£250,000 – £299,999	3	4
£300,000 – £349,999	5	1
£350,000+	1	2
Cyfanswm*	234**	241

* Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau o Fwrdd y BBC na chyfarwyddwyr pensiwn

** Yn cynrychioli 1.3% o gyfanswm y gweithlu

Gwariant ar rolau ar yr awyr*

	2021/22		2020/21		Amrywiant £000 oedd
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer	
Llai na £40,000	33,222	19,163	33,503	21,538	281
£40,000 – £100,000	61,963	1,030	64,739	1,092	2,776
£100,000 – £150,000	14,412	118	12,371	100	(2,041)
£150,000 – £500,000	17,878	72	17,045	70	(833)
£500,000 – £1m	982	1	–	–	(982)
£1m – £5m	1,350	1	2,497	2	1,147
Cyfanswm	129,807	20,385	130,155	22,802	348

* Ystyrir bod gan unigolyn rôl ar yr awyr os oes ganddo gyfrifoldebau ar yr awyr sylweddol (h y 80% neu fwy). Yn ystod 2021/22, roedd gwariant ar rolau ar yr awyr yn cynrychioli 8% o gyfanswm y gwariant ar gynnwys creadigol mewnol (2020/21 9%)

Taliadau diswyddo

Ein polisi o ran taliadau dileu swyddi yw un mis o gyflog am bob blwyddyn o wasanaeth hyd at uchafswm o 12 mis o gyflog (uchafswm o 24 mis o gyflog i'r rhai a ymunodd cyn mis Ionawr 2013). Rhaid bod cyflogaion wedi'u cyflogi'n barhaus am ddwy flynedd neu fwy pan ddaw eu swyddi i ben er mwyn bod yn gymwys i gael taliad. Rydym wedi cynnal cap o £150,000 ar daliadau dileu swyddi a diswyddo. Lle y telir taliadau dileu swyddi, caiff rhybudd ei roi. Os bydd unigolion am adael yn gynt na diwedd eu cyfnod rhybudd rhaid iddynt ildio hawl i'r cyfnod rhybudd sy'n weddill ac ni chânt dâl amdano.

Yn 2021/22, yn eithriadol gwnaethom un taliad yn lle rhybudd (PILON) gyda thaliad diswyddo am resymau sy'n gysylltiedig ag ieched.

Band taliadau	2021/22		2020/21	
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer
O dan £10,000	402	70	364	56
£10,000 – £50,000	5,733	200	10,381	336
£50,000 – £75,000	8,369	134	15,310	245
£75,000 – £100,000	11,502	131	21,807	251
£100,000 – £150,000	26,473	210	26,649	218
Cyfanswm	52,479	745	74,511	1106

Dysgu a datblygu BBC Academy a BBC Studios

Cyrhaeddiad	2021/22
Cyfanswm y cyrsiau hyfforddi a gwblhawyd*	107,452
Staff y BBC a gwblhaodd un cwrs neu fwy	92%
Cyfanswm oriau dysgu a datblygu	175,663
Nifer y diwrnodau dysgu a datblygu fesul CALL	1.2
Gwerth am arian	2021/22
Gwariant ar gyflwyno hyfforddiant (£m)**	£11.68
Cost dysgu a datblygu fesul CALL***	£556

Mae data hyfforddiant a ffigurau CALL ar gyfer y BBC cyfan, yn cynnwys PSB, BBC Studios ac is-gwmnïau masnachol eraill

* Cyfanswm cyrsiau unigol wyneb yn wyneb, ystafell ddosbarth rithwir ac ar-lein a gwblhawyd. Yn 2020/21, oherwydd COVID-19, cwblhawyd y mwyafrif ar ffurf ystafell ddosbarth rithwir neu ar-lein.

** Cyfanswm gwariant BBC Academy a BBC Studios ar gyflwyno hyfforddiant ac eithrio prosiectau mawr.

*** Cyfanswm gwariant BBC Academy a BBC Studios ar gyflwyno hyfforddiant wedi'i rannu â chyfanswm CALL.

Darperir gwybodaeth yn unol â Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 – atodlen 2 (1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig yn ystod y 12 mis diwethaf, gan fynd i'r afael â heriau parhaus y pandemig a'r rhaglenni trawsnewidiol strategol a nodir yn yr adran hon. Rydym yn parhau i werthfawrogi ac adeiladu ar ein cydberthnasau cadarnhaol ac adeiladol â'n hundebau. Ni fu unrhyw streiciau yn ystod 2021/22.

Fel rhan o Reoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017, mae bellach yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi gwybodaeth am amser cyfleuster a gymerir gan swyddogion undebau llafur dros gyfnod o 12 mis. (Mae amser cyfleuster yn cyfeirio at yr amser a gymerir i'n hundebau llafur cydnabyddedig gynrychioli aelodau yn unigol ac ar y cyd mewn amrywiaeth o faterion ym mhob rhan o'r BBC.) Nodir hyn yn y tabl.

Swyddogion undeb perthnasol

	2021/22
Nifer y swyddogion undeb	340 (CALL: 323)

Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster	Nifer y cyflogeion
0%	0
1% – 50%	331*
51% – 99%	7*
100%	2*
Cyfanswm cost amser cyfleuster	£783,308
Cyfanswm bil cyflogau cymwys PSB	£1,205.7m
Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster	0.06%

Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl	20%
---	------------

* Cafodd 10 cynrychiolydd undeb eu secondio i gynrychioli eu hundeb, gyda dau ohonynt yn gweithio'n llawn amser i'r undeb. Roedd wyth yn rhai oedd yn rhannu swyddi yn gweithio i'r BBC ac yn cynrychioli eu hundeb ac un o'r rhai a oedd yn rhannu swyddi yn gweithio llai na 50% o'i amser ar ddyletswyddau cyfleuster.

Nifer y cwynion mewnol

Cwynion a wnaed ac yr ymchwiliwyd iddynt

	2021/22	2020/21
Bwlio ac aflonyddu Cwynion a wnaed naill ai'n uniongyrchol i'r adran Adnoddau Dynol, drwy gyflwyno cwyn, neu drwy'r llinell gymorth bwlio ac aflonyddu gyfrinachol.	53 o achosion ffurfiol — 1 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol — 52 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu — 30 wedi'u cau — 21 yn mynd rhagddynt — 2 wedi'u tynnu'n ôl Amser cyfartalog i gau achos: 103 diwr-nod	62 o achosion ffurfiol — 4 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol — 58 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu — 48 wedi'u cau — 9 yn mynd rhagddynt — 5 wedi'u tynnu'n ôl Amser cyfartalog i gau achos: 84 diwrnod
Achosion o chwythu'r chwiban Daw honiadau o chwythu'r chwiban i law naill ai drwy Expolink, sy'n rheoli llinell gymorth chwythu'r chwiban annibynnol ar ein rhan, drwy uwch-reolwyr yn cynnwys cyfarwyddwr anweithredol dynodedig, neu'n uniongyrchol i'r timau Ymchwiliadau.	cyfanswm o 33 o achosion (yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yn cynnwys diogelwch, lladrad a thwyll): — 1 wedi'i gadarnhau — 1 wedi'i gadarnhau yn rhannol — 3 heb eu cefnogi — 17 heb eu cadarnhau — 11 yn mynd rhagddynt	cyfanswm o 22 o achosion (yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yn cynnwys diogelwch, lladrad a thwyll): — 5 wedi'u cadarnhau — 16 heb eu cefnogi — 1 yn mynd rhagddo

Codi pryder yn y BBC

Eir i'r afael â'r mwyafrif o'r cwynion a godir gan staff drwy Bolisi Cwynion y BBC neu Bolisi Bwlio ac Aflonyddu'r BBC. Lle y bo modd, dylid codi unrhyw bryderon gyda rheolwyr llinell yn uniongyrchol, ond gall Partner Busnes Adnoddau Dynol hefyd ddarparu cymorth uniongyrchol i fynd â phethau ymhellach, neu gellir defnyddio'r llinell gymorth Bwlio ac Aflonyddu, a llinell gymorth a gwefan Care First. Chwythu'r chwiban – Gall honiadau chwythu'r chwiban, a elwir yn Ddatgeliadau a Ddiogelir' hefyd, gael eu gwneud gan unrhyw un â phryder gwirioneddol am gamymddwyn difrifol yn y BBC, lle y credir ei bod er lles y cyhoedd i'w ddatgelu. Llywodraethir chwythu'r chwiban gan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd ac mae'n cwmpasu materion sy'n perthyn i'r chwe maes penodol canlynol

- Trosedd(au)
- Methiant i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol
- Anghyfiawnder
- Peryglu iechyd a diogelwch unigolyn
- Niweidio'r amgylchedd

— Camau gweithredu i gwmpasu unrhyw un o'r rhain

Mae Polisi Datgeliadau a Ddiogelir (Chwythu'r Chwiban) y BBC yn galluogi pobl i roi gwybod am honiadau difrifol yn ddiennw, mewn ffordd briodol ac effeithiol, gan gynnwys

- drwy'r Tîm Ymchwiliadau Corfforaethol;
- drwy'r Cyfarwyddwr Diogelwch, Diogeledd a Chydnerthedd;
- drwy'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd Is-adrannol;
- drwy ein darparwr trydydd parti annibynnol allanol, Navex Global, naill ai ar-lein neu drwy ei linell adrodd ddynodedig sydd ar gael mewn 43 o ieithoedd gwahanol

Os bydd honiad yn ymwneud ag aelod o Fwrdd y BBC neu'r Pwyllgor Gweithredol, gall hefyd gael ei wneud yn uniongyrchol i'r cyfarwyddwr anweithredol enwebedig sy'n gyfrifol am y maes hwn, sef Nicholas Serota. Dylid rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol yn uniongyrchol am bryderon yn ymwneud ag achos o dorri Polisi Golygyddol y BBC.

Chwythu'r chwiban

Mae polisi Datgeliadau a Ddiogelir ar waith, a ategir gan linell gymorth 'chwythu'r chwiban', a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau y gellir codi mater yn ddiennw. Mae hwn ar gael mewn 43 o ieithoedd. Ymysg y llwybrau eraill o chwythu'r chwiban mae y Tîm Ymchwiliadau Corfforaethol (lle y cyflwynwyd Pennaeth Chwythu'r Chwiban dynodedig ym mis Chwefror 2022) – y Cyfarwyddwr Diogelwch, Diogeledd a Chydnerthedd – y Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd – a'r Cyfarwyddwr anweithredol dynodedig.

Yn dilyn argymhellion Adolygiad Serota yn 2021/22 mae'r BBC wedi gweithio i ddiweddarau ei bolisi a'i fframwaith ar Chwythu'r Chwiban. Mae'r polisi diwygiedig, a gaiff ei gyflwyno yn 2022/23, yn ehangu cwmpas y pryderon y gellir eu hadrodd drwy ddulliau chwythu'r chwiban y BBC i gwmpasu amrywiaeth ehangach o gamymddwyn difrifol. Ymysg pethau eraill, bydd hyn yn cynnwys materion camymddwyn sy'n debygol o achosi niwed, neu amlygu risg o achosi newid, i'r BBC (h y risg i'w enw da, risg gyfreithiol neu risg ariannol) ac achosion difrifol o dorri'r canllawiau golygyddol.

Adroddiad gweithredol

Adroddiad gwybodaeth am gydraddoldeb

Bob blwyddyn, rydym yn nodi gwybodaeth fanwl am amrywiaeth ein staff, ar draws amrywiaeth o nodweddion gwahanol ac wedi'u rhannu yn amrywiaeth o gategorïau. Mae'r wybodaeth lawn ar gael ar-lein ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol hwn, ac ar y dudalen hon rydym yn nodi ein perfformiad cyffredinol ar gyfer y flwyddyn hon a rhai o'r camau a gymerwyd gennym i wella amrywiaeth a chynhwysiant ein gweithlu.

Ar y cyfan, rydym yn parhau i wneud cynnydd sylweddol yn erbyn yr ymrwymïadau strategol a nodir yng Nghynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu.

Y flwyddyn hon, gwnaethom lansio ein Pecyn Cymorth Cynhwysiant, gan ddefnyddio talent greadigol o fewn a'r tu allan i'r sefydliad; mae hyn wedi rhoi amrywiaeth eang o sgiliau i staff ac arweinwyr i adeiladu diwylliant cynhwysol. Mae'r Pecyn Cymorth, sy'n canolbwyntio ar bynciau craidd fel chwilfrydedd, hunanymwybyddiaeth a gweithredu, yn curadu'r cynnwys gorau sydd ar gael yn allanol, ynghyd â chanllawiau gwreiddiol y BBC.

Lansiodd ein menter Disability Allies ym mis Mawrth 2022 i helpu staff i fod yn gefnogwyr

effeithiol i gydweithwyr anabl, gan adeiladu ar lwyddiant menter LGBTQ+ Allies. Cafodd bron i 200 o gydweithwyr eu hyfforddi fel cefnogwyr yn ystod yr wythnos gyntaf.

Rydym wedi ehangu ein rhaglen Accessible First sy'n sicrhau bod hygyrchedd i staff a chynulleidfaedd anabl wrth wraidd y penderfyniadau a wnawn ym mhob maes. Ym mis Mawrth 2022, gwnaethom ail-lansio ein cynllun pasbort anabledd i staff. Gwnaethom hefyd greu partneriaeth â chwe darlledwr arall sydd wedi addasu pasbortau yn dilyn lansiad y BBC, gan sicrhau bod gwybodaeth am gymorth ac addasiadau'n drosglwyddadwy wrth i bobl newid gyrfaedd o gwmpas y diwydiant.

Rydym wedi creu camau cadarn i archwilio a gwella ein hymrwymiad i gynhwysiant yn ein prosesau cyflogi, gan edrych ar feysydd penodol lle gallwn foderneiddio a gwella ein fframweithiau asesu a dethol. Rydym hefyd wedi dechrau treialu hyfforddiant Cyflogi Cynhwysol i recriwtwyr a Hyrwyddwyr Cyfweiliadau.

Mae'r BBC yn ymrwymedig i gynyddu ein hymwybyddiaeth a'n dealltwriaeth ddiwylliannol i sicrhau bod gennym sefydliad cynhwysol ac adlewyrchol.

Rydym wedi cyflwyno cyfres o raglenni hyfforddiant i gyflawni'r nod hwnnw yn cynnwys hyfforddiant arweinyddiaeth Amrywiaeth a sesynau 90-munud 'mae'n amser siarad am hil' a gyflwynir wyneb yn wyneb wedi'u hanelu at uwch-arweinwyr. Rydym hefyd wedi cynnal 'Mentor up' rhaglen fentora wrthdro sy'n cysylltu cydweithwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol â'n huwch-arweinwyr i sicrhau dealltwriaeth well o'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau a dangynrychiolir.

Ym mis Medi gwnaethom drefnu sesiwn Bord Gron 'Leaders of Colour' i ystyried dau gwestiwn penodol: her fwyaf y BBC i gyflawni tegwch hiliol (o ran y gweithlu a'r allbwn), a pha ymrwymïadau ystyrlon a chyflawnadwy y gallai'r BBC eu gwneud er mwyn cynnwys cynulleidfaedd, talent greadigol a staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Ym mis Ebrill 2021, buom yn gweithio gyda darlledwyr eraill a phartneriaid yn y diwydiant i gomisiynu Canolfan Syr Lenny Henry ar gyfer Amrywiaeth yn y Cyfryngau i gynnal prosiect ymchwil sy'n adolygu dilysrwydd a pherthnasedd y gair 'BAME' fel ffordd o disgrifio grŵp o unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Cyhoeddwyd y canfyddiadau a'r argymhellion ym mis Rhagfyr.

Ym mis Hydref 2021 dyfarnwyd gwobr Cyflogwr Mawr y Flwyddyn i ni yng Ngwobrau Prentisiaeth B.A.M.E o blith 25 o enwebeion yn cynnwys Sky, Virgin, Google, Ernst & Young a Lloyds. Cawsom ein cydnabod hefyd gan y Sefydliad Symudedd Cymdeithasol yn eu rhestr o'r 75 o gyflogwyr uchaf.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni ein targedau 50:20:12 Blwyddyn 1 tuag at sicrhau bod 50% o'r staff yn fenywod, o leiaf 20% o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac o leiaf 12% yn anabl. Ym mis Ebrill y flwyddyn hon, gwnaethom gyflwyno targed newydd o 25% ar gyfer amrywiaeth economaidd a chymdeithasol i sicrhau bod ein sefydliad yn adlewyrchu'r cynulleidfaedd a wasanaethir gennym yn well. Mae'r tabl isod yn dangos ein cynnydd yn erbyn targedau craidd yn y flwyddyn ddiwethaf.



Ar draws y BBC – Pob aelod o staff a phob arweinydd: 31 Mawrth 2022

Nodwedd	Gweithlu	Mawrth '22	Targed Mawrth '22	Targed Mawrth '26
Menywod	Pob aelod o staff Arweinyddiaeth	49.5%	48.8%	50%
		47.5%	46.4%	
B.A.M.E	Pob aelod o staff Arweinyddiaeth	16.4%	15.9%	20%
		13.1%	13.0%	
Anabledd	Pob aelod o staff Arweinyddiaeth	9.3%	9.7%	12%
		7.9%	8.4%	

➔ Ceir data manwl ar y rhain a nodweddion eraill, yn cynnwys dadansoddiadau is-adrannol, yn bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/equality-information-report-2022.pdf

Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiâu yn y BBC 2021/22

Cyflwyniad

Rydym yn parhau i sicrhau bod tegwch a thrylowydr yn un o egwyddorion allweddol ein dull o reoli cyflogau yn y BBC. Yn 2017 gwnaethom gyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiâu yn y BBC, gan nodi'r gwahaniaeth yng nghyflog yr awr dynion a menywod ym mhob rhan o'r BBC. Ers hynny, rydym wedi parhau i arwain y farchnad drwy ychwanegu nodweddion gwarchoddedig eraill i'n data adrodd a chyhoeddi ar fylchau cyflog yn ôl band cyflog, gyda'r nod o sicrhau'r lefelau uchaf o dryloywder yn ein darllediadau y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y bwlch cyflog rhwng y rhywiâu a chyflog cyfartal?

Nid yw'r bwlch cyflog rhwng y rhywiâu yr un peth â chyflog cyfartal. Ers Deddf Cyflog Cyfartal 1970, bu'n anghyfreithlon talu symiau gwahanol i ddynion a menywod am wneud yr un gwaith, oni bai bod 'ffactor perthnasol gwirioneddol' yn cyfrif am y gwahaniaeth. Mae cyflog cyfartal wedi'i nodi yn y gyfraith ac rydym wedi ymrwymo'n llawn i'w gyflawni.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiâu yn mesur y gwahaniaeth rhwng cyflog yr awr dynion a menywod mewn sefydliad, ac fe'i mynegir fel canran o gyflog yr awr dynion. Fe'i hadroddir ar sail canolrif a chymedr.

Y cymedr yw cyfartaledd cyffredinol cyflogau pob cyflogai, ac felly gall cyflogau uchel neu isel iawn effeithio arno. Mae'r canolrif yn golygu rhestru pob cyflog mewn trefn, o'r isaf i'r uchaf, a dewis y cyflog yn y canol.

Bwlch cyflog rhwng y rhywiâu Darlledu Cyhoeddus y BBC

	Cymedr	Canolrif
2022	5.1%	5.9%
2021	5.0%	5.2%
2020	6.3%	6.2%
2019	6.8%	6.7%
2018	8.4%	7.6%
2017	10.7%	9.3%

Ers i ni ddechrau cyflwyno adroddiadau, gwelwyd gostyngiad cyson yn ein bylchau cyflog canolrif a chymedr rhwng y rhywiâu. Y flwyddyn hon, er bod ein bwlch cyflog cymedr rhwng y rhywiâu wedi aros yr un fath, gwelwyd cynnydd bach yn ein bylchau cyflog eraill. Disgwyliwn weld rhai amrywiadau yn y niferoedd bob blwyddyn a gwelir hyn ym mhrofiad sefydliadau eraill yn y diwydiant. Rydym hefyd yn cydnabod y gall ein bylchau cyflog gynyddu oherwydd amrywiadau mewn cyfraddau gadael, cyfraddau cyflogi mwy amrywiol i swyddi lefel mynediad ac o ganlyniad i fentrau sy'n cefnogi ein hamcan sefydliadol ehangach i gyflawni BBC 50:20:12 erbyn 2026. Ein nod yw sefydliad lle ceir cydbwysedd rhwng y rhywiâu, gydag o leiaf 20% o'r staff o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac o leiaf 12% o'r staff yn bobl anabl. Mae'r strategaeth hon hefyd yn ein hymrwymo i gynyddu nifer y staff LHDTC+ a nifer y staff o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwy amrywiol. Gwelwyd cynnydd ym mhob un o'r targedau hyn a'r flwyddyn hon rydym hefyd wedi cyflwyno targed ar gyfer symudedd cymdeithasol i sicrhau ffocws ac i fesul ein gwaith yn y maes hwn.

Mae'r bylchau cyflog yn y BBC yn bennaf oherwydd cynrychiolaeth ar lefelau gwahanol o'r sefydliad felly mae hefyd angen i ni roi sylw manwl i amrywiaeth ar lefel sefydliadol yn ogystal â'r cyfrannau cyffredinol. Y flwyddyn hon, rydym wedi cynyddu cyfrannau'r menywod a gyflogir i'n rolau uchaf. Rydym hefyd wedi cyflogi'r nifer uchaf o brentisiaid gyda chyfran sylweddol o brentisiaid benywaidd ac o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn ymuno â ni; mae hyn yn helpu i sicrhau bod gennym biblinell gadarn o dalent amrywiol yn dod i mewn i'r sefydliad.

* Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021

Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn nifer o feysydd sgiliau hanfodol lle rydym yn cystadlu am dalent gyda sefydliadau o bob diwydiant; ar hyn o bryd, mae gan rai o'r meysydd swyddogaethol hyn gyfran uwch o ddynion (yn y BBC ac yn allanol) ac, yn hynny o beth, gall yr ymryiadau cyflog hyn gael effaith negyddol ar ein bylchau cyflog rhwng y rhywiâu. Rydym wrthi'n gweithio i wella ein hamrywiaeth yn y meysydd swyddogaethol hyn.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiâu yn y BBC yn parhau'n sylweddol is na'r bwlch canolrif cyfartalog cenedlaethol, sef 15.4%* ac rydym yn cymharu'n ffafriol iawn hefyd ag eraill yn niwydiant y cyfryngau. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym fesurau llywodraethu a strwythurau cyflog cadarn ar waith i reoli cyflogau, gan gynnwys y lefel uchaf o graffu ar draws ein holl benderfyniadau ynghylch cyflogau, a chefnogi rheolwyr i reoli cyflogau mewn modd teg a chyson.

Beth mae'r adroddiad hwn yn ei gynnwys?

Mae Adroddiad y BBC ar y Bwlch Cyflog yn nodi'r gwahaniaeth yng nghyflog yr awr dynion a menywod, ar sail gymedr a chanolrif. Fel o'r blaen, rydym wedi cynnwys datgeliadau gwirfoddol o fylchau eraill mewn cyflogau yn y BBC. Sicrhawyd cyfrifiadau statudol a chanlyniadau gan dîm Archwilio Mewnol y BBC.

Rhydd yr adroddiad hwn y datgeliadau statudol y mae'n rhaid i Ddarlledu Cyhoeddus y BBC eu gwneud, yn ogystal â chyd-destun pellach o ran cyflog rhwng y rhywiâu yn y BBC. Mae'r World Service wedi'i gynnwys ar gyfer staff Ddarlledu Cyhoeddus y BBC yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ond ni chyn-hwyswyd ein his-gwmnïau masnachol, BBC Studios, BBC Global News, BBC Studioworks, Plant mewn Angen na Media Action.

Rydym wedi cynnwys data ar gyfer pobl ar gontractau staff (parhaol a thymor sefydlog). Mae hyn yn cynnwys ein cyflwynwyr ar yr awyr sydd â chontractau staff y BBC, ond nid cyflwynwyr ar gontractau llawrwydd.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw'r BBC ychwaith yn cynnwys gweithwyr asiantaeth a wnaeth weithio i'r BBC yn llawn amser, ond a gyflogwyd drwy asiantaethau trydydd parti, yn ei adroddiadau ar fylchau cyflog. Y rheswm dros hyn yw y byddant wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog a gyflwynir gan yr asiantaeth sy'n eu cyflogi.

Bylchau cyflog

Bwlch cyflog yw'r gwahaniaeth yn enillion cyfartalog gros yr awr dau gategori penodol o gyflogeion – er enghraifft, dynion a menywod ar gyfer y bwlch cyflog rhwng y rhywiâu, neu gyflogeion anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl ar gyfer bwlch cyflog pobl anabl. Mae'n seiliedig ar gyflogau a delir yn uniongyrchol i gyflogeion cyn didynnu treth incwm a chyfraniadau nawdd cymdeithasol.

Yn yr adrannau canlynol archwilir bylchau cyflog cyflogeion gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn y DU, ac eithrio Gogledd Iwerddon, ar gyfer y categorïau penodol canlynol:-

- Dynion a menywod
- Cyflogeion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- Cyflogeion anabl
- Cyflogeion LHDTC+

Yn unol â'r gofynion statudol, mae'r ffigurau o ran y gweithlu a'r cyflog rhwng y rhywiâu a ddangosir yn yr adroddiad hwn ar gyfer staff Darlledu Cyhoeddus y BBC yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiâu gan gynnwys Gogledd Iwerddon yn 5.9% (canolrif) a 5.2% (cymedr).

Mae BBC Studios yn adrodd ar ei fwlch cyflog rhwng y rhywiâu ar wahân gan fod ganddo fwy na 250 o gyflogeion, felly nid yw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Bwlch cyflog rhwng y rhywiâu

Mae'r bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiâu yn y BBC wedi cynyddu'r flwyddyn hon i 5.9% o 5.2% y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r bwlch cyflog cymedr rhwng y rhywiâu wedi cynyddu i 5.1% o 5.0% y flwyddyn ddiwethaf.

Adroddiad gweithredol

Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiâu yn y BBC 2021/22 – parhad

Mae'r bylchau, o'u cymharu ar sail Bandiau Gyrfa (h.y. cymharu swyddi o feintiau tebyg â'i gilydd), yn llai a chânt eu hadolygu fel rhan o'n ffocws ar bennu safle swyddi drwy'r Gwriad Cyflogau Blynyddol a chyflwyno dulliau delweddu data i helpu i lywio rheolwyr pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau.


Mae'r tabl hwn yn dadansoddi'r bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiâu ar draws ein saith band gyrfa

A	5.2%
B	-0.9%
C	3.1%
D	1.2%
E	2.2%
F	1.0%
SL	-7.6%

Rhaniad cyflog yn ôl chwarterel

Wrth adolygu ein bylchau cyflog, lluniwn restr o enillion ein cyflogeion – o'r uchaf i'r isaf – ac fe'i rhennir yn bedwar grŵp cyfartal, neu chwarterel. Dengys y graff isod gyfran y dynion a'r menywod ym mhob grŵp.

Rhaniad staffio rhwng y rhywiâu yn ôl chwarterel



Bwlch cyflog ar gyfer staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol


Mae'r bwlch cyflog canolrif yn y BBC ar gyfer staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi cynyddu i 1.6% o 0.0% y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r bwlch cyflog cymedr yn parhau i fod yn 3.3%.

	Cymedr	Canolrif
2022	3.3%	1.6%
2021	3.3%	0.0%
2020	3.0%	-0.3%
2019	3.2%	-1.1%
2018	4.0%	-1.1%
2017	5.7%	0.4%

Dengys y tabl isod y bylchau cyflog canolrif ar gyfer ein cyflogeion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ar gyfer band gyrfa.

A	-2.7%
B	-4.1%
C	-4.2%
D	-3.2%
E	-4.1%
F	0.4%
SL	-8.8%

Rhaniad staffio ar gyfer staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn ôl chwarterel



Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn bedwar categori penodol o ethnigrwydd. Dengys y dadansoddiad hwn fod y bwlch cyflog ar gyfer cyflogeion du yn dal i fod yn amlwg uwch nag ar gyfer categorïau eraill o ethnigrwydd, sef 8.6%.

	Cymedr	Canolrif
Asiaidd	0.2%	0.3%
Du	10.4%	8.6%
Cymysg	5.1%	3.7%
Arall	-2.5%	-6.8%

Bwlch cyflog pobl anabl

Ein bwlch cyflog canolrif ar gyfer pobl anabl yn y BBC yw 5.9% a'r cymedr yw 7.4%. Mae'r ddau wedi cynyddu ers yr adroddiad y flwyddyn ddiwethaf.


	Cymedr	Canolrif
2022	7.4%	5.9%
2021	5.6%	4.0%
2020	4.9%	3.6%
2019	4.8%	3.1%
2018	4.9%	4.0%
2017	5.2%	3.3%

Dengys y tabl canlynol ein bwlch cyflog canolrif ar gyfer pobl anabl fesul band cyflog y BBC lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion ag anabled yn y band.

A	1.4%
B	1.5%
C	2.3%
D	0.2%
E	-1.8%
F	7.8%
SL	-

Fel gyda'r categorïau blaenorol, rydym wedi defnyddio'r pedwar chwarterel cyflog cyfartal i ddangos cyfran y cyflogeion anabl ym mhob grŵp.

Rhaniad staffio ar gyfer pobl anabl yn ôl chwarterel



Bwlch cyflog LHDTC+

Mae bylchau cyflog canolrif a chymedr ein cyflogeion LHDTC+ wedi cynyddu y flwyddyn hon, i 4.9% a 4.2% yn y drefn honno.


	Cymedr	Canolrif
2022	4.2%	4.9%
2021	2.5%	2.7%
2020	-0.3%	0.8%
2019	-0.7%	0.7%
2018	-	-
2017	-	-

Dengys y tabl canlynol ein bwlch cyflog canolrif ar gyfer pobl LHDTC+ fesul band cyflog y BBC lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion LHDTC+ yn y band.

Band	Canolrif (%)
A	1.6%
B	5.5%
C	3.7%
D	-0.4%
E	-2.3%
F	2.8%
SL	-9.0%

Gan ddefnyddio'r pedwar chwarterel cyflog cyfartal, dengys y tabl hwn gyfran y cyflogeion sydd wedi nodi eu bod yn LHDTC+ a'r rhai nad ydynt wedi gwneud hynny.

Rhaniad staffio ar gyfer pobl LHDTC+ yn ôl chwarterel



Trosolwg

Bylchau cyflog 2021/22 ar gyfer y pum categori

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r prif ffigurau ar gyfer y bwlch cyflog ar gyfer y pum categori a nodir yn fanwl yn yr adroddiad, yn ogystal â'r categori ar gyfer cyflogeion rhan-amser.

	Cymedr 2021/22	Canolrif 2021/22	Cymedr 2020/21	Canolrif 2020/21
Rhywedd	5.1%	5.9%	5.0%	5.2%
Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	3.3%	1.6%	3.3%	0.0%
Anabledd	7.4%	5.9%	5.6%	4.0%
LHDTC+	4.2%	4.9%	2.5%	2.7%
Rhan-amser	2.6%	2.6%	2.3%	1.6%

Taliadau ychwanegol yn y BBC

Nid yw Darlledu Cyhoeddus y BBC yn talu bonysau. Rhoddwyd y gorau i dalu bonysau dewisol wedi'u hariannu gan ffi'r drwydded i uwch-reolwyr a chyfarwyddwyr gweithredol yn 2009.

Mae'r gofynion statudol ar gyfer adrodd ar gyflog rhwng y rhywiau yn cynnwys "bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ran bonysau". Yn unol â'r canllawiau hynny, cyfrifwn y ffigurau isod ar sail ein cynllun talebau a dyfarndaliadau gwasanaeth hir, er nad ydym yn ystyried y rhain yn daliadau bonws. Mae'r cynllun talebau yn fodd i wobrwyo staff ym mandiau A i F am berfformiad heb ei ail. Yn ystod y flwyddyn, cafodd **3,054** o staff dalebau, a'r swm canolrif oedd **£200**. Cafodd **154** o staff ddyfarndaliadau gwasanaeth hir, a'r taliad cyfartalog oedd **£4,614**.

Y flwyddyn hon, rydym unwaith yn rhagor yn cyhoeddi manylion staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sydd wedi cael talebau.

Cafodd **51%** o fenywod daliad, a chafodd **49%** o ddynion daliad. Cafodd **18%** o staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol daliad. Disgwylwn i'r ffigur hwn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar y bobl dan sylw, ond rydym yn parhau i'w fonitro er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu gwobrwyo'n deg.

	Cymedr	Canolrif
Bwlch bonws rhwng y rhywiau	13.3%	0.0%
Bwlch bonws ar gyfer staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	20.0%	0.0%
Bwlch bonws anabledd	13.1%	0.0%
Bwlch bonws LHDTC+	34.2%	0.0%

Adroddiad gweithredol Ymgynghoriadau

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd y BBC ystyried manteision ymgynghori â phobl â budd fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol, ac mae'n elfen allweddol o'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd ar ddychwelyd BBC Three i deledu llinellol

Gwnaethom adrodd y flwyddyn ddiwethaf bod y BBC, fel rhan o Brawf Budd y Cyhoedd, wedi ymgynghori ar gynigion i ddychwelyd BBC Three fel sianel teledu a ddarllidir yn ogystal â chyrchfan ar-lein. Roedd y cam hwn yn rhan o ymgyrch y BBC i sicrhau mwy o werth i gynulleidfaoedd - byddai sianel a ddarllidir a BBC iPlayer gyda'i gilydd yn helpu i dyfu ein harlwy a chynnig mwy o werth i gynulleidfaoedd iau. Byddai hefyd yn cynnig mwy o werth cyhoeddus drwy gynyddu ymhellach amrywiaeth a chreadigrwydd ein hallbwn ac adeiladu ar gryfderau perfformiad ar-lein BBC Three.

Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn am werth posibl y cynigion i'r cyhoedd a'u heffaith gystadleuol bosibl. Ym mis Mehefin 2021, daeth Bwrdd y BBC i'r casgliad bod y cynigion wedi bodloni Prawf Budd y Cyhoedd ac y byddent yn cael eu cyflwyno i Ofcom am benderfyniad terfynol.

Ar ddiwedd mis Tachwedd 2021, yn dilyn Asesiad o Gystadleurwydd a oedd yn cynnwys rhagor o ymgynghoriadau, penderfynodd Ofcom y byddai'r BBC yn mynd rhagddo â'r broses o lansio'r sianel, a daeth i'r casgliad y byddai'n sicrhau gwerth cyhoeddus ychwanegol i gynulleidfa allweddol, na chynrychiolir yn ddigonol, drwy gynnig mynediad gwell i gynnwys BBC Three, yn cynnwys cyfran uwch o gynnwys gwreiddiol â ffocws ar y DU ar draws amrywiaeth o genres yn cynnwys newyddion, materion cyfoes a chynnwys ffeithiol, yn ogystal â drama, adloniant a chomedi. Pennodd Ofcom sawl amod ynghylch ei benderfyniad a oedd yn cynnwys amodau Trwydded Weithredu ar y sianel newydd ar gyfer newyddion a chynnwys sy'n cael ei ddangos am tro cyntaf a'i gwneud yn ofynnol i 75% o'r holl oriau darlledu fod yn rhaglenni gwreiddiol o'r DU.

Ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd ar newidiadau i BBC iPlayer

Ym mis Mai 2022 gwnaethom ddatgelu cynlluniau a fydd yn gweld cynnwys a gwasanaethau'n cael eu



hail-lunio i adeiladu BBC sy'n ddigidol yn gyntaf. Fel rhan o hyn, mae'r BBC yn cynnig ehangu bocs-setiau ac archif, er mwyn sicrhau bod mwy o gyfresi'r BBC ar gael ar wasanaeth ar alw BBC iPlayer. Fel newid sylweddol posibl i wasanaeth cyhoeddus y BBC, mae'r Bwrdd wedi galw am gynnal Prawf Budd y Cyhoedd er mwyn asesu ei werth cyhoeddus a'i effaith ar y farchnad.

Mae'r cynllun hwn yn rhan o'n hymgyrch i sicrhau mwy o werth i gynulleidfaoedd. Credwn y bydd Prawf Budd y Cyhoedd yn gweld y bydd y newidiadau hyn yn galluogi'r BBC i gyflawni ei genhadaeth ac i hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus yn well, gan wasanaethu pob cynulleidfa yn cynnwys y rheini sydd ag arferion gwylio ar alw cryf. Bydd y gallu i gyhoeddi mwy o gynnwys o'r archif yn galluogi'r BBC i gyflwyno amrywiaeth ehangach o raglenni nodedig iawn i gynulleidfaoedd ar draws amrywiaeth eang o genres ac i wasanaethu'r holl grwpiau demograffig yn well. Credwn y bydd hefyd yn hyrwyddo gwerth yn y diwydiant – caiff y broses o gyhoeddi mwy o gynnwys a

gomisiynwyd gan y BBC ar BBC iPlayer ei gwneud o dan y telerau masnach blaenorol neu'r rhai cyfredol ac, fel y cyfrwy, byddant yn fuddiol i'r sector cynhyrchu a'r sector talent.

Er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid leisiu barn, lansiodd y BBC ymgynghoriad ym mis Mehefin 2022. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd ag ymchwil a dadansoddiadau eraill, yn helpu i lywio cynigion terfynol y BBC, a ddisgwylir yn ystod hydref 2022. Os bydd Bwrdd y BBC yn penderfynu bod y cynigion yn bodloni Prawf Budd y Cyhoedd, cânt eu cyflwyno i Ofcom ar gyfer Asesiad o Gystadleurwydd a phenderfyniad terfynol, yn unol â'n gofynion o dan y Siarter a'r Cytundeb.

BBC Three yn dychwelyd i deledu llinellol
(Ch-Dd) RuPaul's Drag Race / The Catch Up / Mood / The Fast and the Farmer-ish

Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae Grŵp y BBC wedi cymeradwyo targedau ar sail gwyddoniaeth i leihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr i Sero Net ac mae'n ymrwymedig i greu cynnwys mewn ffordd lanach a gwyrddach. Ein nod hirdymor yw bod yn sefydliad Net Positif, gan roi mwy yn ôl i'r planed na'r hyn rydym yn ei gymryd allan. Rydym yn parhau i chwarae rôl amlwg yn ein diwydiant, gan hyrwyddo prosesau cynhyrchu cynaliadwy yn y DU a ledled y byd.


Strategaeth a thargedau Sero Net

Cyhoeddwyd ein strategaeth a'n targedau Sero Net ym mis Hydref 2021, i leihau, erbyn 2030, yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o'n gweithrediadau uniongyrchol (Cwmpas 1 a 2) 46% ac yn ein cadwyn gwerth (Cwmpas 3) 28%. Cymeradwywyd y targedau dyfodol agos hyn gan y fenter Targedau ar Sail Gwyddoniaeth sciencebasedtargets.org ac maent yn cyd-fynd â Chytundeb Paris a wnaed gan y CU yn 2015 i gyfyngu cynhesu byd-eang i ymhell islaw 2°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol a cheisio cyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd i 1.5°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol. Ym mis Chwefror 2022, ymrwymodd y BBC hefyd i gyfrifo targedau lleihau allyriadau Sero Net hirdymor o fewn dwy flynedd, gan gyrraedd safon y fenter Targedau ar Sail Gwyddoniaeth i ddileu ein heffaith ar yr hinsawdd o allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050.

Y nodau heriol hyn yw'r dull priodol ar gyfer sefydliad cyfryngau byd-eang ond bydd ffactorau allanol o drydydd partion bob amser yn effeithio ar ein gallu i gyflawni yn erbyn y targedau hyn. Bydd buddsoddiad yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio dwfn a dileu allyriadau yn hytrach na dibynnu'n helaeth ar wrthbwysio, fel yr amlinellir yn ein gwefan ar Gynaliadwyedd Amgylcheddol: bbc.co.uk/sustainability/our-plan. Fodd bynnag, rydym yn ymrwymedig i wrthbwysio ein hallyriadau o gynyrchiadau teledu fel sy'n ofynnol yn safon diwydiant albert BAFTA.

Roedd allyriadau nwyon tŷ gwydr Grŵp y BBC ar gyfer 2019/20 yn 1.3 miliwn tunnell o CO₂e, wedi'u dwyn ynghyd o'r meysydd y mae gennym reolaeth a dylanwad drostynt. Dyma'r llinell sylfaen y gwneir gostyngiadau ohoni er mwyn cyrraedd ein targedau Sero Net.

Rydym wrthi'n cyfrifo allyriadau nwyon tŷ gwydr Grŵp y BBC ar gyfer 2020/21 a 2021/22 i asesu tueddiadau ac i nodi heriau. Rydym hefyd yn rhoi system adrodd ar gynaliadwyedd ar waith i guradu data amgylcheddol y BBC, er mwyn galluogi gwaith cyson o olrhain perfformiad ym mhob rhan o Grŵp y BBC ac i symleiddio prosesau adrodd allanol.



a. Eithriadau ffin targed Defnydd o gynhyrchion solet a chyffwrdd yn cymudo
b. Ni chafff categorïau â < 2% o allyriadau eu cynnwys yn y diagram hwn ond cânt eu cynnwys yn y ffin targed ac maent yn cwmpasu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thanwydd ac ynni cludiant a dosbarthiad i fyny'r gadwyn gyflenwi. asedau ar les i lawr y gadwyn gyflenwi. buddsoddiadau a gwastraff mewn gweithrediadau. Gyda i gilydd maent yn gwneud 100% o'r cyfanswm ôl-troed o 1.3M tCO₂e.

Strategaeth a thargedau Darlledu Gwyrddach

Drwy ein strategaeth Darlledu Gwyrddach, a lansiwyd yn 2018, mae'r BBC wedi ymrwymo i dargedau amgylcheddol ar gyfer 2022 yn seiliedig ar ein llinell sylfaen yn 2015/16, fel y dangosir yn y tabl isod. Dyma'r tro cyntaf y byddwn yn adrodd ar ein perfformiad yn erbyn y targedau hyn, ers eu disodli â'n targedau Sero Net a amlinellir yma: bbc.co.uk/sustainability/

Targedau a Mesurau Darlledu Gwyrddach y BBC	Targedau/Mesurau erbyn 2022 (llinell sylfaen 2015/16)	Cynnydd 2021/22
Allyriadau nwyon tŷ gwydr ¹	Lleihau 24%	Wedi lleihau 77%
Ynni ²	Lleihau 10%	Wedi cynyddu 3%
Gwastraff ³	Lleihau 10%	Wedi lleihau 51%
	Ailgylchu 75%	Wedi ailgylchu 38%
	Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi	Gwastraff i safleoedd tirlenwi 1%
	Dim plastig defnydd untro erbyn 2020	Gweler troednodyn 3
Rhaglenni ⁴	100% cyfrifiad ôl-troed albert	93%
	25% allbwn wedi'i ardystio gan albert	53%

1 Mae'r targed i leihau CO₂e yn dilyn methodoleg sy'n seiliedig ar wyddoniaeth sy'n mynd i'r afael ag allyriadau cwmpas 1 a 2 ac yn defnyddio dull datgarboneiddio'r sector
2 Mae defnydd trydan y DU yn 2021/22 yn unol â chanllawiau adrodd SECR 162,604 MWh Mae defnydd tanwydd ar gyfer trafniadaeth yn 2021/22 yn unol â chanllawiau adrodd SECR Diesel a phetrol a ddefnyddiwyd mewn ceir fflyd a cheir cwmni at ddibenion busnes 583,120 litr. Nid oes data ar gael ar danwydd a ddefnyddiwyd mewn ceir personol/llog at ddibenion busnes Mae newidiadau gweithredol a gyflwynwyd yn ystod COVID-19 wedi cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar ein targedau amgylcheddol. Gwelwyd gostyngiad mewn allyriadau carbon o deithio ar gyfer cynyrchiadau a busnes yn sgil gweithio o bell a llai o deithio. Nid yw'r canlyniadau a gyflwynir yn nodi allyriadau sy'n deillio o weithio o gartref. Cynyddodd ein defnydd o nwy ar draws ystod y DU gan fod angen gwres ychwanegol i gadw tymhereddau amgylchynol adeiladol yn gyfforddus a chafodd cylchrediad aer ei gynyddu i leihau'r risg y byddai'r staff yn cael COVID-19. Er gwaethaf y ffaith bod mwy o staff wedi gweithio o gartref yn ystod y cyfngiadau symud, parhaodd ein hadeiladau i fod ar agor i ddarparu gwasanaethau darlledu hanfodol a wnaeth atal gostyngiadau sylweddol yn y defnydd o drydan. Nid oes inswleiddio effeithiol mewn llawer o adeiladau hyn ond bydd ein strategaeth barhaus o gau adeiladau mwy aneffeithlon a symud i eiddo mwy newydd a adeiladwyd i fanyleb amgylcheddol uwch, yn ogystal â thargedu cyfleoedd i sicrhau effeithlonrwydd ynni, yn gostwng ein hallyriadau Cwmpas 1 a 2. Gwelwyd cynnydd hefyd yn y defnydd o ynni o ganlyniad i'r ffaith y casglwyd mwy o ddata a data mwy cyflawn o swyddfeydd rhyngwladol ac is-gwmnïau Grŵp y BBC
3 Mae'r data ar wastraff ar gyfer y DU yn unig. Cynyddodd COVID-19 y swm o wastraff hylendid na ellir ei ailgylchu ac roedd llawer o'r cynhyrchion hyn yn rhai plastig, a amharodd ar yr ymdrechion i gyrraedd ein targed ar gyfer plastig untro. Gan fod cyfyngiadau COVID-19 wedi'u codi bellach, byddwn yn mynd ati i ddileu'r defnydd o blastig untro yn y dyfodol

Adroddiad gweithredol Cynaliadwyedd amgylcheddol – parhad

4 Comisiynau adran Cynnwys y BBC yn unig, yn gyson â'r fethodoleg ar gyfer 2020/21 Ni chafodd targed ôl-troed albert o 100% ei gyrraedd oherwydd yr amgylchiadau eithriadol mewn amgylchedd cynhyrchu byw yn ogystal â heriau ymgysylltu â rhai o Is-adrannau a chyflenwyr y BBC Eir i'r rfael â'r rhain

Allyriadau nwyon tŷ gwydr 2021/22	Allyriadau gros	Allyriadau net
Allyriadau nwyon tŷ gwydr (tunelli o allyriadau CO ₂ e, Cwmpas 1 a 2)	54,181	22,230
Dwysedd carbon (tunelli o allyriadau CO ₂ e/ cyfanswm incwm y grŵp £m)	10.1	4.2

Mae'r data ar nwyon tŷ gwydr ar gyfer safleoedd yn y DU a swyddfydd rhyngwladol a reolir Mae allyriadau 'gros' yn defnyddio ffactor cyfartalog grid ar sail lleoliad Mae 'net' yn cyfrif am drydan adnewyddadwy a brynwyd yn y DU Mae'r data wedi'u cynhyrchu yn unol â Safon Cyfrifyddu ac Adrodd Corfforaethol y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr

Ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi

Rydym yn gweithio gyda chyflenwyr a phartneriaid i leihau allyriadau ein cadwyn gyflenwi, sy'n cyfateb i 85% o'n llinell sylfaen ôl-troed carbon yn cynnwys nwyddau cyfalaf a chyfarpar. Ryym wedi gofyn i gyflenwyr mawr gymryd rhan yn y Prosiect Datgelu Carbon, system ddatgelu fyd-eang i sefydliadau reoli eu heffeithiau amgylcheddol. Byddwn yn eu cefnogi drwy'r broses hon wrth iddynt ddod ar y daith i drawsnewid i Sero Net gyda ni.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gaffael yn gyfrifol drwy ddewis cyflenwyr sy'n rhannu amcan y BBC o roi cynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd wrth wraidd eu gweithrediadau. Mae ein Strategaeth Caffael Gynaliadwy: downloads.bbc.co.uk/supplying/pdf/ResponsibleProcurementStrategy2021.pdf, yn canolbwyntio ar y tri P – Planed, Pobl a Phunt – i bwysleisio ein nodau o ran

cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol ac i sicrhau gwerth i dalwyr ffrîr drwydded.

Y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd

Mabwysiadwyd y Tasglu gan y BBC yn 2021 i adrodd ar risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y dyfodol a allai effeithio ar y sefydliad. Esbonnir llif gwaith y prosiect isod:

Llywodraethu: Rôl y Pwyllgor Archwilio a Risg yw cynorthwyo'r Bwrdd yn y gwaith o oruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg, sy'n cynnwys risg cynaliadwyedd a'r modd rydym yn cydfynd ag ymrwymadau'r Tasglu. Mae'r Grŵp Llywio Cynaliadwyedd, sy'n cynnwys uwch-arweinwyr is-adrannol y BBC, yn gyfrifol am adolygu cynnydd yn erbyn strategaeth gynaliadwyedd a pherfformiad y BBC

drwy ddefnyddio metrigau a thargedau allweddol, a datblygu cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae is-adrannau'r BBC yn cymryd cyfrifoldeb dros eu camau amgylcheddol eu hunain, dan arweiniad eu huwch-dimau rheoli, ac yn datblygu cynlluniau cynaliadwyedd a datgarboneiddio pwrpasol. Pan fydd ein llwyfan adrodd ar gynaliadwyedd ledled y BBC yn weithredol, bydd pob is-adran yn gallu monitro ei gynnydd ei hun yn erbyn targedau allyriadau a thargedau amgylcheddol y BBC.

Strategaeth: Drwy adeiladu ar ein gwaith y flwyddyn ddiwethaf i nodi a mesur risgiau a chyfleoedd ffisegol a throsglwyddo i'r BBC, rydym wedi mynd ati ymhellach i fireinio ein rhestr o risgiau a chyfleoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt ac wedi cynnal dadansoddiad o senarios hinsawdd er mwyn deall eu heffaith bosibl o dan y ddau senario tymheredd yn y dyfodol: "Sero Net" (cyfwerth â chynhesu 1.5°C) a "Busnes fel Arfer" (cyfwerth â chynhesu 3.5-4.5°C) er mwyn profi cydnerthedd ein cynllun busnes presennol. Rydym wedi ystyried gorwelion amser byrdymor (2022 i 2029), tymor canolig (2030 i 2039) a hirdymor (2040 i 2059), sy'n cyd-fynd â chylchoedd oes ein cynlluniau busnes a'n hasedau, ac wedi asesu pa bryd y bydd yn debygol y bydd pob risg yn dod i'r amlwg a'r effaith ariannol berthnasol. Ystyriwyd bod sawl ffynhonnell o senarios yn cyflawni hyn a oedd yn cynnwys yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol (IEA), yr Asiantaeth Ynni Adnewyddadwy Ryngwladol (IRENA), Egwyddorion y Cenhedloedd



"Projecting a Greener Future" drwy gydol COP26 yn Pacific Quay, Glasgow

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Risgiau trawsnewid

Costau uwch yn gysylltiedig â phrisiau, gwrthbwyso a threthi carbon

Mae'n debygol y bydd ymrwymadau sero net y DU a rhyngwladol yn golygu y bydd dulliau prisio carbon yn cael eu rhoi ar waith yn gyflymach yn cynnwys terfynau allyriadau gyda gofynion gwrthbwyso a threthi carbon

Llai o waith i ddenu a chadw talent

Bydd strategaeth datgarboneiddio'r BBC a'i enw da ar faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithio ar gyfraddau denu a chadw cyflogion a chontractwyr y BBC

Mynediad cyfyngedig i gyfalafal

Mae gan fwy o ddarparwyr cyfalaf eu hymrwymadau sero net eu hunain sy'n arwain at gost cyfalaf uwch i sefydliadau y canfyddir nad dynt yn cymryd digon o gamau mewn perthynas â'r hinsawdd

Risg i enw da o wyrddgalchu

Canfyddiad cyhoeddus nad yw negeseuon cynnwys cryf a pherfformied gwael yn erbyn targedau yn cyfateb neu nad yw cyflenwyr/cyflogion yn dilyn strategaeth hinsawdd y BBC.

Risgiau ffisegol

Risg o lifogydd yn achosi difrod ac yn tarfu ar wasanaethau

Mae'n debygol y bydd cynnydd mewn dyddodiad a dwyster digwyddiadau yn cynyddu'r risg o lifogydd, gan gynyddu'r risg o ddifrod i asedau a seilwaith, yn ogystal â tharfu ar wasanaethau a ddarperir

Unedig ar Fuddsoddiad Cyfrifol (UN PRI), yn ogystal â gwybodaeth leol gan adrannau a swyddogaethau gwahanol y BBC.

Rydym wedi gweld effaith feintiol berthynol risgiau a chyfleoedd sylweddol perthnasol o dan y senario Sero Net, sy'n gyferth â 1.5 gradd. Mae hyn yn cynnwys nodi'r ffactorau a'r ysgogwyr ariannol sylfaenol a allai gael effaith sylweddol ar y BBC, fel effeithiau ar gost a reffeni, gofynion rheoliadol fel prisiau carbon a threthi, neu newidiadau i hygyrchedd cyfalaf. Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn ein helpu i nodi risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a chylch gael yr effeithiau mwyaf niweidiol dros y byrdymor i'r hirdymor fel difrod ffisegol a tharfu ar wasanaethau yn sgil digwyddiadau tywydd eithafol, a niwed i enw da yn sgil anweithred wirioneddol neu gynfyddedig o ran newid yn yr hinsawdd. Mae'r broses hon yn cyd-fynd â fframwaith rheoli risg presennol y BBC, a defnyddir y canlyniadau o'r dadansoddiad hwn i lywio ein proses o wneud penderfyniadau strategol yn fewnol.

Rydym hefyd wedi nodi ymateb strategol posibl a gweithgareddau lliniaru risgiau ar gyfer pob risg a chyfle sylweddol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau fel cyflymu gweithgareddau datgarboneiddio drwy fwy o adnoddau ac arloesedd, cyd-fynd â disgywiliadau'r diwydiant a'r farchnad, ac atgyfnerthu prosesau monitro a llywodraethu. Rydym yn bwriadu rhoi datgeliadau ariannol yn y rownd adrodd

nesaf i wella tryloywder pan fydd y rhain wedi cael eu dilysu'n fewnol.

Rheoli Risgiau: Nodir bod cynaliadwyedd amgylcheddol a'r newid yn yr hinsawdd yn risg weithredol gan Grŵp y BBC, fel y'i disgrifir yn adran Prif Risgiau'r adroddiad hwn ar dudalen 125. Nodwch nad yw hyn yn cynnwys risgiau a nodwyd yn fwy diweddar yn y tabl ar dudalen 71.

Metrigau a Thargedau: Caiff ein targedau uchelgeisiol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyr ac effeithiau amgylcheddol eraill eu hamlinellu ar dudalen 69 ynghyd â'n cynnydd yn erbyn y targedau hynny. Yn dilyn ein dadansoddiad o senarios a'n dealltwriaeth o effaith ariannol bosibl y risgiau a'r chyfleoedd, byddwn yn datblygu metrigau i fonitro'r broses o ddatblygu risgiau a'n cynnydd o ran manteisio ar gyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Cynlluniau yn y dyfodol: Rydym yn cydnabod bod effeithiau posibl risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn debygol o newid dros amser. Felly, bydd ein strategaeth a'n fframwaith rheoli risg hefyd yn datblygu i fynd i'r afael â'r newidiadau hyn ac i wella cydnheredd ein gweithrediadau a'n strategaeth ynghyd â pharhau i ddilyn canllawiau cyfredol ac arferion arweiniol.

Cynrychiadau a gweithrediadau cynaliadwy

Mae'r BBC yn parhau i chwarae rhan weithredol ac amlwg yng nghosortwm a Chyfarwyddiaeth Albert BAFTA, a ddeilliodd

Cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Arbedion o effeithlonrwydd ynni

Mae cyfle i gyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni i adeiladau, gweithrediadau ac ymddygiadau'r BBC yn debygol o sicrhau arbedion o ran ynni a chostau

Datgarboneiddio cynhyrchion a gwasanaethau'r BBC

Mae newid mewn dewisiadau a gofynion defnyddwyr am wasanaethau carbon isel yn rhoi cyfle i'r BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ac ychwanegu gwerth i'r brand drwy ddatblygu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a gynigir gennym

Enw da o ran arwain mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd

Mae gan y BBC gyfle i ddangos arweinyddiaeth hinsawdd yn niwydiant y cyfryngau, drwy strategaeth a thargedau hinsawdd, yn ogystal â thrwy ymgysylltu, llywio ac ysbrydoli cynulleidfaoedd drwy ein cynnwys

Noder Cafodd rhai o'n risgiau a'n chyfleoedd eu diwygio fel rhan o'r gweithgarwch hwn gan y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd o'n datgeliadau blaenorol yn ein Hadroddiad Blynyddol 2020/21

o weithgareddau ôl-troed carbon y BBC ar gyfer cynrychiadau yn 2011. Mae'r Consortiwm yn parhau i hyrwyddo camau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd mewn ffilmiau a chynrychiadau teledu ar draws pob genre, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin.

Mae'r BBC wedi gwneud y defnydd o ddulliau ardstio cynrychiadau cynaliadwy Albert BAFTA yn orfodol i bob comisiynydd cynnwys teledu newydd, ailgomiysnau a chyfresi parhaus o fis Ionawr 2022, gyda'r disgywiliad y bydd cynrychiadau neu gynnwys cyllideb isel iawn yn cael eu caffael fel cynrychiadau wedi'u cwblhau. Mae'r BBC yn parhau i ddwyn cynrychiadau teledu a gomiysynwyd yn flaenorol i gyfrif drwy ei gwneud yn ofynnol i gwblhau dull ôl-troed carbon Albert BAFTA.

Mae timau cynhyrchu'r BBC ar draws pob genre yn parhau i greu cynnwys gan ystyried yr amgylchedd, drwy ddefnyddio dulliau gweithio carbon isel. Yn aml, mae teithio'n creu allyriadau carbon uchel, ac mae ein targedau ar gyfer allyriadau Sero Net yn adlewyrchu hynny. Dangosodd cyfyngiadau teithio COVID-19 fod ffilmio o bell a defnyddio criwiau lleol wedi torri allyriadau'n sylweddol a bod hyn yn aml yn fwy ymarferol na'r hyn a dybiwyd yn flaenorol.

Dysgodd timau cynhyrchu hefyd fod hyn yn aml yn fwy ymarferol na'r hyn a dybiwyd yn flaenorol, ac y gallai hefyd arbed arian iddynt.

Adroddiad gweithredol Cynaliadwyedd amgylcheddol – parhad

Mae patrymau teithio domestig hefyd yn newid: Cafodd staff y BBC a oedd yn mynd i Glasgow ar gyfer cynhadledd hinsawdd COP26 eu hannog i beidio â hedfan, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, a theithiodd bron bob tîm Newyddion ac uwch-arweinydd yno ar drên. O ganlyniad, dim ond 29.5 tunnell oedd allyriadau teithio'r BBC, ychydig dros hanner yr hyn a ddisgwyllir pe byddai'r staff wedi gallu hedfan.

Mae gwneud mwy o ddefnydd o ynni carbon isel hefyd yn hanfodol i'n nodau Sero Net gweithredol. Gosododd BBC Workplace systemau ffotofoltäig solar a manau gwefru ar gyfer cerbydau trydanol yn adeilad Pacific Quay yn Glasgow a gosododd BBC Scotland hefyd fannau gwefru mewn pedwar safle BBC Scotland arall i ddarparu ar gyfer y fflyd cerbydau trydanol gweithredol newydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i osod manau gwefru mewn lleoliadau allweddol ledled y DU a fydd yn galluogi fflyd weithredol y BBC i ddechrau datgarboneiddio. Gallai newid holl ystad y BBC i gerbydau trydan gyflawni gostyngiad o 8% yn allyriadau Cwmpas 1 y BBC.

Mae BBC News wedi datblygu cerbyd casglu newyddion lloeren gyda systemau darlledu a bwerir gan fatri arno i osgoi defnyddio generaduron diesel. Gellir cymysgu digwyddiadau newyddion drwy'r dydd gyda

hyd at dri camera a dau lwybr cysylltu ar leoliad gan ddefnyddio pŵer batri yn unig am hyd at 16 awr heb fod angen ailwefru.

Mae cyfres *Watches* yr Uned Hanes Naturiol gan BBC Studios yn parhau i ddefnyddio generaduron hydrogen a rhai a bwerir gan fatri ar gyfer eu darllediadau byw yn yr awyr agored sy'n arloesedd pwysig i'r diwydiant teledu.

Look East, rhaglen newyddion BBC Cambridge am 18.30 ar 5 Gorffennaf 2021 oedd y rhaglen newyddion rhanbarthol carbon niwtral cyntaf i'r BBC, a gafodd ei darlledu yn yr awyr agored gan gyfnewid goleuadau stiwdio am olau'r haul a defnyddio ynni'r haul a hydrogen i bweru eu cyfarpar.

Gwastraff yw trydedd golofn allweddol ein cynrychiadau cynaliadwy. Mae'r rhan fwyaf o'r cynrychiadau yn parhau i dorri'n ôl yn sylweddol ar blastig untro ac mae rhai cynrychiadau wedi bod yn treialu cyfleoedd newydd cyffrous i ddileu gwastraff, gan weithio gyda sefydliadau a all aildefnyddio hyn mewn economi gylchol. Mae llawer o gynrychiadau sy'n defnyddio gwasanaethau arlwygo ar leoliad wedi dewis prydau o blanhigion er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Technoleg gynaliadwy

Ar deledu a radio, defnydd cynulleidfaoedd o gynnwys yw'r prif ffactor sy'n ysgogi defnydd o ynni o hyd. Mae Adran Ymchwil a Datblygu'r BBC wedi ailadrodd ei phroses o fodelu ôl-troed ynni gwasanaethau teledu a radio'r BBC ar gyfer 2019/20 a 2020/21. Dangosodd hyn ostyngiad bach yn ôl-troed ynni teledu, a dangosyddion cynnar y gall cam i ddsbarthu dros y rhyngwyd yn unig yn y dyfodol gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.

Mae'r BBC yn aelod o brosiect DIMPACT, a gomisiynodd yr Ymddiriedolaeth Carbon i gyhoeddi papur ar effaith carbon ffrydio fideos. Mae cymariaethau â gwaith Adran Ymchwil a Datblygu'r BBC ei hun wedi pwysleisio pa mor bwysig yw cydweithio yn y diwydiant o ran y pwnc hwn. Arweiniodd archwiliad cynaliadwyedd o'n datblygiadau technoleg arloesol, a gynhaliwyd i ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd ynddynt, at ddull llawer mwy gronynnog o asesu effaith datrysiadau cwmwl.

Diwylliant cynaliadwy

Mae Is-adran Adnoddau Dynol y BBC yn parhau i flaenoriaethu ymgysylltiad cydweithwyr â'n strategaethau cynaliadwyedd a Sero Net, gan weithio i ymgorffori egwyddorion parch tuag at bobl a'r blaned yng Ngwerthoedd y BBC. Rhoddwyd blaenoriaeth i hyfforddi staff mewn cynaliadwyedd y flwyddyn hon. Mae adran Cynnwys y BBC wedi pennu targed i'r holl staff golygyddol fynd i weithdai sy'n esbonio themâu'r hinsawdd a chynaliadwyedd. Mae gan adran Newyddion y BBC hefyd dargedau hyfforddiant cynaliadwyedd ar gyfer staff a sicraodd fod newyddiadurwyr yn y DU a newyddiadurwyr rhyngwladol yn cael hyfforddiant cynhadledd hinsawdd COP26. Cynhelir sesiynau briffio mewnol i gefnogi a hysbysu staff golygyddol y BBC o bob genre yn y gofod chwim hwn. Cyflwynodd adran Cynnwys y BBC, mewn partneriaeth ag Academi'r BBC, ŵyl Climate Creatives i staff y BBC a chydweithwyr yn y diwydiant ehangach cyn COP26.

Mae'r BBC mewn partneriaeth â Phrifysgol Cranfield, sy'n cynnig cwrs DPP MSc Busnes i'n staff sy'n cynnwys modiwl 'Arwain Cynaliadwyedd Corfforaethol'. Mae'r prosiect hwn wedi arwain at waith ymgysylltu effeithiol iawn â mwy na 150 o uwch-arweinydd y BBC.



Ym mis Gorffennaf 2021, darlledodd Look East raglen newyddion ranbarthol carbon niwtral gyntaf y BBC

Gwaith elusennol



The Great Rickshaw Relay Challenge Plant mewn Angen

Olivia a'r cyflwynydd Matt Baker yn Lerpwl yn mynd â'r Rickshaw ar fferi dros afon Mersi. Teithiodd pum person ifanc drwy eu tref yn Lloegr a'r Alban i godi arian i'r elusen

Mae apelïadau'r elusen a ddarledwyd ar y BBC eleni wedi ennyn ymatebion hael iawn gan gynulleidfaedd gyda miliynau o bunnoedd yn cael ei godi er budd unigolion, cymunedau a sefydliadau ledled y DU a'r byd.

Rhoddodd Access Appeals y BBC ar Radio 4 a BBC One sylw i 60 o elusennau, a ddewiswyd drwy broses gwneud cais chwarterol lem. Roedd yr apelïadau hyn yn adrodd straeon amrywiol o bob cwr o'r DU ac yn rhyngwladol. Gall cynulleidfaedd ddarllen am yr apelïadau hyn a'u heffaith yma: bbc.com/charityappeals/what-your-money-does.

Yng Ngogledd Iwerddon cafwyd deg apêl ar BBC Radio Ulster/Foyle a phedair apêl Community Life ar deledu BBC Northern Ireland. Gwahoddwyd ceisiadau hefyd gan elusennau lleol ar gyfer slotiau apêl i ddod a chefnogwyd yr holl weithgarwch hwn gan wefan ddynodedig a datblygwyd presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ym mis Rhagfyr, cafodd Apêl Nadolig flynyddol Radio 4 ar y cyd ag Elusen St Martin-in-the-Fields ei darlledu. Mae wedi codi £4.7 miliwn hyd yma, gan helpu pobl ledled y DU i ddod o hyd i le diogel i'w alw'n gartref ac i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Darlledodd y BBC ddwy apêl ar ran y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau. Cododd yr apêl gyntaf, ym mis Rhagfyr 2021, gronfeydd i roi cymorth i bobl yn Affganistan sy'n wynebu risg o newyn a diffyg maeth. Roedd yr ail apêl, ym

mis Mawrth 2022, ar gyfer argyfwng Dyngarol Wcráin.

Nododd y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau mai'r apêl hon oedd un o'r rhai mwyaf llwyddiannus eto, gan godi £200 miliwn yn ystod y pythefnos gyntaf a pharhaodd i dyfu dros yr wythnosau dilynol.

BBC Plant mewn Angen

Ar hyn o bryd mae elusen y BBC yn y DU yn ariannu mwy na 2,400 o elusennau a phrosiectau lleol yn y pedair gwlad, gan helpu i wella bywydau 460,000 o blant a phobl ifanc yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Cefnogodd cydweithwyr ar draws y BBC yr Apêl yn 2021, gan rannu'r straeon pwerus hyn ac ysbrydoli'r cyhoedd ym Mhrydain i ymateb drwy roi mor hael unwaith eto. Ymhlith y rhaglennu arbennig roedd: *Countryfile Ramble*; *The Great Rickshaw Relay Challenge*; *DIY SOS: The Big Build*; *The One Show's Surprise Squad*; *Dr Alex: Our Young Mental Health Crisis*; *BBC Breakfast's Drumathon a Kitchen Disco Danceathon* ar Radio 2. Cyhoeddwyd y codwyd cyfanswm anhygoel o £40 miliwn ar ddiwedd ymgyrch yr Apêl, ac mae'r ffigur wedi parhau i gynyddu. Am ragor o wybodaeth ewch i: bbc.co.uk/Pudsey.

BBC Media Action

Gweithiodd BBC Media Action, elusen ryngwladol y BBC, gyda mwy na 100 o bartneriaid cyfryngau lleol i gyrraedd mwy na 118 miliwn o bobl ledled y byd y llynedd drwy'r radio, teledu, cyfryngau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol ac allgymorth cymunedol yn rhai o wledydd tlotaf a mwyaf bregus y byd. Yn ystod ail flwyddyn lawn o ymateb i'r pandemig

byd-eang, canolbwyntiodd rhaglenni Media Action ar iechyd, datblygu'r cyfryngau a rhyddid y cyfryngau, llywodraethu, tegwch a chynhwysiant, cydnerthedd a gweithredu ar yr hinsawdd. Roedd yn bleser gan ein helusen ryngwladol chwarae rhan sylweddol ochr yn ochr â'r BBC yn COP26 yn Glasgow. Mae Media Action wedi parhau i weithio dan amodau heriol yn Myanmar, Ethiopia, Affganistan ac Wcráin, gan gynnig gwybodaeth am iechyd a gwybodaeth ddyngarol a chefnogi partneriaid cyfryngau lleol. Ceir rhagor o wybodaeth ar bbcmediaaction.org.

Comic Relief

Cododd Diwrnod Trwynau Coch 2022 gyfanswm anhygoel o £42.7 miliwn a gwelwyd cefnogaeth gref ym mhob rhan o'r gorfforaeth yn cynnwys *The One Show*, *BBC Breakfast*, *Countryfile*, a *Glow Up*. Roedd dwy her epig yn cwmpasu sawl rhan o'r DU gyda Jordan North o BBC Radio 1 yn rhwyfo 100 milltir a Tom Daley, y Pencampwr Olympaidd, yn cyflawni her anhygoel o feicio, rhwyfo, nofio a rhedeg 290 milltir o Lundain i Plymouth. Rhoddwyd sylw i'r ddwy her mewn rhaglenni dogfen arbennig ar y BBC.

Gwelwyd llu o gyflwynwyr enwog, dynwarediadau a pherfformiadau cerddorol gwyhych ar y noson hwyliog o deledu. Rhoddodd The Great Comic Relief Prizeathon gyfle i wylwyr ennill gwobrau rhyfeddol. Darlledwyd ffilmiau apêl grymus i atgoffa'r gwylwyr o'r modd y mae eu rhoddion yn newid bywydau yn y DU a ledled y byd. Darllenwch fwy yn comicrelief.com comicrelief.com/rednoseday.

Adroddiad gweithredol Partneriaethau a mentrau cydweithredol

Mae gan y BBC bortffolio cyfoethog ac amrywiol o sefydliadau rydym mewn partneriaeth â nhw i sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd ledled y DU a thu hwnt. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi atgyfnerthu ein ffocws ar y cyfraniad a wneir gan y partneriaethau hyn er budd cenedlaethol ac i'r broses o gyflawni ein strategaeth, gyda thîm canolog bach yn adeiladu ar waith y Grŵp Partneriaeth presennol, er mwyn sicrhau bod partneriaid yn cael y gwerth gorau wrth gydweithio â'r BBC. Rydym yn uno dull gweithredu'r BBC o gyflwyno a gwerthuso partneriaethau drwy nodi a chefnogi dulliau arfer gorau, ac rydym wedi nodi strategaeth glir i atgyfnerthu cyfraniad portffolio partneriaethau'r BBC ymhellach i sicrhau gwerth i bawb.

Across the UK

Fel rhan o'n menter Across the UK, rydym wedi datblygu dwy bartneriaeth cynhyrchu a sgiliau ranbarthol allweddol ledled Lloegr yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr ac yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Mae'r BBC eisoes yn cyflwyno partneriaeth Gorrlewin Canolbarth Lloegr ar y cyd â Create Central a West Midlands Growth Company yn cynnwys dau gomisiwn Ffeithiol ar gyfer BBC Three, piblinell o gomisiynau deunydd wedi'i sgrïptio ac, yn fwyaf diweddar, y cyhoeddiad ym mis Chwefror 2022 y byddai *Masterchef* yn adleoli i Birmingham.

Hefyd, mae'r BBC wedi creu partneriaeth â Google i sefydlu Canolfan Prentisiaid y BBC, asiantaeth beilot i gynnig swyddi hyblyg i brentisiaid a fydd yn gweld y BBC yn gweithredu fel y corff sy'n cyflogi gan fanteisio ar y dalent amrywiol yn y rhanbarth, mynd i'r afael â'r bylchau yn y farchnad mewn busnesau creadigol, diwyllianol a digidol lleol.

Ym mis Medi 2021, cytunodd y BBC ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth i sefydlu'r North East Screen Industries Partnership (NESIP), gydag Awdurdodau Cyfunol Dyffryn Tees, Gogledd Tyne a Gogledd-ddwyrain Lloegr. Fel rhan o hyn bydd y BBC yn ymrwymo o leiaf £25 miliwn o wariant comisiynu teledu rhwydwaith ledled y rhanbarth dros y pum mlynedd nesaf. Caiff hyn ei gefnogi gan £11 miliwn pellach o gyllid gan bartneriaethau rhanbarthol i

gefnogi twf cynaliadwy cynrychiadau, sgiliau a seilwaith. Yn ystod naw mis cyntaf y bartneriaeth, gwnaethom gyhoeddi chwe chomisiwn ar gyfer Gogledd-ddwyrain Lloegr. Gwnaethom hefyd greu partneriaeth â Chymru Greadigol i adeiladu ar lwyddiant y diwydiannau creadigol yng Nghymru a chafodd ein partneriaeth â Creative Scotland hefyd ei hymestyn i fis Rhagfyr 2024.

Partneriaethau digidol ac ar-lein

Ym mis Ionawr 2022, gwnaethom ehangu partneriaeth a oedd yn bodoli eisoes â Learning on Screen Planet eStream a Click-View, gan alluogi myfyrwyr, athrawon ac academyddion i wneud cais am ddim am unrhyw raglen o archifau darllediadau wedi'u digideiddio'r BBC. Cafodd mwy na 800,000 o raglenni'r BBC eu gwyllo dros y flwyddyn ddiwethaf gan fyfyrwyr mewn addysg ffurfiol dan y cynllun hwn.

Mae BBC History yn cydweithio â'r Science Museum Group, prif bartner amgueddfeydd, sydd wedi dechrau ar ei flwyddyn o ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ryddhau 1,000 o wrthrychau sy'n gysylltiedig â rhaglenni ac eitemau o dechnoleg o Gasgliad y BBC ar ffurf ddigidol. Mae adran Hanes y BBC hefyd yn cefnogi prosiectau 'Story of Us' gydag amgueddfeydd allweddol ledled y DU, ac mae gwefan BBC History hefyd yn cynnig llinell amser ryngweithiol newydd â thri chasgliad newydd: Gwrthrychau'r BBC, Wynebau'r BBC a Llesiau'r BBC.

Partneriaethau creadigol ag effaith uchel

Mae ein partneriaeth â'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol yn ein galluogi i gyfrannu ymhellach at y broses o feithrin talent newydd. Prif nod y bartneriaeth yw datblygu piblinell dalent i mewn i'r BBC drwy gynnig cymorth i fyfyrwyr amrywiol (myfyrwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel, neu fyfyrwyr anabl) a'r rheini o Across the UK. Drwy gydol 2021/22, mae'r BBC yn cefnogi 24 o fyfyrwyr ac yn cynnig gofod cynhyrchu'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol yn BBC Scotland a BBC Cymru. Mae graddedigion yr Ysgol wedi chwarae rhan allweddol yn cyflwyno cynnwys gwerth uchel ac unigryw'r BBC dros y flwyddyn ddiwethaf, yn cynnwys Alice Seabright, Awdur/Cyfarwyddwr *Chloe*; Annetta Laufer, Robin Whenary a Segun

Akinola, a ffilmiodd ac a gyfansoddodd y bennod o *Doctor Who* a ddarledwyd ar Ddydd Calan; ac, yn olaf, cafodd y rhaglen ddogfen *Black Power: A British History of Resistance* ei chyfarwyddo gan George Amponsah.

Gwnaethom greu partneriaeth â Chofentri i dynnu sylw at Ddinas Diwylliant y DU ar gyfer 2021 a lansiwyd yng nghanol y pandemig. Oherwydd darllediadau'r BBC, llwyddwyd i rannu'r digwyddiad agoriadol â chynulleidfaoedd ledled y DU a'r byd. Dangoswyd yr agoriad ar nifer o raglenni'r BBC yn cynnwys *The One Show*, *BBC News at Ten*, *BBC World News*, ac ar raglenni radio lleol a rhaglenni teledu rhanbarthol. Ymryg yr uchafbwyntiau eraill roedd tair rhaglen ddogfen nodedig gan BBC Arts, cyd-gynrychiadau yn cynnwys Ymddiriedolaeth Dinas Diwylliant Cofentri, a bydd blwyddyn Cofentri yn dod i ben drwy gynnal Radio 1's Big Weekend ym mis Mai 2022.

Cefnogi didueddrwydd

Er mwyn cefnogi ein hymrwymiad newydd i ddidueddrwydd, gwnaethom aildendro'r contractau sy'n sail i'n partneriaeth â darparwyr newyddion rhanbarthol y DU fel rhan o'r Gwasanaeth Adrodd ar Ddemocratiaeth Leol. Mae 18 o gwmnïau gwahanol bellach yn cyflogi Gohebwyr Democratiaeth Leol mewn 165 o swyddi ledled y DU. Mae gohebwyr wedi creu 275,000 o straeon sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd ers mis Ionawr 2018.

Partneriaethau a mentrau cydweithredol ar draws y BBC yn 2021/22

Maes y BBC	Nifer y Partneriaethau
Academy	4
Archif	23
Y celfyddydau	20
Canmlwyddiant	15
Plant ac Addysg	76
Cynnwys Teledu	25
Creadigrwydd ac Amrywiaeth	13
Media Action	7
Newyddion	19
Ymchwil a Datblygu	14
Chwaraeon	3
Lloegr	135
Gogledd Iwerddon	3
Radio a Cherddoriaeth	119
Yr Alban	9
Cymru	9
Cyfanswm	494



Astudiaeth achos: Rhannu eich stori

I nodi blwyddyn canmlwyddiant y BBC, ar ddechrau 2022, gwnaethom lansio Rhannu eich Stori, menter adrodd straeon uchelgeisiol ar draws 700 o ysgolion yn y DU, i roi'r hyder a'r adnoddau creadigol i rymuso myfyrwyr

blwyddyn 7-9 i adrodd stori eu bywyd. Cyflwynwyd Cam 1 Rhannu eich Stori drwy gyfres o adnoddau ar BBC Teach ac arweiniwyd yr hyfforddiant gan ein partneriaid, yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol, Voice 21 a'r BFI. Roedd yn rhedeg o fis Chwefror i fis Mawrth 2022, a chyrraeddodd 60,000 o fyfyrwyr, gyda'r nod o ymgysylltu â 400,000 o fyfyrwyr a 4,000 o athrawon wyneb yn wyneb erbyn diwedd 2022.

GWEITHREDIADAU MASNACHOL

Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn cefnogi cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC ac yn cynhyrchu incwm ar gyfer Grŵp y BBC. Mae'r cwmnïau hyn yn sicrhau'r gwerth mwyaf o ran eiddo deallusol y BBC, gan ariannu cynnwys nodedig o ansawdd uchel i dalwyr ffi'r drwydded, ac ar yr un pryd gefnogi diwydiant teledu'r DU ar lwyfan y byd.

Gweithrediadau masnachol

Gweithgareddau masnachol

Mae gan y BBC ddau is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lwyr sy'n ategu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC:

B B C STUDIOS

Mae BBC Studios yn gweithredu dau fath o fusnes: Cynhyrchu a Dosbarthu, a Sianelau a Ffrydio. Mae'n creu, yn buddsoddi, yn datblygu, yn cynhyrchu, yn masnacheiddio ac yn dosbarthu cynnwys sydd wrth wraidd amserlen y BBC, yn ogystal ag ar lawer o lwyfannau ac o amgylch y byd, gan gynnig gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded drwy helpu i ariannu rhaglenni a difidendau arian parod.

I gael gwybod mwy am weithgareddau BBC Studios, gweler tudalennau 77 i 81.



Seremoni The Earthshot Prize a enillodd wobwr BAFTA a gynhyrchwyd gan BBC Studios

Y meini prawf masnachol:

Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn darparu cynnwys creadigol o ansawdd i gynulleidfaoedd ac maent yn cynyddu gwerth eiddo deallusol y BBC, yn ogystal â darparu cymorth hanfodol i'r diwydiant creadigol ehangach, yn y DU a thu hwnt. Maent yn gwneud hyn wrth hefyd hyrwyddo a diogelu brand ac enw da'r BBC ledled y byd, yn unol â'r meini prawf masnachol fel y'u nodir yn y Siarter a'r Cytundeb:

1. rhaid i'r gweithgareddau weddu i'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus;
2. rhaid i'r gweithgareddau fod yn fasnachol effeithlon;
3. ni ddylai'r gweithgareddau beryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC;
4. ni ddylai'r gweithgareddau, o ganlyniad i berthynas y gweithgaredd â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau masnachu na gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth, wydroi'r farchnad na chreu mantais gystadleuol annheg.

Yn ystod 2021/22, cafodd is-gwmnïau masnachol y BBC eu goruchwylio gan y Bwrdd Daliadau Masnachol, a oedd yn gyfrifol am bennu strategaethau yn unol â nodau cwmni cyffredinol Grŵp y BBC, cytuno ar gynlluniau busnes a sicrhau cydymffurfiaeth mewn perthynas â materion rheoliadol a chyfreithiol. Ceir adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol ar dudalen 128. O 1 Ebrill 2022, sefydlwyd Bwrdd Masnachol newydd y BBC, â Chadeirydd newydd a mwyafrif cyfarwyddwyr anweithredol allanol, gan gynnig craffter ac arbenigedd ychwanegol i ysgogi twf masnachol i'r BBC.

B B C STUDIO WORKS

Mae BBC Studioworks yn darparu cyfleusterau stiwdio deledu, cyfarpar, criw a gwasanaethau ôl-gynhyrchu o leoliadau yn y DU. Mae'n cefnogi darlledu cyhoeddus yn y DU drwy ddiffidendau arian parod blynyddol. Darllenwch fwy am yr hyn mae Studioworks yn ei ddarparu ar gyfer y BBC ar dudalen 82.



Datblygu talent yn BBC Studioworks

BBC Studios: Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol



Mae'n bleser mawr gennyf ddatgan fod BBC Studios wedi cyflawni'r gwerthiannau a'r elw uchaf erioed yn 2021/22, er gwaethaf y tarfu a'r ansicrwydd parhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19 a chystadleuaeth ddwys am dalent a chwsmeriaid.

Cynyddodd gwerthiannau ein busnes cynhyrchu 56%, a chafwyd perfformiad cryf iawn gan UKTV, â'i chyfran uchaf erioed o'r gynulleidfa yn 2021 wedi'i gyfuno â marchnad hysbysebu ffyniannus yn hybu ei gwerthiannau'n sylweddol.

Roedd ein gwerthiannau cynnwys yn fwy na £400 miliwn am y drydedd flwyddyn yn olynol, gan adlewyrchu llwyddiant parhaus brandiau allweddol, gan gynnwys y gyfres *Planet*, *Doctor Who* a *Top Gear*, yn ogystal â buddiannau buddsoddiad uwch mewn teitlau newydd, a oedd yn cynnwys *The Outlaws*, *Pursuit of Love*, *This is Going to Hurt* a *The Mating Game*. Roedd rhaglenni fel *Strictly*, *Time* gan Jimmy McGovern a enillodd wobrau, a lansio'r *Earthshot Prize*, yn destun trafod i gynulleidfa oedd.

Cafwyd gwerthiannau cyffredinol o £1,630 miliwn (2020/21: £1,255 miliwn). Roedd ein henillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddio (EBITDA: y mesur a ffeirir ar gyfer elw) yn £226 miliwn (2020/21: £151 miliwn), 50% yn uwch na 2020/21 a'r tro cyntaf i ni lwyddo i gyflawni EBITDA dros £200 miliwn.

Parhaodd ein lefel cynhyrchu arian parod yn gadarn â llif arian parod rhydd o £198 miliwn (2020/21: £201 miliwn), gan arwain at ddifidend arian parod o £135 miliwn i'r Grŵp. O ganlyniad i hyn, a buddsoddiadau mewn rhaglennu, llwyddwyd i ragori ar ein targed o £1.2 biliwn o enillion yn ystod pum mlynedd gyntaf y Siarter bresennol. O un flwyddyn i'r llall, gwnaeth ein ffigur enillion fwy na dyblu

i'r lefel uchaf erioed, sef £353 miliwn (2020/21: £137 miliwn), gan ddarparu buddsoddiadau sylweddol mewn rhaglennu.

Gyda ffocws ar roi pobl yn gyntaf, sydd wedi dwysáu ein cymorth i gyflogaion drwy gydol y pandemig, parhaodd diwylliant y busnes i drawsnewid. Ymunodd Global News ym mis Gorffennaf 2021, a dilynodd yr adran cynhyrchu fewnol Plant yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, wrth i benderfyniadau i symud y gwaith cynhyrchu roi hwb i ganolfannau a oedd yn bodoli eisoes yn Salford, Bryste a Glasgow. Ar ôl gwasanaethu ar sail interim, roedd yn fraint gennyf gael fy nghadarnhau fel Prif Swyddog Gweithredol parhaol ym mis Hydref, gyda Lorraine Burgess yn ymuno fel Prif Swyddog Ariannol i greu tîm arwain parhaol newydd i'r busnes.

Fel rhan o'i Chyllideb yn yr hydref, cyhoeddodd y Llywodraeth gynnydd yn y terfyn benthyca net ar gyfer cangen fasnachol y BBC, yn amodol ar gadarnhad o'r trefniadau goruchwyllo. Yn gyson â nod cyffredinol y BBC o gynyddu incwm masnachol, bydd y cynnydd hwn yn ein galluogi ni, fel prif is-gwmni masnachol y BBC, i fuddsoddi mewn mentrau twf.

Tom Fussell

Prif Swyddog Gweithredol, BBC Studios
23 Mehefin 2022

Gweithrediadau masnachol BBC Studios – parhad

Cynhyrchu a Dosbarthu

Mae Cynhyrchu a Dosbarthu yn cynnwys holl weithgareddau cynhyrchu BBC Studios yn y DU ac yn fyd-eang, a'u labeli – ynghyd â gwerthiannau cynnwys, cydgynhyrchu, cynhyrchion i ddefnyddwyr a thrwyddedu.

Iechyd creadigol

Darparodd busnesau cynhyrchu BBC Studios ledled y byd dros 2,400 o oriau o gynnwys a chynnydd o 56% mewn gwerthiannau o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. BBC

Studios yw'r gwneuthurwr cynnwys newydd a gaiff ei gomisiynu fwyaf a'r cynhyrchydd sydd wedi ennill y nifer uchaf o wobrau yn y DU, gan ennill 55 o wobrau am greadigrwydd a chreffft yn y flwyddyn o 288 o enwebiadau. Enillwyd 104 o gomisiynau newydd yn ystod y flwyddyn, yr oedd 26 ohonynt i drydydd partion, gan gynnwys ail gyfres o *Good Omens* i Amazon.

Ym maes adloniant, *Strictly Come Dancing* oedd y gyfres adloniant fwyaf poblogaidd

ar draws holl deledu'r DU ar gyfer 2021, a chafodd teyrnged ddawns emosiynol Rose Ayling-Ellis i'r gymuned fyddar ei dewis fel eiliad teledu'r flwyddyn, gan ennill gwobr BAFTA ar ddiwedd y flwyddyn. Cafwyd straeon bywyd go iawn gwerth eu gweld gan Uned Rhaglenni Dogfen BBC Studios: *Life in Ten Pictures*, a edrychodd o'r newydd ar wynebau enwog o Elizabeth Taylor i Tupac Shakur, a'r rhaglen ddogfen ffurf hir *Grenfell: The Untold Story* ar gyfer Channel 4, a dynnodd sylw at bryderon diogelwch preswylwyr, a gafodd ei fflmio yn ystod y blynyddoedd cyn y tân trychinebus mewn bloc tŵr yng ngorllewin Llundain.

Lansiodd Uned Hanes Naturiol BBC Studios ei chyfres nodedig bum rhan *The Green Planet*, a edrychodd yn fanylach ar bum cynefin penodol ar y Ddaear, a gwnaeth yr Uned Wyddoniaeth *Universe* a gyflwynwyd gan Brian Cox, a roddodd bersbectif newydd ar amser a gofod.

Er gwaethaf cyfyngiadau COVID-19, gwnaed bron i 70 awr o ddrama premiwm, yn ogystal â channoedd o oriau o ddrama barhaus. Roedd y teitlau yn cynnwys *Time* gan Jimmy McGovern, y gyfres antur Wyddelig *Smother*, a ailgomisiynwyd am ail dymor, 100fed pennod *Father Brown*, a'r 25ain gyfres o *Silent Witness*, wrth i Amanda Burton ddychwelyd i ailafael yn ei rôl fel Sam Ryan. Enillodd *Casualty* wobwr yr Opera Sebon Orau yn y Gwobrau Darlledu, symudodd *EastEnders* i'w set newydd, gan alluogi dulliau cynhyrchu HD, a ffarweliodd y busnes â *Holby City* ar ôl 23 mlynedd ar y sgrin.

Ym maes comedi, cyflwynodd BBC Studios ail gyfres o *Trying* ar gyfer Apple TV+, ail gyfres o *Ladhood* a *Mandy* gan Diane Morgan ar gyfer BBC Three a'r chweched gyfres o *Inside No. 9* sydd wedi ennill bersbectif gwobr BAFTA ar gyfer BBC Two.

Mewn meysydd eraill, gwnaeth y tîm Cyfresi Gwreiddiol Digidol fformat newydd *Gassed Up* ar gyfer BBC Three, lle gofynnodd y rapiwr a'r gyrrwr brwd Mist i'w westeion enwog ymgymryd â chyfres o heriau uchelgeisiol, ac yn *Hot Property*, rhoddwyd cyfle i bobl ifanc sengl edrych ar gartrefi a chwrdd â ffrindiau darpar gariadon fel rhan o gyflenwad cadarn o gynnwys wedi'i anelu at gynulleidfa oedd iau.

Cafodd labeli wedi'u sgrriptio BBC Studios (o dan berchenogaeth lwywr neu fwyafrifol) flwyddyn lwyddiannus. Darlledwyd y ddrama gomedi ffurf fer *Cheaters* gan Clerkenwell Films ar BBC One a *The Witchfinder* gyda Daisy May Cooper, a wnaed gan Baby Cow ar gyfer BBC Two oedd y comedi newydd mwyaf poblogaidd a lanswyd ers saith mlynedd. Gwnaeth Lookout Point ail gyfres o'r gyfres boblogaidd *Gentleman Jack* gyda Suranne Jones, a ddarlledwyd ar BBC One a HBO yn fuan wedi diwedd y flwyddyn. Cynyddodd BBC Studios ei gyfran yn House Productions, sy'n



Astudiaeth achos: Gwneud rhaglenni ledled y DU

Mae gan BBC Studios ganolfannau cynhyrchu bywiog yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU, gan gynnwys Aberdeen, Birmingham, Bryste, Caerdydd, Glasgow a Salford. Yn ystod 2021-22, adleolodd y busnes rai o'i sioeau a'i frandiau allweddol, er mwyn helpu i gynyddu gwariant creadigol a'r gallu i wneud penderfyniadau y tu allan i Lundain a meithrin sgiliau ledled y DU, fel rhan o strategaeth Grŵp y BBC.

Symudodd *Plant mewn Angen*, *Sports Relief*, *Comic Relief* (gyda Syr Lenny Henry, llun uchod) ac Eurovision o brifddinas Lloegr i Salford a symudodd *Top Gear* i Fryste, gan greu swyddi golygyddol a

chynhyrchu newydd yn y ddau ranbarth. Yn ogystal, bydd y gwaith o gynhyrchu *Dragons' Den* yn trosglwyddo i Glasgow yn ddiweddarach yn 2022.

Mae BBC Studios hefyd wedi buddsoddi mewn cartref newydd i'r Uned Hanes Naturiol flaenllaw ac i waith cynhyrchu Adloniant Ffeithiol ym Mryste, a fydd yn agor yn 2022. Gyda thechnolegau cynhyrchu arloesol, trydan o ffynonellau cynaliadwy a lleoliad canolog newydd, bydd y swyddfeidd newydd hyn yn cefnogi ac yn cynyddu'r tîm wrth iddo barhau i gystadlu'n llwyddiannus yn y farchnad fyd-eang.

gyfrifol am wneud *Sherwood* ac addasiad Kate Atkinson *Life After Life*, i 100%. Gwerthodd y busnes ei ddaliadau ecwiti yn Mighty a 72 Films yn y flwyddyn.

Ar gyfer cwmnïau annibynnol y mae gan BBC Studios gyfran leiafrifol ynddynt, darlledwyd addasiad Moonage o *The Pursuit of Love* gan Nancy Mitford ar nos Sul ar gyfer BBC One ac i weddill y byd ar Amazon. Enillodd *Alma's Not Normal* gan Expectation, a wnaed ar gyfer BBC Two, Wobrau Darlledu a Chrefft Teledu BAFTA.

Yn y maes heb ei sgrriptio, cafodd partneriaid annibynnol newydd BBC Studios flwyddyn dda, gyda chyfres tair rhan Steve McQueen *Uprising*, cynhyrchiad gan Rogan, Turbine a Lammas Park yn ennill gwobr RTS. Rogan hefyd a wnaeth *Freddie Mercury: The Final Act* ar gyfer BBC Two, a gafodd ei henwebu am wobrau RTS, BAFTA a Rockie ac a gyflawnodd y ffigurau gwyllo uchaf yn ei slot ar gyfer y flwyddyn gyfan. Enillodd digwyddiad byw cychwynnol *The Earthshot Prize*, a gyflwynwyd gan Syr David Attenborough a Thywysog William, a gynhyrwyd gan BBC Studios ar y cyd â Silverback Films a wnaeth y gyfres ar gyfer BBC One, wobru RTS.

Cyrraedd cynulleidfaoedd rhyngwladol
Roedd gwerthiannau cynnwys o £402 miliwn yn fwy na £400m am y drydedd flwyddyn yn olynol, ond gwelwyd gostyngiad o 7% oherwydd effaith gohirio gweithgarwch cynhyrchu yn 2020.

Mae llwyddiant rhyngwladol *Dancing with the Stars* yn parhau, ac enillodd y fformat ei slot amser mewn wyth gwlad ledled y byd. Roedd fersiwn UDA yn llwyddiant ysgubol gan ddenu cynulleidfaoedd gyfartalog o 6 miliwn o wylwyr a chyfran o 7.6%, gan ennill ei phlwyf fel un o bum cyfres adloniant fwyaf poblogaidd ABC yn 2021.

Cyfes 13 o *Doctor Who: Flux* yw'r gyfres fwyaf poblogaidd ar BBC America, ac mae'n parhau i apelio'n gryf i gynulleidfaoedd iau. Roedd 31ain gyfres *Top Gear* ymhlith y pum cyfres fwyaf poblogaidd ar sianelau brand y BBC yng Ngogledd America.

Yr animeiddiad *Bluey* gan Ludo Studio a fu'n llwyddiant byd-eang oedd prif ysgogwr ffigurau gwyllo Disney Junior yn 2021 ymhlith plant rhwng 2 a 5 oed yn UDA a gwnaeth argraff eithriadol ar gynulleidfaoedd mewn mwy na 60 o wledydd. Yn ogystal ag ennill gwobrau ac albwm a gyrhaeddodd frig y siartiau yn Awstralia, cafodd tŷ teulu Heeler ei ail-greu ar ffurf go iawn mewn partneriaeth ag Airbnb. Diolch i lwyddiant y brand, cafwyd cynnydd o 9% mewn gwerthiannau cynhyrchion i ddefnyddwyr. Llofnodwyd cytundeb gwerthu a dosbarthu i reoli catalog ffisegol BBC Studios yn allanol â Spirit Entertainment ychydig cyn diwedd y flwyddyn.

Cafodd y busnes rai cytundebau cydgyhyrchu llwyddiannus, gan gynnwys comedi newydd mwyaf poblogaidd y DU yn 2021, *The Outlaws*, wedi'i ysgrifennu gan Stephen Merchant a oedd hefyd yn un o'r actorion, ac mae ail gyfres eisoes wedi cael ei ffilio. Llwyddodd *Stath Lets Flats* ar Channel 4 gyda Jamie Demetriou i gael slot ar HBO Max ac mae fersiwn newydd ohoni wrthi'n cael ei thrafod â Fox yn UDA. Roedd HBO hefyd yn rhan o'r broses o gydgyhyrchu *Rain Dogs* gan Cash Carraway, gyda Daisy May Cooper.

Yn rhyngwladol, mae fformatau wedi'u sgrriptio Cynyrchiadau BBC Studios wedi bod yn boblogaidd. Mae'r bartneriaeth â Lionsgate yn UDA wedi arwain at ail-greu comedïau Prydeinig yn llwyddiannus – *Ghosts* ar gyfer CBS a Paramount+, sef lansiad comedi mwyaf poblogaidd y flwyddyn, a *Welcome to Flatch*, a ysbrydolwyd gan *This Country* a ddarlledwyd ar Hulu ym mis Mawrth. Mewn meysydd eraill, bu fersiynau lleol o ddramâu poblogaidd yn llwyddiant mewn sawl marchnad gan gynnwys *Luther (Rudra – The Edge of Darkness)* yn India ar Hotstar, sef y ddrama a ddenodd y ffigurau gwyllo uchaf erioed yno yn ystod y mis cyntaf o'i lansio; *The Split* yn Nhwrcei a'r Eidal; *Uncle* yn Ne Korea a *Doctor Foster (The Broken Marriage Vow)* ar Ynysoedd Philippines.

Sianelau a Ffrydio (Gwasanaethau wedi'u Brandio gynt)

Mae Sianelau a Ffrydio yn cynnwys y darlledwr UKTV yn y DU, sianelau rhyngwladol â brand y BBC a weithredir gan BBC Studios, cyd-fenter BritBox International ag ITV ccc, BBC.com a gweithgareddau ffrydio eraill.

Cafodd rhwydwaith sianelau UKTV flwyddyn ardderchog, a llwyddodd ei gyfran uchaf erioed o effeithiau masnachol (SOCl) i sicrhau perfformiad gwell na gweddill y farchnad, gan gynyddu ei gyfran o'r gynulleidfaoedd a sicrhau'r lefelau elw uchaf erioed (i fyny 105%) wrth i'r farchnad hysbysebu adfer yn gynt na'r disgwyl ar ôl y pandemig. Perfformiodd sianelau'r rhwydwaith yn dda iawn, gyda Drama, Gold ac Alibi yn cynyddu eu cyfran 11%, 7% a 5% yn y drefn honno yn ystod blwyddyn galendr 2021, a sianel Dave yn cynyddu ei chyfran o bobl rhwng 16 a 34 oed 14%.

Cafwyd ymateb brwdfrydig gan gynulleidfaoedd i fuddsoddiadau mewn rhaglenni newydd, gyda chwech allan o'r deg cyfres fwyaf poblogaidd ar y rhwydwaith yn gynnwys gwreiddiol. *Annika* gyda Nicola Walker, oedd cyfres fwyaf llwyddiannus UKTV yn 2021 a'r teitl gan Alibi â'r perfformiad gorau erioed. Roedd teitlau eraill gwreiddiol yn cynnwys *Meet the Richardsons (Dave)*, *Secrets of the London Underground (Yesterday)* a *Hornby: A Model World (Yesterday)*.

Ychwanegodd y gwasanaeth ffrydio UKTV Play un filiwn o ddefnyddwyr cofrestredig yn 2021 wrth i'r busnes fuddsoddi yn ei strategaeth fideo ar alw, uwchraddio technoleg, ychwanegu staff a chynnal gwaith ymchwil i gynulleidfaoedd. Ychydig cyn diwedd y flwyddyn, dechreuodd sianel W ddarlledu am ddim, gan gynyddu ei chynulleidfaoedd ar unwaith, a chaffaelodd y rhwydwaith slot newydd ar ganllaw rhaglenni Freeview, gan alluogi Drama+1 i symud i safle mwy amlwg.

Mae gan BBC Studios bartneriaethau dwfn sydd o fudd i'r ddwy ochr â'i gwsmeriaid byd-eang, gan gefnogi eu busnesau a'u cynulleidfaoedd ledled y byd. Bu'n flwyddyn dda i sianelau byd-eang. Cafodd contract StarHub ei adnewyddu, trefnwyd cytundeb newydd â Singtel ac Astro ar gyfer sianelau brand y BBC yn neddwyrain Asia a chytundeb adnewyddu hirdymor â Canal+ yng Ngwlad Pwyl.

Lansiodd gwasanaethau ffrydio uniongyrchol i'r defnyddiwr BBC Select a BBC Podcasts Premium yn UDA, a pharhaodd BritBox International (y gwasanaeth ffrydio Prydeinig byd-eang y mae BBC Studios yn berchen arno mewn partneriaeth ag ITV) i dyfu, gan ddenu 2.4 miliwn o danysgrifwyr mewn pedair gwlad.

Mae BBC America yn sianel linellol wedi'i brandio yn UDA, yr ydym yn berchen arni ar y cyd ag AMC Networks fel y partner gweithredu. Yn ogystal â darlledu'r tymhorau diweddaraf o *Doctor Who* a *Top Gear*, un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd lansiad tymor olaf cynhyrchiad gwreiddiol BBC America *Killing Eve*. Fel yn y DU, mae nifer y gwylwyr llinellol yn parhau i leihau ym mhob rhan o farchnad UDA, ond diolch i berfformiad da iawn o ran gwerthu amser hysbysebu, mae'r sianel yn parhau i wneud elw cadarn.

Fel rhan o strategaeth y Grŵp i gynyddu incwm masnachol, ym mis Gorffennaf 2021, ymunodd BBC Global News (GN) â'r busnes, gan ddod â gweithrediadau newyddion masnachol y BBC yn rhan o BBC Studios a chynnig cyfleoedd pellach i ddatblygu ei wasanaethau newyddion ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol. Daeth prosesau gweithredu a rheoli golygyddol sianel BBC World News yn rhan o'r gweithrediad newyddion gwasanaeth cyhoeddus, a chaiff ei threfniadau hysbysebu a dosbarthu rhyngwladol eu gweithredu gan GN.

Llwyddodd gwefan a brand BBC.com i adfer yn gryf gan gyrraedd lefelau cyn-COVID-19, wrth i lefelau gwerthiannau hysbysebu ddychwelyd yn gyflym mewn sawl rhanbarth – yn enwedig Ewrop, y Dwyrain Canol, Affrica a Gogledd America, a llofnododd y tîm gytundeb trwyddedu pwysig â Meta ar gyfer newyddion a chynnwys chwaraeon y tu allan i'r DU. Yn sgil digwyddiadau newyddion pwysig yn Affganistan ac Wcráin, gwelwyd

Gweithrediadau masnachol BBC Studios – parhad

y lefelau ymgysylltu uchaf erioed â gwefan BBC News, wrth i gynulleidfaoedd geisio dod o hyd i newyddiaduraeth ddiuedd ac awdurdodol y gellid ymddiried ynddi. Mae cynulleidfaoedd y gyrchfan fideo premiwm BBC Reel yn parhau i gynyddu, a gwelwyd twf o 9% o gymharu â'r llynedd.

Buddsoddodd BBC.com mewn talent yn ystod y flwyddyn, gan adlewyrchu'r awydd cynyddol am gynnwys newyddion digidol. Penodwyd Jennie Baird i rôl newydd Rheolwr-gyfarwyddwr ac Is-lywydd Gweithredol Newyddion Digidol a Ffrydio, dychwelodd Katty Kay i'r BBC fel Cyflwynydd Cyffredinol, BBC Studios, a Gohebydd Arbennig UDA BBC News, a chyhoeddodd y BBC gynlluniau i ddyblu maint ei dîm newyddiaduraeth digidol yn UDA a Chanada.

Diwylliant

Roedd rhoi pobl yn gyntaf eisoes yn ffocws allweddol, ond daeth yn brif flaenoriaeth i'r busnes yn ystod y pandemig. Ochr yn ochr â sicrhau llesiant, aeth BBC Studios ati i ddatblygu arweinyddiaeth, meithrin talent a chynyddu amrywiaeth lleisiau a diwylliant o gynwysoldeb, yn ogystal â gweithredu mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Gwnaed mwy o ymdrech fyth i feithrin talent ym mhob rhan o'r busnes, er mwyn helpu pobl i ddysgu a ffynnu yn eu rolau, a chynhaliwyd adolygiad a nododd dros 50 o arweinwyr y dyfodol â photensial uchel y gallai cynllun gyrfa llwybr carlam fod o fudd iddynt dros y flwyddyn i ddod. Canolbwyntiodd rhaglenni poblogaidd ScriptWorks a TalentWorks (gweler yr astudiaeth achos) ar dalent sgriptio a digidol, ac ehangwyd y Rhaglen Gyflymu i Gynhyrchwyr Cynorthwyol ym mis Ionawr, sydd bellach yn darparu lleoliadau gwaith ym maes adloniant ffeithiol, hanes naturiol, adloniant a cherddoriaeth, rhaglenni dogfen a gwyddoniaeth i bron i 30 o bobl ifanc.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae BBC Studios wedi rhoi llwyfan i leisiau amrywiol ac wedi sicrhau rhwydwaith cryf ar gyfer recriwtio talent newydd i bob maes o'r busnes drwy ei strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant tair blynedd, 'Gwerthfawrogi Gwahaniaeth'. Mae'r busnes wedi gwneud cynnydd yn erbyn ei dargedau amrywiaeth yn y gweithlu, ac wedi creu Cyngor Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredol Cynhyrchu Ralph Lee i fwrw golwg ar waith cynhwysiant a'i herio.

Penodwyd tîm o naw Eiriolwr Cynhwysiant Byd-eang ar draws BBC Studios yn rhyngwladol er mwyn sefydlu rhwydweithiau cysylltiadau staff i bob cymuned amrywiol. Lluniwyd partneriaethau cyflogaeth newydd ag Evenbreak, Leonard Cheshire, y Gymdeithas Awtistig Genedlaethol a Black Young Professionals er mwyn ceisio gwella amrywiaeth ethnig, a chynhaliwyd gweithdai arweinyddiaeth gynhwysol i dros 600 o reolwyr ledled y byd.



Astudiaeth achos: Meithrin y dalent greadigol newydd orau

Mae llwyddiant busnes creadigol yn dibynnu ar ei bobl greadigol, ac mae meithrin y genhedlaeth nesaf yn allweddol. Mae tîm TalentWorks yn gwneud ymdrech weithredol i ddod o hyd i dalent newydd. Mae Preswylfeydd i Grewyr yn paru recriwtiaid addawol â chynhyrchwyr profiadol o deulu BBC Studios ar gyfer lleoliad â thâl o ryw chwe mis, er mwyn datblygu cynnwys a syniadau newydd. Cydgynhyrchodd TalentWorks bodlediad adloniant wythnosol Mariam Musa ac Adeola Patronne *Pressed* (llun uchod), a lwyddodd yn ddiweddar i ddenu dros un filiwn o lawrlwythiadau a'r gyfran uchaf o wrandawyr ifanc ar BBC Sounds.

Mae ScriptWorks yn gweithio'n uniongyrchol â chyw awduron. Mae ei gynllun clodwiw Writers Academy wedi llwyddo i hyfforddi'r awduron teledu mwyaf llwyddiannus, gan greu bron i 5,000 o benodau teledu. Dim ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, llwyddodd 13 o'i gyn-aelodau i ennill comisiynau neu cafodd penodau ganddynt eu darlledu. Mae'r gystadleuaeth The Thousand Stories yn helpu awduron o grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol i ddechrau gyrfa yn ysgrifennu ar gyfer y teledu: yn 2021, cafodd dros 500 o geisiadau i ennill pecyn o gyfleoedd mentora, datblygu a rhwydweithio. Mae'r Cynllun Gweithdai Awduron newydd yn datblygu awduron y dyfodol, gan greu sgriptiau peilot gwreiddiol ar gyfer teulu ehangach BBC Studios.

Mae cynaliadwyedd yn parhau i fod wrth wraidd gweithrediadau. Mae'r busnes yn parhau'n ymrwymedig i leihau ei allyriadau carbon ac yn gweithredu'n unol â thargedau gwyddoniaeth Sero Net y BBC cyfan. Mae cynrychiadau yn dal i fesur a lleihau eu hallyriadau, gyda 99% ohonynt ag ôl-troed wedi'i gyfrifo drwy ddull albert a 98% ohonynt wedi creu cynllun gweithredu carbon dull albert ac wedi cyflawni ardystiad albert yn 2021/22. Mae timau hefyd yn arloesi, fel ar gyfer seremoni *Earthshot Prize*, a ddarparodd ddigwyddiad byd-eang eithriadol a enillodd wobr RTS am lai na phum tunnell o allyriadau carbon.

Llofnododd BBC Studios hefyd yr Addewid Cynnwys Hinsawdd yn COP26, fel y gwnaeth Grŵp y BBC, gan ymrwmo i bortredu cynaliadwyedd mewn ffordd gyfrifol ar y sgrin ym mhob rhan o'i gynnwys. Gwelwyd enghreifftiau o hyn yn y straeon cynaliadwyedd a fu'n rhan o operâu sebon *EastEnders*, *Casualty* a *Doctors* yn ystod COP26. Llwyddodd rhaglenni fel *The Green Planet*, *Dynasties*, *Greta Thunberg: A Year to Change the World*, *Climate Change: The Facts* a *Cook Clever Waste Less* i godi ymwybyddiaeth o faterion hinsawdd pwysig, a chaiff ymddygiad cynaliadwy ei bortredu mewn rhaglennu eraill, gyda straeon a segmentau ar eitemau poblogaidd ar BBC One yn cynnwys *Doctor Who* a *The One Show*.

Crynodeb o berfformiad ariannol

Yn ariannol, cyrhaeddodd gwerthiannau ac EBITDA eu lefelau uchaf erioed y flwyddyn hon. Cafwyd cynnydd o £375 miliwn mewn gwerthiannau o gymharu â 2020/21, wedi'i ysgogi gan gynydd o 56% mewn gwerthiannau cynhyrchu, wrth i weithgareddau cynhyrchu aildechrau ar ôl gorfod cau yn 2020. Cynyddodd EBITDA £75 miliwn, drwy elw cryf ar werthiannau cynhyrchu a'r elw uchaf erioed i UKTV, i fyny £49 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd buddsoddiadau mewn cynnwys 67% i'w lefelau uchaf erioed a pharhaodd y sefyllfa arian parod yn gadarn â'r busnes mewn sefyllfa dda i dyfu yn y dyfodol. Y dyledion net ar ddiwedd y flwyddyn, heb gynnwys prydlesau, oedd £135 miliwn (2020/21: £15 miliwn) a'r llif arian parod rhydd oedd £198 miliwn (2020/21: £201 miliwn).

Edrych i'r dyfodol

Mae BBC Studios wedi dechrau blwyddyn ariannol 2022/23 mewn sefyllfa ffafriol: ymhlith galw parhaus am gynnwys o ansawdd uchel, cyfran uchel o werthiannau o gytundebau cludo aml-flwyddyn hirdymor a llechen gynhyrchu gadarn, mae gan y busnes fantolen a chronfeydd arian parod wrth gefn cadarn. Er nad yw'n ddiogel rhag dynameg geo-wleidyddol a marchnad ehangach, lle mae arferion cynulleidfaoedd yn newid o hyd ac mae cystadleuaeth yn cynyddu, mae busnes BBC Studios mewn cyflwr da ac mae ganddo ragolygon cryf o ran twf.

Perfformiad yn ôl elfen weithredu

	Gwerthiannau		EBITDA	
	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21
Cynhyrchu a Dosbarthu	1,150	929	93	66
Sianelau a Ffrydio	536	383	135	85
Dileadau	(56)	(57)	(2)	0
Cyfanswm	1,630	1,255	226	151

Noder Mae Pwyllgor Gweithredol Studios yn olrhain ei berfformiad ar draws dwy linell busnes, Cynhyrchu a Dosbarthu a Sianelau a Ffrydio (Gwasanaethau wedi'u Brandio gynt)

Yn ogystal â darllediadau o Jiwbilf Blatinwm y Frenhines ym mis Mehefin 2022, disgwylir i gynrychiadau cynnwys pwysig yn ystod y flwyddyn bresennol gynnwys *Prehistoric Planet* ar gyfer Apple TV+, yr ail gyfres o *Good Omens* gyda Michael Sheen a David Tennant ar Amazon Prime Video a *Here We Go* ar BBC One, wedi'i gynhyrchu gan BBC Studios Comedy, â chast hynod adnabyddus gan gynnwys Alison Steadman, yn dilyn peilot llwyddiannus o dan y teitl *Pandemonium* yn 2020. Mae gan labeli wedi'u sgriptio BBC Studios flwyddyn brysur o'u blaenau, gyda thrydedd gyfres o *Happy Valley* ar gyfer y BBC gan Lookout Point, a chomedï dywyll *The Birth Of Daniel F Harris* ar gyfer Channel 4, wedi'i gwneud gan Clerkenwell Films.

Yn rhyngwladol, mae BBC Studios yn dosbarthu drama pedair rhan Steven Moffat *Inside Man*, wedi'i gwneud gan Hartwood Films ar gyfer y BBC a Netflix, a drama chwe rhan James Graham *Sherwood*, wedi'i gwneud ar gyfer BBC One gan label wedi'i sgriptio BBC Studios, House Productions, am gyfres o lofruddiaethau mewn pentref

glofaol yn Swydd Nottingham, â chast hynod adnabyddus gan gynnwys Joanne Froggatt a Stephen Tompkinson.

2022/23 hefyd fydd blwyddyn gyntaf BBC Studios Kids and Family, sef Children's In-House Production gynt, fel uned gynhyrchu fasnachol, a blwyddyn lawn gyntaf BBC Global News fel rhan integredig o BBC Studios Global Distribution.

Un o flaenoriaethau datganedig y BBC yw cynyddu incwm masnachol, a bydd llwyddiant creadigol ac ariannol BBC Studios yn y dyfodol yn hanfodol o ran sicrhau effaith barhaus y BBC yn ystod y blynyddoedd i ddod. Gyda'r lefel newydd hon o uchelgais fasnachol, trefniadau llywodraethu newydd drwy Fwrdd Masnachol y BBC, a gallu benthycu ychwanegol, mae'r busnes wedi pennu targed heriol ar gyfer twf rhyngwladol dros y pum mlynedd nesaf. Er mwyn ysgogi refereniw a thwf elw hirdymor, mae BBC Studios yn disgwyl cynyddu buddsoddiadau mewn cynnwys a gwasanaethau yn sylweddol, a fydd o bosibl mewn rhai achosion yn lleihau proffidoldeb byrdymor.



Fel rhan o bartneriaeth ag Airbnb, cafodd y tŷ o animeiddiad poblogaidd byd-eang Ludo Studio Bluey ei ail-greu ar ffurf go iawn. Ffotograff gan Hannah Puechmarin

Gweithrediadau masnachol BBC Studioworks

Trosolwg

Mae BBC Studioworks yn is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lwyr y BBC, sy'n darparu stiwdios teledu a gwasanaethau ôl-gynhyrchu i holl ddarlledwyr a chwmnïau cynhyrchu mawr y DU. Bu'r 12 mis diwethaf (2021/22) yn flwyddyn eithriadol lle cyflawnodd y busnes ei berfformiad masnachol gorau yn ystod y degawd diwethaf.

Roedd ein lefel gwerthiannau, sef £44 miliwn, yn well na'r disgwyl, gan ddarparu cynnydd o 18.3% o un flwyddyn i'r llall, ac EBITDA o £8 miliwn. Mae'r perfformiad ariannol cadarn hwn yn golygu bod BBC Studioworks yn darparu'r elw uchaf erioed yn ôl i'r BBC, sef £3 miliwn.

Strategaeth

Er gwaethaf y ffocws naturiol ar adfer ar ôl COVID-19, gyda phwyslais ar lesiant ei gyflogeion a'i gleientiaid, gwnaeth BBC Studioworks gynnydd cadarn yn erbyn ei flaenoriaethau strategol gan fuddsoddi miliynau o bunnoedd ym mhob rhan o'i ôl-troed a'i bobl.

Cyhoeddodd y busnes ei gynlluniau i ehangu ledled y DU, gan ddechrau gweithredu stiwdio deledu aml-gamera newydd yn Kelvin Hall, Glasgow, a fydd yn agor yn ystod hydref 2022. Dyma gam cyntaf ei uchelgais i agor stiwdios ychwanegol ledled y DU ac ysgogi incwm masnachol pellach. Bydd

Kelvin Hall yn helpu i ddatblygu gweithlu medrus ac amrywiol yn yr Alban, gan roi hwb i swyddi lleol, ac fe'i sefydlwyd mewn ymateb uniongyrchol i ofynion cynyddol gan y diwydiant i wneud mwy o gyfresi teledu yn yr Alban.

Rhoddydd ffocws sylweddol ar ddatblygu gweithlu a set sgiliau'r cwmni, gan fuddsoddi'n helaeth mewn dysgu a datblygu er mwyn galluogi cynnydd, cyfoethogi diwylliant a chreu busnes modern ac effeithlon. Er mwyn ysbrydoli a datblygu'r genhedlaeth nesaf o dalent, buddsoddodd BBC Studioworks mewn cymunedau lleol drwy raglenni allgymorth i ysgolion. Gweithiodd mewn partneriaeth â Rise a The Prince's Trust i gyflwyno gweithdai darlledu byw er mwyn helpu i sicrhau bod y diwydiant cynhyrchu teledu yn fwy hygyrch, a rhoddodd cynllun mentora ar y cyd â ScreenSkills ac Elstree Screen Arts gymorth yr oedd dirfawr ei angen i unigolion sy'n gadael yr ysgol o grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol.

Buddsoddodd y cwmni hefyd yn helaeth yn ei ôl-troed craidd drwy brynu offer newydd ac adnewyddu ei gyfleusterau er mwyn cynnig gwell profiad i'w gyflogeion a'i gwsmeriaid.

Rhoddydd sylw dwys i sut y gall ddarparu atebion i leihau'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â phrosesau

cynhyrchu teledu. O ganlyniad, mae'r busnes wedi cynyddu ei uchelgais a'i gamau gweithredu drwy lansio ei strategaeth gynaliadwyedd sy'n nodi ei nod o fod yn sero net erbyn 2030. Gwnaed cynnydd da yn erbyn ei nodau cynaliadwyedd craidd, sy'n cynnwys lleihau ei ôl-troed carbon 80% dros y tair blynedd nesaf a sicrhau bod 100% o'r ynni a ddefnyddir ym mhob rhan o'r ôl-troed yn ynni adnewyddadwy erbyn 2024.

Dod â syniadau'n fyw

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd y cwmni i hwyluso cynnwys unigryw o bwys ar gyfer BBC Studios a sawl cwmni cynhyrchu annibynnol. Ymhlith y cynyrchiadau a ddychwelodd roedd *Strictly Come Dancing* a *The Graham Norton Show* ar gyfer BBC One, *Saturday Night Takeaway*, *Good Morning Britain*, *This Morning* a *The Jonathan Ross Show* ar gyfer ITV, *The Last Leg* ar gyfer Channel 4 ac *A League of Their Own* ar gyfer Sky Max.

Enillodd y busnes lu o gynyrchiadau newydd gan gynnwys *Ant and Dec's Limitless Win* ar gyfer ITV, *Would I Lie to You?* ar gyfer BBC One, *Never Mind The Buzzcocks* ar gyfer Sky Max a *Question Team* ar gyfer Dave, a pharhaodd i ddarparu gwasanaethau i raglenni *EastEnders* a *Holby City* ar y BBC, Programme Acquisitions a Persian Television.

Golygodd y tîm ôl-gynhyrchu nifer o gynyrchiadau gan gynnwys *Strictly Come Dancing*, *It Takes Two* a *The Goes Wrong Show* ar gyfer y BBC, *The Martin Lewis Money Show* a *Saturday Night Takeaway* ar gyfer ITV a *The Russell Howard Hour* ar gyfer Sky Max.

Blaenolwg

Mae BBC Studioworks yn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd mewn sefyllfa gadarn, ond mae'r diwydiant yn wynebu argyfwng sgiliau sy'n fgythiad go iawn yn yr hirdymor. Er mwyn cyflawni ei uchelgeisiau o ran twf a sicrhau rhagoriaeth weithredol barhaus, mae angen sgiliau a thalent newydd ar y busnes. Bydd atgyfnerthu ei gyflenwad o dalent er mwyn sicrhau gweithlu amrywiol a chynhwysol sy'n addas ar gyfer y dyfodol yn flaenoriaeth graidd i mewn i 2022/23 a thu hwnt.

Gyda'r cynnydd diwrthdro mewn ffrydio yn dal i ysgogi'r galw am stiwdios yn y DU, mae'r cwmni yn parhau i weithredu o fewn marchnad gynyddol gystadleuol. Bydd y cefndir hwn yn llywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol wrth i'r busnes asesu o ble y daw twf ychwanegol a chanolbwyntio ar ysgogi incwm masnachol drwy gynnig gwasanaethau o'r radd flaenaf i gwsmeriaid a pharhau i ehangu ledled y DU.

*Stiwdio deledu aml-gamera newydd
BBC Studioworks yn Kelvin Hall,
Glasgow*



LLYWODRAETHU

Mae'r adran hon yn edrych yn fanwl ar rôl Bwrdd y BBC ac mae'n cynnwys adroddiadau gan is-bwyllgorau dirprwyedig y Bwrdd. Mae'r adran hefyd yn manylu ar ein dull cyffredinol o ymdrin â llywodraethu corfforaethol, ein sefyllfa reoleiddiol a chadarnhad o ddyletswyddau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol.

t.84

Bwrdd y BBC

t.87

Adroddiad cydnabyddiaeth

t.96

Datgeliadau cyflogau

t.105

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

t.128

Adroddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol

t.129

Adroddiad Canllawiau a Safonau Golygyddol

Cyflwyno ein Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu o dan delerau Siarter Frenhinol a Chytundeb y BBC. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, fel y'u nodir yn y Siarter.

Mae'r Siarter yn amlinellu cyfrifoldebau'r Bwrdd, ei aelodaeth a'r gofyniad am nifer o Bwyllgorau i gefnogi ei waith. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am arfer holl swyddogaethau'r BBC mewn modd priodol, effeithiol ac annibynnol. Mae'n pennu cyfeiriad strategol y gorfforaeth ac yn cymeradwyo'r cylch gwaith creadigol a'r cyllidebau ar gyfer gwasanaethau'r BBC.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Richard Sharp ac mae'n cynnwys hyd at ddeg cyfarwyddwr anweithredol – gan gynnwys y Cadeirydd – a phedwar cyfarwyddwr gweithredol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Caiff y Cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol y pedair gwlad eu penodi gan EM Y Frenhines ar sail argymhelliaid Gweinidogion ledled y DU. Caiff aelodau eraill y Bwrdd eu penodi gan y BBC, drwy Bwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd.

Gellir darllen bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys eu rolau eraill, ar wefan y BBC: bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i nifer o is-bwyllgorau. Mae'n ofynnol iddo gael Pwyllgor Cydnabyddiaeth, Pwyllgor Enwebiadau a Phwyllgor Archwilio a Risg. Caiff gwaith y pwyllgorau hyn ei ategu gan waith nifer o bwyllgorau eraill, a sefydlwyd gan y Bwrdd – mae'r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Masnachu Teg, y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol a phwyllgorau ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU. Mae'r Bwrdd Masnachol yn goruchwyllo is-gwmnïau masnachol y BBC ar ran y Bwrdd.

Mae'r adran hon yn cynnwys adroddiadau gan y pwyllgorau hynny, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn bennaf ac a gadeirir ganddynt, fel sy'n ofynnol gan y Siarter.

Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Bwrdd ym mis Mehefin 2022.

Yn ystod y flwyddyn, bu nifer o newidiadau i aelodaeth y Bwrdd. Rhoddodd Tom Ilube y gorau i'w rôl ar y Bwrdd ar ddiwedd mis Mehefin 2021. Gadawodd y Farwnes Tanni Grey-Thompson a Steve Morrison y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022, yn y drefn honno, ar ddiwedd cyfnod eu penodiad. Gadawodd Fran Unsworth hefyd ei rôl fel Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes ym mis Ionawr 2022 gan roi'r gorau i'w rôl ar y Bwrdd hefyd bryd hynny.



Richard Sharp
Cadeirydd



Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Olygydd



Shumeet Banerji
Cyfarwyddwr anweithredol



Syr Damon Buffini
Cyfarwyddwr anweithredol



Y Fonesig Elan Closs Stephens DBE
Cyfarwyddwr anweithredol
Aelod Cymru



Shirley Garrod
Cyfarwyddwr anweithredol



Syr Robbie Gibb
Cyfarwyddwr anweithredol
Aelod Lloegr



Muriel Gray
Cyfarwyddwr anweithredol
Aelod yr Alban



Ian Hargreaves CBE
Cyfarwyddwr anweithredol



Charlotte Moore
Prif Swyddog Cynnwys



Syr Nicholas Serota CH
Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog Gweithredu

Ymunodd Robbie Gibb fel aelod Lloegr ym mis Mai 2021 ac ymunodd tri aelod newydd â'r Bwrdd ym mis Ionawr 2022. Daeth Muriel Gray yn lle Steve Morrison fel aelod yr Alban. Ymunodd Shumeet Banerji a Damon Buffini yn lle Tanni Grey-Thompson a Tom Ilube. Bydd Deborah Turness yn ymuno â'r Bwrdd yn ddiweddarach yn 2022, pan fydd yn dechrau yn ei rôl fel Prif Swyddog Gweithredol BBC News. Nid oes aelod Bwrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd. Cyfrifoldeb yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw'r penodiad hwn, ac mae angen cynnwys Gweithrediaeth Gogledd

Iwerddon. Mae proses recriwtio yn mynd rhagddi ar gyfer y rôl ar hyn o bryd.

Rhoddir manylion am bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac is-bwyllgorau ar dudalen 104.

Adroddiad cydymffurfiaeth gorfforaethol

Cydymffurfiwn ag arferion gorau llywodraethu corfforaethol

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn ei Siarter a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig. Mae'r Siarter a'r Cytundeb ar gael ar wefan y BBC yn: <https://www.bbc.com/aboutthebbc/governance/charter>.

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, mae wedi dewis cymhwyso arferion gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Chod Llywodraethu Corfforaethol 2018 y DU ("y Cod"), lle y bo hynny'n briodol. Mae hyn yn cyrraedd y safonau llywodraethu sy'n gymwys i gwmnïau a restrir ar farchnad stoc reoleiddiedig yr UE.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd Adolygiad allanol o Effeithiolrwydd y Bwrdd, a oedd yn cynnwys asesiad o berfformiad y Cadeirydd.

Mae nifer o elfennau o'r Cod nad ydynt yn briodol i amgylchiadau'r BBC neu lle mae cydymffurfiaeth â Siarter neu Gytundeb y BBC yn drech na nhw.

Mae hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- darpariaeth 3, 4, 36 a 37, mewn perthynas ag ymgysylltu â chyfranddalwyr a chyd-fynd â'u buddiannau, nad ydynt yn gymwys o ystyried nad oes gan y BBC gyfranddalwyr yn yr un modd ag sydd gan gwmni. Fodd bynnag, mae gan y BBC amrywiaeth eang o fesurau ar waith i sicrhau ei fod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol.
- darpariaeth 5, materion a nodir yn adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006, sy'n berthnasol i gwmnïau yn unig ac y mae Dibenion Cyhoeddus y BBC, fel y'u disgrifir yn y Siarter, yn drech na nhw.
- darpariaeth 18, aelodaeth o'r Bwrdd, a lywodraethir gan erthyglau'r Siarter.
- darpariaeth 25 a 26, y dull o benodi neu ailbenodi'r archwilydd allanol, a lywodraethir ac a bennir gan gymal 55 o'r Cytundeb.

Fodd bynnag, mae'r BBC wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion llywodraethu corfforaethol y Siarter a'r Cytundeb yn ogystal â chydymffurfio'n llawn â'r Cod.

Cost cydymffurfio

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol y mae'r BBC yn ddarostyngedig iddi fel darlledwr a chorff cyhoeddus, yn 2021/22 aethom i gostau cydymffurfio amcangyfrifedig o £19 miliwn (20/21: £15 miliwn). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys ffi'r BBC i Ofcom, sef £12 miliwn.

Rheoleidd-dra

Rhaid i'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC fod yn unol â darpariaethau'r Siarter, y Cytundeb Fframwaith a chytundebau eraill a wna'r BBC â Gweinidogion y Llywodraeth. Ystyrir bod trafodion sy'n cyflawni'r dibenion a fwriadwyd ac sy'n unol ag awdurdodau perthnasol yn rhai 'rheolaidd'; caiff y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn eu hystyried yn 'afreolaidd'. Ymdrinnir â thrafodion twyllodrus a chosbau ariannol neu ddirwyon fel rhai 'afreolaidd'. Yn ogystal ag adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o reoleidd-dra, cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o fframwaith cydymffurfio â rheoleidd-dra'r BBC, gan gynnwys y prosesau, y rheolaethau a'r systemau sicrwydd sydd ar waith i reoli'r risg i reoleidd-dra mewn meysydd yr asesiad eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o afreoleidd-dra. Gwnaeth cwmpas yr adolygiad ystyried y defnydd priodol o ffi'r drwydded, yr asesiad o newidiadau perthnasol, gweithredu o fewn terfynau benthyca a'r risg o dwyll. Ni nodwyd unrhyw eithriadau perthnasol o ganlyniad i'r adolygiad hwn ac nid yw'r rheolwyr yn ymwybodol o unrhyw drafodion y gellid eu hystyried yn afreolaidd.

Llywodraethu Pwyllgor Gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ac am bob agwedd ar reoli gweithredol.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn goruchwyllo prosiectau strategol allweddol a chynigion o bwys i'r sefydliad cyfan. Mae'n cael adroddiadau

rheolaidd ar gynulleidfaoedd a pherfformiad ariannol, yn ogystal â goruchwyllo polisiau a materion gweithredol y BBC cyfan. Mae gwybodaeth am drefniadau cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol yn 2021/22 ar gael yn yr adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalennau 87 i 95.

Ym mis Ionawr 2022, rhoddodd Fran Unsworth y gorau i'w rôl fel Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes a chymerodd Jonathan Munro, fel y Cyfarwyddwr dros dro,

ei lle ar y Pwyllgor Gweithredol, tra'n aros i Deborah Turness ddechrau yn ei swydd fel Prif Swyddog Gweithredol BBC News. Rhoddodd Bob Shennan hefyd y gorau i'w rôl ar y Pwyllgor Gweithredol ar ddiwedd mis Mawrth 2022 a chafwyd gwared ar rôl y Rheolwr Gyfarwyddwr. Mae manylion llawn aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ar gael yn: bbc.com/aboutthebbc/whoweare/exco.

Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ym mis Mehefin 2022.



Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Olygydd



Kerris Bright
Prif Swyddog Cwsmeriaid



Tom Fussell
Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios



Charlotte Moore
Prif Swyddog Cynnwys



Jonathan Munro
Cyfarwyddwr Dros Dro BBC News and Current Affairs



Gautam Rangarajan
Cyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad y Grŵp



June Sarpong
Cyfarwyddwr Amrywiaeth Greadigol



Rhodri Talfan Davies
Cyfarwyddwr y Gwledydd



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog Gweithredu

Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Sefydlwyd Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf y BBC gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar ddiwedd 2017 gyda'r nod o gynghori uwch-arweinwyr a sicrhau bod llais a syniadau pobl iau yn cael eu clywed ar lefel weithredol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tua 15-16 o aelodau iau o'r staff o bob rhan o'r sefydliad, fel arfer am gyfnod o 12-15 mis. Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, nodwyd gennym fod pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar waith y Pwyllgor. Gwnaethom ehangu ei gyfnod gweithredu tan fis Gorffennaf 2021 gan adrodd ar ei waith yn Adroddiad Blynyddol y llynedd.

Dechreuodd y garfan newydd o aelodau'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2022 ac mae eu gwaith yn canolbwyntio ar roi cyngor i'r Pwyllgor Gweithredol ar faterion recriwtio a chadw staff; sut i ddatblygu rhwydweithiau er mwyn gwneud y gorau o adnoddau mewnol; cefnogi staff anabl; a strategaethau ar gyfer gwella cynrychiolaeth leol mewn cynnwys.

Aelodau'r Pwyllgor yn 2020/21

- Becca Bryers (cadeirydd)
- Freya Bronwin
- Malachi Butt-Mukete
- Aaron Cooper
- Beth Dinnall
- Jordan Dunbar
- Simone Eubanks (ymunodd ym mis Hydref 2020)
- Emmanuella Kwenortey
- Lina Mar
- Shannon McGowan
- Drew Miller Hyndman (ymunodd ym mis Tachwedd 2020)
- Louise Ogunnaike (ymddeolodd o'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2020)
- Madusha Pallawela
- Ahmed Razek (ymddeolodd o'r Pwyllgor ym mis Hydref 2020)
- Jacob Rickard
- Ben Tattersall Smith
- Keely Watson

Aelodau'r Pwyllgor yn 2022

- Georgina Pearce (cyd-gadeirydd)
- Sam Ripman (cyd-gadeirydd)
- Emma Arbuckle
- Becky Bailey
- Myles Bonnar
- Jemma Clarke
- Adam Clarkson
- Liz Clements
- Ryan Dobney
- Adam Eland
- Simone Eubanks
- Rachel Griffith
- Drew Hyndman
- Daniel Kassim
- Euan Sime
- Dillon Wilson
- Julie Yoonnyung Lee

Adroddiad cydnabyddiaeth

Bu'n bleser cadeirio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth i'r BBC barhau i addasu i ddulliau gweithio yn dilyn y pandemig, gan barhau hefyd i weithio er mwyn rhoi prosesau ac egwyddorion cyflog clir a chyson ar waith ym mhob rhan o'r sefydliad. Fel Pwyllgor, gwnaethom nodi'r newidiadau sylweddol mewn patrymau gweithio ledled y DU, a welwyd hefyd yn y BBC. Bu ymrwymiad ac ymdrech cyflogaion ym mhob rhan o'r sefydliad yn eithriadol yn ystod y cyfnod hwn ac mae'n cadarnhau'r ffaith bod cenhadaeth barhaus y BBC yn ffactor allweddol sy'n ysgogi'r rheini sy'n gweithio yma o hyd.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyfarfod yn ffurfiol fel Pwyllgor bum gwaith, a chafodd busnes arall ei gynnal all-lein yn ôl yr angen. Ymunodd y Fonesig Elan Closs Stephens â ni fel Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol, a oedd yn ddefnyddiol iawn wrth drafod materion masnachol. Parhaodd Steve Morrison a Tanni Grey-Thompson fel aelodau'r Pwyllgor hyd nes i'r ddau adael y Bwrdd ar ddiwedd 2021. Hoffwn ddiolch iddynt am eu gwaith a'u cefnogaeth dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r ddau wedi gwneud cyfraniad mor gadarnhaol i faterion cydnabyddiaeth yn y BBC. Wedyn, ymunodd Richard Sharp a Muriel Gray â mi ar y Pwyllgor, y bydd y ddau ohonynt yn parhau'n aelodau ar gyfer y flwyddyn i ddod, pan ddaw Syr Robbie Gibb yn Gadeirydd. Bydd Syr Damon Buffini, fel Cadeirydd y Bwrdd Masnachol, hefyd yn ymuno â'r Pwyllgor er mwyn trafod materion masnachol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd ein ffocws pennaf fel Pwyllgor ar y materion masnachol hynny. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwyllo holl gynlluniau cymhelliant y BBC, ac mae'n rhaid i ni gymeradwyo'r trefniadau ar gyfer unrhyw gynllun sy'n cynnwys aelod o'r Bwrdd Gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredol i gynnal adolygiad strategol o gynlluniau cymhelliant yn BBC Studios. Ar ôl cryn drafodaeth gadarnhaol, cytunwyd ar strwythur newydd a fydd yn ceisio cymell y rheini sy'n gymwys ar gyfer cynllun bonws y cwmni i ganolbwyntio ar dwf masnachol hirdymor ac a fydd yn gwobrwyo'r rheini sy'n dangos perfformiad eithriadol wrth sicrhau llwyddiant yn erbyn targedau cyffredinol cadarn a heriol. Gwn y bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn parhau i weithio'n agos â'r Bwrdd Masnachol newydd ar y materion hyn ac y bydd yn sicrhau bod proses wobrwyo glir a chyson ar waith yn BBC Studios.

Fel rhan o'n busnes arferol, gwnaethom fonitro data ac adroddiadau ar nifer staff y BBC, bylchau cyflog a'r bil cyflogau cyffredinol. Fel y dengys yr adroddiad blynyddol hwn, mae'r BBC wedi lleihau nifer cyffredinol ei staff 938 y flwyddyn hon, a chafwyd gostyngiad o saith yn nifer yr uwch-arweinwyr. Gwnaethom hefyd drafod yn fanwl y data sy'n sail i'r bwlch cyflog ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn y BBC yn ogystal â'r bwlch cyflog ar gyfer pobl anabl. Ceir manylion am holl fylchau cyflog y BBC ar dudalennau 65 i 67. Yn gyffredinol, mae bylchau yn y BBC yn sylweddol lai na'r bylchau ym myd y cyfryngau ehangach, ond mae cyfleoedd i wella o hyd. Yn olaf, gwnaethom hefyd gynnal ein hadolygiad blynyddol o ddatgeliadau'r BBC o'r rheini y telir dros £150k iddynt o arian ffi'r drwydded ac mae'r rhestr hon i'w gweld ar dudalennau 96 i 103.

Bu'n fraint cadeirio'r Pwyllgor yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rwy'n hyderus bod fy olynnydd, Syr Robbie Gibb, ac aelodau newydd y Pwyllgor, mewn sefyllfa dda i lywio polisiau ar gydnabyddiaeth yn ystod cyfnod a fydd yn hollbwysig i'r BBC. Gan fod cytundeb newydd ar waith ar gyfer ffi'r drwydded, bydd yn hanfodol i'r BBC – fel gwasanaeth cyhoeddus ac o safbwynt masnachol – barhau i allu denu a chadw'r dalent greadigol orau, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl i gynulleidfa oedd yn y DU a ledled y byd.

Nicholas Serota

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
23 Mehefin 2022

Llywodraethu

Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau o Fwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Mae hyn yn cynnwys ein datgeliad blynyddol o gyflogau fel sy'n ofynnol gan Siarter y BBC.

Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2013 a Rheolau Rhestru yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Archwiliwyd yr adrannau ar bensiynau a chydabyddiaeth a dderbyniwyd gan y grŵp hwn gan archwilwyr allanol y BBC.

Cyfansoddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r ffordd y mae'n gweithredu

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd, ers 1 Ebrill 2017, wedi bod yn gyfrifol am bennu'r strategaeth cydnabyddiaeth i Grŵp y BBC ac am bob agwedd ar gydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd. Mae ei aelodau yn gyfarwyddwyr anweithredol: Robbie Gibb a Muriel Gray, a Chadeirydd y BBC Richard Sharp. Mae Robbie Gibb wedi cadeirio'r Pwyllgor ers mis Mai 2022.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arferion y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Willis Towers Watson ar faterion yn ymwneud â chydabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol ac o bryd i'w gilydd ar ffurf asesiadau o'r farchnad, a gan PricewaterhouseCoopers LLP ar gynllun cymhelliant ehangach mewn perthynas â'n his-gwmnïau masnachol.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn gyson â diben a gwerthoedd y BBC. Mae'n sicrhau bod ein trefniadau'n dryloyw ac yn hawdd eu deall, a bod lefelau cydnabyddiaeth yn gymesur â chyfraniad.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo tueddiadau cyflog drwy adroddiadau chwarterol rheolaidd gan reolwyr ar weithgarwch gwobrwyo, metrigau blynyddol allweddol a data sy'n ymwneud â monitro cyflogau uwch-arweinwyr a chymeradwyaethau diswyddo.

Egwyddorion cyflogau'r BBC

Parhawyd i roi ffocws ar gyflogau ar bob lefel yn y BBC, ynghyd â mwy o ffocws ar gyflog teg. Ymgwymerwyd â sawl menter er mwyn sicrhau bod ein Hegwyddorion Cyflogau Teg yn cael eu hymgorffori drwy'r sefydliad cyfan a rhoi fframwaith lle gwneir penderfyniadau teg a chyson ynghylch cyflogau.

1. Teg
2. Cyson
3. Tryloyw
4. Cystadleuol
5. Clir

Mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad sy'n newid yn gyflym lle mae cystadleuaeth ddwys am dalent, a thwf aruthrol ymhlith rhai cwmnïau newydd ym maes y cyfryngau, ffrydio a thechnoleg ddigidol, sy'n cynnig pecynnau hynod ddeniadol. Felly, rydym yn parhau i gydbwyso cyflogau cystadleuol ar y farchnad â'r angen i ddangos gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Adlewyrchir y cydbwysedd hwn yn ein hystodau cyflog swydd a lywir gan y farchnad sy'n parhau i gael eu disgowntio yn erbyn y farchnad, lle mae gwaith dadansoddi allanol yn cefnogi hyn.

Credwn y bydd yr egwyddorion cyflogau hyn yn sicrhau y gall y BBC barhau i apelio at bawb sy'n teimlo'n gyffrous am y cyfleoedd i weithio ym maes darlledu cyhoeddus.

Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adran ar Ein Pobl ar dudalennau 59 i 63.

Polisi Cydnabyddiaeth Uwch-arweinwyr

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ymrwymedig i bennu cyflog priodol i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl orau i arwain y BBC a sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Cytunodd y Pwyllgor y dylai egwyddorion cyflogau'r BBC fod yn gymwys i'r holl staff, cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ym mhob rhan o Grŵp y BBC. Bydd yr egwyddorion cyflogau yn gymwys fel y'u nodir yn y tabl ar dudalen 62.

Mae'r BBC wedi ymestyn ei Fframwaith Llwybr Gyrfa a negodwyd â'r undebau i gynnwys band lefel gyrfa nas negodwyd â'r undebau, a elwir yn SL (uwch-arweinydd). Mae hyn yn cynnwys ystodau cyflog swydd ar gyfer y swyddi uchaf. Wrth lunio polisi'r BBC ar gyflogau, mae'r Pwyllgor yn ystyried darpariaethau arferion gorau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn llawn.

Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yr hawl i gael y codiad cyflog blynyddol y cytunwyd arno â'r Cyd-undebau ac nid oes ganddynt hawl awtomatig i gael unrhyw fath o gynyddran flynyddol na thaliad datblygiad. Dim ond y Pwyllgor Cydnabyddiaeth all wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau cyfarwyddwyr gweithredol a dim ond y Pwyllgor Eithriadau all wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau uwch-arweinwyr, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.

Ceir crynodeb o'r polisi cydnabyddiaeth ar gyfer Uwch-arweinwyr ar y dudalen ganlynol

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
Cyflog sylfaenol	<p>Ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol, diffinnir cyflog sylfaenol drwy gyfeirio at ganolrif y farchnad ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol (cyflog, bonws blynyddol a chymhelliant hirdymor blynyddol). Disgwylir y bydd hyn yn arwain at ddisgowntio cydnabyddiaeth yn sylweddol yn unol â'r farchnad gan na chynigir unrhyw gymhellion hirdymor yn y BBC.</p> <p>Ar gyfer uwch-arweinwyr, mae ystodau cyflog swydd yn seiliedig ar ganolrif y farchnad ar gyfer cyfanswm arian parod targed (cyflog sylfaenol, lwfansau a bonws targed) sy'n llywio penderfyniadau ynghylch cyflogau.</p> <p>Ni thelir unrhyw uwch-arweinydd yn is na'r isafswm ystod cyflog swydd ar gyfer ei rôl, ac mae ystodau cyflog yn dryloyw i'r uwch-arweinwyr a gweithlu ehangach y BBC.</p>	<p>Defnyddir y ffactorau canlynol i bennu lefel y cyflog sylfaenol a bennir ar gyfer cyfarwyddwr gweithredol neu uwch-arweinydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> — graddfa a chymhlethdod y rôl — gwybodaeth, sgiliau a phrofiad — perfformiad a chyfraniad — ffactorau'r farchnad a fforddiadwyedd <p>Caiff cyflogau eu hadolygu'n flynyddol, gyda chodiadau yn weithredol o 1 Awst. Cytunir ar gyllideb ac fe'i dosberthir yn unol â'r ffactorau uchod.</p> <p>Caiff ystodau cyflog swydd ar gyfer uwch-arweinwyr eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddarau yn ôl yr angen.</p>	<p>Dim uchafswm cyflog nac uchafswm cynnydd penodedig i gyfarwyddwyr gweithredol.</p> <p>Mae ystodau cyflog swydd uwch-arweinwyr yn cynnwys isafswm ac uchafswm; lle mae unigolyn uwchlaw uchafswm ei ystod cyflog am resymau etifeddol neu fasnachol yna ni fydd ei gyflog yn cynyddu ymhellach</p>
Tâl Amrywiadwy	<p>Mae cyfarwyddwyr gweithredol a rhai uwch-arweinwyr sydd wedi'u cyflogi ym musnesau masnachol y BBC yn gymwys i gael bonws blynyddol ar sail perfformiad. Caiff bonysau o'r fath eu hariannu'n gyfan gwbl gan y busnesau masnachol yn hytrach na ffi'r drwydded. Mae'n cynnig gwobr am gyflawni nodau strategol byrdymor a thwf mewn elw.</p>	<p>Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yr hawl i gael taliad bonws ar sail perfformiad.</p> <p>Mae taliadau bonws ymhlith busnesau masnachol y BBC yn amodol ar gyflawni targed cyffredinol sy'n seiliedig ar gymysgedd o brif elw a llif arian parod eu busnes.</p>	<p>Nid oes unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cael bonws ers 2008.</p> <p>Ar gyfer 2021/22, cymerodd un cyfarwyddwr gweithredol – Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios – ran mewn cynllun bonws. Mae gan y cynllun cymhelliant fonws targed o 40% ac uchafswm o 50%.</p>
Buddiannau – Pensiwn	<p>Cynigir pensiynau yn unol â'r trefniadau pensiwn a gynigir i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Yn ogystal â phensiynau, darperir yswiriant bywyd yn unol â'r trefniadau a ddarperir ar gyfer holl gyflogeion y BBC.</p>	<p>Gall cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ddewis ymuno â chynllun cyfraniadau diffiniedig y BBC, sef LifePlan.</p> <p>Mae cynllun buddiannau diffiniedig y BBC wedi'i gau i staff newydd sy'n ymuno.</p> <p>Trefnir yswiriant bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o bedair gwaith eu cyflog sylfaenol i gyfarwyddwyr gweithredol.</p>	<p>Mae'r polisi cyfredol yn darparu cynllun cyfraniadau diffiniedig heb gap cyflog, ac uchafswm cyfraniad o 10% o gyflog gan y cyflogwr.</p> <p>Mae aelodau presennol cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn destun cap ar lefel yr uchafswm cyflog ar gyfer eu cynllun pensiwn neu'n destun cap mewn twf mewn cyflog pensiwnadwy.</p>
Buddiannau – Cludiant/teithio	<p>Ym mis Ebrill 2012, dilëwyd budd y lwfans car i bob cyfarwyddwr gweithredol newydd gan y BBC er mwyn sicrhau bod y polisi yn y dyfodol yn gyson â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Dilëwyd budd y lwfans car i Uwch-arweinwyr yn 2012 i staff newydd sy'n ymuno.</p>	<p>Mae rhai uwch-arweinwyr hefyd yn parhau i gael lwfans car etifeddol.</p> <p>Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i ddefnyddio car â gyrrwr ond nid oes ganddo hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Mae'r Cadeirydd yn dilyn yr un trefniadau.</p>	<p>Nid oes unrhyw uchafswm penodedig gan mai budd hanesyddol ydyw, nad yw wedi cael ei gynnig i staff newydd sy'n ymuno ers 2012.</p>
Buddiannau – Yswiriant Meddygol Preifat	<p>Ym mis Ebrill 2011, gwnaeth y BBC ddileu budd gofal iechyd preifat i bob cyfarwyddwr gweithredol ac uwch-reolwr newydd a chysoni â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Yn dilyn ymgynghoriad, cytunwyd i ddileu budd yswiriant meddygol preifat i gyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr o 1 Ebrill 2019.</p>	<p>Bellach, mae pob cyfarwyddwr gweithredol yn cael lwfans etifeddol yn lle yswiriant meddygol preifat.</p>	<p>Yr uchafswm yswiriant a gynigir yw yswiriant teuluol.</p> <p>Budd hanesyddol yw hwn.</p>
Contractau cyflogaeth a diswyddo	<p>Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o chwe mis ar y mwyaf, ond gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol.</p>	<p>Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.</p>	<p>Os caiff swydd cyfarwyddwr gweithredol ei dileu, mae ganddo hawl i gael taliadau sy'n hafal i fis y flwyddyn hyd at uchafswm taliad o £150,000.</p>

Llywodraethu

Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
Cydnabyddiaeth arall	Nid oes unrhyw hawl i unrhyw gydnabyddiaeth arall, felly ni chafwyd unrhyw daliadau o'r fath yn ystod y flwyddyn.	Os cynigir unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol, rhoddir ystyriaeth lawn i'r risg i enw da'r BBC a byddai angen i unrhyw daliad o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth cyn ei weithredu.	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig

Pensiwn

Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC cyn 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i barhau i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC ('y Cynllun'), sy'n darparu buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig. Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â LifePlan, sef trefniant cyfraniad diffiniedig y BBC. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau cyfatebol i LifePlan am gyfraniadau cyflogeion o 5%. Caiff cyfraniadau cyflogeion rhwng 6% a 7% eu cyfateb ynghyd ag 1% ychwanegol.

Mae cyfraniadau cyflogeion o 8% neu fwy yn cael y cyfraniad cyflogwr uchaf o 10%. Nid oes unrhyw uchafswm cyflog pensiynadwy i'r rhai sy'n cyfrannu at LifePlan.

Caiff cyfarwyddwyr gweithredol sy'n penderfynu peidio ag ymuno â LifePlan neu nad ydynt eisoes yn aelod presennol o'r Cynllun, yn amodol ar fodloni'r meini prawf perthnasol, eu cofrestru'n awtomatig â'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Talodd y BBC 3% a thalodd cyflogeion 5% o enillion cymwys i NEST yn 2021/22 yn unol â gofynion statudol. Gall unigolion ddewis ymeithrio o hyn.

Caiff trefniadau pensiwn cyfarwyddwyr gweithredol eu hadolygu a'u diwygio mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddatblygiadau tebyg.

Rhoddir nodweddion trefniadau pensiwn y BBC y mae ein Cyfarwyddwyr Gweithredol yn rhan ohonynt ochr yn ochr â chyflogeion eraill y BBC yn y tabl isod.

Mae manylion Cynllun Pensiwn y BBC ar gael yn www.bbc.co.uk/mypension/.

Cynllun	Cynllun Pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC				Cyfraniad diffiniedig LifePlan	Cyfraniad diffiniedig (trefniant cofrestru awtomatig) Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST)
	Hen fuddiannau	Buddiannau newydd	CAB 2006	CAB 2011		
Dyddiad y'i caewyd	30 Medi 1996	31 Hydref 2006	30 Tachwedd 2010	1 Ionawr 2012	Yn agored i bob cyflogai cymwys	Yn agored i bob cyflogai cymwys
Croniad	60fed cronriad	60fed cronriad	1.67% o groniad wedi'i addasu yn unol â chwyddiant	1.67% o groniad wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Bydd y BBC yn cyfrannu uchafswm o 10% o gyflog yn cyfrannu 8% gyda graddfa symud is	Bydd y BBC yn cyfrannu 3% o enillion cymwys (2021/22)
Cyflog	Pensiynadwy terfynol	Pensiynadwy terfynol	Enillion wedi'u hailbriso cyfartaledd gyrfa	Enillion wedi'u hailbriso cyfartaledd gyrfa		
Oedran pensiynadwy arferol	60	60	65	65	Dd/G	Dd/G
Cap ar enillion	Ymunodd cyn 1 Mehefin 1989 heb ei gapio, wedi'i gapio fel arall ar £172,800	Wedi'i gapio ar £172,800	Wedi'i gapio ar £172,800	Wedi'i gapio ar £159,000	Heb ei gapio	Isafswm enillion £6,240 y.f. Uchafswm enillion £50,270 y.f. (2021/22)
Twf mewn cyflog pensiynadwy cyn i'r cap ar enillion gael ei gymhwys	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Dim cyfyngiad	Dd/G	Dd/G
Cyfraniad y cyflogai (% o gyflog pensiynadwy)	7.50%	7.50%	4%	6%	Isafswm cyfraniad y cyflogai yw 5%	5% o enillion cymwys (2021/22)
(% o gyflog pensiynadwy)						

Cydnabyddiaeth flynyddol Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol – manylion cydnabyddiaeth a dderbyniwyd

Mae'r tabl ar y dudalen ganlynol yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Bwrdd y BBC ar gyfer 2021/22.

Ceir manylion cadeiryddion pob un o wahanol bwyllgorau'r BBC ar dudalen 84. Mae pob cadeirydd yn cael £5,000 y flwyddyn yn ychwanegol at ei ffioedd sylfaenol. Cynhwysir y ffioedd hyn yn y tabl isod. Dangosir pob ffi ar sail pro rata lle y bo'n briodol.

Bwrdd y BBC (archwiliedig)

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Dyddiad dechrau cyfnod y penodiad	Dyddiad gorffen cyfnod y penodiad	Blwyddyn	Cyflog sylfaenol ¹	Buddiannau trethadwy ²	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Cyfarwyddwyr anweithredol								
Richard Sharp ³	16/02/2021	15/02/2025	2021/22 2020/21	£160 £20	£7 £1	£0 £0	£0 £0	£167 £21
David Clementi ⁴	16/02/2017	15/02/2021	2021/22 2020/21	£0 £88	£0 £5	£0 £0	£0 £0	£0 £93
Shumeet Banerji ⁵	07/01/2022	31/12/2025	2021/22 2020/21	£8 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£8 £0
Damon Buffini ⁵	01/01/2022	31/12/2025	2021/22 2020/21	£8 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£8 £0
Shirley Garrod	03/07/2019	02/07/2023	2021/22 2020/21	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Robbie Gibb ⁶	07/05/2021	06/05/2024	2021/22 2020/21	£38 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £0
Muriel Gray ⁵	03/01/2022	02/01/2026	2021/22 2020/21	£9 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£9 £0
Tanni Grey-Thompson ⁷	03/04/2021	31/12/2021	2021/22 2020/21	£25 £33	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£25 £33
Ian Hargreaves	03/04/2020	02/04/2023	2021/22 2020/21	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Tom Ilube ⁷	03/04/2020	30/06/2021	2021/22 2020/21	£10 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£10 £38
Steve Morrison ⁷	03/04/2021	02/01/2022	2021/22 2020/21	£29 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£29 £38
Nicholas Serota ⁸	03/04/2021	02/04/2024	2021/22 2020/21	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Ashley Steel ¹⁰	03/04/2017	01/12/2020	2021/22 2020/21	£0 £25	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £25
Elan Closs Stephens ⁹	20/01/2021	20/07/2023	2021/22 2020/21	£43 £43	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£43 £43
Cyfanswm y cyfarwyddwyr anweithredol			2021/22 2020/21	£444 £399	£7 £6	£0 £0	£0 £0	£451 £405
Cyfarwyddwyr gweithredol								
Tim Davie ¹¹	01/09/2020	n/a	2021/22 2020/21	£494 £429	£2 £1	£26 £41	£0 £0	£522 £471
Tony Hall ¹²	03/04/2017	30/09/2020	2021/22 2020/21	£0 £188	£0 £2	£0 £0	£0 £0	£0 £190
Ken MacQuarrie ¹²	03/04/2017	31/12/2020	2021/22 2020/21	£0 £244	£0 £2	£0 £0	£0 £0	£0 £246
Charlotte Moore	01/09/2020	31/08/2022	2021/22 2020/21	£425 £402	£2 £2	£39 £34	£0 £0	£466 £438
Leigh Tavaiva ¹³	01/02/2021	31/01/2023	2021/22 2020/21	£400 £67	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£400 £67
Fran Unsworth ¹⁴	01/04/2019	27/01/2022	2021/22 2020/21	£280 £340	£2 £2	£0 £0	£0 £0	£282 £342
Cyfanswm y cyfarwyddwyr gweithredol			2021/22 2020/21	£1,599 £1,670	£6 £9	£65 £75	£0 £0	£1,670 £1,754
Cyfanswm y Bwrdd			2021/22 2020/21	£2,043 £2,069	£13 £15	£65 £75	£0 £0	£2,121 £2,159

Llywodraethu

Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

- 1 Caiff y ffioedd eu dangos ar sail pro-rata lle gwnaeth yr aelodau adael neu ymuno yn ystod y flwyddyn
- 2 Buddiannau trethadwy lwfans car, yswiriant meddygol preifat/lwfans etifeddol a threuliau trethadwy eraill Mae gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i ddefnyddio car â gyrrwr ond nid oes ganddynt hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd Yn 2021/22, mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol presennol wedi defnyddio car â gyrrwr at ddibenion busnes yn unig
- 3 Mae Richard Sharp yn cael ffi o £160,000 y flwyddyn, a bennir gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, fel Cadeirydd Bwrdd y BBC Mae'r BBC yn rhoi'r swm hwn, a delir ar ôl Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, i elusen ac fe'i gweinyddir drwy gynllun y BBC ar gyfer rhoi drwy'r gyflogres
- 4 Gadawodd David Clementi y Bwrdd a rhoddodd y gorau i'w swydd fel Cadeirydd ar 15 Chwefror 2021 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2021/22
- 5 Ymunodd Damon Buffini, Muriel Gray a Shumeet Banerji â'r Bwrdd ar 1, 3 a 7 Ionawr 2022 yn y drefn honno Felly ni chawsant unrhyw gydnabyddiaeth yn 2020/21
- 6 Ymunodd Robbie Gibb â'r Bwrdd ar 7 Mai 2021 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2020/21
- 7 Gadawodd Tom Ilube y Bwrdd ar 30 Mehefin 2021 Gadawodd Tanni Grey-Thompson y Bwrdd ar 31 Rhagfyr 2021 ar ôl estyniad i'w chyfnod cychwynnol Gadawodd Steve Morrison ar 2 Ionawr 2022 ar ôl estyniad i'w gyfnod cychwynnol
- 8 Cafodd cyfnod gwreiddiol Nicholas Serota ar y Bwrdd ei ymestyn tan 2 Ebrill 2024
- 9 Cafodd cyfnod gwreiddiol Elan Closs Stephens ar y Bwrdd ei ymestyn tan 20 Gorffennaf 2023
- 10 Gadawodd Ashley Steel y Bwrdd ar 1 Rhagfyr 2020 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2021/22
- 11 Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn aelod parhaol o'r Bwrdd Penodwyd Tim Davie fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 1 Medi 2020 Mae ei gyflog ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu cyfran yr amser a dreuliodd fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios ac fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Mae ei gyflog ar gyfer 2021/22 ar sail pro-rata er mwyn adlewyrchu cynnydd ym mis Medi 2021
- 12 Gadawodd Tony Hall y Bwrdd a rhoddodd y gorau i'w swydd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 30 Medi 2020 Gadawodd Ken MacQuarrie y Bwrdd ar 31 Rhagfyr 2020, ac ym mis Medi 2021 cafodd dâl diswyddo cytundebol o £150,000 am ddileu swydd
- 13 Penodwyd Leigh Tazaviva i'r Bwrdd ar 1 Chwefror 2021
- 14 Gadawodd Fran Unsworth y Bwrdd ar 27 Ionawr 2022

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC ar gyfer 2021/22, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gydnabyddiaeth i'r aelodau a ddangosir isod yn ymwneud â'u cyfnod o wasanaeth ar y Pwyllgor Gweithredol yn unig. Er mwyn cael y symiau blynyddol llawn, cyfeiriwch at yr adran ar Ddatgeliadau ar dudalen 100.

Aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC (archwiliedig)

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Dyddiad y'i penodwyd i'r Pwyllgor	Blwyddyn	Cyflog sylfaenol	Buddiannau trethadwy	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn ¹	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Tim Davie ²	01/11/2012	2021/22 2020/21	£494 £429	£2 £1	£26 £41	£0 £0	£522 £471
Charlotte Moore ³	06/07/2016	2021/22 2020/21	£425 £402	£2 £2	£39 £34	£0 £0	£466 £438
Leigh Tavaziva ⁴	01/02/2021	2021/22 2020/21	£400 £67	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£400 £67
Fran Unsworth ⁵	01/01/2018	2021/22 2020/21	£280 £340	£2 £2	£0 £0	£0 £0	£282 £342
Wendy Aslett ⁶	01/11/2019	2021/22 2020/21	£0 £63	£0 £1	£0 £15	£0 £0	£0 £79
Kerris Bright	18/06/2018	2021/22 2020/21	£360 £360	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£360 £360
Rachel Currie ⁶	01/11/2019	2021/22 2020/21	£0 £63	£0 £1	£0 £3	£0 £0	£0 £67
Tom Fussell ⁸	01/09/2020	2021/22 2020/21	£421 £230	£1 £1	£0 £0	£210 £27	£632 £258
Tony Hall ⁹	02/04/2013	2021/22 2020/21	£0 £188	£0 £2	£0 £0	£0 £0	£0 £190
Glyn Isherwood ⁶	09/04/2018	2021/22 2020/21	£0 £294	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £294
Sarah Jones ⁶	01/05/2019	2021/22 2020/21	£0 £116	£0 £1	£0 £0	£0 £0	£0 £117
David Jordan ⁶	01/04/2018	2021/22 2020/21	£0 £76	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £76
Ken MacQuarrie ⁷	22/09/2016	2021/22 2020/21	£0 £244	£0 £2	£0 £0	£0 £0	£0 £246
Jonathan Munro ¹⁰	28/01/2022	2021/22 2020/21	£60 £0	£0 £0	£6 £0	£0 £0	£66 £0
Matthew Postgate ⁶	01/04/2016	2021/22 2020/21	£0 £133	£0 £0	£0 £6	£0 £0	£0 £139
James Purnell ⁶	19/03/2013	2021/22 2020/21	£0 £131	£0 £0	£0 £13	£0 £0	£0 £144
Gautam Rangarajan	01/06/2018	2021/22 2020/21	£210 £199	£0 £0	£44 £41	£0 £0	£254 £240
June Sarpong ¹¹	01/11/2019	2021/22 2020/21	£225 £267	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£225 £267
Bob Shennan ⁶	08/04/2019	2021/22 2020/21	£310 £310	£2 £2	£44 £41	£0 £0	£356 £353
John Shield ⁶	01/04/2018	2021/22 2020/21	£0 £92	£0 £0	£0 £5	£0 £0	£0 £97
Clare Sumner ⁶	01/04/2018	2021/22 2020/21	£0 £74	£0 £0	£0 £6	£0 £0	£0 £80
Rhodri Talfan Davies ⁴	01/01/2021	2021/22 2020/21	£263 £65	£0 £0	£44 £3	£0 £0	£307 £68
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol		2021/22 2020/21	£3,448 £4,143	£9 £15	£203 £208	£210 £27	£3,870 £4,393

Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

- Gwneir cyfraniadau pensiwn cyflogaion fel arfer drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a aberthir er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn i'r trefniant aberthu cyflog gael ei gyflwyno. Yn gyffredinol, cyfrifir y ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn fel 20 gwaith y cynnydd yn y pensiwn cronodig dros y flwyddyn yn glir o chwyddiant, llai cyfraniadau buddiannau diffiniedig y cyfarwyddwyr, ynghyd â chyfraniadau diffiniedig y cyflogwr. Dangosir hyn yn fanwl hefyd yn y tabl hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig.
- Mae cyflog Tim Davie ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu cyfran yr amser a dreuliodd fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios ac fel Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae ei gyflog ar gyfer 2021/22 ar sail pro-rata er mwyn adlewyrchu cynnydd ym mis Medi 2021.
- Derbyniodd Charlotte Moore godiad cyflog pan gafodd ei dyrchafu'n Brif Swyddog Cynnwys a'i phenodi i'r Bwrdd ym mis Medi 2020.
- Ymunodd Leigh Tavaziva â'r BBC ac fe'i penodwyd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Chwefror 2021. Penodwyd Rhodri Talfan Davies i'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Chwefror 2021.
- Gadawodd Fran Unsworth y Pwyllgor Gweithredol ar 27 Ionawr 2022.
- Gadawodd Wendy Aslett, Rachel Currie, Sarah Jones, David Jordan, Matthew Postgate, James Purnell, John Shield a Clare Sumner y Pwyllgor Gweithredol ar 1 Medi 2020. Gadawodd Glyn Isherwood a Bob Shennan ar 31 Ionawr 2021 a 31 Mawrth 2022, yn y drefn honno.
- Gadawodd Ken MacQuarrie y Bwrdd ar 31 Rhagfyr 2020, ac ym mis Medi 2021 cafodd dâl diswyddo cytundebol o £150,000 yn deillio o ddileu swydd.
- Penodwyd Tom Fussell yn Brif Swyddog Gweithredol interim BBC Studios ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Medi 2020. Cadarnhawyd ei rôl barhaol ym mis Hydref 2021. Caiff ei rôl ei hariannu'n gyfan gwbl gan refferen masnachol y BBC ac nid yw ffrî drwydded yn talu amdani nac yn ei chymorthdalu. Telir unrhyw fonws yn amodol ar gyflawni targedau perfformiad.
- Rhododd Tony Hall y gorau i'w rôl fel Cyfarwyddwr Cyffredinol a gadawodd y Pwyllgor Gweithredol ar 30 Medi 2020.
- Penodwyd Jonathan Munro yn Gyfarwyddwr dros dro BBC News and Current Affairs ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 28 Ionawr 2022 ac felly dim ond y cyfnod hwnnw y mae'r cyflog a ddangosir yma yn ymdrin ag ef. Ceir manylion am gyflog llawn yn yr adroddiad Datgeliadau ar dudalen 100.
- Mae June Sarpong wedi'i phenodi ar sail gweithiwr llawrydd TWE tan 31 Hydref 2022 ac mae angen cyfnod rhybudd o 1 mis gan y naill barti neu'r llall. Nid oes unrhyw ddarpariaethau pellach ar gyfer cydnabyddiaeth ychwanegol os caiff y contract ei derfynu'n gynnar. Mae'r enillion a gofnodwyd yn cynnwys £6,000 a ariannwyd ac a dalwyd gan BBC Studios.

Cyfanswm cydnabyddiaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol (archwiliedig)

Bu gostyngiad yng nghyfanswm y gydnabyddiaeth flynyddol gyffredinol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn 2021/22, yn bennaf o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn 2020/21 i 10 aelod (18 gynt yn 2019/20).

Cyfanswm y gydnabyddiaeth (gwerthoedd mewn £000oedd)	2021/22	2020/21
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol (gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol y Bwrdd)	£3,870	£4,393
Cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd	£451	£405
Cyfanswm y gydnabyddiaeth flynyddol	£4,321	£4,798

Hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Oedran ar 31 Mawrth 2022	Adran	Pensiwn cronodig 31 Mawrth 2022 (neu ar adeg ymddeol/gadael y bwrdd os yw hynny'n gynt)	Pensiwn cronodig 1 Ebrill 2021 (neu ar adeg ymuno â'r Bwrdd os ar ôl hynny)	Cyfraniadau buddiannau diffiniedig cyfarwyddwyr (drwy drefniant aberthu cyflog) 2021/22	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn
Tim Davie	54	CAB 2011	25	24	6	26
Charlotte Moore	53	Buddiannau newydd	39	37	12	39
Gautam Rangarajan	50	CAB 2011	25	23	10	44
Bob Shennan	60	CAB 2011	27	24	10	44
Rhodri Talfan Davies	51	CAB 2011	26	24	10	44

Nodiadau
 Roedd Tim Davie yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 tan 31 Hydref 2021 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran Buddiannau Newydd ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronodig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.
 Ymunodd Charlotte Moore â'r BBC ar 1 Mai 2006. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei phenodi'n gyfarwyddwr gweithredol.
 Mae Gautam Rangarajan yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran Hen Fuddiannau ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronodig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.
 Ymunodd Bob Shennan â'r BBC ym mis Chwefror 2009 ac fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr gweithredol ar 8 Ebrill 2019. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei benodi'n gyfarwyddwr gweithredol. Mae'n aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Rhagfyr 2011 a throsglwyddodd allan ei fuddiannau blaenorol. Mae'r pensiwn cronodig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.
 Mae Rhodri Talfan Davies yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran Buddiannau Newydd ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronodig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

Cyflog cymharol drwy'r BBC cyfan

Cytunodd y Pwyllgor, o 2020/21, y byddai cymhareb cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol i gyflog chwarter isaf, canolig ac uchaf cyflogaion y BBC yn cael ei datgelu'n wirfoddol bob blwyddyn. Mae hyn yn disodli'r datgeliad gwirfoddol blaenorol gan ddefnyddio lluosrif Hutton ac yn sicrhau bod datgeliad y BBC yn unol â chwmnïau rhestredig sy'n cyhoeddi cymhareb cyflog eu Prif Swyddog Gweithredol o gymharu â chyflogaion y DU o dan Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig eu Maint (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ('Rheoliadau').

Cymhareb y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Blwyddyn ariannol	Dull a ddefnyddiwyd	25ain canradd ganolrif	Cymhareb cyflog ganolrif	75ain canradd ganolrif
2021/22	Opsïwn A	12.8	9.7	7.3

O dan y Rheoliadau, mae'n ofynnol i gwmnïau nodi cyflog a buddiannau cyflogai ar 25ain, 50fed a 75ain canradd holl gyflogaion Darlledu Cyhoeddus y DU ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol a chymharu hynny â chyfanswm cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae'r cwmni wedi dewis Opsïwn A i nodi'r cyflogaion ar y 25ain, yr 50fed a'r 75ain canradd a'u priod gyflogau a buddiannau, gan y cydnabyddir mai hwn yw'r dull mwyaf cywir. Mae pob un o gyflogaion UK Public Service Broadcasting ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiadau, a chaiff y cyflogaion eu sgorio yn seiliedig ar eu cydnabyddiaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Mae'r tabl isod yn nodi cyfanswm gwerth y cyflogau a buddiannau a dderbyniwyd gan gyflogeion a nodwyd yn y 25ain, yr 50fed a'r 75ain canradd yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

2021/22	25ain canradd	50fed canradd	75ain canradd
Cyfanswm y Cyflogau a'r Buddiannau	£40,924	£54,373	£71,854

Mae'r tybiaethau data a gynhwyswyd yn ein hadroddiadau fel a ganlyn:

Elfen	Disgrifiad
Cyflog sylfaenol	Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogau cyfwerth ag amser llawn gael eu defnyddio i nodi'r 25ain, yr 50fed a'r 75ain canradd er mwyn gallu cymharu ar draws y sefydliad. Yn y BBC, mae mwy na 2,200 o gyflogeion neu oddeutu 12% yn gweithio'n rhan amser, felly rydym wedi defnyddio'r cyfwerth ag amser llawn, ar ddiwedd y flwyddyn, fel y ffigur cyflogau i sgorio ein cyflogeion. Mae symiau cyflog sylfaenol hefyd yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn lwfansau a lwfansau dros dro ar gyfer ymlyniadau o fewn adrannau/rolau eraill yn y sefydliad.
Lwfansau a buddiannau	Mae hyn yn cynnwys ystod o lwfansau lleoliad, ar sail rôl a buddiannau cyflogeion a gynhwyswyd ar sail pro rata ar gyfer cydweithwyr rhan amser.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i enillion arian parod y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2021/22 o gymharu â'r newid yn enillion canolrifol y BBC cyfan dros yr un cyfnod. Roedd cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod ar £450,000 ers 2012 ac fe'i cynyddwyd i £525,000 pan gafodd Tim Davie ei benodi ym mis Medi 2020. Fodd bynnag, gan fod cyflog pob un o uwch-reolwyr y BBC wedi'i rewi yn 2020, ni chafodd y cynnydd hwn ei weithredu tan fis Medi 2021.

	2021/22 (gwerthoedd mewn £000oedd)	Newid ers 2020/21
Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol	525	17%
Enillion canolrifol drwy'r BBC cyfan	46.4	1%

Taliadau diswyddo

Ni thalwyd unrhyw daliadau diswyddo i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

Buddiannau allanol

Drwy gytundeb ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gall aelodau Gweithredol y BBC ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol â chydabyddiaeth. Dylai prif ddiben swydd cyfarwyddwr allanol ymwneud â chefnogi datblygiad personol a datblygiad gyrfa a thrwy hynny gyfrannu at y BBC.

Gall yr unigolyn gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr allanol, ond rhaid cymeradwyo hynny'n ffurfiol. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â nhw y tu allan i'r BBC. Ni chaniateir mwy nag un neu ddau ddiwrnod y mis i gyflawni'r holl ddyletswyddau allanol.

Busnesau masnachol y BBC

Yn ystod 2021/22, roedd gan y BBC staff a gyflogwyd gan bedwar prif is-gwmni masnachol:

- BBC Studios
- BBC Studioworks
- BBC Global News (a drosglwyddodd i BBC Studios ym mis Gorffennaf 2021)
- UKTV Media Ltd

Mae cydnabyddiaeth yn yr is-gwmnïau masnachol yn ddarostyngedig i brosesau llywodraethu a chymeradwyo'r BBC. Mae polisi cydnabyddiaeth yr is-gwmnïau yn cynnwys darparu bonws blynyddol cytundebol sydd ar gael i staff cymwys, gan gynnwys cyfarwyddwyr, ac mae'n amrywio rhwng endidau masnachol. Caiff cost lawn cyflog sylfaenol a'r bonws blynyddol eu hunanariannu gan refeniw masnachol pob is-gwmni ac ni chânt eu cymorthdalw drwy ffi'r drwydded.

Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwyllo'r ffordd y mae Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios wedi'i lunio a'i alldro. Roedd cynllun 2021/22 yn gymharol debyg i flynyddoedd blaenorol gyda dau fesur ariannol allweddol (EBITDA a llif arian parod rhydd) ac amcanion anariannol/personol.

Canlyniadau 2021/22

Ar gyfer 2021/22, rhagorodd y ddau fesur ariannol ar y targedau a bennwyd ar gyfer perfformiad eithriadol, ac o ganlyniad gwnaed y taliad uchaf ar gyfer yr elfen hon o'r bonws. Adolygodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth berfformiad Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios yn erbyn ei amcanion personol, a phenderfynwyd ei fod wedi perfformio ar y lefel uchaf. O ganlyniad i'r cyfuniad o ganlyniadau ariannol a pherfformiad personol, gwnaed taliad bonws o 50% (£210,000) i Brif Swyddog Gweithredol BBC Studios mewn perthynas â pherfformiad yn ystod y flwyddyn.

Llywodraethu Datgeliadau cyflogau

Adroddiad gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y BBC ar y bobl a gafodd eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn ystod 2021/22 am wasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

Ar y tudalennau canlynol, rhown fanylion yr unigolion hynny a gafodd fwy na £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn. O dan y Siarter, mae'n ofynnol i ni ond cyhoeddi'r symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn i'r unigolion hyn, wedi'u nodi mewn bandiau. Rydym yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad hwnnw drwy gyhoeddi mwy o fanylion am y gwaith a wnaed gan unigolion ar yr awyr am y gydnabyddiaeth a gawsant.

Mae'r amgylchedd ar yr awyr yn dechrau sefydlogi unwaith eto ar ôl i gynyrchiadau gael eu hoedi a digwyddiadau byw, yn enwedig chwaraeon, gael eu canslo o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau o ran talent ar yr awyr yn ystod y flwyddyn wedi gwella unwaith eto i 55:45 a disgwylir y bydd pethau'n gwella eto yn ystod y flwyddyn nesaf wrth i ni geisio sicrhau cydbwysedd 50:50 rhwng y rhywiau.

Mae'n werth nodi hefyd ein bod yn dal i weithredu mewn marchnadoedd talent cystadleuol tu hwnt, ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, gyda lefelau chwyddiant cyflogau yn aml ymhell uwchlaw'r lefel gyfartalog ar gyfer economi'r DU. Mae'r pwysau hyn, ynghyd â'r pwynt mynediad sefydlog o £150,000 ar y rhestrau, yn awgrymu y bydd mwy o unigolion yn ymddangos yn y rhestrau hyn dros amser. Serch hynny, rydym yn parhau i fonitro cyfanswm cost yr unigolion hynny sy'n ennill mwy na £150,000 ac sy'n gweithio mewn rolau ar yr awyr.

Tablau cyflog talent ar yr awyr

Dangosir yr unigolion ar y rhestr hon fesul categori: Newyddion, Radio, Chwaraeon, a chyflwynwyr sy'n gweithio'n rheolaidd ar draws sawl rhan o'r BBC gan gynnwys Teledu. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys taliadau o refeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 am wasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano, symiau a dalwyd na buddsoddiadau mewn rhaglenni a wnaed gan ein hendidau masnachol – er enghraifft BBC Studios. Hefyd, nid ydynt yn cynnwys taliadau a wnaed gan gynhyrchwyr annibynnol, breindaliadau, ffioedd ailddarlledu, symiau adenilladwy cytundebol a symiau adenilladwy eraill, na threuliau. Nodir ymrwymadau rhaglenni ar sail ymrwymadau cytundebol neu batrymau gwaith eraill, ac maent wedi'u datgan i'r 10 agosaf yn gyffredinol. Mae'r rhain wedi'u datgelu'n gyson ar gyfer pob prif raglen neu genre. Ni chaiff penodau unigol eu cynnwys, oni fydd hyn yn cyfrif am ran sylweddol o waith unigolyn.

Talent ar yr awyr

Prif raglen	Enw	Ymrwymiadau rhaglen	Cyflog
Newyddion a Materion Cyfoes			
<i>Today</i>	Mishal Husain	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Tua 20 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£275,000-£279,999
	Nick Robinson	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Tua 25 o benodau o <i>Political Thinking</i>	£270,000-£274,999
	Justin Webb	Tua 135 o raglenni	£255,000-£259,999
	Martha Kearney	Tua 140 o raglenni	£255,000-£259,999
<i>World at One</i>	Sarah Montague	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£245,000-£249,999
<i>PM</i>	Evan Davis	Tua 200 o raglenni <i>The Bottom Line</i> ar Radio 4	£270,000-£274,999
<i>BBC News at Six a BBC News at Ten</i>	Huw Edwards	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One a sianel BBC News Rhaglenni Newyddion Arbennig	£410,000-£414,999
	George Alagiah	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£325,000-£329,999
	Sophie Raworth	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One Rhaglen boreau Sul (o fis Ionawr 2022)	£305,000-£309,999
<i>Question Time</i>	Fiona Bruce	Tua 40 o benodau o <i>Question Time</i> Tua 50 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£410,000-£414,999
<i>The Andrew Marr Show</i>	Andrew Marr	Tua 30 o raglenni Tua 15 o benodau o <i>Start the Week</i> (hyd at fis Ionawr 2022)	£265,000-£269,999
<i>Newsnight</i>	Emily Maitlis	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer <i>Newsnight</i>	£325,000-£329,999
	Kirsty Wark	Tua 90 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer <i>Newsnight</i> Cyflenwi ar gyfer <i>Start the Week</i> a rhaglenni Etholiadol	£245,000-£249,999
<i>Sianel BBC News</i>	Clive Myrie	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad a gwaith ffilmio <i>Panorama</i>	£255,000-£259,999
	Reeta Chakrabarti	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad	£200,000-£204,999
	Victoria Derbyshire	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad <i>Panorama</i> Cyflenwi ar gyfer Jeremy Vine ar Radio 2	£240,000-£244,999
	Ben Brown	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad	£170,000-£174,999
	Joanna Gosling	Sianel BBC News a BBC One	£155,000-£159,999
<i>BBC Breakfast</i>	Naga Munchetty	Tua 180 o raglenni Tua 140 o raglenni Naga Munchetty ar 5 live <i>Panorama</i>	£365,000-£369,999
	Dan Walker	Tua 180 o raglenni Cyflwyno ar BBC Sport	£220,000-£224,999
	Charlie Stayt	Tua 180 o raglenni	£190,000-£194,999
<i>Golygyddion a gohebwyr ar yr awyr</i>	Laura Kuenssberg	Golygydd Gwleidyddol	£260,000-£264,999
	Amol Rajan	Golygydd y Cyfryngau Cyfres Amol Rajan Interviews Rhaglenni dogfen teledu'r BBC Tua 40 o benodau o <i>Today</i> ar Radio 4 Radio 4 <i>Rethink</i>	£325,000-£329,999
	Faisal Islam	Golygydd Economaidd Tua 30 o benodau o <i>Newsnight</i>	£240,000-£244,999
	Jeremy Bowen	Golygydd y Dwyrain Canol	£230,000-£234,999
	Jon Sopel	Golygydd Gogledd America	£225,000-£229,999
	Katya Adler	Golygydd Ewrop	£215,000-£219,999
	Fergal Keane	Gohebydd Arbennig	£210,000-£214,999
	Simon Jack	Golygydd Busnes a chyflenwi ar gyfer <i>Today</i> ar Radio 4	£205,000-£209,999

Llywodraethu Datgeliadau cyflogau – parhad

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
	Sarah Smith	Golygydd yr Alban Tua 30 o benodau o <i>Today</i> ar Radio 4 Golygydd Gogledd America (o fis Chwefror 2022)	£190,000-£194,999
	Mark Easton	Golygydd Cartref	£190,000-£194,999
	Orla Guerin	Gohebydd Rhyngwladol	£160,000-£164,999
	Lyse Doucet	Prif Ohebydd Rhyngwladol	£150,000-£154,999*
<i>Westminster Hour</i>	Carolyn Quinn	Prif gyflwynydd ar <i>Westminster Hour</i> a chyflenwi ar gyfer <i>PM</i>	£150,000-£154,999
<i>HARDtalk</i>	Stephen Sackur	Cyfweiliadau <i>HARDtalk</i> a chyflwyno ar BBC World News	£175,000-£179,999
Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
Radio			
BBC Radio 1	Scott Mills	Tua 230 o benodau o <i>The Scott Mills Show</i> Tua 45 o benodau o <i>The Scott Mills and Chris Stark Show</i> ar Radio 5 live Cyflenwi ar Radio 1 a Radio 2 Pop 101 ar Radio 1	£400,000-£404,999
	Greg James	Tua 220 o benodau o <i>Breakfast Show</i> ar Radio 1 <i>Rewinder</i> ar Radio 4 <i>Radio 1's Big Weekend</i> <i>Out Out! Live Radio 1</i> <i>BBC Sports Personality of the Year</i>	£390,000-£394,999
	Clara Amfo	Tua 180 o benodau o <i>Mid Morning Show</i> ar Radio 1	£155,000-£159,999
BBC Radio 2	Zoe Ball	Tua 210 o benodau o <i>The Zoe Ball Breakfast Show</i>	£980,000-£984,999
	Steve Wright	Tua 220 o benodau o <i>Steve Wright in the Afternoon</i> Tua 50 o benodau o <i>Sunday Love Songs</i>	£450,000-£454,999
	Ken Bruce	<i>Mid Morning Show</i> ar Radio 2 <i>Eurovision a PopMaster Special</i> ar Radio 2	£385,000-£389,999
	Jeremy Vine	Rhaglen ddyddiol ar Radio 2	£290,000-£294,999
	Jo Whiley	Tua 150 o benodau o <i>Evening Show</i> ar Radio 2 Cyflenwi ar Radio 2	£265,000-£269,999
	Sara Cox	Tua 230 o benodau o <i>Drivetime Show</i> ar Radio 2	£275,000-£279,999
	Claudia Winkleman	Rhaglen wythnosol ar Radio 2	£155,000-£159,999
	Trevor Nelson	Tua 180 o benodau o <i>Rhythm Nation</i> Tua 50 o raglenni ar y Penwythnos ar Radio 1Xtra	£210,000-£214,999
BBC Radio 4	Emma Barnett	Tua 180 o benodau o <i>Woman's Hour</i> Tua 20 o benodau o <i>Newsnight</i>	£215,000-£219,999
BBC Radio 5 live	Nicky Campbell	Tua 110 o benodau o <i>Breakfast Show</i> ar 5 live Tua 110 o benodau o <i>Your Call</i> Tua 90 o benodau o <i>The Nicky Campbell Show</i> ar 5 live	£295,000-£299,999
	Rachel Burden	Tua 200 o benodau o <i>Breakfast Show</i> ar 5 live Tua 15 o benodau o <i>BBC Breakfast</i> Cyflenwi ar gyfer <i>Your Call</i>	£180,000-£184,999
	Colin Murray	Tua 150 o benodau o <i>The Colin Murray Show</i> ar 5 live Tua 40 o benodau o <i>Fighting Talk</i> ar 5 live	£160,000-£164,999
	Nihal Arthanayake	Tua 180 o benodau o <i>Early Afternoon Show</i> ar 5 live Gemau Olympaidd yr Haf	£150,000-£154,999
	Tony Livesey	Tua 230 o raglenni <i>Drive</i> ar 5 live	£150,000-£154,999
BBC 6 Music	Lauren Laverne	Tua 205 o benodau o <i>Breakfast Show</i> ar 6 Music Tua 40 o benodau o <i>6 Music Recommends</i> Tua 40 o benodau o <i>Desert Island Discs</i> ar Radio 4	£380,000-£384,999
	Steve Lamacq	Tua 230 o benodau o <i>Early Afternoon Show</i> ar 6 Music Tua 50 o benodau o <i>6 Music Recommends</i>	£150,000-£154,999
BBC Asian Network	Harpreet Bhullar	Tua 190 o benodau o <i>Breakfast Show</i> ar Asian Network Tua 40 o benodau o <i>Saturday Mash-Up!</i> ar CBBC	£160,000-£164,999

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
Gorsafoedd gwahanol	Vanessa Feltz	Tua 190 o benodau o <i>Early Breakfast Show</i> ar Radio 2 Tua 220 o benodau o <i>Breakfast Show</i> ar Radio London Cyflenwi ar Radio 2	£400,000-£404,999
	Stephen Nolan	<i>The Nolan Show</i> ar Radio Ulster <i>Nolan Live</i> ar BBC 1 (NI) <i>Stephen Nolan Show</i> ar 5 live <i>Nolan Investigates Stonewall</i>	£415,000-£419,999
Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
Chwaraeon			
Pêl-droed dynion	Gary Lineker	<i>Match of the Day: Uwch-gynghrair Lloegr, Cwpan yr FA a Phencampwriaeth Pêl-droed Ewrop</i> <i>Sports Personality of the Year</i>	£1,350,000-£1,354,999
	Alan Shearer	<i>Match of the Day: Uwch-gynghrair Lloegr, Cwpan yr FA a Phencampwriaeth Pêl-droed Ewrop</i>	£450,000-£454,999
	Jermaine Jenas	<i>Match of the Day: Uwch-gynghrair Lloegr, Cwpan yr FA a Phencampwriaeth Pêl-droed Ewrop</i> <i>MOTDx</i>	£220,000-£224,999
	Micah Richards	<i>Match of the Day: Uwch-gynghrair Lloegr, Cwpan yr FA a Phencampwriaeth Pêl-droed Ewrop</i> 5 live Sport	£200,000-£204,999
	Chris Sutton	5 live Sport, <i>Monday Night Club</i> , a phodlediad 606 Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop	£155,000-£159,999
Pêl-droed Dynion a Merched	Alex Scott	<i>Football Focus</i> , Uwch-gynghrair y Merched, Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop, y Gemau Olympaidd, <i>Sports Personality of the Year</i>	£195,000-£199,999
Criced	Michael Vaughan	Criced Teledu a Radio (Prawf, un diwrnod ac ugain pelawd) Podlediad <i>Tuffers and Vaughan</i>	£225,000-£229,999
	Jonathan Agnew	Cyfresi prawf rhyngwladol, un diwrnod ac ugain pelawd Gohebydd Criced y BBC	£175,000-£179,999
	Isa Guha	Criced Teledu a Radio (Prawf, un diwrnod ac ugain pelawd, The Hundred)	£155,000-£159,999
Tenis	Sue Barker	<i>Wimbledon, Queens</i> , Pencampwriaeth Agored Awstralia	£185,000-£189,999
	John McEnroe	<i>Wimbledon</i>	£180,000-£184,999
Gwahanol gampau	Mark Chapman	Tua 105 o benodau o 5 live sport Uchafbwyntiau wythnosol o Uwch-gynghrair Lloegr Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop Rygbîr Gynghrair	£250,000-£254,999
	Clare Balding	<i>Boat Race</i> Beicio <i>Eastbourne a Wimbledon</i> Gemau Olympaidd yr Haf a Gemau Olympaidd y Gaeaf <i>Sports Personality of the Year</i>	£205,000-£209,999
	Gabby Logan	Athletau Pêl-droed a Phencampwriaeth Pêl-droed Ewrop Y Chwe Gwlad Y Gemau Olympaidd <i>Sports Personality of the Year</i>	£200,000-£204,999

* Ar 1 Gorffennaf 2021 cafodd BBC Global News Ltd ei drosglwyddo i BBC Studios Group. Ar yr un pryd, cafodd gweithrediadau golygyddol sianel BBC World News eu trosglwyddo i BBC Public Service. Mae'r datgeliad uchod yn cynnwys taliadau a wnaed ers y dyddiad hwnnw, h.y. ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 31 Mawrth 2022.

Llywodraethu

Datgeliadau cyflogau – parhad

Genres gwahanol a theledu

Mae nifer bach o unigolion sydd â chydberthnasau aml-flwyddyn â chomisïynu'r BBC eisoes. Nid yw taliadau gan BBC Studios wedi eu cynnwys yn y datgeliad, ac efallai y cânt daliadau gan gynhyrchwyr annibynnol hefyd. Yn yr adran hon, rydym hefyd yn cynnwys cyflwynwyr sy'n treulio bron 50% o'u hamser mewn mwy nag un maes o blith Teledu, Radio, Newyddion a Chwaraeon.

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
Radio a Chwaraeon	Jason Mohammad	BBC Radio Wales (Llun-Mercher)/ <i>MOTD Wales Final Score</i> Snwcer y DU/y Meistri 2021/22 BBC Radio 2 (<i>Good Morning Sunday</i>)	£285,000-£289,999
Teledu	Mary Berry	Ffi gan y BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£215,000-£219,999
Teledu	Louis Theroux	Ffi gan y BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£200,000-£204,999

Uwch-swyddogion gweithredol

Rydym eisoes yn cyhoeddi cyflog a threuliau pob uwch-arweinydd sy'n ennill dros £150,000 yng ngwasanaethau cyhoeddus y BBC ar ein gwefan. O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n rhestru holl uwch-swyddogion gweithredol y BBC y talwyd mwy na £150,000 iddynt o reffeniw ffi'r drwydded am wasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol, a nodir mewn bandiau cyflog. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano na symiau a dalwyd o'n hendidau masnachol.

Cyflog	Enw	Rôl
Cyfarwyddwr Cyffredinol		
£490,000-£494,999	Tim Davie	Cyfarwyddwr Cyffredinol
Pwyllgor Gweithredol		
£425,000-£429,999	Charlotte Moore	Prif Swyddog Cynnwys
£400,000-£404,999	Leigh Tavaziva	Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp
£360,000-£364,999	Kerris Bright	Prif Swyddog Cwsmeriaid
£310,000-£314,999	Bob Shennan	Rheolwr Gyfarwyddwr y Grŵp*
£260,000-£264,999	Rhodri Talfan Davies	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£230,000-£234,999	Jonathan Munro	Cyfarwyddwr Dros Dro Newyddion a Materion Cyfoes
£215,000-£219,999	June Sarpong	Cyfarwyddwr Amrywiaeth Greadigol
£210,000-£214,999	Gautam Rangarajan	Cyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad y Grŵp
Swyddogaethau Corfforaethol		
£340,000-£344,999	Glyn Isherwood	Prif Swyddog Ariannol
£310,000-£314,999	Sarah Jones	Cwnsler Cyfreithiol y Grŵp
£220,000-£224,999	John Shield	Cyfarwyddwr Cyfathrebu
	Peter Ranyard	Cyfarwyddwr Cyfreithiol Corfforaethol
£215,000-£219,999	Balram Veliath	Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd
£210,000-£214,999	Shirley Cameron	Rheolydd Ariannol y Grŵp
	Andy Baker	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Technoleg
£205,000-£209,999	Robin Pembroke	Cyfarwyddwr Cynhyrchu Cynnwys, Cynhyrchion a Systemau
	Stuart Page	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau Corfforaethol a Masnachol
	Jatin Aythora	Cyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu
£190,000-£194,999	Kieran Clifton	Cyfarwyddwr Dosbarthu a Datblygu Busnes
	Ellie Runcie	Prif Swyddog Dylunio
£185,000-£189,999	David Curley	Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol y Grŵp
	Clare Sumner	Cyfarwyddwr Polisi
	Richard Cooper	Rheolydd Dosbarthu Digidol
£180,000-£184,999	David Jordan	Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol
	Sophie Garnham	Cyfarwyddwr Hawliau Masnachol a Materion Busnes
	Phil Harrold	Ysgrifennydd y Cwmni a'r Pennaeth Staff
	Sarah Gregory	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol

* Rhoddodd Bob Shennan y gorau i'w rôl ar y Pwyllgor Gweithredol ar ddiwedd mis Mawrth 2022 a chafwyd gwared ar rôl y Rheolwr Gyfarwyddwr

Cyflog	Enw	Rôl
£175,000-£179,999	Sarah Burns	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
	Rhona Burns	Cyfarwyddwr Cyllid Is-adrannol
	Alan Bainbridge	Cyfarwyddwr y Gweithle
	Storm Fagan	Prif Swyddog Cynnyrch
£170,000-£174,999	Chris Rowsell	Rheolydd Rheoleiddio
	Andrew Kaczor	Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau
	Simon Morrissey	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Sarb Nijjer	Cyfarwyddwr Cyllid Is-adrannol
£165,000-£169,999	Natasha Wojciechowski	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
	Isabel Begg	Cyfarwyddwr Hawliau Masnachol a Materion Busnes
	Claudia Giles	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Jo Korn	Cyfarwyddwr Hawliau Masnachol a Materion Busnes
£160,000-£164,999	David Attfield	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Nick Wilcox	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	David Andrade	Cyfarwyddwr Peirianeg Cynnyrch
£155,000-£159,999	Deborah Copeland	Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Rhyngwladol
	Zoe Baker	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
	Ben Thornton	Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth
	Claire Hetherington	Pennaeth Cynnyrch
	Noreen Adams	Cyfarwyddwr Archifau a Thechnoleg
£150,000-£154,999	Simon Adair	Cyfarwyddwr Diogelwch a Chydnerthedd
	Jim Hemmington	Cyfarwyddwr Caffael
	Stephen Wheatcroft	Uwch-bennaeth Cyllid
	Wendy Aslett	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Grŵp
	Rachel Currie	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Grŵp
	Mike Griffiths	Cyfarwyddwr Hawliau Masnachol a Materion Busnes
	Matthew Percy	Pennaeth Pensaernïaeth
Marchnata a Chynulleidfaoedd		
£185,000-£189,999	Paul Davies	Cyfarwyddwr Marchnata a Chynulleidfaoedd
£175,000-£179,999	Justin Bairamian	Cyfarwyddwr BBC Creative
	Nick North	Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd
£155,000-£159,999	Holly Goodier	Cyfarwyddwr Marchnata a Chynulleidfaoedd
£150,000-£154,999	Nicki Brown	Cyfarwyddwr Marchnata a Chynulleidfaoedd
Y Gwledydd		
£195,000-£199,999	Peter Johnston	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£165,000-£169,999	Helen Thomas	Cyfarwyddwr y Gwledydd
	Steve Carson	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£155,000-£159,999	Chris Burns	Uwch-bennaeth Comisiynu Radio Lleol
Cynnwys		
£285,000-£289,999	Piers Wenger	Cyfarwyddwr Comisiynu Drama
£240,000-£244,999	Patrick Holland	Cyfarwyddwr Comisiynu Ffeithiol, y Celfyddydau a Cherddoriaeth Glasurol
£235,000-£239,999	Kate Phillips	Cyfarwyddwr Comisiynu Adloniant
£230,000-£234,999	Dan McGolpin	Cyfarwyddwr iPlayer a'r Sianelau
£225,000-£229,999	Barbara Slater	Cyfarwyddwr Chwaraeon
	Fiona Campbell	Rheolydd Sianel

Llywodraethu Datgeliadau cyflogau – parhad

Cyflog	Enw	Rôl
	Patricia Hidalgo	Cyfarwyddwr Plant ac Addysg
£220,000-£224,999	Rose Garnett	Cyfarwyddwr Comisiynu BBC Film
£215,000-£219,999	Graham Ellis	Rheolydd Cynhyrchu Radio
£205,000-£209,999	Lucy Richer	Uwch-olygydd Comisiynu (Drama)
£185,000-£189,999	Jonathan Wall	Rheolydd Radio
	Mohit Bakaya	Rheolydd Radio
£180,000-£184,999	Clare Sillery	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
	Alan Davey	Rheolydd Radio
	Lorna Clarke	Rheolydd Radio
	Helen Bullough	Pennaeth Cynhyrchu Plant
£175,000-£179,999	Philip Bernie	Pennaeth Chwaraeon
	Ben Irving	Golygydd Comisiynu Drama
	Manda Levin	Uwch-olygydd Comisiynu Drama
	Lindsay Currie	Pennaeth Amserlennu Portffolio
	David Pembrey	Prif Swyddog Gweithredu
	Heidi Dawson	Rheolydd Radio
£160,000-£164,999	Carla-Maria Lawson	Golygydd Sianel
	Mona Qureshi	Golygydd Comisiynu Drama
£155,000-£159,999	Tommy Bulfin	Golygydd Comisiynu Drama
	Jo McClellan	Golygydd Comisiynu Drama
	Catherine Catton	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
	Jo Wallace	Uwch-olygydd Comisiynu Adloniant
£150,000-£154,999	Ben Gallop	Pennaeth Chwaraeon, Digidol a Radio
	Gaynor Holmes	Golygydd Comisiynu Drama
	Simon Young	Golygydd Comisiynu Ffeithiol
Newyddion a Materion Cyfoes		
£205,000-£209,999	Jamie Angus	Uwch-reolydd Newyddion
£200,000-£204,999	Alan Dickson	Prif Swyddog Ariannol a Gweithredu
£180,000-£184,999	Naja Nielsen	Uwch-reolydd Newyddion
£175,000-£179,999	Joanna Carr	Rheolydd Newyddion
£160,000-£164,999	Jon Zilkha	Rheolydd Newyddion
£155,000-£159,999	James Gray	Pennaeth Newyddiaduraeth
	Tarik Kafala	Rheolydd Newyddion
	Sam Taylor	Uwch-reolydd Newyddion
Cyn-aelodau o staff		
£340,000-£344,999	Francesca Unsworth	Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes
£155,000-£159,999	Ian Haythornthwaite	Prif Swyddog Ariannol a Gweithredu

Mae Richard Sharp yn derbyn ffi fel Cadeirydd Bwrdd y BBC, a gaiff ei rhoi i elusen gan y BBC Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalennau 87 i 95

Barn y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol am ddatgeliadau cyflogau Adroddiad Sicrwydd Annibynnol i Fwrdd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, gan gydnabod bod y Senedd hefyd yn dibynnu ar Gyfrifon ac Adroddiad y Grŵp

Rwyf wedi cynnal gweithdrefnau sicrwydd annibynnol ar y datgeliadau a gynhwyswyd yn Adroddiad Blynyddol y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) sy'n deillio o'r gofyniad o dan y Siarter Frenhinol er parhad y BBC (y Siarter Frenhinol) i gyhoeddi enwau holl uwch staff gweithredol y BBC y talwyd dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded iddynt yn y flwyddyn ariannol honno; ac enwau pob aelod staff arall y BBC y talwyd mwy na £150,000 o refeniw ffi'r drwydded iddynt yn y flwyddyn ariannol honno wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2022. Mae'r datgeliadau hyn yn cynnwys y Datgeliadau Tâl fel y'u nodir ar dudalennau 97 i 103 Adroddiad Blynyddol y BBC (y pwnc dan sylw) (y "Datgeliadau Tâl").

Cynhelir fy ngwaith yn unol ag Ymrwymadau Sicrwydd Heblaw am Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol y Safonau Rhyngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000.

Priod gyfrifoldebau Bwrdd y BBC a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Ar gyfer y flwyddyn adrodd a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, Bwrdd y BBC oedd yn gyfrifol am gyhoeddi gwybodaeth ofynnol gan y Siarter Frenhinol fel a ganlyn:

- enwau holl uwch staff gweithredol y BBC y talwyd mwy na £150,000 o refeniw ffi'r drwydded iddynt yn y flwyddyn ariannol honno; ac
- enwau pob aelod staff arall y BBC y talwyd mwy na £150,000 o refeniw ffi'r drwydded iddynt yn y flwyddyn ariannol honno wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2022.

Rwy'n gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r pwnc dan sylw, ym mhob ffordd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'i baratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddo.

Wrth wneud y gwaith hwn, mae fy staff a minnau wedi cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2019. Rwy'n annibynnol ar y BBC yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy ngwaith sicrwydd. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Mae fy staff a minnau wedi dilyn Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd 1 ac felly'n cynnal system gynhwysfawr o reoli ansawdd gan gynnwys polisiâu a gweithdrefnau wedi'u dogfennu ynghylch cydymffurfio â gofynion moesegol, safonau proffesiynol a gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol.

Fy null

Rwyf wedi cyflawni ymgysylltiad sicrwydd rhesymol fel y'i diffinnir yn ISAE 3000. Ymgysylltu sicrwydd rhesymol yw cyflawni gweithdrefnau sydd eu hangen i gael gwybodaeth ac esboniadau y credaf eu bod yn angenrheidiol i fynegi barn ynghylch a yw y Datgeliadau Tâl (y pwnc dan sylw), ym mhob ffordd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt.

Roedd fy ngwaith yn cynnwys:

- Deall y broses a fabwysiadwyd gan y BBC i gael y Datgeliadau Tâl, yn enwedig cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth a ddefnyddiwyd;
- Profi cyflawnrwydd datgeliadau, gan gynnwys:
 - Croesgyfeirio at fy ngweithdrefnau archwilio Grŵp y BBC yn ymwneud â'r gyflogres a gwariant;
 - Cymharu â'r flwyddyn flaenorol a'm dealltwriaeth o'r BBC;
 - Adolygiad o unigolion a dalwyd yn y mis dilynol ac wedi'u talu'n agos at y trothwy datgelu yn 2021-22.
- Cytuno â datgeliadau staff ar slipiau cyflog neu, os nad oedd staff yn cael eu talu drwy gyflogres y BBC, cytuno ar wariant mewn tystiolaeth arall fel contractau;
- Cytuno â'r gwariant fesul unigolyn a dalwyd mwy na £150,000 o refeniw Ffi'r Drwydded i'r band cyflog priodol;
- Ailgyfrifo nifer yr unigolion oedd wedi'u cynnwys ym mhob band £5,000; ac
- Adolygiad o'r sylwadau cysylltiedig am resymoldeb ac eglurder ynghylch sail datgeliadau.

Cyfyngiadau cynhenid

Mae fy ngweithdrefnau sicrwydd wedi'u cynllunio i roi sicrwydd rhesymol. Amcan ymgysylltiad sicrwydd rhesymol yw lleihau risgiau ymgysylltu i lefel dderbyniol o isel o dan amgylchiadau'r ymgysylltu fel sail ar gyfer ffurf mynegi fy nghasgliad ar ffurf gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'n dileu'r risg hon yn llwyr. Yn benodol, wrth baratoi'r datgeliadau yn adroddiad y Cenhedloedd, mae'n ofynnol i Fwrdd y BBC roi barn ar nifer o bethau, sy'n cyflwyno elfen o risg yn ei hanfod.

Mae fy ngwaith wedi'i wneud fel y gallaf ddatgan i Fwrdd y BBC a'r Senedd ar y materion hynny y mae'n ofynnol i mi eu gwneud yn yr adroddiad hwn ac nid at unrhyw ddiben arall.

Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau fy ngweithdrefnau, yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r Datgeliadau Tâl a gynhwysir ar dudalennau 97 i 103 yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddo. Lluniwyd y farn hon ar sail y materion a amlinellir mewn manau eraill yn yr adroddiad sicrwydd annibynnol hwn.

Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP

27 Mehefin 2022

Llywodraethu Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau

Penodiadau i'r Bwrdd

Pwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ynglŷn â phenodi aelodau i'r Bwrdd (ac eithrio'r Cadeirydd ac aelodau'r gwledydd) a phwyllgorau'r Bwrdd.

Ymgymerais â rôl Cadeirydd y Pwyllgor pan ymunais â'r Bwrdd a'r aelodau yn ystod y flwyddyn oedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tim Davie, Nicholas Serota, yr uwch-gyfarwyddwr annibynnol; a'r cyfarwyddwyr anweithredol, Elan Closs Stephens a Shirley Garrood.

Yn ogystal â bod yn gyfrifol am enwebu penodiadau i'r Bwrdd, mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am enwebu aelodau i is-bwyllgorau'r Bwrdd, a'i brif is-gwmnïau masnachol. Mae'r Pwyllgor yn ystyried ac yn adolygu annibyniaeth aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau, ac ar gyfer y flwyddyn hon, gwnaethom hynny ym mis Tachwedd. Mae hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer y Bwrdd, yr argymhellod y Pwyllgor y dylai'r Bwrdd ei adolygu a'i ailfabwysiadu ar gyfer y flwyddyn hon. Cafodd y Cod Ymarfer ei ailgadarnhau gan y Bwrdd heb unrhyw newidiadau yn ei gyfarfod ym mis Ionawr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu cyfansoddiad y Bwrdd a'i bwyllgorau cysylltiedig o ran y cydbwysedd o sgiliau a phrofiad sydd eu hangen, ac er mwyn datblygu strategaeth cynllunio ar gyfer olyniaeth.

Y flwyddyn hon, mae'r Pwyllgor Enwebiadau wedi cyfarfod bum gwaith. Yn sgil y cyfyngiadau a welwyd oherwydd pandemig COVID-19, bu'n rhaid cynnal ein cyfarfodydd drwy fideo gynadleda yn hytrach nag yn bersonol. Canolbwyntiodd gwaith penodiadau'r Pwyllgor ar benodi dau gyfarwyddwr anweithredol newydd i'r Bwrdd, Damon Buffini a Shumeet Banerji, a benodwyd yn ffurfiol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Argymhellod y Pwyllgor hefyd y dylid penodi Prif Swyddog Gweithredol newydd Newyddion a Materion Cyfoes, Deborah Turness, yn aelod gweithredol o'r Bwrdd ac ailbenodi'r Prif Swyddog Cynnwys, Charlotte Moore, yn aelod gweithredol o'r Bwrdd am ddwy flynedd arall.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd ystyried trefniadau llywodraethu busnesau masnachol y BBC, ac argymell y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldebau am lywodraethu, sicrwydd a goruchwyllo oddi wrth Fwrdd Daliadau Masnachol y BBC i Fwrdd Masnachol newydd a arweinir gan gyfarwyddwyr anweithredol. Cymeradwywyd nifer o newidiadau i gyfansoddiad ac aelodaeth y Bwrdd newydd hefyd, a oedd yn cynnwys trosglwyddo'r cyfarwyddwyr anweithredol newydd eu penodi i'r Bwrdd Daliadau Masnachol – Gunjan Bhow a Bhav Singh – i'r Bwrdd Masnachol newydd ynghyd â'i gyfarwyddwyr anweithredol presennol a phenodi Damon Buffini, un o gyfarwyddwyr anweithredol y prif Fwrdd, yn Gadeirydd. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2022.

Yn sgil penodi dau aelod newydd dros y Gwledydd, sef Robbie Gibb fel aelod y Bwrdd dros Loegr, a Muriel Gray fel yr aelod dros yr Alban, gan Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, adolygodd y Pwyllgor aelodaeth is-bwyllgorau'r Bwrdd. Arweiniodd hyn at nifer o newidiadau, gyda'r nod o wneud defnydd effeithiol o'r amrywiaeth o sgiliau ac arbenigedd sydd gan aelodau'r Bwrdd. Caiff aelodaeth is-bwyllgorau'r Bwrdd ei hailasesu ar ôl i aelod y Bwrdd dros Ogledd Iwerddon gael ei benodi.

Cefnogodd y Pwyllgor Enwebiadau y broses o weithredu ar argymhellion Adolygiad Serota drwy ystyried y disgrifiad rôl a recriwtio dau gyngorydd golygyddol allanol i'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol, i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.

Wrth gyflawni ein cyfrifoldeb am werthuso perfformiad y Bwrdd a'i is-bwyllgorau cysylltiedig, comisiynwyd arolwg llawn, a gynhaliwyd gan adolygwr annibynnol eleni. Hefyd, comisiynodd y Pwyllgor Asesiad Llywodraethu a fyddai'n adolygu perfformiad cyffredinol y strwythur llywodraethu unedol newydd a gyflwynwyd o dan Siarter 2016. Caiff canfyddiadau'r ddau adolygiad hyn eu cyflwyno i'r Bwrdd llawn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Richard Sharp
Cadeirydd
23 Mehefin 2022

Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

	Bwrdd Cyffredin	Pwyllgor Archwilio a Risg Aelod	Pwyllgor Masnachu Teg Aelod	Pwyllgor Enwebiadau Aelod	Pwyllgor Cydnabyddiaeth Aelod	Safonau a Chanllawiau Golygyddol Aelod	Pwyllgor y Gwledydd – Lloegr Aelod	Pwyllgor y Gwledydd – Yr Alban Aelod	Pwyllgor y Gwledydd – Cymru Aelod	Pwyllgor y Gwledydd – Gogledd Iwerddon Aelod
Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod	10	6	3	4	4	7	2	4	3	2
Cyfarwyddwyr anweithredol										
Richard Sharp	10	4 o 4		4	1 o 1			2 o 2		
Shumeet Banerji*	2 o 2	1 o 1								
Damon Buffini*	2 o 2									
Shirley Garrood	10	6		3						
Robbie Gibb*	9 o 9		2 o 2			5 o 6	2			
Muriel Gray*	2 o 2				1 o 1			1 o 1		
Tanni Grey-Thompson*	8 o 8				3 o 3	4 o 4	1 o 1			
Ian Hargreaves	10		3			7			3	
Tom Ilube*	3 o 3	2 o 2	1 o 1							
Steve Morrison*	8 o 8		2 o 2		3 o 3			3 o 3		
Nick Serota	10			4	4	7	1 o 1			
Elan Closs Stephens	10			4					3	2
Cyfarwyddwyr gweithredol										
Tim Davie	10			4		7				
Leigh Tavaziva	10									
Charlotte Moore	10									
Fran Unsworth*	9 o 9					4 o 4				1 o 1

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys cyfarfodydd arbennig na busnes a gynhaliwyd all-lein

* Ymunodd Shumeet Banerji a Damon Buffini â'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2022, ymunodd Robbie Gibb â'r Bwrdd ar 7 Mai 2021, ymunodd Muriel Gray â'r Bwrdd ar 3 Ionawr 2022, gadawodd Tanni Grey-Thompson y Bwrdd ar 31 Rhagfyr 2021, gadawodd Tom Ilube y Bwrdd ar 30 Mehefin 2021, gadawodd Steve Morrison y Bwrdd ar 2 Ionawr 2022, a gadawodd Fran Unsworth y Bwrdd ar 27 Ionawr 2022

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio a Risg y BBC ar gyfer 2021/22.

Rôl y Pwyllgor yw cynorthwyo'r Bwrdd yn y gwaith o oruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi ceisio cyflawni'r cyfrifoldeb hwn drwy sicrhau agenda eang a pherthnasol i'r Pwyllgor, gan adolygu a chraffu ar bynciau'r agenda'n drwyadl a, lle y bo'n briodol, geisio cyngor gan arbenigwyr pwnc.

Rwyf wedi parhau i weithio gyda rhai aelodau profiadol iawn o'r Pwyllgor sydd wedi rhoi dirnadaethau a chymorth gwerthfawr: Tom Ilube (a adawodd ei rôl ym mis Mehefin 2021), Cadeirydd y BBC, Richard Sharp, a Shumeet Banerji a ymunodd â'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2022. Ymunodd Elan Closs Stephens fel aelod hefyd, o fis Ebrill 2022.

Mae'r Pwyllgor wedi cael cyngor effeithiol gan dimau'r BBC, yn enwedig Ysgrifenyddiaeth y Cwmni, y swyddogaeth Cyllid ac Ansawdd, Risg a Sicrwydd a hefyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel archwilydd allanol y BBC. O ganlyniad, rwyf wedi fy modloni bod y Pwyllgor wedi meddu ar y sgiliau a'r cymorth angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau'n briodol.

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae ein cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn hon wedi cynnwys:

- adolygu a sicrhau'r sail ar gyfer datganiadau Grŵp y BBC am fusnes gweithredol a hyfywedd;
- goruchwylio ein cydberthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys cymeradwyo ei chynllun archwilio, adolygu ei hasesiad o farnau ynglŷn â risg a chyfrifyddu, cael diweddariadau ar hynt ei gwaith ym mhob cyfarfod a monitro'r broses o gymryd camau gweithredu sy'n deillio o'r gwaith hwnnw;
- goruchwylio risgiau strategol a gweithredol y BBC ac effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg. Ychwanegwyd at y fframwaith ymhellach y flwyddyn hon drwy gynnwys papurau ar sganio'r gorwel a chyflwyno dangosfwrdd o gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rheoleiddiol a chyfreithiol;
- cynnal adolygiadau manwl o feysydd risg, gan gynnwys risgiau sy'n ymwneud â thechnoleg, cynaliadwyedd, diogelwch gweithredol, gweithrediadau rhyngwladol a phobl a diwylliant;
- cynnal adolygiadau o newidiadau a gweithgarwch trawsnewid allweddol, sydd wedi cynnwys: E20 (ailddatblygu set EastEnders), Across the UK (menter y BBC i symud swyddogaethau creadigol allan o Lundain), Amrywiaeth a Chynhwysiant, Sero Net a'r Strategaeth Dechnoleg. Fel eitem sefydlog, cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau gan Swyddfa Rheoli Prosiectau'r BBC ar bob un o brosiectau allweddol y BBC;
- sicrhau effeithiolrwydd polisi chwythu'r chwiban y BBC, gan gynnwys cael adroddiadau ar ddatgeliadau ac ymchwiliadau;
- monitro gwaith y tîm Archwilio Mewnol a chwblhau camau gweithredu sy'n deillio o'i waith. Cwblhawyd 38 o archwiliadau ac adolygiadau sicrwydd, fel rhan o gynllun seiliedig ar risg, a nodwyd 95 o gamau gwella (mae'r Pwyllgor yn olrhain yr holl gamau gwella nes eu bod wedi'u cwblhau). Roedd yn bleser nodi nad oedd unrhyw gamau gweithredu heb eu cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i graffu ar weithrediadau masnachol y BBC. Er bod gan bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor gylch gwaith Grŵp, cafodd un cyfarfod ei neilltuo ar gyfer materion masnachol. Adolygodd y Pwyllgor eitemau a oedd yn ymwneud â risgiau a rheolaethau BBC Studios, perfformiad penderfyniadau buddsoddi allweddol a gwaith archwilio mewnol ac allanol perthnasol. Bu Prif Weithredwr BBC Studios ac uwch-aelodau eraill o'i dîm arwain yn bresennol yn y cyfarfod.

Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad ffurfiol o effeithiolrwydd y broses archwilio allanol. Anfonwyd holiadur at aelodau dethol o'r Pwyllgor, y Bwrdd a'r staff sy'n ymwneud â'r archwiliad. Canfu fod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn broffesiynol ac yn rhoi her a chyngr priodol. Y casgliad cyffredinol oedd bod y broses archwilio allanol wedi bod yn effeithiol. O ran astudiaethau gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, mae'r Pwyllgor wedi sicrhau bod rheolwyr wedi rhoi ymatebion addas ar waith ac y cânt eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd ei hadroddiad ar Arbedion a Diwygio'r BBC.

Y flwyddyn ddiwethaf, gwneuthum sylwadau ar rôl y Pwyllgor i fonitro effaith y pandemig ar yr amgylchedd rheoli a gweithredu. Mae agendâu'r Pwyllgor, yr eitemau i'w trafod a blaenoriaethau'r timau sicrwydd wedi sicrhau bod y gwaith monitro hwn wedi cael ei gyflawni. Bydd y ffocws hwn gan y Pwyllgor yn parhau, yn enwedig wrth i'r BBC symud i batrwm sefydledig o weithio hybrid ac ymaddasu i weithio mewn amgylchedd wedi'r pandemig.

Gan edrych ymlaen, bydd canlyniad setliad ffi'r drwydded a'r heriau economaidd a gwleidyddol ehangach, gan gynnwys yr argyfwng yn Wcráin, yn ystyriaethau pwysig i'r Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn ceisio sicrhau bod y BBC yn parhau i gael ei lywodraethu a'i redeg yn dda a hefyd ymateb i'r heriau hyn yn effeithiol ar yr un pryd.

Ar ddiwedd fy ail flwyddyn lawn fel Cadeirydd y Pwyllgor, mae'n bleser gennyf nodi unwaith eto ei fod wedi cyflawni ei gylch gwaith yn effeithiol, ac wedi helpu'r BBC i sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded.

Shirley Garrod

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
23 Mehefin 2022

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg – parhad

Rôl

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn fanylach. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan Fwrdd y BBC ym mis Medi 2018 a'u hadolygu gan y Pwyllgor ym mis Medi 2021. Maent ar gael ar ein gwefan: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/whowere/bbcboard/auditandrisk/arc-tor-sep-2020.pdf.

Cylch gwaith y Pwyllgor yw adolygu a goruchwyllo trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Er mwyn cael y sicrwydd hwn, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu a goruchwyllo'r canlynol:

- effeithiolrwydd prosesau rheolaeth fewnol a rheoli risg Grŵp y BBC;
- systemau'r BBC ar gyfer canfod ac atal twyll a llygredd;
- y risgiau allweddol sy'n wynebu Grŵp y BBC a'r camau a gymerir i liniaru'r risgiau hynny i lefel dderbyniol;
- gweithgareddau a risgiau is-gwmnïau masnachol y BBC, gan sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli mewn ffordd dderbyniol a bod sicrwydd yn annibynnol ac yn ddigonol;
- camau gweithredu a dyfarniadau rheolwyr o ran Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC a datganiadau ffurfiol cysylltiedig;
- gwaith swyddogaeth Archwilio Mewnol y BBC, a'i heffeithiolrwydd, gan gyfarfod ag uwch-reolwyr Archwilio Mewnol yn breifat er mwyn trafod materion fel y bo angen;
- prosiectau allweddol y BBC, gan gynnwys cyfansoddiad y portffolio prosiectau allweddol;
- ymatebion y BBC i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac adroddiadau Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan roi ystyriaeth ddyladwy i ddisgwyliadau Senedd y DU ynghylch y ffordd y dylai adnoddau'r BBC gael eu rheoli;
- cwmpas archwilio arfaethedig yr archwilydd allanol, gan sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau na ellid eu cyfiawnhau, a chyfarfod â'r archwilydd allanol ar wahân er mwyn trafod unrhyw faterion y dylid eu trafod yn breifat, ym marn y Pwyllgor neu'r archwilydd;
- annibyniaeth yr archwilydd allanol, ei weithdrefnau rheoli ansawdd a'r camau a gymerir gan yr archwilydd i ymateb i newidiadau i ofynion rheoleiddiol a gofynion eraill;
- trefniadau i'r staff godi pryderon, yn gyfrinachol, ynghlŷn ag achosion posibl o amhriodoldeb mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag adrodd ariannol, anghyfreithlondeb neu faterion eraill.

Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, y mae'n rhaid bod un ohonynt yn meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw:

- Shirley Garrod (Cadeirydd y Pwyllgor)
- Richard Sharp (Cadeirydd y BBC, a benodwyd ym mis Gorffennaf 2021)
- Tom Ilube (ymddiswyddodd o'r Bwrdd ar 30 Mehefin 2021)
- Shumeet Banerji (a benodwyd ym mis Ionawr 2022)

Mae gan Shirley Garrod, Cadeirydd y Pwyllgor, brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. At hynny, mae pob aelod a wasanaethodd ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unigolion sy'n dal neu sydd wedi dal uwch-swyddi mewn sefydliadau o faint tebyg ac sy'n meddu ar y profiad a'r sgiliau i gyflawni eu cyfrifoldebau. Lle y bo'n briodol, ategir sgiliau a phrofiadau aelodau gan gyngor gan weithwyr proffesiynol mewnol ac allanol – er enghraifft ar faterion megis datblygiadau ym maes adrodd ariannol.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Gweithredol, y Prif Swyddog Ariannol, y Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, ac

uwch-gynrychiolwyr Archwilio Mewnol, Rheoli Risg, Cyllid a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilydd statudol y BBC, hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat hefyd, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol, â'r archwilydd mewnol a'r archwilydd allanol, yn rheolaidd.

Mae'r Pwyllgor yn asesu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd. Yn 2021/22, bu gwaith y Pwyllgor yn rhan o adolygiad allanol Bwrdd y BBC o effeithiolrwydd, a gynhaliwyd gan Chris Saul. Bydd y Pwyllgor yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad hwnnw.

Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod 2021/22, ar adegau allweddol yn y calendr adrodd ac archwilio.

Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ar gael i'r Bwrdd a chyhoeddir cofnodion cryno ar wefan y BBC: bbc.co.uk/aboutthebbc/whowere/bbcboard/auditandrisk. At hynny, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod ar unrhyw faterion lle mae angen cymryd camau neu wella perfformiad. Mae'r Pwyllgor hefyd yn rhoi ei farn ar gywirdeb y datganiadau ariannol cyn i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd cyfan.

Cywirdeb adroddiadau ariannol

Adolygodd y Pwyllgor gywirdeb datganiadau ariannol y BBC. Wrth wneud hynny, gwnaeth y canlynol:

- drwy drafodaethau â rheolwyr a'r archwilydd allanol, nododd risgiau allweddol o ran camdatganiadau yn natganiadau ariannol y BBC, gan gynnwys y meysydd hynny lle roedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol, ac sydd wedi dylanwadu ar y datganiadau ariannol;
- trafododd y risgiau hyn â'r archwilydd fel rhan o'r broses o gytuno ar gynllun archwilio'r archwilydd allanol ac ar ddiwedd yr archwiliad o'r datganiadau ariannol;
- adolygodd a heriodd bapurau manwl a gyflwynwyd gan reolwyr ar y meysydd hynny lle roedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol, gan ystyried barn yr archwilydd.

Nodir isod y prif feysydd lle mae angen llunio barn a sut mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â nhw:

Cydnabod refereniw

Mae risg na chaiff incwm ei gydnabod yn gywir yn unol â safonau adrodd ariannol. Mae natur y risg yn amrywio rhwng refereniw ffi'r drwydded yn y gwasanaeth cyhoeddus ac incwm masnachol. Caiff refereniw ffi'r drwydded ei drin fel cymorth grant gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y sail y caiff symiau sy'n dderbyniadwy gan dalwyr ffi'r drwydded eu talu.

Mae refereniw masnachol yn fwy cymhleth, gyda nifer o ffrydiau refereniw gwahanol, gan gynnwys gwerthu cynnwys i ddarllenedwyr byd-eang, incwm tanysgrifiadau a refereniw o werthu cynhyrchion ffisegol a digidol. Oherwydd cymhlethdod telerau cytundebol, efallai y bydd angen llunio barn wrth asesu pryd y gellir cydnabod refereniw, sy'n seiliedig ar gyflawni rhwymedigaethau perfformiad a phryd y trosglwyddir rheolaeth i'r cwsmer.

Ymateb y Pwyllgor – Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau gan reolwyr ar unrhyw farn berthnasol neu gymhleth iawn. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai systemau rheolaeth ariannol presennol y BBC sicrhau y caiff incwm ei drin yn briodol yn y datganiadau ariannol, ac mae'n hyderus bod rheolwyr yn deall y risgiau yn y maes hwn a'u bod wedi rhoi rheolaethau addas ar waith.

Eiddo

Mae'r BBC yn dal portffolio eiddo sylweddol, sy'n parhau i gael ei resymoli er mwyn lleihau costau. Mae'r ystad yn cynnwys eiddo rhydd-ddaliadol yn ogystal ag eiddo a ddelir o dan brydlesau. Gellir

dosbarthu adeiladau sydd wedi cael eu his-osod neu sydd ar gael i'w his-osod yn eiddo buddsoddi. Mae barn yn ymwneud â'r bwriadau ar gyfer unrhyw adeiladau gwag yn y dyfodol a therfynau amser cysylltiedig. Gall hyn newid y driniaeth gyfrifyddu briodol ac effeithio ar werth cario'r eiddo ar y fantolen.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed y newidiadau canlynol:

Cafodd rhan o'r Ganolfan Ddarlledu yn White City yn Llundain ei his-osod i ITV yn ystod y flwyddyn, a arweiniodd at ailddosbarthu'r elfen hon o'r ased dan brydles o swm derbyniadwy hawl i'w ddefnyddio i swm derbyniadwy o brydles.

Cafodd dau eiddo arall (Crowsley Park ac Uned 2 Leeds) hefyd eu hailddosbarthu'n eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

Cydnabuwyd Caversham a Swains Lane fel asedau a oedd yn cael eu dal i'w gwerthu ar 31 Mawrth 2022 a disgwyli'r eiddo hwn gael ei werthu yn ystod 2022/23.

Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau deilliannol sy'n gysylltiedig â strwythur sylfaenol prydles y Ganolfan Ddarlledu yn agored i sensitifrwydd o ran data'r farchnad yn ogystal ag addasiad i'r gyfradd disgownt er mwyn cyfrif am risg. O ganlyniad, cydnabuwyd rhwymedigaethau net gwerth £168 miliwn mewn perthynas â'r trefniant hwn. Gweithredwyd y trafodyn mewn modd a oedd yn cyfyngu ar unrhyw gynnydd yn amlygiad credyd y BBC i'r cyd-bartion deilliannol dan sylw. Rhoddir cyfrif am y cyfrwng diben arbennig a sefydlwyd i ailddatblygu'r Ganolfan Ddarlledu, Daunus Limited, fel cyd-fenter yn dilyn asesu rheolaeth. Mae budd y BBC yn yr endid ar gost, ac ni nodwyd unrhyw ddangosyddion o leihad mewn gwerth.

Ymateb y Pwyllgor – Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau gan reolwyr a esboniodd y driniaeth ar gyfer yr adeiladau pwysicaf, gan gynnwys y terfynau amser a ragwelir ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol a'r rhesymeg dros y driniaeth. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffordd y cafodd yr adeiladau hyn eu trin yn y datganiadau ariannol yn gyson â bwriad rheolwyr ac yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

Asedau rhaglenni

Mae'r BBC yn dal cryn nifer o asedau mewn stocrestrau ac mewn asedau annirweddol (hawliau rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol), gan gynnwys rhaglenni sydd wrthi'n cael eu cynhyrchu, taliadau a wneir ymlaen llaw i gaffael hawliau darlledu/gwerthu yn y dyfodol a rhaglenni wedi'u cwblhau sy'n barod i'w darlledu i gynulleidfaoedd. Cydnabyddir yr asedau hyn ar gost ond cânt eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i gadarnhau a oes modd eu hadennill. Mae angen llunio barn wrth benderfynu a oes modd adennill yr asedau hyn a thros ba gyfnod y dylent, yn enwedig hawliau rhaglenni, gael eu hamorteiddio.

Daeth adolygiad o gydnabod gwariant blynyddol (o ystyried poblogrwydd iPlayer a Sounds a'r ffaith bod cynnwys ar gael am gyfnodau hwy) i'r casgliad, yn seiliedig ar ddata ar gynulleidfaoedd, ei bod yn dal i fod yn briodol parhau i gydnabod costau pan fydd cynnwys ar gael i gynulleidfaoedd yn gyntaf ar y brif sianel/sianel linellol ar gyfer 2021/22.

Ymateb y Pwyllgor – Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod asesiad y rheolwyr o asedau rhaglenni, gan gynnwys a oes unrhyw leihad mewn gwerth yn briodol, yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig y BBC

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys gwarged o £1,241 miliwn ar y fantolen ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC. Mae angen llunio dyfarniadau allweddol ynglŷn â'r tybiaethau a ddefnyddir wrth gyfrifo'r sefyllfa hon. Gall newidiadau yn y tybiaethau hyn arwain at newidiadau mawr yn y ffigurau terfynol a ddatgelir. Mae'r tybiaethau a ddefnyddir ar gyfer y prisiau cyfrifyddu diweddaraf yn seiliedig ar argymhellion actiwariaid annibynnol ac maent o fewn amrediad derbyniol yn ôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Ymateb y Pwyllgor – Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y datganiadau ariannol mewn perthynas â'r cynllun pensiwn yn rhesymol, yn briodol i'r BBC ac yn cael eu cefnogi gan arbenigwyr actiwariaid annibynnol. Nododd y Pwyllgor y gwelliant ym mhriodol y cynllun pensiwn ac roedd yn fodlon ar yr esboniadau a'r dadansoddiad a roddwyd gan reolwyr a chynghorwyr y cynllun.

Darpariaethau cyflogaeth a threthiant

Mae nifer o ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a threthiant yn bodoli lle mae gan y BBC rwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddiwyddiad blaenorol sy'n debygol ac y gellir ei fesur yn ddibynadwy. Mae darpariaethau cysylltiedig gwerth £15 miliwn yn y datganiadau ariannol, gan gynnwys swm i'w dalu i gyflwynwyr, neu ar eu rhan, mewn perthynas â defnyddio Cwmnïau Gwasanaeth Personol.

Ymateb y Pwyllgor – Cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar faterion a allai arwain at gydnabod rhwymedigaethau posibl a thrafododd lefel y darpariaethau â rheolwyr. Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod wedi defnyddio dull cyson o nodi, cydnabod a rhyddhau darpariaethau ym mhob rhan o Grŵp y BBC. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel y darpariaethau a gariwyd a'r hyn a ddatgelwyd mewn perthynas â'r darpariaethau hynny.

Prosiectau cyfalaf

Mae'r BBC yn ymgymryd â sawl prosiect cyfalaf ar unrhyw adeg benodol, sy'n cyfrannu at strategaeth gyffredinol y BBC. Mae angen asesu priodoldeb cyfalafu, ynghyd â phrisio unrhyw ased cyfalafedig. Os nad oes modd cwblhau prosiect cyfalaf perthnasol ar amser, neu os na fydd y BBC yn cael budd ohono yn y dyfodol, gallai hyn ysgogi tâl lleihad mewn gwerth. Adolygwyd adroddiadau gan reolwyr a esboniodd statws prosiectau cyfalaf mawr a'r ffordd yr aseswyd p'un a oedd angen tâl lleihad mewn gwerth ai peidio.

Ymateb y Pwyllgor – Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod asesiad y rheolwyr o brosiectau cyfalaf, gan gynnwys a oes unrhyw leihad mewn gwerth yn briodol, yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

Wcráin a Rwsia

Cynhaliwyd adolygiad gan staff Cyllid o'r holl asedau a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag Wcráin a Rwsia, ynghyd ag asesiad o'r effaith fasnachol ar BBC Studios. Mae gan y BBC ddwy swyddfa ar brydles, y naill yn Kyiv (Wcráin) a'r llall Moscow (Rwsia) a all fynd yn feichus, yn dibynnu ar sut y bydd y sefyllfa yn y gwledydd hynny'n datblygu. Ni nodwyd unrhyw effaith ariannol berthnasol.

Adolygwyd y risg o daliadau i fanciau sydd o dan sancsiwn. Ers 30 Mai 2022, mae gwasanaethau cyfryngau newyddion, gan gynnwys y BBC, wedi cael eu hawdurdodi, drwy drwydded Llywodraeth y DU a roddwyd gan y Swyddfa Gweithredu Sancsiynau Ariannol, i barhau â gweithrediadau busnes yn Rwsia sy'n cynnwys darparu gwasanaethau cyfryngau newyddion a all fel arall fod yn groes i'r sancsiynau. Yn ystod camau cychwynnol y gwrthdaro, ac ar ôl cyflwyno sancsiynau, bu'n heriol iawn parhau i weithredu mewn ffordd ddiogel a chyfrifol. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn flaenoriaeth gan y BBC barhau i ateb y galw ymhlith cynulleidfaoedd dros y byd am sylw i'r stori hon. O ganlyniad, gwnaed rhai taliadau cyflog cytundebol i staff a gweithwyr llawrydd i mewn i gyfrifon banciau yn Rwsia a thaliad bach i ddarparwr cyfryngau gwasanaethau yn Rwsia rhwng dechrau'r gwrthdaro a thrwydded y Swyddfa Gweithredu Sancsiynau Ariannol. Hysbyswyd Llywodraeth y DU am y rhain.

Ymateb y Pwyllgor – Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hwn yn faes sensitif sy'n datblygu. Mae wedi ei fodloni bod y BBC wedi gweithredu mewn ffordd ystyriol a chymesur hyd yma.

Cadarnhaodd y rheolwyr wrth y Pwyllgor nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau perthnasol na chamddatganiadau nad oeddent yn berthnasol a wnaed yn fwrriadol er mwyn rhoi darlun penodol. Nododd yr archwilydd unrhyw gamddatganiadau yr oedd

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg – parhad

wedi dod ar eu traws wrth wneud ei waith a chadarnhaodd nad oedd unrhyw symiau perthnasol nas addaswyd o hyd. Gall y Pwyllgor gadarnhau ei fod yn fodlon bod yr archwilydd allanol wedi cyflawni ei gyfrifoldebau gyda diwydrwydd ac amheuaeth broffesiynol.

Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau a'r adroddiadau gan reolwyr ac ymgynghori, lle bo angen, â'r archwilydd allanol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn ymdrin yn briodol â'r dyfarniadau beirniadol a'r amcangyfrifon allweddol (o ran y symiau a nodwyd a'r datgeliadau). Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon bod y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i bennu gwerth asedau a rhwymedigaethau wedi bod yn destun prosesau craffu a herio priodol, a'u bod yn ddigon cadarn.

Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y grŵp a'u lle yn yr Adroddiad Blynyddol ehangach. Er mwyn helpu gyda'r adolygiad hwn, ystyriwyd adroddiadau gan reolwyr ac archwilwyr mewnl a'r archwilydd allanol, a oedd yn cwmpasu'r canlynol:

- ansawdd a derbynioldeb polisiâu cyfrifyddu, gan gynnwys eu cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu;
- cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol;
- eglurder datgeliadau a'u cydymffurfiaeth â gofynion adrodd perthnasol;
- a yw'r Adroddiad Blynyddol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac a yw'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i asesu perfformiad a strategaeth y BBC.

Effeithiolrwydd rheolaethau mewnl a'r fframwaith rheoli risg Sicrwydd rheolaethau mewnl

Adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd system rheolaeth fewnl y BBC, ar ran y Bwrdd. Er mwyn gwneud yr asesiad hwn, dibynnodd y Pwyllgor yn bennaf ar ganfyddiadau'r gweithgarwch sicrwydd annibynnol a oedd yn digwydd ym mhob rhan o'r Grŵp. Ymhlith y meysydd penodol eraill a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn roedd:

- cadarnhad gan aelodau'r Tîm Gweithredol ynglŷn â rheolaethau yn eu meysydd busnes. Ar gyfer 2021/22, mae'r broses hon wedi cael ei gwella drwy gyflwyno proses hunanasesu rheolaethau;
- y themâu a oedd yn deillio o weithgarwch Archwilio Mewnl, gan holi cynrychiolwyr Archwilio Mewnl ynglŷn â chanlyniadau eu gwaith a'r hyn a arsylwyd ganddynt. Caiff crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnl, sy'n nodi tueddiadau ac achosion sylfaenol, ei gyflwyno'n flynyddol. Caiff canfyddiadau allweddol o bob archwiliad, gan gynnwys sgoriau sicrwydd a chmau unioni, eu hadolygu gan y Pwyllgor;
- cynnydd wrth gwblhau camau gweithredu a oedd yn deillio o weithgarwch sicrwydd annibynnol, gan gynnwys archwiliadau mewnl ac allanol ac adolygiadau gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae hwn yn faes rydym yn rhoi ystyriaeth ddilynol iddo ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o ran unrhyw wendidau a nodwyd;
- gwaith dilynol pellach a chraffu ar y broses o gwblhau unrhyw gynlluniau gwella neu gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer meysydd a ystyrir yn rhai proffil uchel neu sydd wedi cael canfyddiadau sicrwydd beirniadol;
- adolygiadau o feysydd risg cyfredol neu flaenoriaeth uchel; ar gyfer 2021/22, roedd hyn yn cynnwys technoleg, diogelwch gweithredol, pobl a diwylliant, cynaliadwyedd a gweithrediadau rhyngwladol;
- adolygiadau rheolaidd o gynnydd prosiectau allweddol a ddarparwyd gan Swyddfa Rheoli Prosiectau'r BBC. Hefyd, adolygodd y Pwyllgor ddetholiad o brosiectau'n fanylach, ym mhresenoldeb uwch-reolwyr perthnasol;
- adroddiadau ar chwythu'r chwiban ynghyd â'r systemau sydd ar waith i leihau'r rhain i'r eithaf a'u hatal;

- canfyddiadau a hynt camau gweithredu a oedd yn deillio o archwiliadau o is-gwmnïau masnachol y BBC. Mae Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Ariannol BBC Studios yn bresennol bob blwyddyn i roi sicrwydd ar amgylchedd rheoli'r is-gwmni hwn a'r ffordd y mae'n rheoli risg;

- adolygu a chymeradwyo datganiad Caethwasiaeth Fodern y BBC ac adolygu'r dull o sicrhau cydymffurfiaeth;

- yn wyneb y newidiadau posibl i ofynion llywodraethu corfforaeth ac adrodd ariannol y DU, cafodd y Pwyllgor asesiad o fframwaith rheolaeth ariannol y BBC hefyd.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y wybodaeth a gyflwynwyd gan reolwyr, a'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau ac ymholiadau pellach, yn ddigonol i'r Bwrdd lunio barn ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnl a gweithgarwch rheoli risg.

Rheoli risg

Ystyriodd y Pwyllgor y prosesau ar gyfer rheoli risgiau sylweddol yn y BBC.

Yn benodol, adolygodd y Pwyllgor adroddiadau a heriodd reolwyr ynglŷn â risgiau strategol a gweithredol mawr y BBC; adolygodd y trefniadau llywodraethu ar gyfer rhoi gwybod am risgiau a'u goruchwylio; ac ystyriodd feysydd risg a oedd yn dod i'r amlwg a allai effeithio ar y BBC.

Edrychwyd yn fanylach hefyd ar bynciau risg dethol, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Mae'r ffordd y mae'r BBC yn rheoli risg yn parhau i ddatblygu ac aeth y Pwyllgor ati i adolygu cynnydd. Yn ystod y flwyddyn hon cynhaliodd y tîm risg asesiad o'r awydd i gymryd risgiau ym maes risg technoleg; edrychodd yn fanwl ar risgiau mewn meysydd risg wedi'u targedu a phrosiectau allweddol; cefnogodd y gwaith o ddatblygu cofrestr risg; a chyflwynodd bapurau ar sganio'r gorwel am risgiau a metrigau cydymffurfiaeth. Gweler tudalen 110 am ragor o fanylion.

Effeithiolrwydd Archwilwyr Mewnl

Cafodd gwaith Archwilio Mewnl ei oruchwylio gan y Pwyllgor. Mae hyn yn eitem reolaidd ym mhob cyfarfod a fynychir gan y Pennaeth Archwilio Mewnl hefyd. Yn ystod y flwyddyn gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- cymeradwyo'r cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan sicrhau ei fod yn seiliedig ar risg ac yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd ynglŷn â phrosesau busnes craidd a meysydd o risg strategol sy'n dod i'r amlwg;
- ystyried canfyddiadau gweithgarwch archwilio, gan ganolbwyntio ar unrhyw archwiliadau â chanlyniadau anffodddhaol a chynlluniau rheolwyr i fynd i'r afael â'r rhain;
- ystyried gofynion yr Archwilwyr Mewnl o ran eu hadnoddau a'u gallu;
- asesu effaith y pandemig ar y cynllun archwilio mewnl a chymeradwyo newidiadau i'r cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn gymesur.

Hefyd, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Archwilio Mewnl a'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, yn rheolaidd y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro strwythur y swyddogaeth Archwilio Mewnl a gweithrediad y model adnoddau presennol, gyda chyfran o'r archwiliadau yn cael eu cynnal gan bartner allanol. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y trefniant hwn yn parhau i weithio'n dda.

Yn unol ag arferion da, mae asesiad annibynnol o effeithiolrwydd y swyddogaeth Archwilio Mewnl wedi cael ei gynnal o fewn y pum mlynedd diwethaf. Mae argymhellion yr adolygiad hwn wedi cael eu rhoi ar waith.

Annibyniaeth ac effeithiolrwydd ein harchwilydd allanol

O dan Siarter a Chytundeb 2016, mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a thrwy hynny'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol y mae'n bennaeth arni, wedi'i benodi'n archwilydd statudol y BBC am gyfnod y Siarter.

Goruchwyliodd y Pwyllgor y berthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys cwmpas ei gwaith a'i dulliau gweithredu. Ymhlith y meysydd penodol y canolbwyntiwyd arnynt yn ystod y flwyddyn mae'r canlynol:

- y broses archwilio allanol, gan gynnwys gofynion adrodd ar reoleidd-dra a phriodoldeb;
- asesiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o feysydd risg neu farn archwilio. Ar gyfer 2021/22, roedd hyn yn cynnwys priso'r cynllun pensiwn ond nid oedd yn gyfyngedig i hynny; trafodion eiddo cymhleth; asedau rhaglenni; cydnabod referniw masnachol a safonau cyfrifyddu newydd;
- o ran COVID-19, ystyriwyd effaith gweithio o bell ar yr amgylchedd rheoli yn ogystal â newidiadau i'r risg o dwyll;
- cynnal trafodaethau preifat â'r archwilydd allanol heb fod rheolwyr yn bresennol;
- cynhaliwyd adolygiad ffurfiol o effeithiolrwydd y broses archwilio allanol gan y Pwyllgor.

Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio

Fel un o'r mesurau i ddiogelu annibyniaeth yr archwilydd allanol, mae'r Pwyllgor wedi datblygu polisi'r BBC ynglŷn â chomisiynu'r archwilydd allanol i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio, ac yn ei oruchwyllo.

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r mathau o wasanaethau y gall ac na all yr archwilydd allanol eu darparu. At hynny, mae'n cynnwys trothwyon lle mae'n rhaid i waith nad yw'n waith archwilio y cynigir y dylai'r archwilydd allanol ei wneud, gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Pwyllgor. Mae hefyd yn pennu pryd y mae'n rhaid i waith fod yn destun tendr cystadleuol.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi nodi nad yw'n darparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio. Er gwaethaf hyn, ni fyddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cael ei hystyried ar gyfer gwaith a allai beryglu ei gallu i roi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor cyn recriwtio aelod o staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i unrhyw swydd uwch-reolwr yn y BBC.

Llywodraethu Ein prif risgiau

Mae risgiau yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Siarter a'i ddibenion cyhoeddus. Mae angen i'n dull o reoli risg gefnogi'r gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau strategol a'n hamcanion gweithredol.

Ein dull o reoli risg

Mae'r BBC yn parhau i weithredu mewn byd anwadal ac ansicr. Ar ôl her pandemig byd-eang, cafwyd sawl argyfwng geowleidyddol, gan gynnwys cwmp Affganistan ym mis Awst 2021 a goresgyniad Wcráin gan Rwsia ym mis Chwefror 2022.

Mae cynulleidfaoedd yn y DU a thros y byd i gyd yn dibynnu ar y BBC am sylw annibynnol a diduedd ar ddigwyddiadau byd-eang wrth i ni gyflawni ein dibenion cyhoeddus a rhoi gwerth i'n holl gynulleidfaoedd. Bu cryn alw am wasanaethau'r BBC wrth i bobl geisio cael gwybodaeth am sefyllfaoedd o'r fath. Daeth cynulleidfaoedd amcangyfrifedig o fwy na 280 miliwn o bobl i edrych ar newyddion ar-lein y BBC yn ystod yr wythnos y dechreuodd y rhyfel yn Wcráin.

Mae'r pandemig a'r argyfyngau geowleidyddol wedi creu heriau a risgiau sylweddol i ddiogelwch ein pobl, ein hadeiladu a'n cyllid, a reolir mewn amser real gan dimau arbenigol.

Mae'r cyfryngau yn y DU a thros y byd i gyd yn parhau i gael eu llywio gan newid hirdymor o ddarlledu llinellol tuag at wasanaethau ar-lein. Mae defnyddwyr yn cael mwy o ddewis nag erioed ac mae darparwyr cyfryngau yn dwysáu'r gystadleuaeth am dalent a chynnwys o'r radd flaenaf.

O ystyried yr heriau hyn, mae'n hollbwysig bod prosesau rheoli risg yn cael eu hymgorffori ym mhob rhan o'r BBC. Mae hyn yn golygu bod ystyriaeth ofalus o risgiau yn cyfrannu at ein huchelgais greadigol a'n hawydd i wasanaethu ein cynulleidfaoedd, yn y DU ac yn rhyngwladol, a'r ffordd rydym yn rhedeg y BBC.

Mae trawsnewid y BBC yn sefydliad sy'n gallu llwyddo er gwaethaf cyflymder a graddfa eithriadol y newidiadau yn y farchnad ac sy'n gallu bod yn berthnasol i'n cynulleidfaoedd er gwaethaf y gystadleuaeth frwd am amser sgrin mewn byd ar-lein, yn flaenoriaeth.

Llywodraethu risg – Mae'r Bwrdd, yn uniongyrchol a thrwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg, yn adolygu'r prif risgiau i'r BBC ac yn cynnal adolygiadau manwl rheolaidd o feysydd risg penodol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau, sy'n un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol, wedi bod yn weithredol ers 12 mis bellach. Bydd y Pwyllgor Gweithrediadau yn helpu'r Pwyllgor Gweithredol i gyflwyno blaenoriaethau strategol a gweithredol allweddol a phrosiectau ar draws y BBC a'u rhoi ar waith.

Rheoli risg – diweddariadau 2021/22

Mae'r broses o reoli risg yn y BBC yn parhau i ddatblygu. Yn 2021/22, gwnaethom y gwelliannau canlynol i'n fframwaith risg:

Trefniadau llywodraethu risg ychwanegol – Mae sefydlu'r Pwyllgor Gweithrediadau wedi cryfhau atebolrwydd a chyfrifoldeb rheolwyr dros brosiectau allweddol, materion yn ymwneud â gwasanaethau gweithredol a phroffesiynol a materion yn ymwneud â chydymffurfio â rhwymedigaethau ariannol, rheoleiddiol a gweithredol fel y'u hadroddir i'r Bwrdd a/neu ei Bwyllgorau.

Archwiliadau Manwl o Risg – Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau wedi cynnal archwiliadau manwl yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys rhai ym maes amddiffyn plant a diogelu; iechyd a diogelwch; technoleg a risgiau seiber; cynaliadwyedd; bwlio ac aflonyddu; a hyfforddiant gorfodol. O safbwynt prosiectau, mae'r Pwyllgor Gweithrediadau wedi cynnal archwiliadau manwl o raglen East Bank (adleoli o stiwdios cerddoriaeth fyw presennol y BBC yn Maida Vale i gyfleuster sy'n cael ei adeiladu gan Gorfforaeth Datblygu Gwaddol Llundain (LLDC) yn y cwr diwylliannol newydd yn Stratford, Dwyrain Llundain): pennu llinell sylfaen y sefyllfa o ran Amrywiaeth a Chynhwysiant;

trefniadau llywodraethu Across the UK; ac ymarfer ailgaffael Allanol Prosesau Busnes y BBC.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cynnal archwiliadau manwl yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys risg technoleg; diogelwch y DU a diogelwch rhyngwladol; cynaliadwyedd a risg sy'n gysylltiedig â hinsawdd a risgiau masnachol BBC Studios. O safbwynt prosiectau, mae'r Pwyllgor wedi cynnal archwiliad manwl o Across the UK; Amrywiaeth a Chynhwysiant; Adolygiad Technoleg Strategol; E20 (ailddatblygu safle Eastenders) yn ogystal â thrafodaethau rheolaidd ar y portffolio prosiectau allweddol.

Adrodd ar Risg – Trafodir ein hadroddiad rheolaidd ar risg i'r Bwrdd ac adroddiad risg chwarterol y Pwyllgor Archwilio a Risg yn y Pwyllgor Gweithredol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg eu trafod. Rydym wedi pennu lefel yr awydd i gymryd risgiau yn ein meysydd risg gweithredol allweddol ac wedi cynnal asesiad o'r awydd i gymryd risgiau ym maes risg technoleg. Mae ein hadroddiadau risg yn cynnwys ffocws ar symudiadau sylweddol yn y chwarter a meysydd risg gweithredol y tu hwnt i'r awydd, ac maent yn rhoi darlun o'r risgiau sy'n dod i'r amlwg ac eitemau y dylid cadw golwg arnynt.

Cofrestrau risg – Yn ogystal â'r set gyfredol o gofrestrau ar gyfer Newyddion, y Gwledydd a Chynnwys, datblygwyd y cofrestrau risg ar gyfer Technoleg, Seiberddiogelwch, Iechyd, Llesiant a Diogelwch ymhellach. Trafodir risgiau allweddol mewn cyfarfodydd Is-adrannol a chaiff Pwyllgor Gweithrediadau'r BBC ei hysbysu am risgiau lefel uchaf.

Risgiau sy'n dod i'r amlwg – Mae'r tîm Risgiau Corfforaethol, ar y cyd â thimau arbenigol, yn sganio'r amgylcheddol mewnol ac allanol er mwyn nodi risgiau i'r BBC sy'n dod i'r amlwg, Rydym yn ystyried bod risgiau o'r fath yn fygythiadau anhysbys neu hysbys ond nad yw eu heffaith ar ein gweithrediad yn eglur. Mae tîm Strategaeth y BBC yn sganio'r gorwel yn barhaus am feysydd o ddi-ddordeb, bygythiadau a chyfleoedd sydd i ddod. Caiff risgiau o'r fath eu nodi hefyd drwy weithio'n agos gyda'r Is-adrannau a gwneud risg yn ystyriaeth ym mhapurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'r risgiau sy'n dod i'r amlwg a nodir gennym yn cael eu categoreiddio'n fras yn rhai allanol/yn y farchnad, gwleidyddol, cyfreithiol a rheoleiddiol, gweithredol a thechnolegol. Y terfynau amser a ystyrir ar gyfer risgiau sy'n dod i'r amlwg yw o fewn y tri i chwe mis nesaf, o fewn y 12 mis nesaf a thros gyfnod hwy na 12 mis. Mae'r mathau o risgiau sy'n dod i'r amlwg a ystyriwyd gennym yn cynnwys: y risgiau sy'n gysylltiedig â Gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y Sector Darlledu; effaith y Bil Diogelwch Ar-lein ar y BBC; diwygiadau posibl i gyfundrefn diogelu data'r DU; effaith newid yn yr hinsawdd ar ymddygiadau ein cynulleidfaoedd yn ogystal â'r effeithiau ar ein gweithrediadau wrth i ni bontio i economi carbon isel.

Rheoli risg – cynlluniau 2022/23

Yn 2022/23, mae mentrau gwella allweddol yn cynnwys adnewyddu'r ffordd rydym yn monitro Risg Strategol ac yn cyflwyno adroddiadau arni; ymgorffori perchenogaeth o risg ar gyfer ein risgiau corfforaethol â blaenoriaeth er mwyn gwella'r ffordd y caiff risgiau eu goruchwylio; nodi tueddiadau a themâu sy'n deillio o'r gofrestr risg Is-adrannol ac ysgogi camau gweithredu.

Nodir ein prif risgiau strategol a gweithredol drosodd.

Allwedd i newidiadau risg:

Newid mewn risg yn ystod 2021/22

- ▲ Mae'r risg wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn
- Mae'r risg wedi aros yn sefydlog yn ystod y flwyddyn
- ▼ Mae'r risg wedi lleihau yn ystod y flwyddyn

Dibenion cyhoeddus

- 1 Darparu newyddion a gwybodaeth sy'n ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch.
- 2 Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddsygu.
- 3 Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau.

- 4 Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU a chefnogi'r economi greadigol.
- 5 Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

Risgiau strategol

1. Newid strwythurol yn ymddygiad cynulleidfaoedd a'r dirwedd allanol

1 2 3 4 5 ▲

Beth yw'r risg?

Mae risg na fydd y BBC yn addasu'n ddigon cyflym wrth i'r newid o deledu darlledu i wasanaethau ar-lein ac o radio i ffrydio digidol (Fideo Tanysgrifio ar Alw (SVOD)) ddigwydd yn gyflymach ymhlith pob grŵp oedran. Wrth i ddiwydiant creadigol y DU adfer yn sgil y pandemig a'i effeithiau cysylltiedig, efallai y bydd effeithiau hirdymor y newid strwythurol hwn yn dod yn barhaol.

Beth yw'r effaith?

Nid yw cynulleidfaoedd yn parhau ar yr un lefel ar bob un o lwyfannau'r BBC. Nid yw'r BBC wedi'i werthfawrogi gan bob cynulleidfa na chymdeithas ac nid ydym yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau, y gwledydd a'r rhanbarthau, a gwylwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

Ledled y BBC

— Nod ein strategath Across the UK yw sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli, ac yn gwasanaethu pob rhan o'r wlad.

Cynnwys

- Mae'r BBC yn parhau i gyflwyno cynnwys mawr ei effaith yn unol â'n strategaeth i roi gwerth i bob cynulleidfa. Dros y 12 mis nesaf, bydd digwyddiadau sy'n allweddol i ddenu cynulleidfaoedd yn cynnwys dathliadau Jiwbilî Blatinwm y Frenhines, Pencampwriaeth Pêl-droed Menywod Ewrop 2022 yn Lloegr, Gemau'r Gymanwlad 2022 yn Birmingham, Cwpan FIFA y Byd 2022 i Ddnyon yn Qatar, ac ailgyflwyno Big Weekend Radio 1.
- Byddwn yn sicrhau cynnydd sylweddol yng nghynnwys golygyddol Bitesize, gan gynnwys i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 a chynnwys newydd sbon i blant dosbarth derbyn yn Saesneg a Mathemateg.
- Bydd BBC Three yn dychwelyd fel sianel ddarlledu sy'n cynnwys rhaglenni sydd wedi'u hanelu'n benodol at gynulleidfaoedd iau.

Newyddion

- Mae ein darllediadau newyddion o ddigwyddiadau allweddol wedi parhau i ddenu cynulleidfaoedd enfawr yn ystod y bwletin newyddion am chwech o'r gloch a deg o'r gloch – mae'r naill a'r llall yn cyrraedd dros 12 miliwn o oedolion yr wythnos ar gyfartaledd.
- Byddwn yn parhau i roi sylw manwl i oresgyniad Wcráin gan Rwsia, gan helpu cynulleidfaoedd i ddeall digwyddiadau wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Byddwn yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd o hysbysu cynulleidfaoedd yn y DU ac yn rhyngwladol am y gwrthdaro, fel y podlediad *UkraineCast* a lansiwyd yn ddiweddar.

▲ Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2021/22?

Mae symudiad cynulleidfaoedd o gyfryngau darlledu i gyfryngau ar-lein wedi bod yn un duedd allweddol ers degawd. Er bod hyn yn gysylltiedig â chynulleidfaoedd iau i ddechrau, nid yw hynny'n wir mwyach, wrth i bob cynulleidfa, gan gynnwys cynulleidfaoedd hŷn, wneud defnydd cynyddol o gyfryngau ar-lein.

Fideo: Gwnaeth cyfraddau mabwysiadu SVOD ddyblu bron mhlith pobl dros 65 oed yn ystod y pandemig; mae nifer y cartrefi sy'n tanysgrifio i ddau neu fwy o wasanaethau SVOD yn cynyddu (hyd at 65% o gartrefi SVOD yn 2021, o gymharu â 55%), er bod arwyddion cynnar bod cyfraddau tanysgrifio yn dechrau arafu. Mae gwasanaethau SVOD newydd yn parhau i gael eu lansio.

Sain: Mae newid o hyd tuag at wrando ar wasanaethau ar-lein gyda ffrydio cerddoriaeth a phodlediadau yn cynyddu'n gyflym

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

1. Newid strwythurol yn ymddygiad cynulleidfaoedd a'r dirwedd allanol – parhad

1 2 3 4 5 ^

Digidol (gan gynnwys iPlayer, BBC Sounds, apiau)

- Rydym wedi adnewyddu ac wedi diweddaru profiad defnyddwyr o BBC iPlayer, BBC Newyddion Ar-lein, BBC Sounds a BBC Chwaraeon Ar-lein a'u nodweddion.
- Rydym wedi gwneud cyfres o gyhoeddiadau yn ymwneud â BBC digidol yn gyntaf, gan amlinellu ein cynlluniau a'n huchelgeisiau i gynyddu ein buddsoddiad mewn gwaith i ddatblygu cynnwys a chynnyrch digidol.
- Rydym wedi rhoi model gweithredu cynnyrch digidol newydd ar waith o dan arweinyddiaeth Prif Swyddog Cynnyrch newydd.
- Y flwyddyn hon, byddwn yn canolbwyntio ar fuddsoddi yng ngallu llwyfannau sy'n cael eu rhannu ymhlith ein portffolio cynnyrch, megis personoli, metaddata, ac adnoddau cynhyrchu cynnwys, yn ogystal â buddsoddi mewn sgiliau penodol megis gwyddor data a dysgu peirianyddol.
- Byddwn yn parhau i wella iPlayer, sef ein prif flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf, drwy roi profiad perthnasol a boddhaus i bob defnyddiwr ym mhob ymweliad, gan ddefnyddio ein harbenigedd mewn curadu golygyddol ac argymhellion i wella'r broses o ddarganfod cynnwys, a gwneud gwelliannau pellach i'r rhyngwyneb â defnyddwyr.
- Byddwn yn parhau i sicrhau bod BBC Sounds ar gael ble mae ein cynulleidfaoedd yn dymuno gwrandao arno, boed hynny yn y cartref drwy seinyddion clyfar, neu'r tu allan i'r cartref drwy ddyfeisiau symudol, neu drwy ddyfeisiau cysylltiedig mewn ceir.
- Byddwn hefyd yn parhau i wella BBC Sounds drwy gynnig personoli, curadu a nodweddion chwilio mwy effeithiol. Byddwn hefyd yn treialu cynnig rhai podlediadau ar raglenni radio'r BBC fel arlwy ar alw yn gyntaf ar BBC Sounds.
- Byddwn yn gwneud cynnwys lleol yn fwy hygyrch ar apiau BBC News a BBC Sounds. Byddwn yn cwblhau'r broses o gyflwyno ap BBC News ar ei newydd wedd, gan gynnwys gwasanaeth mwy personol.

Risg weddilliol

Mae risg weddilliol na fydd y BBC yn gallu ymateb yn gyflymach i'r duedd hirdymor sy'n gweld cynulleidfaoedd yn symud o deledu llinellol i SVOD ac o wasanaethau radio i wasanaethau ffrydio digidol.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Ymateb yn gyflymach i anghenion digidol cynulleidfaoedd
- Manteisio ar ddefnyddio data a chael gwerth o hynny e.e., personoli.
- Gwneud buddsoddiadau wedi'u targedu i ddenu a chadw sgiliau digidol er mwyn gwella ein portffolio cynnyrch.
- Gwella'r cynnwys a gynigir gennym ar gyfer Teledu, iPlayer, BBC Sounds a gwasanaethau digidol eraill

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Metrigau cynulleidfaoedd gan gynnwys cyrhaeddiad, defnydd, ehangder a'r amser a dreuliwyd gyda'r BBC yn ôl demograffeg gan gynnwys cynulleidfaoedd iau, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol y gwledydd a'r rhanbarthau.
- Gwyllo digyffelyb (defnyddio cynnwys nas darlledwyd e.e. SVOD, cynnwys gemau ar setiau teledu).
- Metrigau a fesurir ar draws Teledu, Radio, BBC Sounds ac iPlayer.
- Trafod perfformiad a thueddiadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd.

Beth yw'r risg?

Ni fydd y BBC yn cynnal ansawdd ac ehangder ei arlwy e.e. drama o'r radd flaenaf oherwydd ffiniau gweithredu. Mae hyn yn erbyn cefndir lle mae ein cystadleuwyr sydd wedi'u hintegreiddio'n fertigol yn buddsoddi'n fawr mewn cynnwys, gan gynhyrchu eu heiddo deallusol eu hunain a chipio talent. At hynny, mae risg na fydd y BBC yn cadw perchenogaeth a/neu reolaeth dros ei eiddo deallusol er mwyn sicrhau'r gynulleidfa, y priodoliad a'r gwerth masnachol gorau posibl.

Mae risg y bydd BBC Studios yn methu â datblygu eiddo deallusol newydd i ymelwa arno neu y bydd yn colli hawliau i eiddo deallusol sy'n bodoli eisoes. Mae llawer o gwsmeriaid byd-eang yn comisiynu ar sail hurio. Mae hyn yn golygu eu bod yn dod yn berchennog ar y rhan fwyaf o'r hawliau neu'r holl hawliau i'r cynnwys a gynhyrchir. Mae cyllidebau cwsmeriaid hefyd yn newid yn gynyddol o gaffael cynnwys i greu eu cynnwys/eiddo deallusol eu hunain, gan osgoi cynhyrchwyr traddodiadol.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?**BBC Studios**

- Bydd busnes BBC Studios yn cael ei ailstrwythuro'r flwyddyn hon a bydd yn dwyn ynghyd brosesau gwneud penderfyniadau creadigol a masnachol yn bedwar genre cynhyrchu penodol. Bydd hyn yn creu un portffolio cynnwys a strategaeth gyda'r nod o gefnogi uchelgeisiau a chynlluniau twf y busnes, a bydd yr holl benderfyniadau buddsodi creadigol a chynnwys yn cael eu gwneud yn unol ag un safbwynt strategol ar gyfer labeli a berchenogir yn gyfan gwbl ac yn rhannol, BBC Studios Productions a'r cynhyrchwyr anniibynnol y mae BBC Studios yn gweithio mewn partneriaeth â nhw i werthu cynnwys.
- Mae BBC Studios wedi buddsoddi mewn sawl cynhyrchydd anniibynnol. Mae hyn yn galluogi'r busnes i weithio mewn partneriaeth â thalent creadigol allweddol, a rhoi'r rhyddid i ganolbwyntio ar ddarparu cynnwys â blaenoriaeth mewn meysydd genre allweddol/a danwasanaethir.
- Mae BBC Studios wedi dechrau rhoi ei strategaeth uniongyrchol i ddefnyddwyr fyd-eang ei hun ar waith, sy'n canolbwyntio ar gynnwys teledu a ffilm Prydeinig. Mae gwasanaethau wedi cael eu lansio'n llwyddiannus yng Ngogledd America, Awstralia a De Affrica (ac mae rhagor o lansiadau yn yr arfaeth). Mae cynlluniau uchelgeisiol hefyd ar waith i dyfu gwasanaethau newyddion byd-eang sain a digidol.
- Mae'r busnes yn parhau i recriwtio i rolau allweddol, gan ddangos ei fod yn dal i fod yn ddewis atyniadol i dalent. Mae cymhellion wedi cael eu hadolygu'n anniibynnol er mwyn canfod beth sydd ei angen i gefnogi'r cynlluniau twf masnachol. Mae'r strategaeth rheoli cynrychiadau wedi cael ei hadnewyddu i fynd i'r afael â heriau o ran recriwtio a chadw ym maes cynhyrchu ac mae camau'n cael eu cymryd i weithredu ar argymhellion.
- Bydd BBC Studios yn parhau i hyrwyddo cynnwys y BBC a chynnwys Prydeinig arall yn fyd-eang, drwy werthu cynnwys, llunio cytundebau a gwneud rhaglenni â phartneriaid rhyngwladol.
- Bydd symud cynhyrchu Plant i BBC Studios yn helpu'r genre allweddol hwn i dyfu a chynhyrchu incwm ychwanegol.

Beth yw'r effaith?

Mae'r gystadleuaeth ddwysach gan weithredwyr mwy o faint yn golygu bod caffael cynnwys sy'n cynrychioli'r DU yn mynd yn rhy ddrud, sy'n effeithio ar ein gallu i gadw cynulleidfaoedd mewn amgylchedd hynod gystadleuol.

Gwerth y Grŵp yn mynd yn llai os na all BBC Studios ymateb i newidiadau ar y farchnad, ennill busnes newydd proffidiol a datblygu eiddo deallusol newydd i ymelwa arno'n fasnachol.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

2. Creadigrwydd a chynnwys – parhad

2 3 4 5 ▲

Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC

- Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i sicrhau amrywiaeth y tu ôl i'r camera o ran tair nodwedd warchoddedig: Grwpiau Ethnig Leiafrifol, Anabledd ac Amrywiaeth Economaidd-Gymdeithasol ym mhob cynnwys newydd sy'n cael ei gomisiynu, er mwyn ysgogi newid mewn cynrychiolaeth oddi ar y sgrin.
- Bydd ein rhaglen cydraddoldeb 50:50 rhwng y rhywiau hynod lwyddiannus, sydd â'r nod o sicrhau cynrychiolaeth gyfartal rhwng menywod a dynion ar y sgrin ac ar yr awyr, yn parhau. Rydym yn sicrhau bod cynrychiolaeth hefyd yn cynnwys Anabledd a'r rhai o grwpiau ethnig leiafrifol.
- Drwy sefydlu partneriaethau â Northern Ireland Screen, Screen Scotland, Cymru Greadigol a Create Central yng Nghanolbarth Lloegr, bydd BBC Three yn ariannu cyfleoedd i gwmnïau cynhyrchu annibynnol ddatblygu a chynhyrchu cynnwys lleol.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu BBC Four yn unol â'r cynlluniau a nodwyd gennym yr adeg hon y llynedd er mwyn troi BBC Four yn gartref i archif gyfoethog y BBC a pherfformiadau celfyddydol a cherddoriaeth.
- Byddwn yn gweithio gyda nifer o gynhyrchwyr annibynnol i fentora a datblygu eu galluedd, gyda ffoecs penodol ar dalent a chynhyrchwyr amrywiol a rhanbarthol.
- Rydym yn buddsoddi mewn cynnwys mawr ei effaith i blant, gan gynnwys sicrhau mwy o werth gan *Newsround*, datblygu brandiau ein rhaglenni i gyflwyno cynulleidfaoedd i iPlayer a sicrhau gwerth i Grŵp y BBC, a diogelu ein harlwy Bitesize ar-lein at y dyfodol. Rydym hefyd yn hybu perfformiad ac ymgysylltu, gan gynnwys datblygu iPlayer fel cyrchfan hyfyw i blant, hybu'r defnydd o gynhyrchion ar-lein a gwneud y BBC yn gyrcfan i deuluoedd â phlant.
- Yn 2022/23, byddwn yn comisiynu ein tri chynllun peilot cyntaf o dan fenter Ignite, sy'n cefnogi'r economi greadigol drwy ddatblygu talent animeiddio newydd ym mhob rhan o'r DU.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn adlewyrchu'r gystadleuaeth ddwys am dalent a'r duedd o hyd o ran cost gynyddol creu cynnwys, sy'n annhebygol o ostwng i'r lefelau cyn y pandemig.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Bydd setliad ffi'r drwydded, yn enwedig ar adeg o chwyddiant uchel a chwyddiant uchel dros ben yn y cyfryngau yn golygu gostyngiad mewn termau real yn y buddsoddiad y gallwn ei wneud yn y sector creadigol ehangach yn y DU.
- Mae heriau sy'n gysylltiedig â sicrhau gwerth o fuddsoddiadau, wrth i gostau gynyddu, a'r farchnad fyd-eang yn cael eu dominyddu gan ychydig o weithredwyr mawr sy'n gallu dylanwadu'n fawr ar y sefyllfa o ran prisiau a hawliau.
- Mae integreiddio fertigol a chydgyfnerthu yn y farchnad (e.e. uno Discovery/Warner) yn debygol o barhau wrth i fwy o gwmnïau geisio magu grym a chreu eu cynnwys a'u heiddo personol eu hunain. Mae hyn yn atal y BBC rhag caffael cynnwys ac yn achosi risg na all busnesau Cynhyrchu a Dosbarthu BBC Studios weithredu fel cyfryngwyr mwyach.
- Mae'r cyflenwad rhaglenni ar gyfer digwyddiadau chwaraeon yn dibynnu'n helaeth ar y system digwyddiadau a restrir.
- Cadw talent greadigol allweddol yn y BBC, mewn marchnad hynod gystadleuol.

▲ Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2021/22?

Wrth i gewri cyfryngau byd-eang gynyddu eu dominyddiaeth o'r diwydiant, maent yn dod â buddsoddiad a chyllid sylweddol i'r farchnad ac yn cynnig cytundebau buddiol ac unigryw i dalent allweddol. Mae cydgyfnerthu yn y farchnad yn parhau, gydag enghreifftiau o uno endidau mawr e.e., uno Warner Brothers a Discovery a phenderfyniad Amazon i gaffael MGM. Mae cytundebau o'r fath yn cryfhau llifau cynnwys mewn nifer o genres.

O safbwynt y BBC, mae gweithgarwch o'r fath yn cynyddu'n sylweddol y gystadleuaeth am dalent ac mae'n parhau i gynyddu cost cynnwys a lleihau maint yr elw i'n busnesau masnachol.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Canlyniadau arolygon comisiynu blynyddol.
- Nifer y cynrychiadau o'r radd flaenaf a gomisiynir gan y BBC a'u gwerth.
- Buddsoddiad gan drydydd partion yng nghomisiynau'r BBC.
- Mesurau o amrywiaeth ganfyddedig ac amrywiaeth wirioneddol ar y sgrin.
- Metrigiau cynulleidfaoedd ar gyfer rhaglenni'r BBC.
- Caiff metrigau pobl/talent eu holrhain a'u cofnodi ac mae busnesau'n gweithio'n agos gyda staff adnoddau dynol i godi materion a chymryd camau gweithredu.
- Y broses Adolygu Perfformiad chwarterol sy'n ystyried perfformiad ariannol a strategol a'r ymyriadau a wneir.
- Mae'r broses buddsoddi a chymeradwyo yn pennu trothwyon ariannol ar gyfer buddsoddi a monitro perfformiad ac enillion o fuddsoddi.
- Monitro iechyd y llif talent yn erbyn meysydd blaenoriaeth cynnwys allweddol.
- Monitro perfformiad fformatau ar draws y teitlau.
- Monitro perfformiad cynhyrchwyr annibynnol yn agos o fewn y portffolio.
- Comisiynau a enillwyd (BBC a thrydydd partion).

Beth yw'r risg?

Ni fydd y BBC yn darparu cynnwys newyddion diduedd a chywir yr ymddiriedir ynddo yn yr amgylchedd sydd ohono, ac felly ni fydd yn cadw ymddiriedaeth y gynulleidfa yn y BBC. Mae risg nad yw ein prosesau na'n gweithdrefnau golygyddol yn cael eu dilyn yn gywir mewn straeon unigol neu o fewn timau.

Mae risg hefyd nad ydym yn adlewyrchu safbwyntiau, barn a hunaniaethau o bob cwr o'r DU.

Beth yw'r effaith?

Mae methiant i gyflwyno arlwy newyddion diduedd a chywir y gellir ymddiried ynddi yn arwain at golli ymddiriedaeth yn y BBC, anfodlonrwydd ymhlith cynulleidfaoedd a cholli cynulleidfaoedd.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Mae ein cynllun deg pwynt ar ddiueddrwydd a safonau golygyddol yn ymgorffori ein hymateb i Adolygiad Serota a dyna ein hymgais fwyaf arwyddocaol i sicrhau bod cynnwys y BBC, nid dim ond ein Newyddion ond ein holl allbwn, yn deg, yn gywir ac yn ddiuedd, ac yn adlewyrchu set ehangach o safbwyntiau o bob cwr o'r DU.
- Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn pennu gwerthoedd a safonau golygyddol y BBC. Mae'r Canllawiau yn atgyfnerthu gofyniad y Siarter i weithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn diduedd, nodedig o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.
- Mae ein canllawiau newydd ar ddiueddrwydd a'r cyfryngau cymdeithasol yn ategu Canllawiau Golygyddol y BBC; gyda'i gilydd, maent yn gosod y safonau uchaf yn y diwydiant.
- Byddwn yn cyhoeddi adolygiadau thematig o gynnwys a arweinir gan Fwrdd y BBC. Bydd y cyntaf o'r rhain yn canolbwyntio ar y sylw y mae'r BBC yn ei roi i wariant a threthiant yn y DU.
- Byddwn yn dechrau'r rhaglen newydd o adolygiadau mewnol o gynnwys, gan asesu i ba raddau y mae newyddion a chynnwys ffeithiol yn cyrraedd y safonau golygyddol; bydd yr adolygiadau hyn yn cwmpasu meysydd eraill yn ychwanegol at newyddion a chynnwys ffeithiol.
- Mae ein hyfforddiant newydd ar Ddiogelu Didueddrwydd wedi cael ei gyflwyno i'r holl staff a byddwn bellach yn ei gyflwyno'n fwy cyffredinol i gynnwys cynhyrchwyr annibynnol.
- Ffocws penodol ar hyfforddiant ar ddiueddrwydd i staff newydd sy'n ymuno, er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth gadarn o hanfodion didueddrwydd yn rhan annatod o bob gyrfa yn y BBC o'r cychwyn cyntaf.
- Rydym wedi cynnwys cwestiynau ynglŷn â didueddrwydd am y tro cyntaf yn yr arolwg staff, ac mae hyn eisoes wedi'i ymgorffori ym Mynegai'r Uwch-arweinwyr i'w drafod ag uwch-arweinwyr wrth adolygu perfformiad.
- Rydym wedi neilltuo mwy o adnoddau ar gyfer Polisi Golygyddol ac wedi cynnwys amrywiol fesurau i wella eu proffil a'u heffaith.
- Rydym wedi diweddarau cylch gorchwyl y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol er mwyn ehangu ei rôl o ran monitro risg olygyddol, ac mae dau arbenigwr golygyddol allanol yn cael eu recriwtio.
- Rydym yn diweddarau'r Fframwaith Cwynion i gynnwys proses garlam o ymdrin â chwynion a byddwn yn cyhoeddi proses o hunanymchwilio i achosion o dorri'r Safonau Golygyddol.
- Mae rheolau ar ymrwymadau allanol wedi bod ar waith ers 2021, gyda chofrestr o ddigwyddiadau allanol yn ei gwneud yn ofynnol i bob newyddiadur ac uwch-arweinydd yn y BBC ofyn am ganiatâd ysgrifenedig cyn derbyn gwahoddiad ar gyfer ymrwymadau annerch allanol a digwyddiadau cyhoeddus eraill. Cyhoeddir cofrestr o ddigwyddiadau allanol â thâl bob chwarter.
- Byddwn yn mynd i'r afael â chamwybodaeth, propaganda a chynnydd mewn naratifau a gefnogir gan y wladwriaeth drwy barhau i chwarae rôl flaenllaw yn y Fenter Newyddion yr Ymddiriedir Ynddo, sef cydweithrediad rhwng sefydliadau newyddion a thechnoleg fyd-eang mawr.
- Bydd BBC Monitoring yn parhau i olrhain camwybodaeth a naratifau anwir am yr etholiadau, y pandemig a brechlynnau yn fyd-eang, gan ymchwilio i ganfod pwy sy'n lledaenu twyllwbybodaeth ar-lein.

✓ Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2021/22?

Mae ein sgoriau didueddrwydd o dan bwysau o hyd ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Erys barn ddargyfeiriol y cyhoedd ar fferion cenedlaethol yn her o hyd.

Fodd bynnag, mae'r risg hon wedi lleihau ers y flwyddyn ddiwethaf yn seiliedig ar ddata ymchwil i gynulleidfaoedd, a chyfradd cwblhau hyfforddiant ar Ddiogelu Didueddrwydd o 92%+ ymhlith staff y BBC. Mae canlyniadau'r arolwg staff yn cefnogi'r gwelliant hwn gyda sgoriau uchel ar gyfer dealltwriaeth staff o bwysigrwydd didueddrwydd i'r BBC a pha mor aml y mae rheolwyr yn hyrwyddo didueddrwydd. Wrth roi ein cynllun deg pwynt ar waith, ein nod yw lliniaru'r risg hon ymhellach ond nid yw ar waith yn llawn eto, a bydd yn cymryd amser i rai mentrau gael effaith. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn blaenoriaethu ac yn monitro hyn mewn ffordd fwy systematig nag erioed o'r blaen.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

3. Natur ddiuedd, ymddiriedaeth a chywirdeb

1 3 4 5 >

Risg weddilliol

Nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Risg barhaus o ran darparu newyddion a chynnwys diduedd a dibynadwy ar bob un o lwyfannau'r BBC.
- Risg barhaus o gamwbyodaeth yn y DU ac yn fyd-eang.
- Datblygu'r genhedlaeth nesaf o dalent ar yr awyr ac oddi ar yr awyr a gweithlu sy'n ymgorffori gwerthoedd y BBC ynglŷn â didueddrwydd.
- Heriau sy'n ymwneud â dyfnder dealltwriaeth a sgiliau ym mhob rhan o'r BBC yn yr amgylcheddol allanol cynyddol gymhleth a heriol.
- Defnydd cadarn o'r cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig i bobl iau, sy'n arwain at fwy o bryderon ynglŷn â lledaenu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Arolygon cynulleidfa a metrigau sy'n mesur gwerth a didueddrwydd.
- Ystadegau ar gyfer hyfforddiant ar ddiueddrwydd.
- Cofrestr o ddigwyddiadau allanol.
- Cofrestr gyhoeddus newydd o ymrwymadau â thâl, a gyhoeddir bob chwarter.
- Rolau ehangach i'r tîm Polisi Golygyddol a'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol.
- Canlyniadau'r arolwg staff.

4. Cyrhaeddiad byd-eang

1 3 5 v

Beth yw'r risg?

a) Cyrhaeddiad byd-eang

Mae risg y bydd amodau'r farchnad fyd-eang, lle mae mwy o ddewis i ddefnyddwyr sy'n troi at y cyfryngau cymdeithasol, a lle mae cyfyngiadau ar ein proses ddsbarthu mewn tiriogaethau allweddol, yn effeithio ar yr uchelgais i gyrraedd 500 miliwn o bobl yn fyd-eang erbyn 2022.

b) Priodoli cynnwys i'r BBC

Mae'r gyfran uchel o gyrhaeddiad y World Service a ddarperir drwy syndicetio yn peri risg na fydd cynulleidfaoedd mewn rhai rhannau o'r byd yn priodoli cynnwys i'r BBC.

Beth yw'r effaith?

- a) Byddai'r World Service yn methu â chyrraedd y targedau cynulleidfaoedd byd-eang a bennwyd ar ei gyfer.
- b) Gallai'r ffaith nad yw cynulleidfaoedd yn priodoli cynnwys yn gywir i'r BBC arwain at lefelau is o gyrhaeddiad a gofnodir a mwy o bwysau ar lefelau ymddiriedaeth yn y cynnwys a/neu'r gwasanaeth mewn marchnadoedd lleol.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Rydym yn parhau i fonitro allbwn, gyda chymorth ymchwil sylfaenol, er mwyn datblygu'r hyn a gynigir gennym yn lleol ac yn fyd-eang a deall sut y gallwn barhau i gyrraedd cynulleidfa fyd-eang ehangach, gan gynnwys targed ar gyfer demograffeg cynulleidfaoedd iau a benywaidd.
- Mae prosiectau ymchwil ar ffactorau sy'n ysgogi'r effaith ar gynulleidfaoedd, ac anghenion ac ymddygiadau grwpiau demograffig allweddol, wedi'u cael eu rhoi ar waith yn ddiweddar a byddant yn llywio penderfyniadau ynghylch cynnwys a chynnyrch yn y dyfodol.
- Caiff perfformiad pob llwyfan ei olrhain ar draws pob marchnad er mwyn sicrhau bod penderfyniadau golygyddol a phenderfyniadau buddsoddi strategol lleol yn cael eu gwneud o fewn y cyd-destun a'r cyrhaeddiad byd-eang ehangach ac yn effeithio ar nodau.
- Caiff contractau syndicetio eu rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf drwy bartneriaid dibynadwy yr ymddiriedir ynddynt, a sicrhau bod brand y BBC yn parhau i fod yn gryf ac yn glir ar yr un pryd.
- Mae meddu ar y llwyfan cywir mewn marchnadoedd gwahanol yn allweddol er mwyn sicrhau cyrhaeddiad, dylanwad ac effaith – caiff patrymau dosbarthu eu monitro'n barhaus er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir ym mhob marchnad.
- Byddwn yn cyflymu trawsnewidiad digidol BBC World Service, gan wella ein cynhyrchion digidol, gwella tudalennau byw craidd a pherfformiad fideo er mwyn rhoi gwell profiad sy'n cyd-fynd ag anghenion cynulleidfaoedd.
- Bydd BBC World Service, yn Saesneg ac mewn mwy na 40 o ieithoedd eraill, yn parhau i ystyried themâu byd-eang megis sut mae gwledydd yn ceisio symud ymlaen ar ôl pandemig COVID-19, sut maent yn ymdrin â her newid yn yr hinsawdd, ac yn parhau i roi sylw i ddigwyddiadau byd-eang allweddol, gan gynnwys goresgyniad Wcráin gan Rwsia.
- Byddwn yn gwneud buddsoddiad newydd yn ein hallbwn newyddion digidol mewn marchnadoedd byd-eang allweddol, a bydd BBC Studios yn parhau i ddatblygu a thyfu gwasanaethau tanysgrifio digidol uniongyrchol i ddefnyddwyr, gan adeiladu ar lansio gwasanaeth ffrydio fideo ffeithiol BBC Select a BBC Podcasts Premium yng Ngogledd America.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn adlewyrchu'r uchelgais gynyddol i adeiladu ar berfformiad byd-eang cryf er mwyn sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau yn cael mwy o effaith ar gynulleidfaoedd.

Yn benodol, nodwyd y dyldid ystyried y canlynol:

- Gallai cynyddu'r ffocws ar gryfhau ymgysylltiad â grwpiau allweddol o'r gynulleidfa a meithrin cydberthynas fwy cyson â marchnadoedd allweddol ledled y byd roi pwysau ar y gwaith o ddatblygu cyrhaeddiad yn y dyfodol (y tu hwnt i 2022).
- Er bod cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer y World Service ar gyfer 2022/23, mae cyllid tymor hwy yn parhau'n ansicr.

▼ Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2021/22?

Bu cynnydd mawr yn niferoedd cynulleidfaoedd, gan gyrraedd mwy na 493 miliwn. Ysgogwyd llawer o'r cynnydd hwn drwy ddatblygu ein cyrhaeddiad digidol – ar ein llwyfannau ein hun ac ar safleoedd cymdeithasol.

Mae cyd-drafodaethau â'r Llywodraeth ynglŷn â buddsoddiad yn BBC World Service wedi arwain at estyniad i gyllid y Swyddfa Dramor a Chymanwlad hyd at 31 Mawrth 2023, a pharhad y taliad chwyddo blwyddyn o £8 miliwn i gefnogi'r gwaith o ehangu gwasanaethau digidol a mentrau allweddol i fynd i'r afael â thwyllwbyodaeth fyd-eang – e.e., ymchwiliadau megis Africa Eye, sy'n helpu i ddatblygu brand, cyrhaeddiad ac effaith.

Bydd BBC World Service yn cael £4.1 miliwn ychwanegol mewn cyllid brys i'w helpu i barhau i ddarlledu newyddion annibynnol, diduedd a chywir i bobl yn Wcráin a Rwsia, a chreu cynnwys i wrthwynebu twyllwbyodaeth am y rhyfel yn Wcráin

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Cyrhaeddiad byd-eang yn erbyn y targed.
- Dangosyddion ansawdd o argraff y gynulleidfa.
- Dangosyddion o effaith y BBC ar y gynulleidfa.
- Cymysgedd y gynulleidfa (syndicetio, ar-lein).
- Cyfansoddiad cynulleidfaoedd byd-eang (cynulleidfaoedd iau, benywaidd).

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

5. Ein sefyllfa ariannol

1 2 3 4 5 ^

Beth yw'r risg?

Y risg na fyddwn yn rheoli a/neu'n gwrthbwysu'n effeithiol gost gynyddol cynhyrchu a darlledu'r allbwn creadigol o ansawdd uchel y mae ein cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl nac yn parhau i fuddsoddi i wella ein gwasanaethau digidol.

O ran ffi'r drwydded, mae'r risgiau yn cynnwys llai o incwm o ffi'r drwydded e.e., mwy o ddefnyddwyr yn osgoi talu ffi'r drwydded neu gost gynyddol ei chasglu neu ostyngiad yng nghyfraddau twf aelwydydd. Ceir risg hefyd na fydd y BBC yn parhau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn ei weithrediadau ac felly na fydd yn sicrhau hyd yn oed mwy o werth am arian.

Mae risg y bydd endidau masnachol y BBC yn methu ag ymateb i heriau'r farchnad a thrwy hynny'n lleihau enillion ariannol.

Mae newidiadau andwyol yn y dyfodol i brisiad actiwaraid y cynllun pensiwn yn risg i sefydlogrwydd ariannol, fel y byddai unrhyw gynnydd arall mewn costau gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig – ceir rhagor o fanylion ar dudalen 56. Byddai gostyngiad yn statws credyd y BBC yn cynyddu cost cyllido.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Monitro cyfraddau casglu ffi'r drwydded ac osgoi talu yn fanwl, gan gynnwys gostyngiad yng nghyfraddau twf aelwydydd.
- Gallu benthyca ychwanegol wedi'i roi i'r grŵp masnachol er mwyn galluogi mwy o fuddsoddiad a chyfleoedd twf a fydd yn sicrhau enillion ariannol ychwanegol.
- Y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Bwrdd Masnachol a'r Bwrdd Gweithredol yn craffu ar sefyllfa ariannol y BBC, gyda gwaith craffu pellach gan y Pwyllgor Gweithrediadau.
- Rydym yn parhau i sicrhau bod ein gorbenion yn parhau'n isel ac yn ôl meincnodi allanol, rydym yn y chwartzel uchaf.
- Mae'r BBC ac ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn wedi cytuno ar gynllun adfer a chytunwyd ar gynllun taliad diffyg hefyd.
- Mae'r tîm cyllid yn ymgymryd â gwaith cynllunio tymor hwy ac yn gwneud rhagfynegiadau tymor hwy er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ar wariant.
- Adolygiadau busnes gweithredol a hyfywedd blynyddol i asesu sefydlogrwydd ariannol parhaus.
- Cynnal statws credyd sefydlog heb newid sylweddol.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn adlewyrchu'r effeithiau niweidiol posibl parhaus ar refeniw ffi'r drwydded a'r targedau newydd o ran enillion ariannol i is-gwmnïau masnachol.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Lefelau uchel o chwyddiant ar hyn o bryd a fydd yn cael effaith sylweddol ar ein staff a'n cyflenwyr wrth i gontractau allweddol gael eu hailnegodi yn ogystal â chwyddiant uchel dros ben ym myd y cyfryngau.
- O dan setliad diweddar ffi'r drwydded, bydd yn rhaid i'r BBC ddod o hyd i swm ychwanegol o £285 miliwn mewn arbedion blynyddol erbyn 2027/28.
- Mwy o gyfraniadau gan weithgarwch masnachol.
- Cyflwyno model gweithredu diwygiedig yn llwyddiannus, gan gynnwys sicrhau arbedion i wrthbwysu'r gostyngiad yn incwm ffi'r drwydded.
- Risgiau sy'n ymwneud â'r model ariannu ar ôl 2027.

Beth yw'r effaith?

Bydd lleihad yn incwm ffi'r drwydded neu enillion endidau masnachol neu fethiant i liniaru pwysau ar y sylfaen costau oherwydd chwyddiant yn cael effaith negyddol ar wasanaethau a chwmpas yr hyn y bydd y BBC yn gallu ei gynnig i'w gynulleidfaoedd, ei staff a'i gyfranwyr.

^ Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2021/22?

Erys yr heriau ariannol yn risg uwch i'r BBC. Caiff ffi'r drwydded ei rhewi ar ei phris presennol am ddwy flynedd o 22/23 ac yna bydd yn cynyddu'n unol â chwyddiant ar gyfer y pedair blynedd ddilynol, ar adeg o chwyddiant uchel, gan gynnwys yn y marchnadoedd ynni a chwyddiant uchel dros ben yn y farchnad cynnwys a thalent.

Mae arferion gwyllo a gostyngiad yng nghyfran y gynulleidfa yn peri risg ariannol gan fod pobl yn llai tebygol o dalu ffi'r drwydded os nad ydynt yn gwyllo cynnwys y gellir codi ffi'r drwydded amdano.

Bu ffocws o hyd drwy gydol y flwyddyn ar gyflwyno cynlluniau effeithlonrwydd ac arbedion. Mae rhagor o arbedion a chamau lliniaru yn yr arfaeth, sy'n ystyried y pwysau cynyddol oherwydd chwyddiant, er mwyn sicrhau y parheir i ddarparu allbynnau o ansawdd uchel ar gyfer talwyr ffi'r drwydded. Y flwyddyn hon, rydym wedi llwyddo i gyflawni £274 miliwn ychwanegol o arbedion blynyddol gan ddod â chyfanswm yr arbedion ar ddiwedd y cynllun i £1,029 miliwn, gan gynnwys £38 miliwn o arbedion untro.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Cyfraddau casglu ar gyfer refeniw ffi'r drwydded.
- Adroddiadau rheolaidd i randdeiliaid allanol e.e., Ofcom, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ymddiriedolwyr y pensiwn ac ati.
- Meincnodi gweithgareddau'n allanol a defnyddio prosesau caffael i sicrhau gwerth.
- Metrigau ar berfformiad endidau masnachol gan gynnwys gwerthiannau, EBITDA a llif arian parod.
- Statws credyd y BBC.
- Perfformiad cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC.
- Adolygiadau ac adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Gweithredol, y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd Masnachol.

Beth yw'r risg?

Mae graddau'r newid sefydliadol a diwylliannol sydd ar waith yn peri risg y caiff y sefydliad ei roi dan bwysau gweithredol sylweddol.

Mae risg na allwn gadw cyflogeion mewn meysydd allweddol oherwydd y lefel gynyddol o newid ac aflonyddu, anawsterau wrth weithredu trefniadau gweithio hybrid neu ymddieithrio yn sgil methiant i gyflawni ein targedau ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Rhoi'r pwys mwyaf ar lesiant staff y BBC drwy greu amgylchedd diogel, sy'n ymrwymedig i weithio hybrid.
- Targedau amrywiaeth clir, fel y'u nodwyd yn ein Cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd i'r Gweithlu ar gyfer 2021-23, gan gynnwys cynyddu cyfran y menywod, y rhai o gefndir ethnig a lleiafrifol a'r rhai sydd ag anabledd. Bydd y cynllun hwn yn creu diwylliant cynhwysol ac yn cefnogi ein hymrwymiad i greu BBC 50:20:12.
- Cynlluniau i newid cymysgedd economaidd-gymdeithasol ein staff er mwyn adlewyrchu cymdeithas y DU yn well. Erbyn 2027/28, rydym am i 25% o'n staff ddod o gefndir economaidd-gymdeithasol is.
- Parhau â dull gweithredu myConversation mewn perthynas â pherfformiad a datblygiad staff sy'n canolbwyntio ar nodau, gyrfa a datblygiad.
- Parhau i roi ffocws ar y Rhaglen Mynegai i Uwch-arweinwyr; ffordd gyson o fesur, gwerthfawrogi a chefnogi ein harweinwyr a sicrhau eu bod yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad;
- Cyflwyno rhaglen brentisiaeth graidd y BBC gyda chynlluniau i gyflwyno 1,000 o brentisiaethau erbyn 2025, a chofrestru'r garfan gyntaf â'r Hwb Prentisiaethau yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr.
- Gwell pecyn o fuddiannau i staff, sydd bellach yn cynnwys cynhyrchion cynilo yn y gweithle er mwyn cefnogi llesiant ariannol.
- Lansio Rhaglen Gwerthoedd y BBC gyda ffocws newydd ar ddiwylliant yn y gweithle i gefnogi cydweithwyr.
- Mae llinell gymorth chwythu'r chwiban ar waith a chynhelir ymchwiliadau lle y bo'n briodol.
- Ffordd agored ac effeithiol o weithio gyda'r undebau.
- Prosesau helaeth o gyfathrebu â'r staff, gyda gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei fonitro drwy arolygon staff.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud ag effaith newid sylweddol ym mhob rhan o'r sefydliad.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Cadw staff allweddol yn y BBC.
- Trosiant uwch ymhlith y staff yn ystod y misoedd diwethaf ar ôl y pandemig.
- Effeithiau hirdymor ar straen sefydliadol am BBC symlach.
- Lefel y newid a'r risg o weithredu diwydiannol wrth i fentrau newydd a chynlluniau arbedion barhau.

Beth yw'r effaith?

Anallu i gadw a hurio talent a staff wedi ymddieithrio sy'n effeithio ar gynhyrchiant ac yn cynyddu'r posibilrwydd o weithredu diwydiannol.

^ Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2021/22?

Mae'r risg i'n pobl wedi cynyddu oherwydd nifer o resymau a amlinellir isod.

Mae'r broses o fabwysiadu ffordd hybrid o weithio yn dal i fod yn her i'r sefydliad, wrth i'r gweithlu ddechrau dychwelyd i'r gweithle.

Mae cryn dipyn o newid sefydliadol, yn enwedig wrth roi strategaeth Across the UK ar waith, ac mae newidiadau'n mynd rhagddynt yn y grwpiau Newyddion, Technoleg a Chynhyrchion.

Mae'r lefel o newid diwylliannol wedi'i hategu gan broses drawsnewid radical ym mhob un o is-adrannau'r BBC, gan gyflwyno mentrau eofn a hirsefydledig ac arloesi strwythurol, er mwyn creu sefydliad symlach a mwy darbodus, a sicrhau bod pob maes yn cyrraedd targedau 50:20:12.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Canlyniadau arolygon o foddhad cyflogeion.
- Cyfraddau cadw cyflogeion, trosiant a 'rheswm dros adael'.
- Cynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, anabledd, rhywedd, LHDTc+ mewn rolau arwain ac o ran y staff yn gyffredinol.
- Monitro targedau amrywiaeth a chynhwysiant fel rhan o Fynegai'r Uwch-arweinwyr.
- Monitro'r llinell gymorth chwythu'r chwiban.
- Cyfraddau cwblhau cyrsiau hyfforddi.
- Y defnydd o adnoddau llesiant.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

Risgiau gweithredol

1. Iechyd, diogelwch a diogeledd



Beth yw'r risg?

Y risg y byddwn yn methu â diogelu iechyd, diogelwch a llesiant ein cyflogeion ac aelodau'r cyhoedd rydym yn dod i gysylltiad â nhw. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw'r rhai y mae arnom ddyletswydd gofal iddynt yn cael eu peryglu o ganlyniad i un digwyddiad mawr neu dros gyfnod o amser. Risg y byddwn yn methu â darparu amgylchedd sy'n ddiogel o ran COVID-19 yn ein gweithle ac ar ein safleoedd.

Beth yw'r effaith?

Anallu i ofalu am iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl ein pobl, cyfranwyr ac ymwelwyr. Gall methiant yn hyn o beth hefyd achosi niwed i enw da'r BBC neu arwain at ganlyniadau cyfreithiol, rheoleiddiol neu ariannol.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

Iechyd a diogelwch:

- Cafodd Asesiad Risg COVID-19 a mesurau cadw'n ddiogel rhag COVID-19 eu hadolygu a'u diweddarau'n barhaus drwy gydol y pandemig er mwyn galluogi pobl i weithio'n ddiogel yng ngweithleoedd y BBC.
- Cynhaliodd uwch-reolwyr a chynghorwyr diogelwch gyfres o Weithgareddau Monitro Sicrwydd ym mhob rhan o'r sefydliad a ganolbwyntiodd yn benodol ar reoli risg COVID-19 er mwyn sicrhau bod rheolaethau'n cael eu dilyn a bod risgiau'n cael eu hasesu mewn ffordd addas.
- Cynyddwyd cymorth iechyd (corfforol a meddyliol) a llesiant i ddarparu nifer o wasanaethau a oedd yn berthnasol i'r heriau roedd pobl yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig.
- Cydweithiodd y BBC â darlledwyr eraill i gyhoeddi'r Canllawiau ar COVID-19 i'r Diwydiant Cynhyrchu er mwyn galluogi cynrychiadau (rhai'r BBC a rhai annibynnol) i weithio'n ddiogel drwy gydol y pandemig.
- Cafodd y llwyfan adrodd ar gyfer digwyddiadau, asesiadau risg, sicrwydd ac arolygiadau ei wella i'w wneud yn fwy hygyrch i'r busnes ac aeddfedu galluoedd mesur perfformiad diogelwch.
- Cafodd yr hyfforddiant gorfodol ar ddiogelwch ei ailgynllunio a'i ddarparu ar-lein er mwyn sicrhau y gall pawb gael hyfforddiant mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw a'u ffyrdd o weithio.

Diogelu:

- Mae'r trefniadau diogelu wedi pontio'n llwyddiannus i'r model Llywodraethu a Sicrwydd newydd, sy'n canolbwyntio ar gasglu sicrwydd ar fesurau lliniaru diogelu, yn fewnol ac yn ystod ymrwymtiadau trydydd parti, gan sicrhau y caiff risg ei rheoli'n effeithiol.
- Cymeradwywyd ymestyn hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o ddiogelu i holl fodiwlau gorfodol staff i'w lansio ym mis Mehefin 2022, gyda hyfforddiant lefel uwch eisoes wedi cael ei ddiweddarau a'i ail-lansio er mwyn adlewyrchu arferion gorau ym maes diogelu yn y sector darlledu.
- Mae canllawiau ar wirio cofnodion troseddol wedi cael eu diweddarau i ehangu rolau gweithgareddau rheoleiddiedig sy'n gymwys drwy'r sefydliad cyfan a thrwy hynny gryfhau ymhellach y ddarpariaeth bresennol ar gyfer gwirio cofnodion troseddol ym mhob rhan o Grŵp y BBC.
- Mae'r rhwydwaith o gynghorwyr ar weithio gyda phant wedi cael ei ailgwmpasu a'i ail-lansio a thrwy hynny wedi gwella'r ddarpariaeth o staff sydd wedi cael hyfforddiant diogelu lefel uwch drwy'r busnes cyfan.

Diogelwch/rolau risg uchel:

- Hyfforddiant arbenigol ar gael i staff mewn rolau risg uchel (a'u rheolwyr) a phob rôl yn destun asesiad risg trylwyr. Timau arbenigol yn rhoi cymorth ychwanegol ar lawr gwlad i'r staff sy'n gweithio yn Affganistan, Wcráin a Rwsia, gan gynnwys tynnu staff y BBC yn ôl.
- Cynnal gwaith cynllunio senarios ac ymarferion efelychu gyda thimau rheoli allweddol.
- Adolygiadau parhaus o ddiogelwch ar safleoedd y BBC a lleoliadau darlledu allanol, a chysylltiadau agos ag awdurdodau diogelwch y DU a fforymau diogelwch traws-sector.
- Ymchwilio i bob digwyddiad a gofnodir er mwyn nodi unrhyw gamau unioni sydd eu hangen.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2021/22?

Bu'r pandemig yn her barhaus i fusnesau ac o ran newidiadau ar fyr rybudd mewn ymateb i amrywiolion newydd, rheolau newydd gan y Llywodraeth a phroffil risg datblygol. Mae'r BBC yn parhau i asesu risg er mwyn sicrhau bod ei fesurau yn addas ac yn ddigonol, ac wedi'u haddasu ar gyfer y proffil risg newidiol.

Yn sgil cyflwyno rhaglenni brechu a rheolaethau cymunedol y Llywodraeth, mae difrifoldeb y feirws wedi lleihau i lefel lle y gellir adolygu ac addasu rheolaethau er mwyn hwyluso newid i 'Byw gyda COVID-19.

Mae BBC Safety wedi gweithio tuag at wella'r Systemau Rheoli Diogelwch yn barhaus, gan ei gwneud yn haws i gymryd perchenogaeth o risgiau i ddiogelwch a'u rheoli a thrwy hynny gynyddu'r gallu i gymryd perchenogaeth o risg.

Mae mwy o wiriadau cofnodion troseddol ar lefel fanylach i dalent a staff perthnasol wedi gwella prosesau craffu ac fel y cyfryw maent yn lleihau risg. Mae ymgorffori hyfforddiant ar godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch mewn modiwlau hyfforddiant gorfodol newydd i'r Grŵp cyfan yn codi ymwybyddiaeth o ddiogelu a sut i godi pryderon ym mhob rhan o'r sefydliad, gan ehangu'r diwylliant o dryloywder ac ymddiriedaeth. Mae ffocws ar sicrwydd diogelu wedi gwella cydymffurfiaeth ym mhob rhan o'r busnes, gyda mesurau rheoli a'r broses o'u rhoi ar waith yn llwyddiannus yn cael eu hymgorffori ymhellach ym mhob is-adran.

Cyfyngwyd ar deithiau rhyngwladol i amgylcheddau gelyniaethus yn sgil y pandemig a, lle roedd angen, darparwyd hyfforddiant ar-lein. Dechreuwyd cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb unwaith eto ym mis Rhagfyr 2020.

1. Iechyd, diogelwch a diogeledd – parhad



Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn adlewyrchu'r angen i ddiogelu ein pobl, ein newyddiadurwyr a'n gohebwywr wrth iddynt gyflwyno adroddiadau yn y DU ac yn rhyngwladol.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Risgiau i'n newyddiadurwyr, yn gorfforol ac ar-lein, yn y DU ac yn rhyngwladol.
- Effaith ar iechyd meddwl, materion llesiant a'r effaith tymor hwy ar iechyd galwedigaethol.
- Defnyddio hyfforddiant ffurfiol a gwiriadau cefndir ar dalent mewn ffordd gyson.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Dull ffurfiol o ymdrin â'r Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).
- Perfformiad ar asesiadau risg iechyd a diogelwch.
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorffodol.
- Amseroldeb gwirio cofnodion troseddol a chyfraddau cwblhau.

2. Rheoli busnes a newid



Beth yw'r risg?

Y risg na fyddwn yn rheoli ein gweithrediadau busnes na'n rhaglenni newid yn effeithiol, gan effeithio ar gyflawni nodau strategol neu weithredol. Mae hyn yn cynnwys y portffolio prosiectau allweddol, cynlluniau parhad busnes a chyflenwyr trydydd parti.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Mae prosiectau mawr yn cael eu goruchwyllo'n fisol gan y Pwyllgor Gweithrediadau, gan sicrhau atebolrwydd rheolwyr. Ar gyfer y portffolio prosiectau allweddol, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ymgymryd â gwaith craffu ychwanegol bob chwarter.
- Mae hyrwyddwyr gweithredol yn gyfrifol am yr holl raglenni allweddol sy'n rhan o bortffolio'r Pwyllgor Gweithrediadau.
- Rhoddodd y Swyddfa Rheoli Prosiectau Corfforaethol sicrwydd ynglŷn â buddiannau busnes a chanlyniadau prosiectau allweddol drwy ei fframwaith sicrwydd a'i gwaith ymgysylltu parhaus hyd at fis Rhagfyr 2021. Cafodd ei disodli gan Swyddfa Drawsnewid newydd a swyddogaeth Sicrwydd Prosiect ar wahân o 2022.
- Mae'r swyddogaeth Sicrwydd Prosiect yn canolbwyntio ar gael sicrwydd ynglŷn â risg cyflawni a rhoi gwerth i gynulleidfaoedd. Mae sicrwydd yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cynnwys adolygiadau ar adeg benodol a sicrwydd strwythuredig parhaus ym mhob rhan o bortffolio newid y BBC.
- Mae timau prosiect ymroddedig a medrus yn cymhwyso disgyblaethau rheoli prosiect (gyda chefnogaeth teulu o swyddi Prosiect a Newid).
- Gwario ar fonitro systemau caffael er mwyn sicrhau bod contractau ar waith gyda chyflenwyr, ac er mwyn asesu digonolrwydd y broses o reoli cyflenwyr i sicrhau gwerth am arian.
- Ar gyfer prosiect East Bank, rydym yn cyflwyno rhaglen sy'n ystyried cyfleoedd masnachol i ddefnyddio gofod stiwdio er mwyn sicrhau bod y cyfleuster yn rhoi mwy o werth.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud â'r heriau parhaus wrth gyflawni'r Portffolio Prosiectau Allweddol.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Chwyddiant ac amgylchedd allanol cynyddol anwadal ac effaith y nifer mawr o fentrau newid sy'n dibynnu ar ei gilydd. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn prosiectau adeiladu (E20 ac East Bank) lle mae anwadalrwydd y farchnad ar gyfer deunyddiau a gwasanaethau yn parhau'n risg.
- Mae'r risg o straen sefydliadol a blinder gyda newid yn uchel.

Beth yw'r effaith?

Mae'r BBC yn wynebu cost ariannol annisgwyl, effaith niweidiol ar ein henw da a/neu ymyrraeth reoleiddiol. Mae'r oedi cyn cyflwyno mentrau newid allweddol yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni amcanion strategol a gweithredol allweddol a hefyd ar gynaliadwyedd ariannol a morâl y staff.

> Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2021/22?

Mae prosiectau mawr wedi goresgyn effeithau'r pandemig ac maent yn gweithredu gyda mwy o sicrwydd ar y cyfan na'r adeg hon y llynedd.

Fodd bynnag, mae natur anwadal yr amgylchedd macro-economaidd yn creu pwysau ar gyllidebau prosiectau ac eitemau digwyddiadol, felly mae rheolwyr yn parhau i roi sylw i hyn drwy'r Pwyllgor Gweithrediadau a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Cyflwyno adroddiadau statws misol ar brosiectau allweddol i'r Pwyllgor Gweithrediadau a Bwrdd y BBC.
- Y Pwyllgor Gweithrediadau yn goruchwyllo newid strategol.
- Rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch y Portffolio Prosiectau Allweddol i'r Pwyllgor Gweithredol, y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.
- Llundio adroddiadau gan y Swyddfa Drawsnewid i'r Prif Swyddog Gweithredu.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

3. Cydymffurfiaeth



<p>Beth yw'r risg? Y risg y byddwn yn methu â chydymffurfio â safonau/ rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a safonau/ rhwymedigaethau eraill (gan gynnwys atal twyll a gofynion mewnlol e.e., cydymffurfiaeth olygyddol) sy'n berthnasol i'r BBC.</p>	<p>Beth yw'r effaith? Os caiff y risg ym maes cydymffurfiaeth ei rheoli'n annigonol, gall arwain at niweidio enw da, colli ymddiriedaeth, camau cyfreithiol, dirwyon neu gosbau eraill.</p>
<p>Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?</p> <ul style="list-style-type: none"> — Polisiâu ar waith, sy'n bodloni gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, a ategir gan gyngor gan arbenigwyr pwnc, a gwaith monitro ac adrodd manwl. — Modiwlau hyfforddiant gorfodol sy'n cwmpasu gofynion cydymffurfiaeth allweddol (e.e., atal llwgrwobrwyo, bwlio ac aflonyddu, yn hyderus o ran anabled, dethol yn deg, masnachu teg). Mae'r hyfforddiant gorfodol a gynigir wedi cael ei adolygu i'w symleiddio a'i ail-lansio yn 2022/23. — Mae polisi golygyddol sefydledig ar waith ynghyd â phroses glir o ymdrin â chwynion yn y BBC ac ymateb iddynt. — Mae prosesau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol Ofcom, a ategir hefyd gan adroddiadau a gwaith monitro. — Monitro cwynion i Ofcom a chyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Gweithredol, a chyflwyno adroddiadau misol i'r Bwrdd. — Mae timau arbenigol ar waith i gefnogi cydymffurfiaeth â gofynion o ran treth, gofynion cyfreithiol cyflogaeth, ymgyfreitha a gofynion cydymffurfiaeth reoleiddiol eraill. — Sicrhau sêl bendith staff yn amserol ac adnewyddu gwiriadau perthnasol gan gynnwys cymhwysedd/hawl i weithio a datgelu a gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. — Gwiriadau diwydrwydd dyladwy a fetio ar gyfer cyflenwyr allweddol a thrydydd partion er mwyn rheoli risg trydydd parti, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern. — Ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd ein cynllun deg pwynt ar ddiueddrwydd a safonau golygyddol. Mae hwn yn ymgorffori ein hymateb i Adolygiad Serota a dyma ein hymgais fwyaf arwyddocaol i sicrhau bod cynnwys y BBC, nid dim ond ein Newyddion ond ein holl allbwn, yn deg, yn gywir ac yn ddiuedd. — Lanswyd pecyn cymorth i godi ymwybyddiaeth o sut i atal twyll ynghyd ag adnoddau ategol i roi gwybod am achosion o dwyll a amheuir ar y fewnwyd gorfforaethol. 	<p>> Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2021/22? Mae lefel uchel o graffu o hyd yn yr amgylchedd rheoleiddiol a diddordeb allanol mewn dyfarniadau golygyddol.</p> <p>Cwblhawyd Adolygiad Serota yn ystod y flwyddyn a gwnaed argymhellion ynglŷn â phrosesau golygyddol, trefniadau llywodraethu a diwylliant y BBC.</p> <p>Mae'r duedd o ran niferoedd cwynion wedi parhau oherwydd barn ddargyfeiriol y cyhoedd, y dirwedd wleidyddol a rôl y cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Mae Archwilio Mewnol wedi parhau i gyflwyno rhaglen dreigl o weithgarwch sicrwydd gwrth-dwyll sy'n cwmpasu meysydd fel taliadau cyflenwyr, rheolaethau bancio a'r defnydd o asedau TG. Mae'r gwaith o ddatblygu proses Hunanasesiad Rheoli (CSA) ar gyfer swyddfeydd dramor wedi cael ei gwblhau.</p>
<p>Risg weddilliol Mae risg o hyd y byddwn yn methu â bodloni gofynion cyfreithiol, gofynion rheoleiddiol a gofynion eraill, a gallai'r risg hon gynyddu wrth i gyrrff rheoleiddio ganolbwytio unwaith eto ar faterion busnes arferol.</p> <p>Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> — Dull Ofcom o reoleiddio'r BBC. — Rheoli'r duedd gyffredinol o gynnydd mewn lefelau cwynion. — Mae'r risg o dwyll yn debygol o fod yn uwch e.e., gyda'r ffactorau economaidd ehangach. — Fframwaith rheolaethau ar lefel prosesau Is-adrannol. 	<p>Sut y caiff y risg hon ei monitro?</p> <ul style="list-style-type: none"> — Cydymffurfiaeth â gofynion Ofcom. — Cwynion (nifer y cwynion a'r ffordd y cânt eu rheoli). — Achosion cyfreithiol a chanlyniadau. — Achosion sy'n ymwneud â threth ac achosion sy'n mynd rhagddynt. — Nifer yr achosion o gwyno a disgyblu a'r tueddiadau. — Proses chwythu'r chwiban. — Cynllun treigl sicrwydd twyll Archwilio Mewnol. — Adolygiadau manwl gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

4. Technoleg



Beth yw'r risg?

Y risg y byddwn yn methu â darparu gwasanaeth darlledu cadarn ar draws pob sianel ddosbarthu a/neu ddiogelu cyfrinachedd, cywirdeb neu argaeledd data'r BBC drwy ymosodiad seiber.

Beth yw'r effaith?

Y potensial i beryglu ein hallbwn i'n cynulleidfa o ganlyniad i ddiffyg argaeledd neu ansawdd.

Y potensial i beryglu argaeledd, cywirdeb a hygyrchedd gwybodaeth, a allai arwain at niwed i enw da, niwed ariannol a methiant i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Y potensial na fydd ein technoleg a'n gwasanaethau yn ein galluogi i berfformio'n effeithiol fel sefydliad.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

Technoleg darlledu ac ar-lein:

- Mae systemau a gwasanaethau'r BBC yn gadarn, er enghraifft nid oes unrhyw bwyntiau methu unigol mewn systemau allweddol. Mae'r dull aml-haenog hwn yn elfen graidd o allu'r BBC i barhau i weithredu.
- Caiff perfformiad gweithredol gwasanaethau darlledu a gwasanaethau ar-lein ei fonitro'n barhaus gan ddefnyddio amrywiaeth o fetrigau, gan gynnwys argaeledd gwasanaethau, toriadau a digwyddiadau. Mae targedau ar gyfer ein gwasanaethau allweddol yn rhan o'n cytundebau â'n partneriaid allweddol.
- Mae cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb ar waith ac yn cael eu hymarfer. Y flwyddyn hon, gwnaethom achub ar y cyfle i fireinio a gwella'r cynlluniau hyn ymhellach, gan gynnwys y pwyntiau dysgu o bandemig COVID-19 a gwaith cynllunio senario a pharodrwydd mewn ymateb i risgiau Cofrestr Risg Genedlaethol y DU. Fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddwyd sicrwydd, mewn partneriaeth ag Arqiva, i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynglŷn â'n gallu i gynnal systemau darlledu cadarn

Seiberddiogelwch:

- Mae proffil risgiau seiber y BBC yn datblygu o hyd a defnyddir dull amlhaenog o leihau'r tebygolrwydd o gamfanteisio ac effaith er mwyn diogelu'r BBC, ei staff, ei gynulleidfa oedd a'i gyflenwyr hyd y gellir yn ymarferol.
- Mae ein fframwaith Diogelu Gwybodaeth yn cwmpasu nifer o fesurau, gan gynnwys nodi a diogelu asedau; canfod seiberfygythiadau, ymateb iddynt ac adfer ar eu hôl; sicrhau bod meddalwedd wedi'i thrwyddedu ac wedi'i chefnogi; cadw copi wrth gefn o ddata sy'n hanfodol i'r busnes, gan sicrhau cydymffurfiaeth â safonau a gweithdrefnau Diogelu Gwybodaeth; ymgyrchoedd hyfforddiant ac ymwybyddiaeth; rheolaethau gweithredol megis patsys a rheoli gwendidau, ynghyd â gwybodaeth am fygythiadau.
- Rydym wedi cryfhau ein gallu i wrthsefyll ymosodiadau seiber yn unol â'r canllawiau diweddar gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol drwy gyfuniad o waith cynllunio a pharatoi ychwanegol, mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am fygythiadau a thrwy leihau ein hamlygiad i wendidau. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys ymarfer 'Aur' sy'n seiliedig ar senario ymosodiad drwy feddalwedd wystlo i brofi effeithiolrwydd ein fframwaith rheoli digwyddiadau corfforaethol, rhoi mesurau ychwanegol ar waith i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â ffactorau dynol ac ymddygiad seiber, a pharhau i ymgysylltu â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

▲ Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2021/22?

Mae'r risg y bydd y BBC yn parhau i gael ei dargedu drwy ymosodiadau seiber maleisus a soffistigedig yn parhau'n uchel, mewn tirwedd sy'n newid o hyd.

Mewn ymateb i'r sefyllfa bresennol yn Wcráin a Rwsia ac yn unol â'r canllawiau diweddar gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, rydym wedi mabwysiadu statws ymwybyddiaeth a pharodrwydd uwch.

Mae perfformiad ein gwasanaethau hanfodol i allbwn wedi parhau heb unrhyw newid yn argaeledd darlledu hanfodol a heb unrhyw ddirywiad yn ein meysydd allbwn drwy gydol y pandemig.

Mae ein cynlluniau parhad darlledu wedi cael eu diweddarau a'u profi ac mae eu hansawdd wedi cael ei sicrhau.

Ym mis Awst 2021, bu digwyddiad mawr yng ngorsaf ddarlledu Bilsdale, gyda thârn yn achosi difrod i'r mast fel na allai weithredu mwyach a bu'n rhaid ei dynnu i lawr yn y pen draw.

Mae'r BBC wedi gweithio'n agos gyda'r orsaf ddarlledu i roi trefniadau amgen dros dro ar waith i adfer gwasanaethau i wylwyr a gwrandawyr yr effeithiwyd arnynt tra bydd strwythur parhaol yn cael ei adeiladu ar y safle.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

4. Technoleg – parhad ^

Risg weddilliol

Y risgiau gweddilliol allweddol y mae'r BBC yn mynd i'r afael â nhw:

- Y seilwaith darlledu a etifeddwyd: Mae'r BBC yn cydbwysu'r angen i gynnal cyfanrwydd a chadernid gweithredol ein seilwaith technoleg a'n gwasanaethau â buddsoddiad strategol mewn gallu digidol, nodweddion newydd ar gyfer gwasanaethau i gynulleidfaedd a'r broses gynyddol o symud gwasanaethau busnes a digidol i'r cwmwl.
- Ffactorau dynol: risgiau sy'n gysylltiedig â gwallau ac ymddygiad dynol.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Monitro toriadau a glynu wrth amcanion amser adfer yn fanwl er mwyn sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar wasanaethau darlledu.
- Monitro amrywiaeth o ddangosyddion yn barhaus, gan gynnwys cwblhau hyfforddiant gorfodol ar seiberddiogelwch; lefel a difrifoldeb ymosodiadau seiber; disbensasiynau polisi a phwyntiau derbyn risg; lefel y tarfu ar allbwn cynnwys.
- Parhau i gydgylltu â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i roi gwybodaeth am risgiau seiber.
- Defnyddir ein Dangosfwrdd Seiberddiogelwch i olrhain ein haeddfedrydd seiberddiogelwch sefydliadol yn erbyn fframwaith y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Safonau a Thechnoleg, er mwyn rhoi darlun strategol o risg weddilliol y BBC.

5. Diogelu data >

Beth yw'r risg?

Y risg y byddwn yn methu â chydymffurfio â deddfwriaeth GDPR a diogelu data y DU a'r UE ac yn methu â diogelu'n ddigonol y data personol rydym yn eu prosesu ac yn eu trin.

Beth yw'r effaith?

Gall risg sy'n gysylltiedig â diogelu data nad yw'n cael ei rheoli'n ddigonol arwain at niweidio enw da, colli ymddiriedaeth, camau cyfreithiol, talu iawndal i unigolion, cwsmeriaid a/neu gyflenwyr, dirwyon neu gosbau eraill gan y rheoleiddiwr (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth).

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Polisiâu a phrosesau sy'n cydymffurfio â gofynion GDPR y DU ym maes diogelu data a phreifatrwydd, gan gynnwys hawliau gwrthrych data, asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data a pholisiau preifatrwydd sy'n ymwneud â'r cyhoedd.
- Ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar ddiogelu data i'r staff, gan gynnwys cyflwyno modiwl uwch ac ailwampio'r modiwl hyfforddiant gorfodol.
- Cadernid systemau TG.
- Mynediad at gyngor cyfreithiol mewnol ac allanol ar ddiogelu data.
- Goruchwyliaeth y Swyddog Diogelu Data.

> Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?

Mae'r proffil risg yn dal yn sefydlog oherwydd y nifer sefydlog o achosion o fynd yn groes i ofynion data personol, a'r achosion yr hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn eu cylch.

Rydym yn dal i weld mwy o ymwybyddiaeth o hawliau unigolion o dan GDPR, a thuedd tuag i fyny barhaus yn nifer y ceisiadau gwrthrych am fynediad at ddata, yn enwedig ceisiadau i ddileu data.

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cwynion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond rydym yn parhau i weld nifer cyfyngedig lle mae angen y BBC i gymryd rhagor o gamau neu wneud gwaith dilynol.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud â mwy o waith prosesu data personol categori arbennig, y newid i weithio hybrid, rôl gynyddol data personol a'r defnydd o'r data personol wrth ddatblygu a phersonoli cynhyrchion y BBC, ac effaith digwyddiadau geowleidyddol. Ochr yn ochr â hyn, mae mwy o ymwybyddiaeth o hawliau unigolion o dan GDPR y DU, a ddangoswyd drwy nifer y ceisiadau gwrthrych am fynediad at ddata.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Cydymffurfiaeth gyson â deddfwriaeth diogelu data ym mhob rhan o'r BBC.
- Technolegau a chynhyrchion newydd sy'n cael effaith ar ddiogelu data.
- Mwy o Geisiadau Gwrthrych am Fynediad at Ddata.
- Mwy o Geisiadau Gwrthrych i Ddileu Data.
- Amseroldeb Ceisiadau Gwrthrych am Fynediad at Ddata.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Monitro lefel sefyllfaoedd sy'n gofyn am gyflwyno adroddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys amseroldeb a chanlyniadau.
- Monitro nifer y cwynion a gyflwynir i'r BBC a/neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- Metrigau dangosyddion perfformiad allweddol/dangosfyrddau ar gyfer sawl maes diogelu data, gan gynnwys nifer y digwyddiadau data a'r achosion o dorri deddfwriaeth diogelu data; nifer y ceisiadau gwrthrych am fynediad at ddata ac amseroldeb yr ymateb; nifer y ceisiadau gwrthrych eraill am fynediad at ddata a metrigau cwynion.
- Fforwm Diogelu Data (Swyddog Diogelu Data, Prif Swyddog Diogelu Gwybodaeth, Cyfarwyddwr Cyfreithiol – Hawliau Gwybodaeth, a Phrif Swyddog Preifatrwydd BBC Studios).
- Fforwm Diogelu Data Grŵp y BBC (BBC Public Service, BBC Studios, Plant mewn Angen, BBC Media Action ac Ymddiriedolaeth Bensiwn y BBC).

6. Cynaliadwyedd amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd



Beth yw'r risg?

Y risg na fyddwn yn rheoli'r effaith y mae ein cynyrchiadau a'n gweithrediadau yn ei chael ar yr amgylchedd yn unol â'n huchelgais Sero Net ar gyfer 2030 fel y'i diffiniwyd gan ein Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth, sy'n cwmpasu datgarboneiddio ein gweithrediadau uniongyrchol, Cwmpasu 1 a 2, yn ogystal â chyfanswm Cwmpas 3, gan gynnwys ein cadwyn gyflenwi. Hefyd, y risg na fyddwn yn ystyried y risgiau ffisegol a thrawsnewid a allai wynebu ein gweithrediadau busnes yn sgil newid yn yr hinsawdd.

Ar ôl ymrwmo i'r Addewid Cynnwys Hinsawdd (i integreiddio'r wyddoniaeth ddiweddaraf am yr hinsawdd yn ein rhaglenni, heb gynnwys y Newyddion), mae risg na fyddwn yn dangos tystiolaeth o newid yn ein cynnwys golygyddol i roi gwell gwybodaeth am risg newid yn yr hinsawdd a mesurau lliniaru i gynulleidfaeodd.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Mae'r Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd a benodwyd a'r Tîm Cynaliadwyedd bellach yn eu lle gyda'r sgiliau technegol ac ymgysylltu.
- Mabwysiadu'r fframwaith TCFD sy'n cynnwys dadansoddiad o'r effaith ariannol.
- Mae Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth ar gyfer Cwmpas 1 a 2 a Chwmpas 3 bellach wedi'u cymeradwyo ac wedi'u rhoi ar waith.
- Mae'r trefniadau llywodraethu o ran cynaliadwyedd wedi'u gwella ac mae Grŵp Llywio Cynaliadwyedd o uwch-arweinwyr Is-adrannol bellach ar waith, sy'n cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a Bwrdd y BBC.
- Mae llwyfan adrodd ar ddata cynaliadwyedd wedi'i ddewis i'w gwneud yn bosibl i berfformiad o ran cynaliadwyedd gael ei reoli a'i olrhain.
- Ardystiad Albert gorfodol ar gyfer cynyrchiadau mewnol gyda'r potensial i'w ehangu i gwmnïau cynhyrchu annibynnol.
- Mae hyfforddiant ar gynhyrchu cynaliadwy ar waith ar gyfer staff cynhyrchu.
- Mae hyfforddiant golygyddol ar waith e.e., i olygyddion comisiynu, cynhyrchwyr a gwneuthurwyr rhaglenni. Rhoddwyd hyfforddiant i'r staff Newyddion cyn COP26.
- Mae targedau ac ymrwymïadau i reoli'r ynni a ddefnyddir gennym, ein hallyriadau carbon a'n gwastraff wedi'u pennu ar gyfer 2022-2030.
- Parhau i ddarparu cynnwys arbenigol ar gynaliadwyedd amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd ar gyfer teledu, radio a phodlediadau.
- Ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol a gweithgareddau rheolaidd sy'n ymwneud â materion amgylcheddol.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud â'r gwaith o gyflwyno, gweithredu a gweithredoli ein strategaeth Sero Net yn y tymor canolig a'r hirdymor.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Cymeradwyo'r achos busnes dros Sero Net a dyrannu cyllid digonol ar gyfer y buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni ein Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth Cwmpas 1, 2 a 3.
- Lefel yr arloesi a'r newid sydd ei hangen i gyflawni ein strategaeth Sero Net.
- Y gallu i ddylanwadu ar gyflenwyr a phartneriaid mewn perthynas â phenderfyniadau am gynaliadwyedd a'r hinsawdd.

Beth yw'r effaith?

Canfyddiad negyddol ymhlith y cyhoedd a chynulleidfaeodd mewn tri maes:

1. Peidio â chyflawni ein hymrwymïadau Sero Net a Chynnwys Hinsawdd
2. Methu â chymryd camau amgylcheddol ar yr un lefel â darlledwyr eraill
3. Sylw nad yw'n ddigon diduedd i faterion sy'n ymwneud â hinsawdd.

Gall canfyddiad negyddol ymhlith cyflogeion hefyd arwain at heriau o ran cadw a recriwtio talent a chyflogeion.

➤ Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2021/22?

Mae'r proffil risg yn cynyddu oherwydd bod mwy o ddisgwyliadau a galwadau ar fusnesau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd.

Mae'r BBC wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i ddod yn Sero Net erbyn 2030 ac wedi datblygu strategaeth ar sail Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth. Mae'r BBC bellach yn ei ail flwyddyn o weithredu TCFD ac mae'n gwneud dadansoddiad senario o risgiau perthnasol.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Goruchwyliaeth a chefnogaeth gan y Bwrdd.
- Adroddiadau rheolaidd a metrigau sy'n gysylltiedig â'r defnydd o ynni, rheoli gwastraff ac allyriadau carbon.
- Goruchwyliaeth fisol gan y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd.
- Rhoi map ffordd TCFD ar waith.

Llywodraethu Ein prif risgiau – parhad

Fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae proses y BBC o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol yn parhau'n gyson â Chanllawiau'r Cyngor Adrodd Ariannol ar Reoli Risg, Rheolaeth Fewnol ac Adrodd Busnes ac Ariannol Cysylltiedig. Ymgorfforir systemau rheoli risg ym mhob is-adran, gyda phroses gydgysylltu ganolog er mwyn nodi, uwchgyfeirio a rheoli risgiau ar draws y BBC.

Asesu effeithiolrwydd rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae'r Bwrdd yn parhau i ddefnyddio nifer o dulliau i'w helpu i asesu effeithiolrwydd y system o reoli risg a rheolaeth fewnol ym mhob rhan o'r BBC er mwyn asesu bod y lefel gyffredinol yn ddigonol.

Goruchwyllo risg: Dirprwyodd y Bwrdd y cyfrifoldeb am adolygu prosesau risg a rheolaeth yn fanwl i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod 2021/22 er mwyn craffu ar effeithiolrwydd rheolaethau a rheoli risg a'u goruchwyllo (ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 106). Hefyd, cyflwynir adroddiad risg rheolaidd i Fwrdd y BBC.

Archwilio mewnol: Mae gan y swyddogaeth Archwilio Mewnol linell adrodd annibynnol i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynhaliodd raglen archwilio yn unol â'r prif risgiau a wynebir gan y BBC. Cyflwynwyd adroddiadau ar ganfyddiadau'r archwiliadau hyn i uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a chaiff camau adferol eu holrhain hyd nes eu cwblhau.

Archwilio a sicrwydd allanol: Mae canfyddiadau gwaith archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, a chaiff unrhyw gamau gweithredu a argymhellir eu holrhain hyd nes eu cwblhau. Hefyd, parhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol â'i rhaglen o archwiliadau Gwerth am Arian. Rhoddir sicrwydd allanol hefyd ar ein trefniadau Masnachu Teg er mwyn sicrhau nad oes risg y bydd ein prosesau a'n harferion, pan fyddwn yn ymgymryd â gweithgareddau masnachol a masnachu, yn ystumio'r farchnad. Goruchwylir y trefniadau hyn gan Bwyllgor Masnachu Teg y BBC. Yn 2021/22, cwblhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adolygiad gwerth am arian o arbedion a diwygiadau'r BBC. Cydnabu'r astudiaeth fod y BBC wedi gwneud arbedion yn gyson dros y degawd diwethaf, bod disgwyl iddo ragori ar ei darged gwreiddiol o £800m mewn arbedion blynyddol, a'i fod ar y trywydd iawn i raddau helaeth i gyflawni'r targed arbedion cynyddol o £1 biliwn a oedd yn adlewyrchu effaith ariannol amcangyfrifedig y pandemig. Mae argymhellion y dylid cynyddu'r wybodaeth a gesglir ar arbedion a gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig wrthi'n cael eu rhoi ar waith.

Chwythu'r chwiban: Mae polisi datgelu gwarchoddedig ar waith, a ategir gan linell gymorth 'chwythu'r chwiban', a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau y gellir codi mater yn ddiennw. Mae hwn wedi cael ei estyn ac mae bellach ar gael mewn 43 o ieithoedd. Mae cyfarwyddwr anweithredol wedi cael ei enwi yn y polisi fel yr enw cyswllt ar gyfer codi'r pryderon mwyaf difrifol.

Datganiad ynghylch hyfywedd

Yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae Bwrdd y BBC wedi asesu rhagolygon y Gorfforaeth dros gyfnod hwy na'r 12 mis sy'n ofynnol o dan y ddarpariaeth 'Busnes Gweithredol'.

Mae Bwrdd y BBC wedi ystyried y cynllun tair blynedd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2025. Ystyrir bod gorwel tair blynedd yn briodol gan fod hyn yn unol â phroses gyllidebu a chynllunio'r BBC. Mae'r cynllun tair blynedd yn ystyried llifau arian parod yn ogystal â'r cyfamodau ariannol a chyfleusterau credyd.

Y tybiaethau allweddol sy'n sail i'r cynllun tair blynedd, a'r rhagolygon llifau arian parod cysylltiedig, yw setliad ffi'r drwydded sy'n pennu paramedrau ariannol y BBC o 2022/23 i 2027/28 a'r Siarter a'r Cytundeb sy'n diogelu ffi'r drwydded tan 2027 ynghyd â sicrhau arbedion ychwanegol a nodwyd. Yng ngoleuni'r adferiad economaidd ansicr yn sgil pandemig COVID-19, tybiwyd y bydd rhai costau cynhyrchu cynyddol yn parhau yn y byrdymor.

Cynhaliwyd asesiad cadarn o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gorfforaeth, fel y'u disgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon o dudalen 110, gan gynnwys y rhai a fyddai'n peryglu ei model busnes, perfformiad yn y dyfodol, solfedd neu hylifedd. Ar gyfer 2022/23, mae'r adferiad yn sgil pandemig COVID-19 a'r ansicrwydd economaidd ehangach yn gofyn am reoli llym er mwyn cyflawni dibenion y BBC gyda'r cyllid sydd ar gael. O ganlyniad, cynhaliwyd profion straen ariannol ychwanegol a dadansoddiad o sensitifrwydd, a oedd yn ystyried incwm mewn perygl yn ogystal â'n hymateb i setliad diweddar ffi'r drwydded. Mae'r Llywodraeth wedi rhyddhau papur gwyn yn ddiweddar yn edrych ar adnewyddu'r Siarter yn 2027/28, sy'n cael ei ystyried ond sydd y tu hwnt i gyfnod yr adolygiad hwn.

Cymhwysir dadansoddiad sensitifrwydd at y llif arian parod er mwyn modelu'r effeithiau posibl pe bai prif risgiau'n codi mewn gwirionedd, yn unigol neu ar y cyd. Cyfrifwyd y gofyniad benthyca uchaf drwy foddelu cyfuniad o risgiau difrifol ond credadwy, ond, a chan gynnwys mesurau lliniaru, arhosodd y llifau arian parod o fewn y terfyn benthyca drwy gydol y cyfnod tair blynedd.

Gan ystyried sefyllfa arian parod bresennol Grŵp y BBC, prif risgiau a'r dadansoddiad sensitifrwydd a nodir uchod, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd y Gorfforaeth yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod tair blynedd yr asesiad.

Llywodraethu

Adroddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol

Bu'n bleser cael cadeirio'r Bwrdd Daliadau Masnachol y flwyddyn hon, wrth i'r BBC barhau i symud drwy'r cyfnod pontio cyffrous presennol tuag at fyd lle y bydd cyrhaeddiad byd-eang a thwf masnachol yn fwy allweddol nag erioed. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi nodi'n glir fod yr angen i ategu ffi'r drwydded drwy fwy o refeniw masnachol yn bwysicach nag erioed a'r Bwrdd fu'n gyfrifol am edrych yn fanwl ar y cynlluniau trawsnewid uchelgeisiol sy'n cael eu datblygu gan gangen fasnachol y BBC.

Cyfarfu'r Bwrdd wyth gwaith yn ystod y flwyddyn, a chynhaliwyd busnes all-lein hefyd yn ôl yr angen. Yn ystod y flwyddyn, gadawodd Dharmash Mistry ei rôl fel cyfarwyddwr anweithredol, ar ôl treulio blynyddoedd lawer yn gweithredu fel cyfaill beirniadol a chefnogwr y BBC, mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Roeddem wrth ein bodd bod Tom Fussell wedi cael ei gadarnhau yn ei rôl fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios yn ystod y flwyddyn, ac rydym hefyd wedi croesawu penodiad Lorraine Burgess yn Brif Swyddog Ariannol. Ym mis Ionawr, ymunodd Damon Buffini â'r Bwrdd a phenodwyd dau gyfarwyddwr anweithredol newydd hefyd, sef Gunjan Bhow a Bhav Singh, a ymgymrodd â'u rôl ym mis Ebrill 2022. Mae'n bleser gennyf hefyd nodi y bydd Mai Fyfield a Steve Morrison yn parhau'n aelodau o'r Bwrdd a hoffwn ddiolch iddynt am eu holl gefnogaeth a chyfraniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd y penodiadau newydd hyn yn rhan o newid a olygai roi terfyn ar y Bwrdd Daliadau Masnachol fel endid ar ddiwedd y flwyddyn adrodd. Mae'r BBC bellach wedi sefydlu Bwrdd Masnachol newydd, a fydd yn gorchwyllo twf cangen fasnachol y BBC, gyda mwy o arbenigedd gan gyfarwyddwyr anweithredol a rôl ehangach yn goruchwyllo cynlluniau, perfformiad a mantolen cangen fasnachol y BBC. Caiff y Bwrdd newydd ei gadeirio gan Damon Buffini ac mae'n bleser gennyf aros fel aelod, wrth i ni barhau i graffu ar y cynlluniau gan Tom a'r tîm a'u datblygu.

Yn ein cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried diweddariadau rheolaidd ar berfformiad ariannol a busnes yn ogystal ag adolygu canlyniadau rhagolygon a thrafod y gyllideb a thargedau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cawsom adroddiadau cynllunio gwaith archwilio ac adroddiadau ar adeg cwblhau gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel yr archwilydd allanol, a gwnaethom ganolbwyntio ar faterion rheolaeth a llywodraethu yn ein cyd-sesiwn flynyddol â'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Rydym wedi bod wrth ein bodd yn gweld lefel y perfformiad yn erbyn targedau a gyflawnwyd y flwyddyn hon, gan BBC Studios a Studioworks. Yn y naill faes a'r llall, rydym wedi gweld lefelau uchel o refeniw a'r lefelau uchaf erioed o EBITDA ac enillion i'r BBC.

Mewn amgylchedd cynhyrchu sy'n dal i adfer ar ôl COVID-19, mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu safon ac ymroddiad pawb sy'n gweithio i'r ddau gwmni, yn ogystal â rheoli o'r radd flaenaf. Fel Bwrdd, rydym yn llongyfarch pawb a fu'n ymwneud â'r canlyniadau, a cheir rhagor o fanylion am berfformiad o dudalen 75 ymlaen.

Gwnaethom hefyd dreulio cryn dipyn o amser ar faterion strategol y flwyddyn hon, gan ganolbwyntio ar adolygu a herio'r cynlluniau twf a oedd yn cael eu datblygu ar gyfer BBC Studios. Roedd hyn yn cynnwys edrych yn fanwl ar y cynlluniau a oedd yn cael eu datblygu ar gyfer ehangu BritBox International – ein cyd-fenter lwyddiannus ag ITV y tu allan i'r DU – ac adolygu'r cynllun busnes ar gyfer datblygu dull byd-eang o baratoi ein hallbwn newyddion a materion cyfoes. Bydd y ddau gynllun hyn yn cael eu datblygu ymhellach yn y flwyddyn sydd i ddod a byddant yn rhoi cyfle gwych ar gyfer twf masnachol a byd-eang. Yn yr un modd, rydym wedi treulio amser yn adolygu twf a llwyddiant busnes Studioworks, gan gynnwys ehangu ar ei ddarpariaeth o stiwdios yn Kelvin Hall yn Glasgow ac ystyried opsiynau ar gyfer ffyrdd o dyfu'r busnes dros amser.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom fonitro'r broses o drosglwyddo timau o Global News Limited i BBC Studios a hefyd y broses arfaethedig o drosglwyddo tîm cynhyrchu mewnol Plant – sydd wedi cael ei chwblhau'n llwyddiannus bellach. Mae'r rhain yn newidiadau pwysig sy'n dwyn ynghyd fwy o dalentau creadigol anhygoel y DU yn un sefydliad. Gwnaethom hefyd roi sylw manwl i reoli labeli creadigol BBC Studios – y timau creadigol sy'n cael eu perchenogi a'u gweithredu sy'n gyfrifol am rai o lwyddiannau mwyaf y busnes.

Wrth i mi gamu i lawr fel Cadeirydd y Bwrdd, rwy'n falch o fod wedi bod yn rhan o gyfnod o dwf a newid creadigol anhygoel. Gyda Bwrdd newydd yn ei le, o dan Gadeirydd dynamig newydd, ac ar ôl cael y newyddion sydd i'w groesawu am ein cytundeb mewn egwyddor â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gynyddu terfynau benthyca cangen fasnachol y BBC, mae hwn yn gyfnod o gyfle gwirioneddol i'r BBC. Edrychaf ymlaen at barhau i fod yn rhan o'r uchelgais i greu busnes masnachol ar raddfa wirioneddol fyd-eang.

Elan Closs Stephens

Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol (hyd at 31 Mawrth 2022)
23 Mehefin 2022

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Mae ymddiriedaeth yn un o werthoedd craidd y BBC. Mae'r ffordd y mae cynulleidfaoedd yn ystyried ymrwymiad y BBC i gyrraedd y safonau golygyddol uchaf, yn enwedig o ran cywirdeb, didueddrwydd a thegwch, yn fesur allweddol o ymddiriedaeth. Y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn ymdrechu i gyrraedd y safonau golygyddol uchaf a'i fod yn atebol drwy ei broses gwyno. Pan fo safonau golygyddol yn cael eu torri, mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod y BBC mor dryloyw â phosibl i gynulleidfaoedd a bod gwersi yn cael eu cyfleu i dimau.

Mae llawer o waith y Pwyllgor y flwyddyn hon wedi cynnwys ymdrin â'r hyn a ddaeth i'r amlwg ar ôl cyhoeddi adroddiad yr Arglwydd Dyson ar gyfweiliad Panorama â Diana, Tywysoges Cymru, yn 1995. Gofynnodd Bwrdd y BBC i dri chyfarwyddwr anweithredol o'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol (Syr Nicholas Serota, Ian Hargreaves a Syr Robbie Gibb) adolygu arferion golygyddol presennol y BBC er mwyn sicrhau na allai'r materion a godwyd gan yr Arglwydd Dyson godi eto. Arweinwyd yr adolygiad gan Syr Nicholas Serota.

Cyhoeddwyd Adolygiad Serota ym mis Hydref 2021 a derbyniwyd ei argymhellion yn llawn gan Fwrdd y BBC. Cyhoeddwyd ymateb y Bwrdd Gweithredol ar y cyd â chynllun gweithredu ar ddiueddrwydd. Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn goruchwyllo'r gwaith o roi'r naill a'r llall ar waith ar ran Bwrdd y BBC. Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod bob mis ers cyhoeddi'r adolygiad er mwyn cael diweddariadau ar gynnydd gan y Bwrdd Gweithredol. Mae cryn gynnydd wedi'i wneud ac mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion wedi cael eu cwblhau neu ar fin cael eu cwblhau. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd.

Mae cynnal y safonau golygyddol uchaf yn hollbwysig i enw da'r BBC. Nod gwaith y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yw sicrhau bod y BBC yn cadw ymddiriedaeth ei gynulleidfaoedd a bod ei arferion golygyddol yn parhau i gyrraedd y safon orau.

Creffir yn benodol ar gywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy yn ystod cyfnod etholiad. Yn ystod mis Mai 2021 a mis Mai 2022, cynhaliwyd etholiadau cymhleth yn y DU, gan gynnwys ethol aelodau i Gynulliad Gogledd Iwerddon. Er bod etholiadau mis Mai 2022 y tu hwnt i'r cyfnod adrodd hwn, mae'r broses o gymeradwyo'r Canllawiau Etholiadol i bennu dull y BBC o ymdrin â'r etholiadau hyn, ynghyd â chymeradwyo'r meini prawf ar gyfer dyrannu darllediadau etholiadol pleidiau, yn dod o dan y cyfnod adrodd hwn. Sicrhodd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol fod y canllawiau ar gyfer yr etholiadau yn adlewyrchu ymrwymiad y BBC i gywirdeb a didueddrwydd dyladwy, bod yr holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol yn cael eu bodloni, a bod y canllawiau yn adlewyrchu'r amgylchiadau gwleidyddol yn y gwledydd datganoledig. Gweithiodd y Pwyllgor hefyd i sicrhau bod y meini prawf ar gyfer dyrannu darllediadau etholiadol pleidiau yn deg ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Rydym yn hyderus bod y canllawiau hyn yn gadarn a'u bod yn gwrthsefyll craffu a chwynion gan bleidiau gwleidyddol.

Yn etholiadau mis Mai 2021, ni chadarnhawyd cwyn plaid Alba na chwyn Reform UK gan Ofcom ar ôl apêl. [ofcom.org.uk/___data/assets/pdf_file/0023/218147/decision-election-bbc-alba-party-coverage.pdf](https://www.ofcom.gov.uk/consult/condocs/218147/decision-election-bbc-alba-party-coverage.pdf) and [ofcom.org.uk/___data/assets/pdf_file/0025/218473/decision-election-reform-uk-impartiality.pdf](https://www.ofcom.gov.uk/consult/condocs/218473/decision-election-reform-uk-impartiality.pdf).

Un o swyddogaethau craidd y Pwyllgor yw goruchwyllo proses gwynion y BBC a sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau golygyddol y BBC a chod darlledu Ofcom. Mae tryloywder ac atebolrwydd drwy'r broses gwynion yn bwysig o ran ymddiriedaeth cynulleidfaoedd ac enw da'r BBC. Nododd Adolygiad Serota nifer o ddiwygiadau i'r fframwaith cwynion er mwyn gwella tryloywder a dealltwriaeth cynulleidfaoedd o'r ffordd y mae'r broses gwynion yn gweithio. Mae'r rhain wedi cael eu trafod ag Ofcom ac maent wrthi'n cael eu rhoi ar waith.

Yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf, tynnwyd sylw at bryder ynglŷn â nifer y cwynion i'r BBC a dywedwyd ein bod wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol adolygu sut yr ymdriniwyd â chwynion ar gam 1 o'r broses gwyno. Cytunodd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol ar nifer o newidiadau a gynigwyd i'r ffordd y mae'r BBC yn ymateb i gwynion ar gam 1 ac mae hyn wedi helpu i ymdrin â chwynion yn weithredol heb beryglu ansawdd ymatebion. Cafodd y BBC 433,572 o gwynion ar gam 1 yn 2021/22, sef gostyngiad o 28,683 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond roedd y ffigur yn dal i fod dipyn yn uwch na'r nifer cyfartallog blynyddol hirdymor.

Cyflawnwyd y DPAau a bennwyd gan Ofcom ar gyfer ateb cwynion ar gam 1 a 2 o'r broses gwynion 'BBC First' (apêl i Ofcom yw cam 3). Ymdriniwyd â 95% o gwynion ar gam 1 o fewn 10 diwrnod gwaith yn erbyn targed o 93%. Daethpwyd ag 87% o gwynion ar gam 2 i ben o fewn 20 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 2 safonol a 35 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion cam 2 cymhleth yn erbyn targed o 80%.

Mae Ofcom wrthi'n cynnal adolygiad o'r BBC, gan gynnwys cydymffurfiaeth â'r Cod Darlledu a'r system o ymdrin â chwynion. Bydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn ymgysylltu ag Ofcom i gadarnhau a oes angen newidiadau i system 'BBC First' o ymdrin â chwynion.

Ym mlwyddyn ariannol 2021/22, canfu Ofcom fod y BBC wedi torri'r Cod Darlledu ar un achlysur. Roedd hyn yn ymwneud ag adroddiad anghywir ynglŷn ag Alex Salmond ar BBC News at Six ar 26 Chwefror 2021. Canfu Ofcom fod y BBC wedi torri Rheol 5.1 (*Rhaid adrodd newyddion, ar ba bynnag ffurf, gyda chywirdeb dyladwy a'u cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy*) a 5.2 (*Dylid cydnabod camgymeriadau o bwys mewn newyddion a'u cywiro ar yr awyr yn gyflym ... Dylid amserlennu cywiriadau'n briodol*). Er i'r BBC gydabod y camgymeriad ar y pryd ar ei wefan Cywiro ac Egluro: www.bbc.co.uk/helpandfeedback/corrections_clarifications/archive_2021 a bod Ms Smith wedi trydar ar y diwrnod yn egluro'r hyn a ddywedodd Alex Salmond, dyfarnodd Ofcom, o ystyried arwyddocâd y camgymeriad, a pha mor agos oedd yr adroddiad i gyfnod yr etholiad yn yr Alban, y dylai'r BBC fod wedi gwneud cywiriad ar yr awyr. Caiff ei hargymhellion canlyniadol eu rhoi ar waith.

Yn unol â gofynion Ofcom, mae'r BBC yn parhau i gyhoeddi bob pythefnos fanylion cwynion ynglŷn â rhaglen lle y cyflwynwyd dros 100 o gwynion ac sy'n dod o fewn cylch gwaith Cod Darlledu Ofcom. Cyhoeddir y rhain yn: [bbc.co.uk/contact/complaint-service-reports](https://www.bbc.co.uk/contact/complaint-service-reports) ac maent yn cynnwys fersiynau â rhesymau llawn o ganfyddiadau Uned Cwynion y Bwrdd Gweithredol sydd wedi cael eu cadarnhau a'u datrys. Mae Ofcom wrthi'n adolygu'r meini prawf ar gyfer cyhoeddi rhai canfyddiadau nas cadarnhawyd.

Cwynion golygyddol a gwersi a ddysgwyl

Roedd y rhan helaeth o gynnwys y BBC yn cydymffurfio â'r safonau a bennwyd yng nghanllawiau golygyddol y BBC. Fodd bynnag, nododd y Bwrdd Gweithredol yr achosion difrifol canlynol o dorri'r canllawiau golygyddol a chyflwynwyd adroddiad ar bob achos i'r Pwyllgor, ynghyd â'r camau a gymerwyd:

BBC Newshour – torri'r canllawiau ynglŷn â thegwch i gyfranwyr a chydysniad. Cafodd twyllwr a oedd yn honni mai Cory Booker, un o Seneddwr yr UD ydoedd, ei gyfweild yn fyw ar yr awyr am gydbertnasau rhwng yr UD a Saudi Arabia yng ngoleuni adroddiad Llywodraeth yr UD ar lofruddiaeth Jamal Khashoggi.

Yn ystod y cyfweiliad, sylweddolodd y tîm fod rhywbeth o'i le. Cysylltwyd â swyddfa'r Seneddwr Booker ar ôl y rhaglen a chadarnhaodd ei Gyfarwyddwr Cyfathrebu nad oedd wedi rhoi'r cyfweiliad. Tynnwyd yr eitem oddi ar BBC Sounds, cyhoeddwyd ymddiheuriad ar dudalen Newshour ac ymddiheuriwyd ar yr awyr.

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol – parhad

Camau pellach a gymerwyd: Twyll bwriadol oedd hwn. Cafodd tîm Newshour ei friffio ynglŷn â sut roedd y camgymeriad wedi digwydd a'i atgoffa am y camau y mae angen eu cymryd i gadarnhau gwesteion ac i ddilyn adran 6.3.12 o'r Canllawiau Golygyddol.

Torrodd y cylchgrawn *BBC Good Food* y canllawiau ar wrthdaro buddiannau. Roedd gan awdur llawrydd a oedd yn ysgrifennu am fwyd berthynas fasnachol â chwmni y cyfeiriwyd ato mewn rysâit gyhoeddedig.

Er y caniateir cyfeiriadau at frandiau neu fanwerthwyr penodol lle mae cyfiawnhad golygyddol cadarn dros wneud hynny, ni chaniateir cyfeiriadau o'r fath pan fo gwrthdaro buddiannau.

Camau pellach a gymerwyd: Cyhoeddir y cylchgrawn *BBC Good Food* gan Immediate Media o dan drwydded gan BBC Studios. Cafodd tîm golygyddol Immediate Media ei atgoffa am y Canllawiau Golygyddol a rhoddwyd hyfforddiant penodol ar bolisi gwrthdaro buddiannau'r BBC. Roedd hefyd yn ofynnol i'r tîm gwblhau hyfforddiant ar-lein pellach ynglŷn â safonau golygyddol a hysbysebu'r BBC. Cytunwyd, yn y dyfodol, y dylai pob cyfeiriad at frand penodol gael ei gyflwyno i Brif Olygydd y cylchgrawn ei gymeradwyo.

Yn ogystal â'r achosion hyn o dorri'r canllawiau, canfu Uned Cwynion Bwrdd Gweithredol y BBC gyfanswm o 41 o achosion o dorri'r safonau golygyddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fel gyda'r achosion difrifol o dorri'r canllawiau golygyddol, rhoddir gwybod i'r Pwyllgor am yr achosion hyn, a'r camau a gymerwyd.

Dyma fy mlwyddyn olaf fel Cadeirydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol. Bu'n bleser arwain y Pwyllgor hwn yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor (Syr Nicholas Serota, y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Syr Robbie Gibb, Tim Davie, Fran Unsworth) a David Jordan fel prif gynghorydd y pwyllgor am eu gwaith caled yn goruchwylio safonau golygyddol. Yn anffodus, rhaid ffarwelio â Tanni a Fran eleni ond edrychwn ymlaen at groesawu Deborah Turness fel Prif Swyddog Gweithredol Newyddion a Materion Cyfoes cyn hir. Gadawaf rôl cadeirydd y Pwyllgor yn nwylo medrus iawn Syr Nicholas Serota.

Ian Hargreaves

Cadeirydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol
23 Mehefin 2022

Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd

Mae'r pedwar Pwyllgor ar gyfer y Gwledydd yn cefnogi'r Bwrdd drwy adolygu a monitro allbwn a pherfformiad y BBC ledled y DU. Yn yr adran hon ceir adroddiad gan y Cadeirydd ar waith pob Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Cymru

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un llawn newid a chynnydd i'r BBC yng Nghymru. Bu'n bleser gennyf gadeirio Pwyllgor Cymru y Bwrdd yn ystod y cyfnod hwn a chael cyfle i weld fy hun y gwaith caled a wnaed gan dimau drwy'r wlad gyfan i gadw cynrychiadau a gwasanaethau ar yr awyr a hysbysu cynulleidfaoedd yn ystod y pandemig.

Bu'n fraint hefyd y flwyddyn hon weld pencadlys newydd BBC Cymru yn Sgwâr Canolog Caerdydd yn dod yn fyw gyda'r adeilad yn gwbl weithredol bellach, lle y darlledir y newyddion am 6 o'r gloch a 10 o'r gloch o bryd i'w gilydd. Cafodd fy nghyd-aelodau o'r Bwrdd a minnau gyfle i dreulio ychydig o amser yn yr adeilad yn ddiweddar ar gyfer un o'n cyfarfodydd. Bu'n brofiad gwych i bob un ohonom gael gweld ansawdd y cyfleusterau a gynigir yno ac adnabod uchelgais Tim Gweithredol Cymru.

Fel Pwyllgor, cyfarfuom deirgwaith yn ystod y flwyddyn a chawsom ddiweddariadau rheolaidd ar gynulleidfaoedd a pherfformiad ariannol yng Nghymru. Clywsom yn rheolaidd gan Gyfarwyddwr newydd BBC Cymru Wales – Rhuanedd Richards – am ei blaenoriaethau, am faterion allweddol ac am weithredu strategaeth gwerth i bawb yng Nghymru. Gwnaethom hefyd edrych yn benodol ar berfformiad BBC Cymru a chymryd yr amser i drafod sut y bydd cynlluniau pwysig Across the UK yn effeithio ar Gymru. Yn ymuno â mi ar y Pwyllgor roedd Rhuanedd, Ian Hargreaves, Rhodri Talfan Davies, Rhys Evans a Non Tudur Williams. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad a'u dirnadaethau drwy gydol y flwyddyn.

Gan edrych ar berfformiad yn fwy cyffredinol, rhoddodd y BBC wasanaeth amhrisiadwy i fywyd cenedlaethol Cymru yn ystod cyfnod digynsail a heriol y pandemig. Drwy ei raglenni newyddion a'i gynnwys cafodd cynulleidfaoedd y diweddaraf ar sefyllfa a oedd yn newid o hyd a gwybodaeth am yr argyfwng iechyd cyhoeddus a'i effeithiau niferus. Cafodd etholiad y Senedd ym mis Mai 2021 ei ymladd o dan gysgod COVID-19 – digwyddiad a oedd yn dod â'i heriau ei hun o ran logisteg a gwybodaeth. Gwelwyd cynulleidfaoedd mawr i raglenni newyddion BBC Cymru ar bob llwyfan ond roedd cynulleidfaoedd ar-lein, yn enwedig, yn troi at wasanaethau'r BBC am y newyddion a'r dadansoddiad diduedd diweddaraf mewn niferoedd mawr. Gwnaethom adolygu'r canlyniadau hyn fel pwyllgor a gwnaeth yr hyn a gynigiwyd ac a gyflawnwyd argraff arnom.

Gwnaeth y pandemig hefyd darfu ar y cyflenwad o raglenni yng Nghymru a hefyd godi disgwyliadau cynulleidfaoedd am gynnwys fideo a oedd yn portreadu'r genedl ar BBC iPlayer. Gan adeiladu ar sylfeini cadarn, cododd gwneuthurwyr rhaglenni yng Nghymru i'r her o ddarparu drama, comedi a chynnwys ffeithiol diddorol ac unigryw. O ddramâu megis *The Pact* i *Hidden*, yn ogystal â chomedïau megis *The Tuckers*, rhoddodd y BBC lwyfan i storiwyr y genedl. Roedd yn galonogol gweld ansawdd uchel y rhaglenni hyn yn cael ei adlewyrchu yn ffigurau da perfformiad iPlayer o Gymru.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Nghymru ar dudalennau 38 a 177.

Gan edrych ymlaen, wrth i'r Gorfforaeth ddathlu ei chanmlwyddiant, gellir dadlau bod rôl y BBC ym mywyd cenedlaethol Cymru yn bwysicach nag erioed. Mae'n amlwg bod effeithiau parhaol y pandemig ar fywyd diwylliannol a chymdeithasol y genedl yn ddwys. Bydd cynulleidfaoedd a'r sector creadigol ehangach yn troi at y BBC, a hynny'n gwbl gyfiawn, am ysbrydoliaeth ac arweinyddiaeth ledled y wlad. Ond mae'r BBC yng Nghymru mewn sefyllfa dda. Gyda Chyfarwyddwr newydd a phencadlys newydd, bydd bellach yn gallu bod yn gartref i BBC Cymru, i gydweithwyr newydd o dan gynlluniau Across the UK, ac i'r sector creadigol ehangach.

Elan Closs Stephens

Cadeirydd Pwyllgor Cymru
23 Mehefin 2022

Yr Alban

Braint o'r mwyaf oedd cael fy mhenodi'n aelod Bwrdd y BBC dros yr Alban, ac ymgymryd â rôl Cadeirydd Pwyllgor yr Alban. Ymgymerais â'r rôl ar ddechrau 2022 a hoffwn dalu teyrnged i'm rhagflaenydd, Steve Morrison, a gadeiriodd y Pwyllgor o 2017 ac sydd bob amser wedi bod yn gefnogwr ac yn eiriolwr brwd dros y BBC yn yr Alban a'r Alban ar y BBC. Edrychaf ymlaen at barhau â'i waith.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn a chynhaliodd sesiynau ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar-lein â defnyddwyr y BBC yn yr Alban hefyd. Yn ein cyfarfodydd, rydym wedi rhoi ffocws rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud â'r farchnad a pherfformiad gyda chynulleidfaoedd ac rydym wedi derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr ar faterion allweddol i BBC Scotland. Roedd yn bleser gennyf glywed sut roedd timau yn BBC Scotland yn parhau i ymateb i nifer o heriau ar yr un pryd er mwyn darparu cynnwys perthnasol ac eithriadol ar gyfer cynulleidfaoedd. Rhoddodd timau Newyddion sylw cyfredol a diduedd i flwyddyn arall o wybodaeth a dadansoddiad ym maes iechyd yn yr Alban; roedd etholiadau Senedd yr Alban a ffurfio llywodraeth glymblaid yn ganolog i'n hallbwn gwledyddol; a lluniodd timau ym mhob rhan o'r sefydliad gyfoeth o ddeunydd mewn cysylltiad â'r gynhadledd ar hinsawdd y byd, COP26, pan gafodd ei chynnal yn Glasgow.

Yn ystod y flwyddyn hon, cafodd y Pwyllgor drafodaeth dda am arlwy drama'r Alban, i'r genedl ac ar y rhwydwaith. Rydym hefyd wedi gweld adferiad sylweddol yng ngwariant y BBC yn yr Alban y flwyddyn hon, yn sgil effaith cau cynrychiadau oherwydd y pandemig yn 2020, yn bennaf drwy ddarlledu dramâu allweddol o'r Alban megis *Guilt*, *Vigil* a *Shetland*. Trafodwyd adfywiad sector cerddoriaeth a diwylliant yr Alban, a gyflwynwyd i gynulleidfaoedd drwy'r sylw ar wyliau haf Caeredin a oedd yn ailddechrau, a Celtic Connections a TRNSMT yn Glasgow. Ac roedd yn bleser gennyf hefyd fod yn bresennol i weld Cerddorfa Symffoni'r BBC yn yr Alban yn datgelu ei chynlluniau ar gyfer tymor llawn yn 2022-23 yn ddiweddar, gyda chyngherddau wedi'u trefnu o Aberdeen i Aeron, sef y sesiwn lawn gyntaf ers tair blynedd.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yn yr Alban ar dudalennau 39 a 176.

Yn ystod y flwyddyn, roedd aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys: fy rhagflaenydd, Steve Morrison; Cadeirydd y BBC, Richard Sharp; Steve Carson, Cyfarwyddwr BBC Scotland; Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr y Gwledydd, ac Ian Small. Gadawodd Ian ei rôl y flwyddyn hon, ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth eithriadol fel Pennaeth Polisi Cyhoeddus a Materion Corfforaethol BBC Scotland, ac mae Luke McCullough wedi cael ei benodi yn ei le.

Dros y flwyddyn sydd i ddod, rwy'n edrych ymlaen at gael cyfle i ddechrau teithio o amgylch yr Alban, gan gyfarfod â thimau, cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid i glywed am y materion sy'n effeithio arnynt a sut y gall y BBC eu gwasanaethu orau. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at barhau i godi proffil materion yr Alban ar Fwrdd y BBC a pharhau â'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud er mwyn sicrhau bod ffi'r drwydded yn cael ei defnyddio i gefnogi a chyfoethogi cynulleidfaoedd ledled yr Alban.

Muriel Gray

Cadeirydd Pwyllgor yr Alban
23 Mehefin 2022

Llywodraethu

Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd – parhad

Gogledd Iwerddon

Rwyf wedi bod yn aelod o Bwyllgor Gogledd Iwerddon ers 2017 ac rwyf bellach wedi cael fy mhenodi'n Gadeirydd arno dros dro, gan nad oes gan y Bwrdd aelod llawn amser sy'n cynrychioli Gogledd Iwerddon eto. Ymgymerais â'r rôl newydd hon ar ddechrau 2022 ar ôl ymadawiad Fran Unsworth â'r BBC.

Fel aelodau'r Bwrdd, rydym yn llwyr ddeall pwysigrwydd rôl cyfarwyddwr anweithredol Gogledd Iwerddon a'r pryderon a fynegwyd gan lawer o bobl am yr oedi cyn penodi rhywun i'r rôl honno. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y mater hwn ac rydym yn obeithiol o hyd y bydd yr ymarfer recriwtio diweddaraf yn llwyddiannus, gyda'r holl fanteision a ddaw yn ei sgil i waith y Bwrdd a'i berthynas â chynulleidfaoedd y BBC yng Ngogledd Iwerddon.

Roedd cyfyngiadau COVID-19 yn golygu bod cyfarfodydd y Pwyllgor wedi cael eu cynnal yn rhithwir drwy gydol y flwyddyn. Yn ymuno â ni ar y Pwyllgor roedd Rhodri Talfan Davies, Peter Johnston, Adam Smyth (ar ôl iddo gael ei benodi'n Gyfarwyddwr BBC Northern Ireland dros dro ym mis Ionawr 2022) a Mark Adair. Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr am eu cyfraniad i waith y Pwyllgor a'n trafodaethau am y BBC a'i wasanaethau yng Ngogledd Iwerddon a hefyd i'r staff a baratodd y data ariannol a'r data ar gynulleidfaoedd i ni eu hystyried.

Cawsom ddiweddariadau manwl ar berfformiad BBC Northern Ireland a'r materion allweddol a oedd yn effeithio ar ei waith a'i ddatblygiad. A chyfarfuom â grŵp ffocws o aelodau cynulleidfa yn ein cyfarfod ym mis Mawrth 2022, a fu'n gyfle i ni glywed eu safbwyntiau am wasanaethau newyddion y BBC a'r straeon sydd bwysicaf iddynt.

Nododd y Pwyllgor barhad perfformiad cadarn BBC Radio Ulster/ Foyle a'r cyfraniad y mae rhaglenni teledu lleol yn ei wneud at apêl gwasanaethau teledu'r BBC yng Ngogledd Iwerddon. Cafodd ei galonogi gan effaith a phoblogrwydd rhaglenni rhwydwaith y BBC o'r rhanbarth a'u cyfraniad at bortread diwylliannol a'r economi greadigol ehangach. Mae llawer o'r gweithgarwch hwn wedi cael budd o bartneriaeth arloesol y BBC â Northern Ireland Screen a chroesawodd y Pwyllgor y penderfyniad i adnewyddu ac estyn y trefniant hwn am gyfnod pellach ym mis Mehefin 2021.

Cymerodd y Pwyllgor gryn ddi-ddordeb yn y gwaith arfaethedig i adnewyddu Canolfan Ddarlledu Belfast ac effaith gostyngiadau yn ei maint a'i chyllid. Myfyriodd hefyd ar y ffordd roedd COVID-19 wedi effeithio ar ffyrdd o weithio yn y BBC, anghenion ac amrywiaeth cynulleidfaoedd lleol, a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys fel rhan o ymrwmiadau Across the UK y BBC. A thrafododd y sylw ar ganmlwyddiant sefydlu Gogledd Iwerddon a'r cynlluniau darlledu uchelgeisiol a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer etholiad y Cynulliad.

Bydd y 12 mis nesaf yn gyfnod pwysig i'r BBC a'i ddyfodol. Fel y cyfryw, rwy'n gobeithio mai dim ond am ychydig y byddaf yn y Gadair ac y bydd gennym aelod Bwrdd dros Ogledd Iwerddon yn fuan, a fydd yn ein helpu i sicrhau bod anghenion cynulleidfaoedd lleol wrth wraidd cynlluniau'r BBC.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Ngogledd Iwerddon ar dudalennau 40 a 178 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Elan Closs Stephens

Cadeirydd Dros Dro Pwyllgor Gogledd Iwerddon
23 Mehefin 2022

Lloegr

Ymgymerais â rôl Cadeirydd Pwyllgor Lloegr y Bwrdd ym mis Mai 2021 a'r flwyddyn hon, un ymgymeriad mawr i ni oedd rhoi Adolygiad Nicholas Serota o Brosesau Golygyddol, Llywodraethu a Diwylliant y BBC ar waith, yn enwedig sut y byddai hyn yn effeithio ar waith BBC England. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i ystyried sut y dylid ymgorffori ein didueddrwydd a'n gwerthoedd golygyddol yn holl allbwn BBC England ar bob llwyfan.

Yn ystod y flwyddyn, cawsom ddiweddariadau hefyd ar y cynnydd o ran gweithio hybrid a dychwelyd i'r gwaith, yn ogystal â chyflawni arbedion ac ailstrwythuro arfaethedig Trawsnewidiad BBC England.

Y flwyddyn hon, lanswyd nifer o fentrau gyda'r nod o wella gwasanaethau BBC England i gynulleidfaoedd, yn enwedig y rhai sy'n cael eu tanwasanaethu ar hyn o bryd. Roedd y rhain yn cynnwys y cyhoeddiad ynglŷn ag uwchraddio manylder uwch ar gyfer rhaglenni teledu rhanbarthol ar BBC Network, uwchraddio orielau stiwdios teledu rhanbarthol, darparu technoleg symudol newydd ar gyfer ffilmio ac ad-drefnu ein timau digidol.

Gwnaeth ymgyrch Make a Difference radio lleol BBC England adeiladu ar ei llwyddiant, gan ddangos ei phwysigrwydd i'n cynulleidfaoedd a'n cymunedau lleol ac mae cynlluniau eisoes yn mynd rhagddynt i drefnu digwyddiad gwobrwyo Make a Difference ym mhob ardal gorsaf radio lleol yn ystod yr hydref.

Parhaodd gwybodaeth a newyddion lleol diduedd a dibynadwy i fod yn hollbwysig i gynulleidfaoedd, gydag ymchwydd amrywiolyn Omicron, stormydd tywydd garw a goresgyniad Wcráin ar frig ein agenda newyddion.

Adolygwyd ein data ar gynulleidfaoedd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ac roedd yn bleser gennym weld bod y rhaglenni newyddion rhanbarthol am 1830 wedi cadw eu safle fel y rhaglenni newyddion mwyaf poblogaidd yn y wlad. Mae ffigurau RAJAR ar gyfer radio lleol wedi dychwelwyd gyda methodoleg newydd, sy'n dangos bod gwrandawyr radio lleol yn Lloegr yn sefydlog, sef 6.7 miliwn o wrandawyr. Perfformiodd gwefan BBC England yn dda, gan gyrraedd 20.8 miliwn o borwyr, sef ei chyrraeddwythnosol uchaf, wrth adrodd ar y saethu yn Plymouth. Yn ystod y flwyddyn hon lanswyd cyfres newydd BBC England, *We Are England*. Mae'r gyfres materion cyfoes yn archwilio'r materion sy'n bwysig i bobl, ac yn adlewyrchu wynebau a safbwyntiau newidiol y genedl.

Parhaodd y Pwyllgor i weithio o bell yn ystod y pandemig. Ymgymerais â rôl y Cadeirydd yn lle fy rhagflaenydd Ashley Steel pan ymunais â'r Bwrdd. Ar ôl ymadawiad Tom Ilube ym mis Mehefin 2021, ymunodd y Farwnes Tanni Grey-Thompson, un o aelodau anweithredol y Bwrdd, â'r Pwyllgor dros dro nes i'w chyfnod yn y swydd ddod i ben ym mis Rhagfyr 2021. Aelodau gweithredol y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr y Gwledydd ac Adrian Mills, Cyfarwyddwr Busnes a Gweithrediadau BBC England. Penodwyd Jason Horton, Pennaeth De, De-ddwyrain a Dwyrain Lloegr yn Gyfarwyddwr Dros Dro BBC England tra oedd Helen Thomas ar gyfnod absenoldeb hirdymor oherwydd salwch, ac ymunodd â'r Pwyllgor hefyd. Hoffwn ddiolch i'm holl gydweithwyr am eu gwaith ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yn Lloegr ar dudalennau 41 a 179.

Robbie Gibb

Cadeirydd Pwyllgor Lloegr
23 Mehefin 2022

Adroddiad y Pwyllgor Masnachu Teg

Roedd yn bleser gennyf gael fy mhenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg gan y Bwrdd ar ddechrau blwyddyn ariannol 2022/23. Ar ôl bod yn aelod o'r Pwyllgor ers ei sefydlu, rwy'n ymwybodol iawn o'r rôl glir a phwysig y mae'n ei chwarae i sicrhau bod gweithrediadau masnachol y BBC yn cael eu rheoli'n hollol unol â'r gofynion a bennwyd ar gyfer masnachu a gwahanu gan ein rheoleiddiwr.

Fel grŵp, mae gennym nifer o systemau a phrosesau sefydledig ar waith i'n helpu i wneud hyn. Yn ystod y flwyddyn mae busnes y Pwyllgor wedi cynnwys:

- cael adroddiad rheoli chwarterol gan y Bwrdd Gweithredol, yn nodi gwaith ymgysylltu penodol â materion newydd a parhaus ynglŷn â masnachu a gwahanu ym mhob rhan o'r BBC;
- ystyried prosesau'r BBC ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Ofcom ac adolygu cydymffurfiaeth â'r rhain;
- cyfarfod ag Ofcom yn anffurfiol i drafod materion penodol o bwys;
- rhoi cyngor i'r Bwrdd ar faterion sy'n rhan o'n cylch gwaith;
- adolygu a monitro targedau ar gyfer hyfforddiant ar Fasnachu Teg ar draws y BBC;
- cymeradwyo pob cyhoeddiad ac adroddiad perthnasol y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarparu'n benodol er mwyn cydymffurfio â rheolau masnachu a gwahanu Ofcom.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi edrych yn fanwl ar faterion sy'n codi ar ôl trosglwyddo dau faes busnes o wasanaeth cyhoeddus y BBC i BBC Studios. Gwnaethom adolygu a chymeradwyo'r newidiadau i'r trefniadau ar gyfer prisiau trosglwyddo a oedd yn angenrheidiol ar ôl i BBC Global News Limited symud i BBC Studios. A gwnaethom hefyd adolygu'r cynlluniau ar gyfer trosglwyddo cynhyrchu mewnol Plant i BBC Studios, a'r mesurau diogelu sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau gwahanu priodol a rhannu gwybodaeth o dan y strwythur newydd. Ynghyd â hyn, rydym yn cyflwyno adroddiad risg a sicrwydd rheolaidd i'r Pwyllgor ac rydym wedi parhau i fonitro'n ofalus reolaethau allweddol, megis darparu hyfforddiant ar Fasnachu Teg, lle mae cyfraddau cydymffurfio ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y systemau a'r prosesau ar gyfer rheoli masnachu a gwahanu yn parhau i weithio'n dda. Mae'r farn honno wedi'i hategu gan waith sicrwydd Masnachu Teg annibynnol, blynyddol Deloitte. Gweler ei adroddiad isod. Gwnaethom hefyd nodi na chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol ynghylch Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. Hefyd, cwblhaodd Ofcom ei hadolygiad o BBC Studios yn ddiweddar. Rydym yn croesawu ei chanfyddiad canolog bod y BBC yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau masnachu a gwahanu ac edrychwn ymlaen at weithio gydag Ofcom ar ei hargymhellion.

Yn ystod 2021/22, cadeiriwyd y Pwyllgor gan Tom Ilube yn gyntaf ac yna, ar ôl i Tom adael y Bwrdd ym mis Mehefin, gan Robbie Gibb a fu mor garedig ag ymgymryd â'r rôl tra oedd penodiadau anweithredol ehangach ac aelodaeth Pwyllgorau yn cael eu cwblhau'n derfynol. Bu Steve Morrison yn aelod o'r Pwyllgor hefyd nes iddo adael y Bwrdd ym mis Ionawr 2022. Hoffwn ddiolch i Tom Steve a Robbie am eu holl gymorth a chefnogaeth i waith y Pwyllgor. Hefyd, cafodd y Pwyllgor ei gefnogi'n dda gan arbenigedd timau Polisi, Cyfreithiol, Ysgrifenyddiaeth a'r rhannau masnachol o'r BBC.

Wrth i ni ddechrau blwyddyn newydd, mae Muriel Gray wedi ymuno â'r Pwyllgor ac mae'r Bwrdd yn parhau i adolygu cynlluniau ar gyfer ei aelodaeth yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at ymgymryd â'm rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor pwysig hwn, ac am sicrhau bod prosesau'r BBC ar gyfer masnachu a gwahanu yn parhau i fod yn gadarn, y cydymffurfir â nhw'n briodol, a'u bod yn cael eu deall drwy'r diwydiant cyfan.

Ian Hargreaves

Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg
23 Mehefin 2022

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Masnachu Teg – parhad

Adroddiad Masnachu Teg**Beth yw ystyr Masnachu Teg?**

Masnachu Teg yw'r term rydym yn ei ddefnyddio i ddisgrifio ein prosesau a'n harferion, o fewn y BBC ac wrth ddelio â thrydydd partion, er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau masnachol a'n gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i gael eu gwahanu'n briodol ac yn masnachu â'i gilydd ar sail marchnad. Mae hyn yn golygu na all y rhannau o'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded roi mantais gystadleuol i weithrediadau masnachol y BBC nac i unrhyw gwmni cynhyrchu annibynnol arall rydym yn ymwneud ag ef. Caiff y rheolau hyn eu goruchwyllo gan Ofcom, sy'n gosod y rheolau masnachu a gwahanu fel rhan o'i fframwaith cyffredinol ar gyfer y BBC, a gan bartion eraill fel y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sy'n ceisio sicrhau bod unrhyw ddefnydd o arian ffi'r drwydded yn briodol ac yn bodloni ein gofyniad.

Beth mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn ei wneud?

Sefydlwyd y Pwyllgor Masnachu Teg gan y Bwrdd er mwyn monitro a sicrhau gwahanu priodol rhwng gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol y BBC, yn unol â'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau masnachol a bennwyd gan Ofcom. Sefydlwyd y Pwyllgor gan y Bwrdd yn wirfoddol i gydnabod pwysigrwydd tryloywder ac effeithlonrwydd masnachol i'r BBC wrth weithredu ei is-gwmnïau masnachol.

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw goruchwyllo cydymffurfiaeth y BBC â'n rhwymedigaethau rheoleidiol ar gyfer masnachu a gwahanu rhwng a gwasanaeth cyhoeddus a'r is-gwmnïau masnachol. Ymhlith cyfrifoldebau craidd y Pwyllgor mae'r canlynol:

- ystyried adroddiadau ar y graddau y mae gweithgareddau'r BBC yn gyson â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom ac ymgysylltu'n anffurfiol â'r rheoleidiwr yn flynyddol;
- parhau i adolygu cydymffurfiaeth y BBC â gofynion rheoleiddio masnachu a gwahanu Ofcom;
- comisiynu a derbyn sicrwydd annibynnol blynyddol ynghylch rheolaethau cydymffurfio;
- ystyried datganiad o wahanu gweithredol, adroddiadau blynyddol a llawlyfr masnachu grŵp y BBC, a'u cymeradwyo i'w cyhoeddi;
- sicrhau bod methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cafodd y rheolau masnachu a gwahanu eu diweddarau ddiwethaf gan Ofcom ym mis Ebrill 2021 ac maent yn rhan o fframwaith Ofcom ar gyfer gweithgareddau masnachol y BBC, sy'n rheoleiddio rhyngweithio'r BBC â'r farchnad drwy ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau ei is-gwmnïau masnachol.

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau'r canlynol:

- bod yr holl weithgareddau masnachol yn cael eu cyflawni gan is-gwmnïau masnachol;
- bod unrhyw is-gwmnïau ar wahân i wasanaeth cyhoeddus y BBC yn weithredol;
- ei fod yn darparu nwyddau a gwasanaethau i is-gwmnïau masnachol ar sail telerau masnachol hyd braich;
- bod is-gwmnïau yn gwneud enillion masnachol;
- bod y BBC yn sicrhau bod prosesau priodol ar waith o ran tryloywder, monitro ac adrodd ar weithgareddau'r is-gwmnïau.

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau hyn, mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo ac yn sicrhau prosesau a gweithdrefnau'r BBC er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth uchel o'r fframwaith. I wneud hyn, mae tîm Polisi a Rheoleiddio Grŵp y BBC yn rheoli rhaglen hyfforddi wedi'i thargedu at staff sy'n debygol o ddod ar draws materion Masnachu Teg. Gwelwyd perfformiad cadarn dros y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â chyfraddau cydymffurfio hyfforddiant ar Fasnachu Teg, yn sgil y broses o fapio gofynion hyfforddiant gorfodol i rolau yn Fframwaith Llwybrau Gyrfya y BBC. O ganlyniad, mae cyfraddau cydymffurfio wedi cynyddu'n gyson, hyd at 99% ar gyfer hyfforddiant lefel Uwch a 96% ar gyfer hyfforddiant lefel Ymwybyddiaeth yn C4 21/22, a hynny diolch i ymateb da i waith monitro a chyfathrebu parhaus drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys ymgysylltu ar lefel uwch a negeseuon atgoffa, adroddiadau a gohebiaeth arall a anfonwyd at arweinwyr timau, prif swyddogion gweithredu a chyfarwyddwyr is-adrannol gan Academi'r BBC.

Caiff y Pwyllgor ei frifio ar gwynion perthnasol ynglŷn â rheoleiddio a Masnachu Teg sy'n dod i law ac y mae'r BBC yn ymdrin â nhw. Rhoddir manylion am y rhain mewn rhan arall o'r Adroddiad Blynyddol (gweler tudalen 129), er i'r Pwyllgor nodi na ddaeth unrhyw gwynion Masnachu Teg penodol i law yn ystod y flwyddyn.

Sut mae'r Pwyllgor yn gweithio

Yn ystod 2021/22, cadeiriwyd y Pwyllgor gan Tom llube nes iddo adael y Bwrdd ym mis Mehefin 2021. Ymgymrodd Robbie Gibb â rôl y Cadeirydd am weddill y flwyddyn, tra oedd strwythurau aelodaeth newydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael eu cwblhau'n derfynol. Bu Ian Hargreaves yn aelod o'r Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn a daeth yn Gadeirydd o fis Ebrill 2022. Bu Steve Morrison yn aelod o'r Pwyllgor nes iddo adael y Bwrdd ym mis Ionawr 2022. Gadawodd Shirley Garrod y Pwyllgor ar ddiwedd 2020/21, oherwydd gwrthdaro â'r rôl fel Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu Archwilio Deloitte. Penodwyd Muriel Gray yn aelod o'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2022.

Yn ystod y flwyddyn, mynychwyd cyfarfodydd y Pwyllgor Masnachu Teg gan y Cyfarwyddwr Polisi a'r Rheolwr Rheoleiddio, yn ogystal â'r Prif Swyddog Ariannol y Grŵp, y Pennaeth Cyfreithiol Masnachol a chynghorwyr eraill fel y bo angen. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, gyda phapurau'n cael eu cymeradwyo hefyd all-lein lle y bo angen (gweler tabl presenoldeb y Pwyllgor ar dudalen 104).

Er mwyn cefnogi'r fframwaith, a rhoi sicrwydd ynglŷn â'r ffordd y mae'r BBC yn ymdrin â rheoleiddio dra a'r defnydd o arian cyhoeddus, mae'r Pwyllgor yn parhau i gomisiynu o'i wirfodd sicrwydd blynyddol gan roddwr sicrwydd yn unol ag ISAE 3000 (Diwygiedig). Mae adroddiad y rhoddr sicrwydd ar Fasnachu Teg ar y dudalen nesaf.

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn nodi pedwar maen prawf ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau masnachol y BBC: mae'n cyd-fynd â'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus; effeithlonrwydd masnachol; nid yw'n peryglu enw da'r BBC na gwerth ei frand; ac nid yw'n ystumio'r farchnad. Ar ôl cael adroddiadau gan yr uwch-reolwr perthnasol, ac ar ôl ystyried y canfyddiadau o ran Sicrwydd Masnachu Teg, mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn fodlon bod pob gwasanaeth masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg i'r BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Barn am drefniadau Masnachu Teg

Yn ein rôl fel darparwr sicrwydd rhesymol Masnachu Teg y BBC, rydym wedi asesu'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd yn y BBC i gydymffurfio ag agweddau ar Fasnachu Teg gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 ('y Trefniadau Masnachu Teg').

Yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwysu system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

Cyfrifoldebau Bwrdd y BBC

Mae Ofcom wedi rhoi dyletswydd ar y Bwrdd i sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol sydd â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â Threfniadau Masnachu Teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, gan gynnwys nodi ac asesu'r risgiau a allai beryglu Masnachu Teg a llunio ymatebion i risgiau o'r fath a'u rhoi ar waith.

Ein hannibyniaeth a rheoli ansawdd

Rydym wedi cydymffurfio â gofynion Cod Moseg ICAEW o ran annibyniaeth a materion moesegol eraill – cod sy'n seiliedig ar egwyddorion sylfaenol uniondeb, gwrthrychedd, cymhwysedd proffesiynol a sylw dyladwy, cyfrinachedd ac ymddygiad proffesiynol.

Ein cyfrifoldebau

Rydym yn gyfrifol am fynegi barn am reolaethau mewnol y BBC i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Trefniadau Masnachu Teg, yn seiliedig ar ein gwaith sicrwydd. Gwnaethom gynnal proses sicrwydd rhesymol yn unol â Safon Ryngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000 (Diwygiedig), Ymrwymadau Sicrwydd ac eithrio Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol.

Mae'n ofynnol i ni gynllunio a chyflawni ein gweithdrefnau er mwyn cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwysu system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022. Cynhaliwyd asesiad risg er mwyn nodi'r agweddau hynny ar gyfundrefn reoli Masnachu a Gwahanu'r BBC a oedd fwyaf tebygol o arwain at beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg, gan ganolbwyntio ein profion manwl ar y meysydd hyn. Dewiswyd achosion unigol o ohebiaeth masnachu teg y BBC i'w hadolygu, a gwnaethom archwilio cofnodion ysgrifenedig a chyfweld â phartion perthnasol ar gyfer pob un. Fel rhan o'n gwaith, archwiliwyd y trefniadau ar gyfer prisiau trosglwyddo a gwahanu, defnyddio brand y BBC a thalu amdano, a chymhwysu gofyniad y Siarter Frenhinol nad yw gweithgareddau masnachol y BBC, o ganlyniad i'w cydberthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth neu weithgareddau masnachu, yn ystumio'r farchnad nac yn rhoi mantais gystadleuol annheg.

Cyfngiadau annatod

Mae pob system rheolaeth fewnol yn destun cyfngiadau, ac yn unol â hynny efallai na fydd y rheolaethau mewnol a sefydlwyd gan y BBC yn atal nac yn canfod pob achos o beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg. At hynny, oherwydd bod materion masnachu teg yn gofyn am farn a allai yn y pen draw gael ei phrofi mewn llys barn, gan yr awdurdod cystadleuaeth neu yn rhywle arall, mae bob amser risg o her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol a lle y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal mwyaf.

Defnyddio ein hadroddiad

Gwnaed yr adroddiad hwn i'r BBC yn unig yn unol â'r cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt â'r Pwyllgor Masnachu Teg ar ran y BBC. Cynhaliwyd ein gwaith er mwyn i ni allu hysbysu'r Pwyllgor Masnachu Teg am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu amdanynt mewn adroddiad sicrwydd annibynnol ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r BBC am ein gwaith, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Deloitte LLP

Llundain, y DU
23 Mehefin 2022

Llywodraethu

Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon archwiliedig.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn ei gyfrifoldeb am baratoi adroddiad strategol, datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau a rheoliadau cymwys (gan gynnwys adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd) a'r datganiad o gyfrifon y bwriedir iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r BBC a'i is-gwmnïau (y 'Grŵp') a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae'r Bwrdd wedi paratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE. Ni chaiff y Bwrdd gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon (neu'r 'datganiadau ariannol') oni fydd yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau a sefyllfa ariannol y Grŵp a'r gwarged neu'r diffyg yn y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarvoudus;
- nodi a gawsant eu paratoi yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, am ei fod o'r farn y bydd y BBC yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y BBC a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd yn cydymffurfio â'r Siarter. Hefyd, mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i gymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu asedau'r BBC ac atal a chanfod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

Caiiff cyfrifoldebau'r Bwrdd am sicrhau bod y BBC yn gwarchod arian cyhoeddus yn drylwyr, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra rheoli adnoddau'r BBC, eu nodi yn erthygl 16 o'r Siarter.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal gwefan y BBC a sicrhau ei bod yn gywir. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd yn eu rôl ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, y caiff eu henwau a'u swyddogaethau eu rhestru yn adran Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred:

- bod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE, yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a diffyg y Grŵp;
- bod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir ganddo;
- bod yr Adroddiad Blynyddol, yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar dalwyr ffi'r drwydded i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp.

Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilwyr


Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn dod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Busnes gweithredol


Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi rhagamcanion llif arian parod am gyfnod y tu hwnt i flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, ac maent wedi adolygu'r rhagamcanion hyn, ynghyd â'r materion sensitif a'r ffactorau lliniarol yng nghyd-destun yr arian sydd ar gael.

Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y BBC mewn sefyllfa dda i reoli'r risgiau a bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y 12 mis nesaf o leiaf. O ganlyniad, mabwysiadwyd sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cafodd y datganiad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd.


Richard Sharp

Cadeirydd
23 Mehefin 2022



PERFFORMIAD YN ERBYN YMRWYMIADAU CYHOEDDUS

Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynnydd tuag at wahanol ymrwymïadau cyhoeddus. Daw'r ymrwymïadau hyn o'r Siarter, y Cytundeb, ein rhwymedigaethau o ran y drwydded ac ymrwymïadau a wnaed gennym i ddarparu gwasanaethau i'n cynulleidfaoedd.

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus Cydymffurfiaeth reoleiddiol

Mae'r tabl isod yn nodi cydymffurfiaeth y BBC â'r amodau rheoleiddio yn Nhrwydded Weithredu Ofcom. Mesurir cydymffurfiaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 oni nodir yn wahanol. Trefnir y gofynion isod yn ôl diben cyhoeddus.

Llwyddodd y BBC i fodloni bron pob un o'i 151 o amodau o dan y Drwydded Weithredu, gyda phedwar o eithriadau, a ddangosir isod.

Rydym wedi bod mewn cysylltiad ag Ofcom drwy gydol y pandemig er mwyn ei hysbysu am effaith COVID-19 ar ein gweithrediadau a'n gallu i fodloni rhwymedigaethau ein Trwydded Weithredu. Rydym wedi cyflwyno tystiolaeth i Ofcom bod achosion o dorri amodau'r drwydded o ganlyniad i COVID-19 a'n bod wedi gwneud pob ymdrech resymol i barhau i gyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus.

Amod y Drwydded Weithredu	Cwota	Gwirioneddol	Gwahaniaeth
2.39.4 Sesiynau newydd byw neu a recordiwyd yn y tri mis blaenorol (heb gynnwys ailddarllodiadau)	175 o sesiynau	104 o sesiynau	-71 o sesiynau
2.8.1 Newyddion yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos ar Radio 1	1 awr y dydd	Tri munud o dan yr amod ar ddau ddiwrnod – 12 Ebrill 2021 a 23 Ebrill 2021	
2.9.1 Newyddion yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos ar Radio 1	1 awr y dydd	Tri munud o dan yr amod ar ddau ddiwrnod – 12 Ebrill 2021 a 20 Ebrill 2021	
2.67.6 Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion o ddiwrnod cenedlaethol neu ranbarthol yn ystod oriau brig ar BBC One a BBC Two	557 awr	446 awr	-111 awr

Ar gyfer Amod 2.39.4 a 2.67.6, ni lwyddodd y BBC i gyrraedd y cwota oherwydd effaith barhaus COVID-19. Fel yn 2020/21, mae'r angen i sicrhau bod ein gwaith yn ddiogel o ran COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ein gallu i gynnig gofod dynodedig i berfformwyr yn y BBC. Creodd yr angen i gadw pellter cymdeithasol gyfyngiadau ar y modd y defnyddir ein gofodau a pha mor aml y cânt eu defnyddio. Cafodd y pandemig hefyd effaith barhaus ar y gwaith o gynhyrchu rhaglenni newydd a'u hargaeledd, rhoi sylw i ddigwyddiadau ac, weithiau, argaeledd staff; mae hyn, yn anochel, wedi effeithio ar ein gallu i gyflawni yn erbyn rhai o'n cwotâu rheoleiddiol.

Ar gyfer amodau 2.8.1 a 2.9.1, ni chyrraeddwyd y cwota ar 12 Ebrill 2021 oherwydd newid yn yr amserlen o ganlyniad i farwolaeth y Tywysog Philip. Ni chyrraeddwyd y cwotâu ar 20 Ebrill 2021 a 23 Ebrill 2021 oherwydd gwall; rydym wedi hysbysu Ofcom am y gwall hwn ac nid ydym yn disgwyl i Ofcom gymryd camau gorfodi.

Diben Un: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
BBC One			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
Oriau o newyddion	1	1,520 (280 yn ystod oriau brig)	1,697 (303 yn ystod oriau brig)
Oriau o faterion cyfoes yn ystod oriau brig	1	45	46
BBC One a BBC Two			
Oriau o faterion cyfoes	1,2	450 (106 yn ystod oriau brig)	514 (117 yn ystod oriau brig)
BBC Three			
Newyddion bob diwrnod o'r wythnos sydd â'r nod o apelio i bobl 16-34 oed	3	✓	✓
CBBC			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
Oriau o newyddion		35	44
BBC News			
Mwy o newyddion rhyngwladol na phrif sianelau newyddion parhaus eraill yn y DU		✓	✓
Mwy o newyddion lleol/rhanbarthol na phrif sianelau newyddion parhaus eraill yn y DU		✓	✓
Radio 1			
Oriau o newyddion yn ystod y dydd bob diwrnod o'r wythnos	4	1	1 (gweler nodyn 3)
Dau fwletin newyddion estynedig (un yn ystod oriau brig) bob diwrnod o'r wythnos	4	✓	✓
Bwletin rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau		✓	✓
Radio 1Xtra			
Oriau o newyddion yn ystod y dydd bob diwrnod o'r wythnos	4	1	1 (gweler nodyn 3)
Dau fwletin newyddion estynedig bob diwrnod o'r wythnos		✓	✓
Bwletin rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau		✓	✓
Radio 2			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		17 (3 yn ystod oriau brig)	17 (3 yn ystod oriau brig)
Bwletin rheolaidd		✓	✓
Radio 3			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
Radio 4			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		2,750	3,249
Adroddiadau dyddiol o drafodion Senedd y DU pan fo Senedd y DU yn eistedd		✓	✓
BBC Radio 5 Live			
% yr allbwn sy'n newyddion a materion cyfoes		75	76
Sylw helaeth i etholiadau lleol a chyffredinol, etholiadau siambrau datganoledig y DU, a sylw rheolaidd i wleidyddiaeth Ewropeaidd a rhyngwladol		✓	✓
BBC 6 Music			
Oriau wythnosol o newyddion		6	6
BBC Asian Network			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		24	24
BBC Ar-lein			
Dolenni digonol i ddeunydd trydydd partion		✓	✓
Newyddion dyddiol a gwybodaeth i blant, wedi'u darparu drwy gynnwys mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol, gan gynnwys erthyglau ar ffurf testun, fideos a darnau rhyngweithredol, sy'n ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau ac a ddylai gynnwys newyddion a dadansoddiadau manwl.		✓	✓

Nodiadau

- Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2021
- Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth
- Lansiodd sianel BBC Three ym mis Chwefror 2022
- Cyflawnodd Radio 1 a Radio 1xtra yr amod am bob diwrnod o'r flwyddyn ond dau, y cyntaf oherwydd newid yn yr amserlen a'r ail pan oedd dri munud o dan yr amod ar gyfer awr oherwydd gwall amserlennu, fel y nodwyd uchod

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus

Cydymffurfiaeth reoleiddiol – parhad

Diben Dau: Cynorthwyo pobl o bob oed i ddysgu

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
BBC One Oriau o'r celfyddydau a cherddoriaeth, gyda rhywfaint yn ystod oriau brig		45	54 (16 yn ystod oriau brig)
BBC One a BBC Two Oriau o raglenni crefyddol	1	115	141
BBC Two Oriau o'r celfyddydau a cherddoriaeth, gyda rhywfaint yn ystod oriau brig		175	332 (137 yn ystod oriau brig)
BBC Four Oriau newydd o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth		175	189
CBeebies Amrywiaeth o gynnwys sy'n helpu plant cyn oedran ysgol i ddysgu		✓	✓
CBBC Oriau o ddrama Oriau o raglenni ffeithiol		1,000 675	1,252 1,175
BBC ALBA Oriau wythnosol gwreiddiol ar gyfer dysgwyr Gaeleg		5	11
Radio 1 Nifer y rhaglenni dogfen newydd		40	41
Radio 1Xtra Nifer y rhaglenni dogfen		40	52
Radio 2 Oriau o raglennu celfyddydol Oriau o raglenni dogfen newydd Oriau o allbwn crefyddol gan gwmpasu sawl ffydd		100 130 170	121 136 187
Radio 3 % yr allbwn byw neu gerddoriaeth a recordiwyd yn arbennig Nifer y perfformïadau byw neu berfformïadau a recordiwyd yn arbennig Nifer y darnau o waith cerddorol newydd a gomisiynwyd Nifer y rhaglenni dogfen newydd ar y celfyddydau a phynciau diwylliannol		45 440 25 35	52 516 39 42
Radio 4 Oriau o raglenni dogfen gwreiddiol Oriau o raglennu crefyddol gwreiddiol gan gwmpasu sawl ffydd		375 200	418 203
BBC 6 Music Oriau o raglenni dogfen, traethodau a rhaglenni nodwedd llafar		520	520
BBC Ar-lein Cynnwys sy'n helpu plant a phobl ifanc gyda'u dysgu ffurfiol ledled y DU		✓	✓

Nodiadau

1 Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth

2 Heb gynnwys ailddarllediadau

Diben 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
Teledu			
% yr oriau a oedd yn rhaglenni gwreiddiol			
BBC One	1,2	75	85
BBC One yn ystod oriau brig		90	99
BBC Two		75	89
BBC Two yn ystod oriau brig		90	94
BBC Three	3	75	
BBC Four		75	77
BBC Four yn ystod oriau brig		60	74
BBC News		90	98
BBC Parliament		90	98
CBBC		72	72
CBeebies		70	74
BBC ALBA		75	94
BBC Scotland		75	97
Oriau o raglenni gwreiddiol a ddangoswyd gyntaf yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig			
BBC One	2,4	4,000	4,323
BBC Two		2,200	2,554
CBBC a BBC iPlayer		350	384
CBBC		175	366
CBeebies a BBC iPlayer		100	120
CBeebies		50	120
BBC One a BBC Two			
Oriau o raglenni comedi, rhai yn ystod oriau brig	5	300	305 (195 yn ystod oriau brig)
BBC Three			
Rhaglenni gwreiddiol o'r DU a ddangosir am y tro cyntaf i apelio at bobl 16-34 oed o gymysgedd o genres gwahanol	6	✓	✓
Radio			
Radio 1			
% y gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU		45	60
% y gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd, gyda chyfran helaeth gan artistiaid newydd neu artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU	7	50	54 (gweler nodyn 5)
Oriau wythnosol o gerddoriaeth arbenigol		60	71
Nifer y sesiynau newydd byw neu a recordiwyd yn y tri mis blaenorol (heb gynnwys ailddarllediadau)	8	175	104 (gweler nodyn 6)
Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy	9	✓	✓
Nifer yr ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol mawr	2,10	2	4
Radio 2			
% y gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU		40	51
% y gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd, gyda chyfran helaeth gan artistiaid newydd neu artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU	11	20	24 (gweler nodyn 9)
Oriau o gerddoriaeth fyw		260	260
Oriau o gerddoriaeth arbenigol		1,100	1,236
Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy	9	✓	✓
BBC Radio 5 Live			
Nifer y digwyddiadau chwaraeon â sylwebaeth fyw	12	20	43

Nodiadau

- Cynrychiadau gwreiddiol yn cynnwys holl raglenni'r BBC a gomisiynwyd, gan gynnwys ailddarllediadau
- Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2021
- Daw'r cwota hwn yn weithredol o ddechrau blwyddyn galendr 2023
- Nid yw rhaglenni gwreiddiol a ddangosir am y tro cyntaf yn cynnwys ailddarllediadau
- Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth
- Daw'r cwota hwn yn weithredol o ddechrau blwyddyn galendr 2023. Fodd bynnag, ers lansio'r sianel ym mis Chwefror 2022, mae wedi bod yn darlledu cynnwys gwreiddiol o'r DU a ddangosir am y tro cyntaf i bobl 16-34 oed ar draws amrywiaeth o genres
- Roedd 33% o'r ychwanegiadau at restr chwarae Radio 1 yn ystod 2020 gan 'artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU'
- Darlledodd Radio 1 104 o sesiynau newydd yn ystod 2021/22, 71 o sesiynau o dan yr amod. Y rheswm dros hyn oedd na fu modd recordio sesiynau byw newydd (ac felly eu darlledu) i raddau helaeth o stiwdio Maida Vale y BBC o ganlyniad i reolau cadw pellter cymdeithasol, fel y nodwyd uchod
- Gan ystyried sawl gwaith y'i chwaraewyd a maint y rhestr chwarae, yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig. Roedd 14% o'r ychwanegiadau at restr chwarae Radio 2 yn ystod 2020 gan 'artistiaid newydd ac sy'n dod i'r amlwg o'r DU'
- Yr ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol oedd 24-Hour LOL-a-thon ar Radio 1 gyda Scot a Chris, a gododd tua hanner miliwn o bunnoedd i Comic Relief ym mis Mawrth 2021; Radio 1's Big Weekend Connects, partneriaeth â'r Ganolfan Gwaith i roi'r cyfle i bobl ifanc ledled y DU ddysgu mwy am weithio mewn diwydiannau creadigol ym mis Mai 2021; Minute of Me ar Radio 1, yn cynnwys gwrandawr yn trafod materion amgylcheddol ym mis Tachwedd 2021; a Teen Heroes ar Radio 1, a roddodd sylw i bobl ifanc ysbrydoledig ledled y DU ym mis Tachwedd 2021
- Y rhestr gyflawn o chwaraeon yw Pêl-droed Dynion, Pêl-droed Menywod, Tennis, Golf Dynion, Golf Menywod, Bocsio Dynion, Bocsio Menywod, UFC, Rasio Ceffylau, Criced Dynion, Criced Menywod, Rygbi Menywod, Rygbi Dynion, Rygbi'r Gynghrair, Snwcer, Athletau, Formula One, Beicio Ffordd, Beicio Trac, BMX, Nofio, Triathlon, Marchogaeth, Rhwyfo, Canŵio, Deifio, Hoci, Gymnasteg, Taekwondo, Sgleffryddio, Beicio Mynydd, Trampolîn, Para Athletau, Para Jiwdo, Para Feicio, Para Farchogaeth, Cyrlio, Sgleffrio lla Cyflym Trac Byr, Sled-sgerbwdd, Eirafyrddio X, Slalom Sgio a Pharc Sgio

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus Cydymffurfiaeth reoleiddiol – parhad

Diben Pedwar: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
Teledu Rhwydwaith			
Ystod addas o raglenni a wneir y tu allan i ardal yr M25	1	✓	✓
% yr oriau a wnaed yn...mewn ystod addas o ganolfannau cynhyrchu	1		
Y DU (y tu allan i ardal yr M25)		50	64
Lloegr (y tu allan i ardal yr M25)		30	39
Yr Alban		8	15
Cymru		4	5
Gogledd Iwerddon		2	2
% yr oriau a wnaed yn...mewn ystod addas o ganolfannau cynhyrchu	1		
Y DU (y tu allan i ardal yr M25)		50	54
Lloegr (y tu allan i ardal yr M25)		30	32
Yr Alban		8	9
Cymru		5	7
Gogledd Iwerddon		3	4
BBC One			
Oriau o newyddion o ddi-ddordeb cenedlaethol neu ranbarthol drwy gydol y dydd	1	4,300 2,100 yn ystod oriau brig)	4,589 (2,216 yn ystod oriau brig)
BBC One a BBC Two			
Oriau o raglenni o ddi-ddordeb cenedlaethol neu ranbarthol	1,2	5,909	5,966
Ystod addas o raglenni o ddi-ddordeb cenedlaethol neu ranbarthol	1	✓	✓
% y rhaglenni a wnaed yn y lleoliad perthnasol	1	95	99
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion o ddi-ddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn ystod oriau brig	1,3	557	446 (gweler nodyn 5)
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion o ddi-ddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn agos i oriau brig	1	179	293
BBC One Scotland			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		290	424
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		155	255
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban		✓	✓
BBC One Wales			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		275	338
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		65	193
BBC Two Wales			
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		175	190
BBC One Wales a BBC Two Wales			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru		✓	✓
BBC One Northern Ireland			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		310	355
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		90	136
BBC Two Northern Ireland			
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		60	216
Rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster.		✓	✓
BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon		✓	✓
BBC Parliament			
Oriau o drafodion o Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon		300	1,556
Radio Rhwydwaith			
% o wariant gorsafoedd radio rhwydwaith y tu allan i ardal yr M25	4	30	39
% o wariant Radio 3 y tu allan i ardal yr M25		28	33
BBC Ar-lein			
Newyddion a gwybodaeth i ranbarthau Lloegr		✓	✓
Sylw i chwaraeon yn rhanbarthau Lloegr		✓	✓
Newyddion a gwybodaeth i'r Alban		✓	✓
Cynnwys Gaeleg		✓	✓

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
Sylw i chwaraeon yn yr Alban		✓	✓
Newyddion a gwybodaeth i Gymru		✓	✓
Cynnwys Cymraeg		✓	✓
Sylw i chwaraeon yng Nghymru		✓	✓
Newyddion a gwybodaeth i Ogledd Iwerddon		✓	✓
Cynnwys Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster		✓	✓
Sylw i chwaraeon yng Ngogledd Iwerddon		✓	✓
Gwasanaethau'r Gwledydd a'r Rhanbarthau			
BBC Scotland			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban		✓	✓
Amrywiaeth addas o raglenni, gan gynnwys newyddion yr Alban	1	✓	✓
% y rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a wnaed yn yr Alban	1	90	98
Oriau o newyddion yn ystod oriau brig	1, 5	250	279
BBC ALBA			
Newyddion byw bob noson o'r wythnos, gan gynnwys oriau brig, ac adolygiad hirach o'r newyddion ar benwythnosau		✓	✓
Radio Lleol y BBC			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar	6, 7	60	64
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar	6	100	100
Newyddion a gwybodaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau a wasanaethir drwy gydol y dydd	6	✓	✓
Cynnwys nad yw'n newyddion sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau a wasanaethir	6	✓	✓
Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol	7, 8	95	118
BBC Radio Guernsey – Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		80	111
BBC Radio Jersey – Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		80	113
BBC Radio Somerset – Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		70	104
BBC Radio Scotland			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	87
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		50	59
Sawl rhaglen eithrio ranbarthol bob diwrnod o'r wythnos, sy'n cynnig newyddion, chwaraeon a gwybodaeth, gan gynnwys rhaglennu cymunedol gyda'r nos		✓	✓
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r Alban		✓	✓
BBC Radio nan Gàidheal			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		40	48
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Newyddion mynych yn ystod y dydd, yn enwedig yn ystod oriau brecwast brig ac oriau brig yn ystod y prynhawn yn ystod yr wythnos ac oriau brig ar benwythnosau		✓	✓
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r Alban		✓	✓
BBC Radio Wales			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	70
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		32	43
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Gymru		✓	✓
BBC Radio Cymru			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	65
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		23	29
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Gymru		✓	✓
BBC Radio Ulster			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		35	37
BBC Radio Foyle			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		20	22
BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	67
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Ogledd Iwerddon		✓	✓
Oriau o raglennu mewn iaith leiafrifol frodorol, gan gynnwys Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster		240	259

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus

Cydymffurfiaeth reoleiddiol – parhad

Nodiadau

- Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2021
- Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth
- Darparodd y BBC 111 o oriau yn llai na'r amod Y rheswm dros hyn yw effaith COVID-19 ar elfennau amrywiol Fel y nodwyd uchod, creodd yr angen i gadw pellter cymdeithasol gyfyngiadau ar y modd y defnyddir ein gofodau a pha mor aml y cânt eu defnyddio, effeithiwyd ar brosesau cynhyrchu rhaglenni newydd a'u hargaeledd, darllediadau o ddigwyddiadau ac, ar adegau, ar argaeledd staff
- Mae hyn yn cynnwys cyfraniadau gan Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4 a BBC Radio 5 live
- Mesurwyd rhwng 19 00 a 22 30 o ystyried mai o 19 00 y mae'r sianel yn gweithredu yn bennaf gyda'r nos
- Yn gymwys i holl orsafoedd Radio Lleol y BBC Roedd pob gorsaf yn cydymffurfio ag amod y drwydded
- Y ffigur a roddir yw'r ffigur cyfartalog ar gyfer y gorsafoedd perthnasol
- Yn gymwys i holl orsafoedd Radio Lleol y, heblaw am BBC Radio Guernsey, BBC Radio Jersey a BBC Radio Somerset

	Nodyn	Cyflawnwyd	Adroddwyd
Amrywiaeth			
Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar y ffordd y mae wedi:			
Rhoi sylw i'r amrywiaeth o gymunedau amrywiol yn y DU	1	✓	Gweler tudalennau 42-43 ac adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Gwasanaethu'r amrywiaeth o gymunedau amrywiol yn y DU ac wedi darparu cynnwys ar eu cyfer		✓	Gweler tudalennau 42-43/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Cynrychioli cymunedau amrywiol y DU yn gywir		✓	Gweler tudalennau 42-43/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Portreadu cymunedau amrywiol y DU yn ddilys		✓	Gweler tudalennau 42-43/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau amgen cymunedau amrywiol y DU		✓	Gweler tudalennau 42-43/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar foddhad cynulleidfaoedd:			
Sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol	2	✓	Gweler tudalennau 42-43/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Sut mae'r BBC yn adlewyrchu poblogaeth gyfan y DU ar y sgrin ac ar yr awyr	2	✓	Gweler tudalennau 42-43/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Sut mae'r BBC yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau	2	✓	Gweler tudalennau 42-43/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Y camau y bydd yn eu cymryd i wella boddhad cynulleidfaoedd lle mae grwpiau cynulleidfa penodol yn anafodlon ar berfformiad y BBC yn y meysydd hyn		Dd/G	Dd/G
Y camau y mae wedi'u cymryd, ac effaith y camau hyn, i wella boddhad cynulleidfaoedd lle roedd grwpiau cynulleidfa penodol yn anafodlon ar berfformiad y BBC yn y meysydd hyn yn ystod y flwyddyn flaenorol		Dd/G	Dd/G
Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar amrywiaeth ei weithlu:			
Amrywiaeth yr holl staff a gyflogir mewn cysylltiad â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gan gynnwys nifer y staff yn ôl nodweddion amrywiaeth gwahanol	1	✓	Gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Lefel swydd staff o'r fath	3, 4	✓	Gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Y math o swydd sydd gan staff o'r fath	3, 5	✓	Gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Y graddau y mae'r BBC wedi gwneud cynnydd tuag at gyflawni ei dargedau o ran amrywiaeth y gweithlu		✓	Gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar y canlynol:			
Ei gynnydd tuag at ei dargedau o ran cynrychioli a phortreadu ar y sgrin ac ar yr awyr		✓	Gweler tudalennau 42-43/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Ei gydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth		✓	Gweler adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth

Nodiadau

- Gan gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir economaidd-gymdeithasol
- Gyda sylw penodol ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer pob genre
- Rydym wedi cyflwyno adroddiad pellach i Ofcom yn benodol ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU er mwyn bodloni'r amodau hyn
- Mae'n ofynnol i'r BBC adrodd ar staff o'r fath yn ôl y categorïau canlynol Aelodau a chyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd, uwch-reolwyr, rheolwyr canol/iau a staff nad ydynt yn rheolwyr Nid oes digon o aelodau na chyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd i ni adrodd ar eu hamrywiaeth yn unol â pharagraff 2.51 o'r Drwydded Weithredu Rydym yn nodi lefel swydd ein staff yn yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb a thrwy wybodaeth arall a gyflwynir i Ofcom yn ôl band cyflog, ac yn mapio hynny yn unol â chategorïau Ofcom fel a ganlyn A-C – staff nad ydynt yn rheolwyr; D-E – rheolwyr canol/iau; F-SL – uwch-reolwyr
- Mae'n ofynnol i'r BBC adrodd ar staff o'r fath yn ôl y categorïau canlynol rhaglennu, comisiynu, technegol/peirianeg, gwerthiannau/marchnata a swyddogaethau cymorth/gweinyddol

Materion rheoleiddiol eraill

Bodddhad cynulleidfaoedd gyda'r ffordd y caiff y cymunedau amrywiol yn y DU eu portreadu, eu cynrychioli a'u gwasanaethu

Mae angen i'r BBC fesur bodddhad cynulleidfaoedd yn ystod y flwyddyn ariannol gyda'r ffordd y caiff y cymunedau amrywiol yn y Deyrnas Unedig gyfan eu portreadu, eu cynrychioli a'u gwasanaethu. Mae canfyddiadau arolwg 2021/22 yn dangos, yn ôl oedran, rhyw, gradd gymdeithasol, ardal o'r DU, ac ymhlith cynulleidfaoedd gwyn a chynulleidfaoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a chynulleidfaoedd sy'n anabl ac nad ydynt yn anabl, bod y gyfran sy'n nodi bod y BBC yn effeithiol o ran y mesurau hyn yn uwch na'r rhai sy'n dweud ei fod yn aneffeithiol. Mewn rhai grwpiau cynulleidfa, er bod y mwyafrif neu fwyafrif cymharol o'r bobl a arolygwyd yn nodi bod y BBC yn effeithiol, gall y gyfran hon o bobl sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol fod yn is nag yn eu grŵp cymharu neu gall y gyfran sy'n dweud bod y BBC yn aneffeithiol fod yn uwch. Mae hyn yn dangos bod rhai grwpiau cynulleidfa yn llai bodlon ar y BBC yn hyn o beth nag eraill. Y flwyddyn hon, roedd hyn yn wir am gynulleidfaoedd C2DE o'u cymharu â chynulleidfaoedd ABC1 a dynion o'u cymharu â menywod; ac am rai mesurau ar gyfer cynulleidfaoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol o'u cymharu â chynulleidfaoedd gwyn; pobl dan 55 oed o'u cymharu â phobl dros 55 oed; yn yr Alban a Chymru ac yng Nghanolbarth Lloegr o'u cymharu â chyfartaledd Lloegr; a phobl sy'n anabl o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Am y tro cyntaf ar rai mesurau LHDTG+ rhoddodd cynulleidfaoedd sgoriau is na chynulleidfaoedd heterorywiol, ac roeddent wedi'u rhannu o ran p'un a gânt eu cynrychioli ar y BBC.

Newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU a gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC asesu a yw newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn sylweddol ai peidio. Os ydynt, mae'n ofynnol i ni gyflawni Prawf Budd y Cyhoedd, sydd wedyn yn gorfod cael ei gymeradwyo gan Ofcom cyn y gall y newid gael ei wneud.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y BBC ymgynghoriad ar y cynnig i lansio BBC Three fel sianel ddarlledu. Ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd Bwrdd y BBC Brawf Budd y Cyhoedd y BBC. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Ofcom ei phenderfyniad terfynol gan roi cymeradwyaeth i'r BBC fynd rhagddo â'i gynlluniau i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu a ddarlledir. Cafodd y sianel ei hail-lansio'n swyddogol ym mis Chwefror 2022.

Yn ystod 2021/22, rydym wedi cynnal un asesiad perthnasedd manwl o newid i Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu weithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth; treial o bedwar newid i BBC Sounds, yn cynnwys strategaeth caffael podlediadau mwy eang, rhyddhau podlediadau am gyfnod penodol, fformatau newydd ar gyfer deunydd ffurf fer a chynnwys wedi'i guradau y gellir ei chwarae ar Sounds. Penderfynodd y BBC nad oedd y treial yn sylweddol. Cadarnhaodd Ofcom nad oedd y treialon yn sylweddol ym mis Chwefror 2022.

Newidiadau i weithgareddau masnachol y BBC

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC asesu a yw newidiadau i'w weithgareddau masnachol yn sylweddol ai peidio. Yn ystod 2021/22, aseswyd a oedd y broses o drosglwyddo staff cynhyrchu mewnol Plant i BBC Studios yn newid sylweddol i weithgareddau masnachol y BBC. Penderfynodd y BBC ym mis Tachwedd 2021 nad oedd hyn yn newid sylweddol. Cadarnhaodd Ofcom nad oedd y newid yn sylweddol ym mis Mawrth 2022.

Cwynion rheoleiddiol

O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'r BBC yn gyfrifol am ymdrin â chwynion, drwy 'BBC first'. Y flwyddyn hon, ni chawsom unrhyw gwynion ynghylch materion cystadleuaeth. Ni chawsom unrhyw gwynion ychwaith ynghylch gofynion perthnasol eraill nad oeddent yn olygyddol.

Perfformiad yn erbyn ymrwymadau cyhoeddus

Ymrwymadau'r Cynllun Blynyddol

Ymrwymadau'r Cynllun Blynyddol

O dan y Siarter, mae'n ofynnol i'r BBC gyhoeddi Cynllun Blynyddol. Fel rhan o'r Cynllun Blynyddol, gwnaethom 106 o ymrwymadau cyhoeddus i wneud y BBC yn nodedig. Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud yn bennaf â digwyddiadau neu ganlyniadau penodol o ran ein gwasanaethau a ddiwyddodd yn ystod 2021/22.

Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
BBC One	Bydd BBC One yn parhau â'i ymrwymiad i newyddion gyda'n gwasanaethau newyddion cenedlaethol ar <i>Breakfast</i> , <i>News at One</i> , <i>News at Six</i> a <i>News at Ten</i> . Y prif faes ffocws dros y flwyddyn fydd darparu gwybodaeth a dadansoddiad cywir ar y pandemig a'i effaith, newid yn yr hinsawdd, y DU ar ôl Brexit yn ogystal â newyddion rhyngwladol.	CYFLAWNWYD
BBC One, BBC Two a BBC iPlayer	Rydym yn bwriadu darparu mwy na 750 awr o raglennu materion cyfoes i gynulleidfaoedd ar BBC iPlayer a'n sianelau teledu, yn cynnwys o leiaf 450 awr a ddarlledir ar BBC One a BBC Two. Ymysg y cyfresi newydd a gynlluniwyd mae rhaglen ar waharddiadau o ysgolion, <i>Oil</i> , <i>Modi's India</i> a rôl menywod heddiw.	CYFLAWNWYD – cyflawnwyd 790 awr, 490 awr ar BBC One a BBC Two
	Bydd rhaglenni fel <i>Panorama</i> , <i>Newsnight</i> ac <i>Analysis</i> hefyd yn ymchwilio i'r materion pwysig, yn craffu arnynt ac yn hysbysu ein cynulleidfaoedd arnynt.	CYFLAWNWYD – darlledwyd y cyfresi <i>Don't Exclude Me</i> a <i>Womanhood</i> , gohiriwyd <i>Oil</i> a <i>Modi's India</i> oherwydd COVID-19
BBC News	Bydd sianel BBC News yn gohebu o gwmpas gwledydd a rhanbarthau'r DU, a bydd rhaglenni arbenigol sy'n canolbwyntio ar adlewyrchu'r agenda newyddion rhyngwladol. Bydd BBC News yn moderneiddio ei harlwy newyddion digidol er mwyn adlewyrchu a gwasanaethu cynulleidfaoedd gwahanol ledled y DU yn well – gan gynnwys newidiadau i ap BBC News gan gynnig profiad gwell i ddefnyddwyr.	CYFLAWNWYD CYFLAWNWYD – mae fersiwn beta o'r ap newydd wrthi'n cael ei phrofi gan gynulleidfaoedd. Rydym hefyd wedi cyflwyno'r gofyniad i fewngofnodi sy'n ein galluogi i gynnig arlwy fwy personol, a sicrhau bod y prif straeon i'w gweld o hyd yn unol â'n gwerthoedd ar ddiueddrwydd a gwasanaethu pawb.
BBC Parliament	Bydd BBC Parliament yn cynnal ei ddarllediadau sylweddol o Dŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, pwyllgorau dethol, Senedd Cymru a Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon drwy gydol y flwyddyn. Byddwn hefyd yn ystyried mwy o ffyrdd o ganolbwyntio ar ddiben craidd y gwasanaeth sef darllediadau byw ac uchafbwyntiau o Seneddau a Chynulliadau'r DU.	CYFLAWNWYD CYFLAWNWYD – lanswyd rhaglen wythnosol newydd sef <i>Politics UK</i>
BBC Radio 1	Bydd Radio 1 yn parhau â'i hamserlen newyddion bresennol, yn cynnwys ei rhaglenni <i>Newsbeat</i> hirach, gyda chynnwys sy'n canolbwyntio ar faterion sydd o bwys penodol i gynulleidfaoedd ifanc.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 1Xtra	Bydd 1Xtra yn parhau â'i hamserlen newyddion bresennol, yn cynnwys ei dwy raglen <i>Newsbeat</i> hirach. Bydd <i>1Xtra Talks</i> yn cynnig llwyfan wythnosol i archwilio pynciau yn fanylach, yn cynnwys rhaglen arbennig flwyddyn ers marwolaeth George Floyd.	CYFLAWNWYD CYFLAWNWYD
BBC Radio 2	Bydd Radio 2 yn parhau â'i hamserlen newyddion bresennol, a bydd rhaglen <i>Jeremy Vine</i> yn sicrhau bod cynnwys newyddion a materion cyfoes yn cael lle amlwg yn allbwn Radio 2 yn ystod y dydd.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 3	Bydd Radio 3 yn parhau â'i hamserlen newyddion bresennol.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 4	Bydd Radio 4 yn darlledu o leiaf 3,200 awr o raglennu newyddion a materion cyfoes, gan ddarparu darllediadau a dadansoddiadau mwyaf eang a manwl y DU o fyd sy'n newid yn gyflym. Yn benodol, bydd yn cynnig dealltwriaeth ddiuedd a hanfodol o bolisiau, dadlau gwleidyddol, a materion economaidd a chymdeithasol, yn cynnwys canlyniadau'r pandemig, Prydain ar ôl Brexit, effeithiau newid yn yr hinsawdd a dadlau ynghylch dyfodol yr Undeb.	CYFLAWNWYD – 3,249 awr CYFLAWNWYD

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
	Mae cyfres bwysig, <i>39 Ways to Save the Planet</i> , yn ystyried ffyrdd newydd o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac mae prosiect Rethink yn ystyried sut y gall y byd wella ar ôl y pandemig.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn canolbwyntio'n fanylach ar newyddiaduraeth sy'n canolbwyntio ar atebion, drwy ein hallbwn materion cyfoes rheolaidd a chyfresi a gomisiynir yn arbennig.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn diwygio ac yn aildiffinio ein rhaglennu materion cyfoes i sicrhau y gall y gynulleidfa ddelio â heriau cymdeithasol ac economaidd cyfoes.	CYFLAWNWYD – ail-lansio <i>You and Yours</i> a chomisiynu podlediadau materion defnyddwyr newydd
BBC Radio 5 live a 5 live Sports Xtra	Newyddion a materion cyfoes yw 75% o'r rhaglennu ar BBC Radio 5 live, sy'n rhoi cynulleidfaedd wrth wradd dadleuon a thrafodaethau drwy amrywiaeth o ddulliau rhyngweithio i wrandawyr (ffôn, negeseuon testun, sgysiau ar y cyfryngau cymdeithasol).	CYFLAWNWYD
	Bydd newyddion cryno ar 5 live yn cyflwyno straeon newyddion diddorol a pherthnasol bob hanner awr yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos ac yn rheolaidd drwy ddarllediadau chwaraeon ar y penwythnos.	CYFLAWNWYD
	Bydd 5 live yn rhoi sylw manwl i etholiadau 2021 ledled y DU, yn cynnwys Senedd Cymru; Senedd yr Alban; cynghorau lleol ac etholiadau maerol awdurdodau cyfunol yn Lloegr; etholiadau Maer Llundain a Chynulliad Llundain; ac etholiadau comisiynwyr yr heddlu a throseddau yng Nghymru a Lloegr.	CYFLAWNWYD
	Bydd 5 live yn darlledu o leiaf ddwy gyfres materion cyfoes, ar radio llinellol ac fel podlediadau.	CYFLAWNWYD – ymysg y cyfresi a lansiwyd mae: <i>The Big Green Money Show</i> gyda Deborah Meadon, <i>Brixton: Flames on the Frontline</i> ac <i>I'm Not a Monster</i>
BBC Radio 6 Music	Bydd 6 Music yn parhau â'i hamserlen newyddion bresennol, gyda'r Newyddion Cerddoriaeth diweddaraf a fydd yn galluogi gwrandawyr i glywed yn uniongyrchol gan artistiaid a cherddorion nodedig.	CYFLAWNWYD
BBC Radio Asian Network	Bydd Asian Network yn parhau â'i hamserlen newyddion bresennol.	CYFLAWNWYD
	Bydd Asian Network yn parhau â'i hymrwymiad newyddion a materion cyfoes presennol, gan adlewyrchu'r materion mwyaf dybryd sy'n effeithio ar Asiaid ym Mhrydain, gyda chynnwys perthnasol yn cael ei rannu drwy'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf posibl.	CYFLAWNWYD – roedd y penodau diweddaraf o <i>Ankur Desai</i> yn cynnwys sylw i'r gwaharddiad ar hijabs yn Karnataka, cyflwyno teulu Asiaidd yn <i>Bridgerton</i> a darllediadau o'r IPL
BBC iPlayer a BBC Sounds	Bydd BBC News yn archwilio ffyrdd o wella'r arlwy newyddion ar BBC iPlayer a BBC Sounds, gan arbrofi â ffyrdd newydd o gyflwyno bwletinâu newyddion a churadu cynnwys newyddion.	CYFLAWNWYD – lansiwyd podlediadau newyddion <i>5 Mins On</i> , sydd â bron i filiwn o wrandawyr ar Sounds
CBBC	Bydd Newsround yn parhau i ddarparu newyddion dyddiol i blant drwy ei gwefan eang a thrwy 35 awr neu fwy o fwletinâu teledu bob blwyddyn.	CYFLAWNWYD – cyflwynwyd 44 awr
	Y flwyddyn hon, bydd Newsround yn darparu newyddion a gwybodaeth wedi'u teilwra'n benodol i bobl ifanc i blant, eu rhieni ac ysgolion, ar adferiad y DU ar ôl pandemig COVID-19. Bydd hyn yn cynnwys arolwg mawr ledled y DU o safbwyntiau plant o effeithiau'r pandemig arnynt.	CYFLAWNWYD – cyhoeddwyd ar wefan y BBC
Gwasanaethau Rhanbarthol Lloegr	Bydd ein 39 o orsafoedd radio lleol, 15 o rwydweithiau teledu rhanbarthol a llawer o wasanaethau ar-lein yn rhoi darlun cywir o'r hyn sy'n digwydd i gynulleidfaedd yn eu hardal leol.	CYFLAWNWYD
Gwasanaeth y Gwledydd	Bydd ein chwe gwasanaeth cenedlaethol ac iaith yn rhoi darlun cywir o'r hyn sy'n digwydd i gynulleidfaedd yn eu hardal leol.	CYFLAWNWYD

Diben Cyhoeddus 2: Cynorthwyo pobl o bob oed i ddysgu

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
BBC One, BBC Two, BBC Four a BBC iPlayer	Rydym yn bwriadu darparu mwy na 150 awr o raglennu crefyddol i gynulleidfaedd ar BBC iPlayer a'n sianelau teledu, gydag o leiaf 115 awr a ddarlledir ar BBC One a BBC Two.	CYFLAWNWYD – 221 awr, 141 awr ar BBC One a BBC Two

Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus

Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol – parhad

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
	Bydd y rhain yn cynnwys llinynnau hirsefydledig fel <i>Songs of Praise</i> ac amrywiaeth o ffilmiau newydd (e.e. <i>Being Christian, Being Muslim, Being Sikh</i>) a fydd yn archwilio materion ffydd yn y prif grefyddau.	CYFLAWNWYD
	Bydd BBC One a BBC Two yn darlledu mwy na 100 awr o raglenni dysgu gydol oes anffurfiol yn y genres Gwyddoniaeth, Hanes a Hanes Naturiol, gydag o leiaf 20 o deitlau newydd.	CYFLAWNWYD – 195 awr
	Mae hyn yn cynnwys <i>I Am Greta</i> ar BBC One, sy'n dilyn yr actifydd wrth iddi archwilio'r hyn y gellid ei wneud i gyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd, <i>Union</i> gan David Olusoga a rhaglenni hanes naturiol newydd <i>The Green Planet</i> a <i>Dynasties II</i> a gyflwynwyd gan Syr David Attenborough.	CYFLAWNWYD
	Rydym yn bwriadu darparu mwy na 1,000 awr o raglenni celfyddydau a cherddoriaeth i gynulleidfa oedd ar BBC iPlayer a'n sianelau teledu, gydag o leiaf 400 awr a ddarlledir ar y teledu.	CYFLAWNWYD – 2,046 awr, 1,789 awr a ddarlledwyd ar y teledu
	Bydd BBC Two yn darlledu cyfres 7 rhan nodedig ar greadigrwydd ym Mhrydain.	NI CHYFLAWNWYD – cafodd y gyfres <i>Creating Britain</i> ei gwthio'n ôl i fis Ebrill 2022 oherwydd newid yn yr amserlen
	Mae BBC Four yn parhau i fod yn gartref i berfformiadau cerddoriaeth glasurol sy'n dangos y gorau o Proms y BBC ac yn rhoi sylw i ddiwyddiadau fel Canwr y Byd Caerdydd.	CYFLAWNWYD
	Bydd BBC Four hefyd yn twrio ymhellach i archifau'r BBC i ddatgelu ei chyfoeth digysail, gan ddarlledu dramâu clasurol, comedi a rhaglenni dogfen yn rheolaidd.	CYFLAWNWYD – 183 awr o ddarllediadau drama, 112 awr o gomedi a 432 awr o raglenni dogfen
	Mae <i>Culture in Quarantine</i> yn parhau i gyflwyno'r celfyddydau i gartrefi cynulleidfa oedd gan helpu i gefnogi sector yr effeithiodd y pandemig yn fawr arno, yn cynnwys <i>Lights Up</i> – gwyl theatr weledol fawr o 18 o gynrychiadau newydd ar gyfer y teledu, radio ac ar-lein, a gynhyrchwyd ac a gyflwynwyd gyda theatrau ledled y DU.	CYFLAWNWYD
BBC Bitesize	2021/22 yw'r flwyddyn gyntaf o gynllun tair blynedd sydd wedi'i anelu at gynyddu cyfraniad Bitesize at godi'r gwastad o ran deilliannau dysgu i blant 5-16 oed. Ymysg blaenoriaethau blwyddyn un mae: – Lansio gwasanaeth Cyfnod Allweddol 3 diwygiedig (11-14) ar draws pob pwnc craidd yn ystod hydref 2021. – Ehangu a gwella ein darpariaeth Gynradd (5-11), yn cynnwys ehangu'r gwasanaeth i ddysgwyr oedran Derbyn yn Lloegr (caiff y disgyblion hyn eu gwasanaethu eisoes yn y Gwledydd eraill).	CYFLAWNWYD – lanswyd arlwy newydd Bitesize i Gyfnod Allweddol 3 ym mis Medi 2021. Mae'r ddarpariaeth Gynradd wedi'i diwygio i ennyn diddordeb rhieni a dysgwyr ifanc yn well yn y cartref. Bwriedir lansio darpariaeth Bitsize i oedran Derbyn ar gyfer blwyddyn ysgol newydd 2022.
	Bydd BBC Education yn cynhyrchu 50 awr newydd o Bitesize Daily i'w darlledu ar CBBC yn ystod tymor yr haf 2021.	CYFLAWNWYD – 84 awr
	Ymgyrch addysg allweddol BBC Education yn 2021/22 fydd Bitesize – <i>The Regenerators</i> , ymgyrch addysg gynaliadwyedd gydag Uned Hanes Naturiol y BBC a <i>Countryfile</i> , i gyd-fynd yn agos â COP 26 yn Glasgow, a theitlau'r Uned Hanes Naturiol <i>The Green Planet</i> a <i>Dynasties II</i> .	CYFLAWNWYD
BBC Teach	Byddwn yn parhau i gomisiynu ac ychwanegu cyfresi newydd i'n casgliadau BBC Teach.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn parhau â'n gwaith i ddod â mwy o amrywiaeth i'n cynnwys hanes, gan gwmpasu rhagor o gynnwys sy'n adlewyrchu hanes a phrofiadau cymunedau Du ac Asiaidd yn y DU.	CYFLAWNWYD
Tiny Happy People ar y BBC	Bydd <i>Tiny Happy People</i> , ein hymgyrch iaith hirdymor i'r blynyddoedd cynnar gyda'r Sefydliad Brenhinol, wedi'i hanelu at blant 0-4 oed a'u rhieni yn hawlio ei lle fel rhan o'n harlwy addysg cyn oedran ysgol, gan weithio'n agos gyda Bitesize a CBeebies.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn comisiynu hyd at 130 o ffilmiau byrion yn 2021-22, gan ganolbwyntio'n benodol ar y categori 3-4 oed. Ar lawr gwlad, byddwn yn lansio pedair menter gweithgarwch penodol hyperleol yn ne Cymru, Gogledd Iwerddon, Cernyw a Glasgow.	CYFLAWNWYD – 165 o ffilmiau byrion
CBBC	Bydd 50 awr o gynnwys Addysg gwreiddiol yn ymddangos mewn slot teirawr ar CBBC yn y boreau yn ystod y tymor (a bydd y rhaglenni hefyd ar gael drwy'r flwyddyn ar BBC iPlayer).	CYFLAWNWYD – 84 awr

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
	Gan fod rhai comisiynau ar gyfer y flwyddyn hon heb eu cadarnhau o hyd, bwriad CBBC, fel y mae'n sefyll, yw cyflwyno o leiaf 80 awr o raglenni ffeithiol gwreiddiol.	CYFLAWNWYD – 159 awr
CBeebies	Bydd CBeebies hefyd yn creu slot <i>Learn & Play</i> newydd bob diwrnod o'r wythnos ar y sianel deledu ac ar BBC iPlayer.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 1	Bydd Radio 1 yn darlledu o leiaf 40 o raglenni dogfen newydd, yn cynnwys un sy'n adrodd hanes gyrfa artist hyd yma drwy gyfweiliadau o'r archif a pherfformiadau byw.	CYFLAWNWYD – 41 o raglenni dogfen
	Bydd Radio 1 yn adlewyrchu pryderon allweddol gwrandawyr ifanc drwy ymgyrchoedd fel <i>Minute of Me</i> ; a bydd yn parhau i gefnogi iechyd meddwl â chymysgeddau creffts a rhaglenni fel <i>Life Hacks</i> sy'n darparu pecyn cymorth llesiant.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 1Xtra	Bydd 1Xtra yn darlledu o leiaf 40 o raglenni dogfen, yn cynnwys cyfres sy'n cynnwys artistiaid, actorion a ffigurau diwylliannol o bob cenhedlaeth ac yn trafod traciau sydd wedi'u hysbrydoli.	CYFLAWNWYD – 52 o raglenni dogfen
	Bydd 1Xtra yn adlewyrchu Mis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref drwy amrywiaeth o raglenni a nodweddion arbennig	CYFLAWNWYD
BBC Radio 2	Mae <i>The Zoe Ball Breakfast Show</i> wedi creu partneriaeth â <i>Tiny Happy People Families</i> . Mae hyn yn rhoi cyfle unigryw i ddysgu'n fanwl am y modd y mae babanod yn datblygu eu lleferydd a'u hiaith, ynghyd â dangos pa mor gyflym y gall babanod gwahanol ddatblygu dros amser.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 2 yn parhau i ddarlledu o leiaf 170 awr o allbwn crefyddol, yn cynnwys <i>Good Morning Sunday</i> , a fydd yn adlewyrchu ysbrydoldeb modern ac yn nodi dyddiadau pwysig yn y calendr crefyddol. Bydd ein rhaglen ddyddiol <i>Pause for Thought</i> yn cwmpasu themâu cenedlaethol, byd-eang a chyfoes.	CYFLAWNWYD
	Bydd rhaglennu'r celfyddydau yn parhau i fod yn rhan hanfodol o Radio 2, gyda dathliad wythnosol Elaine Paige o theatr gerdd yn arwain y ffordd.	CYFLAWNWYD
	Bydd <i>The Radio 2 Book Club</i> yn cynnwys llyfrau ffuglen a ffeithiol bob mis yn ei gartref newydd fel rhan o raglen Steve Wright yn y prynhawn.	CYFLAWNWYD
	Byddwn hefyd yn adlewyrchu rhaglenni gwobrau allweddol sy'n dathlu'r celfyddydau pan fydd y rhain yn gallu cael eu cynnal unwaith eto.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 2 yn darlledu o leiaf 130 awr o raglenni dogfen yn cynnwys y cerddor arloesol Billy Ocean gyda chyfres yn archwilio synau'r Caribî; a bydd y digrifwr a'r cyn frwydrwr rap, Romesh Ranganathan, yn rhannu ei angerdd dros hip-hop.	CYFLAWNWYD – yn anffodus, ni allai Billy Ocean gymryd rhan, ac yn lle hynny, cyflwynwyd cyfres gan Shaggy, y seren Reggae.
	Bydd Radio 2 yn mynd yn wyrdd gyda rhaglennu arbennig.	NI CHYFLAWNWYD – oherwydd newid yn yr amserlen, lansiwyd hyn ym mis Mai 2022 gyda'r <i>Sow Grow Show</i> ac wythnos o raglenni nodwedd ar thema.
BBC Radio 3	Bydd <i>BBC Young Composer</i> ar Radio 3 yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc 12-18 oed sydd o'r un anian gerddorol ennill llefydd ar raglen ddatblygu wedi'i theilwra gan weithio gyda mentor cyfansoddi ar brosiect gyda Cherddorfa Gyngerdd y BBC, gan arwain at gyfle i berfformio neu ddarlledu.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 3 hefyd yn lansio cystadleuaeth newydd i beirianwyr sain.	CYFLAWNWYD
	Mae rhaglennu crefyddol y BBC yn cynnwys <i>EBU Music Days</i> a gynhelir gennym yn flynyddol, wedi'i hysbrydoli gan y Pasg a'r Nadolig, a chyfres a gynlluniwyd o draethodau ar hanes eglwysi gwledig ac ystyr defod ysbrydol yn y byd cyfoes.	CYFLAWNWYD
	Rydym hefyd yn bwriadu mynd i'r afael â materion crefyddol a moesegol o bob cwr o'r byd yn ein rhaglen drafod deirgwaith yr wythnos <i>Free Thinking</i> .	CYFLAWNWYD
	Byddwn hefyd yn adlewyrchu rhaglenni gwobrau allweddol sy'n dathlu'r celfyddydau pan fydd y rhain yn gallu cael eu cynnal unwaith eto.	CYFLAWNWYD

Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol – parhad

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
	Bydd rhaglenni dogfen newydd Radio 3 yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau celfyddydol a diwylliannol, a fydd yn cynnwys <i>Riding the Waves</i> – y modd y mae nofel arloesol Virginia Woolf, <i>The Waves</i> , wedi dylanwadu ar awdurion, artistiaid a chyfansoddwyr ar draws y sbectrwm creadigol; <i>To Thee We Sing</i> – bywyd a gyrfa'r gantores opera Affricanaidd Americanaidd Marian Anderson; <i>Fluxus</i> – mudiad celfyddydol chwyldroadol y 1960au; <i>52 Rhythms of Remembering</i> , cyfieithiad newydd ac eglurhad o un o gerddi hynaf Cymru; <i>Then There Was a Light</i> – gwaith diweddaraf dadleuol y cyfansoddwr Karlheinz Stockhausen; <i>Nightingales in Berlin</i> – cofnodi seiniau a cherddoriaeth preswylwyr diweddaraf prifddinas yr Almaen; a <i>How to Rebuild a City</i> – stori'r syniadau pensaerionol a oedd yn sail i'r gwaith o ailadeiladu Cofentri ar ôl y rhyfel.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 3 yn darlledu llinynnau rheolaidd sy'n ymrwymedig i esbonio cerddoriaeth, y celfyddydau a syniadau i gynulleidfaoedd newydd, fel <i>The Listening Service</i> a <i>Composer of the Week</i> .	CYFLAWNWYD
BBC Radio 4 a Radio 4 extra	Byddwn yn darlledu o leiaf 200 awr o raglenni sy'n adlewyrchu ac yn archwilio dimensiynau crefyddol a moesegol bywyd, yn cynnwys cyfres newydd lle mae James MacMillan yn archwilio'r agwedd ysbrydol ar waith cyfansoddwyr gwych.	CYFLAWNWYD – 203 awr
	Bydd Radio 4 yn diwygio ac yn ailddiffinio ein newyddiaduraeth gelfyddydol, gan roi mwy o amser ar yr awyr i'r celfyddydau y flwyddyn hon, gyda phodlediadau cysylltiedig i adrodd ar fywyd artistig y DU, ei ddatllu, ei feirniadu a'i hyrwyddo.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn lansio llinynnau rheolaidd newydd, sy'n ymrwymedig i esbonio cerddoriaeth a ffilm yn fanylach.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 4 yn darlledu o leiaf 375 awr o raglenni dogfen, gan ddefnyddio fformatau arloesol i helpu ein cynulleidfa i gael dealltwriaeth well o wleidyddiaeth, economeg, busnes, y gyfraith, hanes, gwyddoniaeth, crefydd a diwylliant.	CYFLAWNWYD – 418 awr
	Byddwn yn comisiynu rhaglenni amlwg i archwilio goblygiadau data mawr, y cyfryngau cymdeithasol a deallusrwydd artifisial ar ddemocratiaeth. Byddwn yn neilltuo amser sylweddol ar yr awyr i archwilio atebion ymarferol i her y newid yn yr hinsawdd.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 5 live a 5 live Sports Xtra	Caiff gwyliau crefyddol o bwys cenedlaethol eu harchwilio yn rhaglenni 5 live news.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 6 Music	Bydd 6 Music yn darlledu o leiaf 520 awr o amrywiaeth o raglenni nodwedd llafar, rhaglenni dogfen a thraethodau, yn cynnwys rhaglenni fel <i>Sound & Vision</i> , <i>Journeys in Sound</i> a <i>The First Time</i> .	CYFLAWNWYD – 531 awr
BBC Radio Asian Network	Bydd Asian Network yn dathlu ac yn myfyrio ar wyliau crefyddol allweddol De Asiaidd fel Diwali a Ramadan.	CYFLAWNWYD
	Bydd <i>Beyond Bollywood</i> yn cyflwyno'r holl newyddion diweddaraf o fyd y ffilmiau drwy raglen wythnosol a phodlediad ategol; byddwn hefyd yn lansio rhaglen newydd sy'n canolbwyntio ar y diwydiant adloniant Pacistanaidd.	CYFLAWNWYD
	Bydd Asian Network yn dathlu hanner can mlynedd o annibyniaeth Fangladesh gyda chyfres o raglenni drwy gydol y flwyddyn.	CYFLAWNWYD
BBC Alba	Bydd BBC Alba yn darlledu o leiaf 10 awr o raglenni yr wythnos ar gyfer dysgwyr Gaeleg.	CYFLAWNWYD – 11 awr
	Bydd menter dysgu iaith newydd, <i>SpeakGaelic</i> , a gaiff ei lansio yn ystod hydref 2021, yn dod yn bwynt ffocws i oedolion sy'n dysgu ac yn siarad yr iaith, gyda chwrs, gwefan dysgu ar alw ddynodedig a rhaglenni ategol ar draws gwasanaethau a llwyfannau digidol BBC Gaelic.	CYFLAWNWYD
Radio Lleol y BBC	Bydd pob un o'r 39 o orsafoedd radio lleol yn darparu gwasanaethau eglwysi rhithwir o 8am bob dydd Sul.	CYFLAWNWYD
BBC iPlayer	Byddwn yn ehangu faint o gynnwys sydd ar gael i blant ar BBC iPlayer. Ar hyn o bryd, mae tua 1,500 awr o gynnwys ar gael ar unrhyw adeg ac rydym yn bwriadu cynyddu hyn yn sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ar gyfer ein holl grwpiau oedran i blant.	CYFLAWNWYD – mae 2,300 awr o gynnwys ar gael ar hyn o bryd

Diben Cyhoeddus 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
BBC One, BBC Two, BBC Three a BBC Four	Bydd BBC One yn darlledu amrywiaeth ehangach o genres yn ystod oriau brig o gymharu ag unrhyw sianel gymaradwy.	CYFLAWNWYD
	Caiff o leiaf 25 o deitlau wedi'u sgriptio newydd eu darlledu ar draws y portffolio.	CYFLAWNWYD – 30 o deitlau
	Rydym yn bwriadu darparu mwy na 1,500 awr o raglennu Drama i gynulleidfaoedd ar BBC iPlayer a'n sianelau teledu, gydag o leiaf 500 awr a ddarllidir ar y teledu.	CYFLAWNWYD – 3,531 awr, 935 awr a ddarlledwyd ar y teledu
	Bydd BBC One yn blaenoriaethu dramâu nodedig o ansawdd uchel gan weithio gyda'r dalent sefydledig a newydd orau ar y sgrin ac oddi ar y sgrin i adlewyrchu bywydau ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys yr addasiad amserol o <i>This Is Going To Hurt</i> gan Adam Kay.	CYFLAWNWYD
	Bydd BBC Two yn creu partneriaeth â BFI ar dymor Premiere Ffilmiau Prydain.	CYFLAWNWYD
	Bydd BBC Three yn darlledu dramâu newydd ffres gyda thalent newydd ar gyfer cynulleidfaoedd newydd fel <i>Superhoe</i> .	CYFLAWNWYD – cafodd <i>Superhoe</i> ei ailenwi yn <i>Mood</i>
	Bydd BBC One a BBC Two yn darlledu digwyddiadau chwaraeon gorau'r flwyddyn – Gemau Ewros y Dynion, Wimbledon, Gemau Olympaidd Tokyo a Gemau Olympaidd y Gaeaf yn Beijing. Byddwn hefyd yn rhoi sylw i Gemau Invictus o'r Hag.	CYFLAWNWYD
	Rydym yn bwriadu darparu mwy na 500 awr o raglennu comedi i gynulleidfaoedd ar BBC iPlayer a'n sianelau teledu, gan gynnwys bocsetiau o raglenni comedi clasurol poblogaidd, gydag o leiaf 300 awr a ddarllidir ar BBC One a BBC Two (y bydd o leiaf 50 awr ohonynt yn cael eu dangos am y tro cyntaf).	CYFLAWNWYD – 1,273 awr o gomedï, 525 awr a ddarlledwyd ar y teledu (yr oedd 111 awr ohonynt yn cael eu dangos am y tro cyntaf)
	Bydd BBC Two yn parhau i fod yn gartref i gomedi clyfar a phoblogaidd, gyda dychweliad <i>Guilt</i> ac <i>Inside No. 9</i> , ynghyd â chyfres newydd fel <i>Alma's Not Normal</i> . Bydd BBC One yn darlledu amrywiaeth eang o raglenni comedi sy'n apelio'n eang e.e. <i>Mrs Brown's Boys</i> a ffefrynnau teuluol fel <i>Ghosts</i> a <i>Worzel Gummidge</i> .	CYFLAWNWYD
	Bydd BBC Three yn parhau i hyrwyddo lleisiau newydd ac yn adlewyrchu profiad Prydeinig ifanc ledled y DU gyda thôn ffres ac arloesol yn cynnwys cyfres newydd a arweinir gan fenywod <i>Ellie & Natasia</i> .	CYFLAWNWYD
	Ar draws BBC One a BBC Two gydag o leiaf bum cyfres nodedig ffeithiol newydd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys <i>Pandemig</i> , <i>The Green Planet</i> ac <i>Universe</i> .	CYFLAWNWYD – 7 cyfres
	Bydd BBC Three yn cynnig fformatau ffres ac arloesol, o leiaf bum cyfres adloniant ffeithiol newydd a bydd ffefrynnau fel <i>RuPaul's Drag Race UK</i> yn dychwelyd.	CYFLAWNWYD – 16 cyfres
CBBC	Bydd CBBC yn darlledu ystod ehangach o genres na sianelau teledu plant eraill.	CYFLAWNWYD
	Bydd CBBC yn parhau i wasanaethu'r gynulleidfa 6-12 oed, gyda ffocws cynyddol tuag at iPlayer ar gyfer plant hŷn 10-12 oed sy'n ffafrio fideo ar alw yn gynyddol.	CYFLAWNWYD
	Mae 20% o gomisiynau CBBC y flwyddyn hon wedi'u hanelu at y gynulleidfa 10-12 oed, gyda mwy o'r rhaglenni hyn yn lansio ar iPlayer yn gyntaf.	CYFLAWNWYD – mae 32% o'r comisiynau wedi'u hanelu at y gynulleidfa 10-12 oed
	Mae 60% o'r comisiynau wedi'u hanelu at y gynulleidfa 6-9 oed, gyda'r 20% sy'n weddill yn apelio at blant 6-12 oed ehangach.	NI CHYFLAWNWYD – gweler nodyn 1
	Bydd CBBC a CBeebies yn rhyngweithio â phlant 4-12 oed drwy adloniant ffeithiol a arweinir gan gyflwynydd a rhaglenni fel <i>Blue Peter</i> , <i>Saturday Mash-Up!</i> a <i>Crackerjack!</i> , yn ogystal â thrwy'r dolenni cyflwyno ar y sianelau a rhannau ar ddiwrnodau gwahanol yn cynnwys meysydd addysg neu adloniant.	CYFLAWNWYD
Gan fod rhai comisiynau ar gyfer y flwyddyn hon heb gael eu cadarnhau o hyd, bwriad CBBC, fel y mae'n sefyll, yw cyflwyno o leiaf 80 awr o raglenni ffeithiol gwreiddiol newydd, 90 awr o ddramâu newydd, chwe awr o animeiddio newydd a gomisiynwyd, a 60 awr o gomedi ac adloniant newydd.	Cyflawnwyd 159 awr ar gyfer rhaglenni ffeithiol, tangyflawnwyd o ran dramâu gydag 88 awr oherwydd oedi yn y ddarpariaeth, cyflawnwyd 100 awr ar gyfer comedi, 6 awr ar gyfer animeiddio – gweler nodyn 2	

Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus

Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol – parhad

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
CBeebies	Bydd CBeebies yn darlledu ystod ehangach o genres na sianelau teledu plant eraill.	CYFLAWNWYD
	Mae cynnwys newydd gwreiddiol ar gyfer CBeebies y flwyddyn hon wedi'i anelu at blant 4-6 oed, gan gyfrif am 78% o gomisiynau gyda'r 22% sy'n weddill wedi'i hanelu at blant 0-3 oed.	NI CHYFLAWNWYD – gweler nodyn 3
	Caiff rhaglenni pontio eu creu a all gwmpasu'r ystod 6-8 oed, oherwydd bydd y gwylwyr hyn yn gwyltio CBeebies a CBBC a gall y cynnwys eistedd yn gyfforddus ar y naill sianel neu'r llall, ynghyd â BBC iPlayer.	CYFLAWNWYD
BBC News	Bydd BBC News Channel yn ymrwymo i ddarlledu digwyddiadau byw a chynnig dadansoddiadau ac esboniadau amser real er mwyn helpu cynulleidfaoedd i gael y wybodaeth ddiweddaraf ac i wneud synnwyr o ddatblygiadau pwysig yn cynnwys negeseuon iechyd y cyhoedd allweddol, wrth iddynt ddiwydd.	CYFLAWNWYD
	Adroddir o bob cwr o wledydd a rhanbarthau'r DU, yn ogystal â rhaglenni arbenigol sy'n adlewyrchu'r agenda newyddion rhyngwladol.	CYFLAWNWYD
	Mae ffocws ar ofyn cwestiynau gan wylwyr wrth wraidd ein darllediadau er mwyn helpu cynulleidfaoedd i ddeall y newyddion yn y ffordd sydd fwyaf perthnasol iddynt.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 1	Bydd Radio 1 yn sicrhau ei bod yn parhau i gynnig cymysgedd o gerddoriaeth nodedig o gymharu â gorsafoedd radio cerddoriaeth fasnachol.	CYFLAWNWYD
	Bydd Playlist a Brit List yn rhoi llwyfan i gerddoriaeth newydd fwyaf cyffrous y DU, gan roi cefnogaeth benodol i artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 1 yn parhau i sicrhau mai cerddoriaeth newydd ac artistiaid o'r DU sy'n cael y prif sylw yn ein rhaglennu yn ystod y dydd.	CYFLAWNWYD – roedd 54% o gerddoriaeth Radio 1 yn ystod y dydd yn newydd, ac roedd 60% gan artistiaid o'r DU
	Mae Radio 1 yn disgwyl darlledu mwy na 3,500 awr o raglennu cerddoriaeth arbenigol y flwyddyn hon. Bydd rhaglen flaenllaw Radio 1 <i>Future Sounds</i> yn parhau yn ei slot amser newydd, cynharach sef 6-8pm o nos Lun i nos Iau a byddwn yn lansio rhaglen newydd ar Radio 1, sef <i>Future Soul</i> yn ystod yr hydref.	CYFLAWNWYD – 3,708 awr
BBC Radio 1Xtra	Mae 1Xtra yn rhoi llwyfan i gerddoriaeth ddu gyfoes ac mae'n gweithredu fel hyrwyddwr ar gyfer artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU. Yn ystod y dydd, daw o leiaf draean o'r gerddoriaeth o artistiaid o'r DU, gyda'r bwriad o sicrhau bod o leiaf hanner y gerddoriaeth hon yn newydd.	CYFLAWNWYD – roedd 46% o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU, yr oedd 75% ohoni'n newydd
	Bydd <i>Loves Jamaica</i> ar 1Xtra, cyfres o raglenni sy'n canolbwyntio ar Affrica, a Phenwythnos R&B arbennig yn adlewyrchu angerdd a rennir ein cynulleidfa at gerddoriaeth.	CYFLAWNWYD
	Bydd <i>Hot for 2022</i> yn cyflwyno i ddechrau, ac yna'n cefnogi'r artistiaid rydym fwyaf cyffrous yn eu cylch dros y flwyddyn i ddod.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 2	Bydd Radio 2 yn sicrhau ei bod yn parhau i gynnig cymysgedd o gerddoriaeth nodedig o gymharu â gorsafoedd radio fasnachol, gydag artistiaid o'r DU a cherddoriaeth newydd yn rhan greiddiol o'r rhaglennu.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 2 yn dathlu'r 1960au mewn cyfres o raglenni arbennig yn ystod yr haf, ynghyd â chyfres a gyflwynir gan Ricky Wilson o'r Kaiser Chiefs ynghylch ei angerdd dros gerddoriaeth roc a rôl o'r 50au.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 2 yn darlledu o leiaf 1,110 awr o gerddoriaeth arbenigol dros y flwyddyn, yn cynnwys <i>Rhythm Nation</i> gyda Trevor Nelson, rhaglenni canu gwlad, canu gwerin, jazz a blues rheolaidd, yn ogystal â rhaglenni sy'n canolbwyntio ar roc, reggae a bandiau pres.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 2 yn rhoi llwyfan i gerddoriaeth fyw gydag o leiaf 260 awr o berfformiadau newydd ac o'r archif drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys darllediadau o wyliau a digwyddiadau allweddol pan fydd y rhain yn gallu cael eu cynnal eto.	CYFLAWNWYD

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
BBC Radio 3	Bydd Radio 3 yn cynnig ystyriaeth dra awdurdodol ond dealladwy i lawer o gerddoriaeth o bob cyfnod ynghyd â pherfformiadau, gan gynnwys y traddodiad clasurol yn ei gyfanrwydd, ynghyd â jazz, cerddoriaeth y byd a genres electronig cyfoes.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 3 yn nodi tymhorau'r flwyddyn a dathliadau arbennig â chlystyrau arbennig o raglenni cerddoriaeth a llafar. Ymysg y dathliadau diwylliannol y byddwn yn eu nodi yn 2021 mae: coffáu 150 mlynedd ers agor yr Albert Hall; coffáu 50 mlynedd ers marwolaeth Igor Stravinsky; coffáu 150 mlynedd ers y perfformiad cyntaf o Aida, opera Verdi; coffáu 400 mlynedd ers marwolaeth Dante, a 250 mlynedd ers genedigaeth Walter Scott.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 3 yn cynnig rhaglenni llafar a phodlediadau bywiog a threiddgar a fydd yn rhoi cipolwg ar fyd cerddoriaeth a cherddorion, y celfyddydau ac artistiaid, gan ddenu cynulleidfaoedd newydd i gael profiad dyfnach o ddiwylliant Prydain, Ewrop a'r byd.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 3 yn darlledu fformatau rhaglenni cerddoriaeth awyrgylch nodedig wedi'u harwain gan dalent gan adeiladu ar lwyddiant <i>Tearjerker</i> ; <i>Downtime Symphony</i> ; a gomisiynwyd gyda BBC Sounds, i ysgogi gallu i ddarganfod a chyflwyno cerddoriaeth glasurol i gynulleidfaoedd newydd ac ifanc ar draws y genres na fyddent byth yn ymgysylltu â hi fel arall o bosibl.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 3 yn cynnal ei rôl mewn dramâu sain ffurf hir unigryw a heriol ac yn gweithio gyda theatrau sydd wedi bod ar gau yn ystod y pandemig.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 3 yn comisiynu o leiaf 30 o ddarnau o waith cerddorol newydd i'w perfformio a'u darlledu ledled y DU.	CYFLAWNWYD – 39 o ddarnau o waith cerddorol newydd
	Bydd Radio 3 yn parhau i hyrwyddo talent newydd – boed hynny drwy <i>New Generation Artists</i> , <i>New Generation Thinkers</i> , BBC Sound First neu BBC Introducing.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 4 a Radio 4extra	Bydd Radio 4 yn cynnal ei hymrwymiad i ddrama, gan ddarlledu cyfres ddrama fawr sy'n adlewyrchu Prydain gyfoes yn ogystal ag addasiadau o nofelau modern a chlasurol, yn cynnwys awduron fel DH Lawrence, Thomas Hardy a Rudyard Kipling.	CYFLAWNWYD
	Byddwn hefyd yn parhau i ailddyfeisio drama sain i gynulleidfaoedd iau gydag ystod o deitlau newydd a fydd wedi'u hanelu at genhadaeth y podlediad.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn lansio llinyn newydd o ddramâu hanner awr, gan annog dulliau newydd o ysgrifennu ar gyfer y radio a sicrhau bod dramâu sain yn fwy hygyrch i gynulleidfaoedd ar yr awyr ac ar-lein.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn treialu fformatau comedi newydd gan ddirigfwr sefydledig ac yn rhoi cyfleoedd i dalent gomig newydd gyrraedd cynulleidfa genedlaethol.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 4 Extra yn darparu llwyfan unigryw o adloniant a difyrwch, gan guradu sioe arddangos o'r comedi, y dramâu a'r rhaglenni nodweddiadol gorau yn archif y BBC.	CYFLAWNWYD
	Yn dilyn podlediadau poblogaidd fel <i>Grounded with Louis Theroux</i> , <i>Fortunately with Fi and Jane</i> , <i>You're Dead to Me</i> a <i>The Battersea Poltergeist</i> , bydd Radio 4 yn comisiynu mwy o gynnwys digidol yn gyntaf i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, a gaiff ei fwynhau hefyd yn yr amserlen linellol.	CYFLAWNWYD
	Gan adeiladu ar lwyddiant rhyngwladol <i>Mayday</i> a <i>Tunnel 29</i> , byddwn yn darlledu'r rhaglen a'r podlediad nesaf yng nghyfres <i>Intrigue</i> , gan gyfuno sgiliau ymchwilio a naratif dramatig i greu effaith bwyrus.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 4 Extra hefyd yn archwilio podlediadau newydd ac amrywiol drwy ei rhaglen unigryw <i>Podcast Radio Hour</i> .	CYFLAWNWYD
BBC Radio 5 live a Radio 5 live Sports Xtra	Bydd Radio 5 live yn ategu podlediad hynod boblogaidd y BBC, <i>That Peter Crouch Podcast</i> gyda chyfres o raglenni arbennig i gwmpasu twrnainaint pêl-droed yr Ewros.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 5 live yn parhau i gynhyrchu'r podlediad nodedig <i>You, Me and The Big C</i> a bydd yn parhau â gwaddol yr orsaf o gefnogi podlediadau cymunedol drwy gynhyrchu enillydd nesaf Gwobr Podlediadau Rachael Bland am yr ail flwyddyn.	CYFLAWNWYD

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus Ymrwymïadau'r Cynllun Blynyddol – parhad

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymïad y BBC	Canlyniad
	Bydd Radio 5 live yn creu darllediadau nodedig o ansawdd uchel o ddigwyddiadau chwaraeon mwyaf y flwyddyn yn cynnwys y Gemau Olympaidd, yr Ewros, Wimbledon, Cwpan Ryder a Chyffres y Lludw.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 5 live yn darparu sylwebaeth fyw ar amrywiaeth ehangach o chwaraeon nag unrhyw ddarlledwr radio arall, ar bêl-droed Uwch-gynghrair Lloegr, Cynghrair y Pencampwyr a Chynghrair Uwch y Menywod, criced rhyngwladol, rygbi a boccio.	CYFLAWNWYD – 43 o chwaraeon, gweler y rhestr uchod
BBC Radio 6 Music	Bydd 6 Music yn hyrwyddo cerddoriaeth newydd ac amgen o'r DU a thu hwnt, yn benodol artistiaid sy'n rhyddhau cerddoriaeth ar labeli annibynnol a'r rhai nad ydynt yn cael llawer o amlygrwydd ar orsafoedd prif ffrwd.	CYFLAWNWYD
	Bydd llinynnau fel Casgliad Artist ac Artist Preswyl 6 Music yn rhoi llwyfan fanwl i weledigaethau unigryw cerddorion sy'n agos at galonau ein gwrandawyr.	CYFLAWNWYD
	Bydd Craig Charles yn nodi hanner can mlynedd ers rhyddhau albwm arloesol Marvin Gaye, <i>What's Going On</i> ym mis Mai.	CYFLAWNWYD
BBC Radio Asian Network	Bydd <i>Future Sounds</i> ar Asian Network yn rhoi llwyfan i'r artistiaid newydd rydym fwyaf cyffrous yn eu cylch dros y flwyddyn sydd i ddod; gyda rhestr chwarae yr orsaf yn parhau i weithredu fel llwyfan i'r sain Asiaidd Brydeinig.	NI CHYFLAWNWYD – ni chafodd <i>Future Sounds</i> ei lansio, fodd bynnag, cafodd dwy raglen gerddoriaeth newydd wythnosol eu lansio yn ystod y flwyddyn, ac roedd 51% o'r rhestr chwarae o artistiaid neu gynhyrchwyr o'r DU
BBC iPlayer	Bydd BBC iPlayer yn llawn cyfresi newydd gwreiddiol o ansawdd uchel, boccs-setiau i wylïo penodau un ar ôl y llall, clasuron o'r archif a mwy o raglenni sydd ar gael ar iPlayer yn gyntaf.	CYFLAWNWYD
	Profiad perthnasol a mympwyol, wedi'i deilwra i'r unigolyn – drwy gymysgedd unigryw o waith curadu dynol ac algorithmig.	CYFLAWNWYD
	Profiadau byw nodedig sy'n adlewyrchu'r hyn sydd o bwys i gynulleidfaoedd yn y DU – newyddion byw, mynediad i ddigwyddiadau mawr, a digwyddiadau diwylliannol na fyddwch am eu colli.	CYFLAWNWYD
	Gwasanaeth sy'n gweithio i bob person ifanc – o'n gwylwyr ifancaf i'n cynulleidfa oedolion ifanc, un gwasanaeth sy'n tyfu gyda nhw ar eu cyflymder nhw.	CYFLAWNWYD
	Yn hygyrch i'r gynulleidfa ble bynnag y bôn, ar ba ddyfeisiau bynnag y maent yn eu defnyddio, gan eu canfod ar yr adegau cywir gyda'r cynnwys cywir.	CYFLAWNWYD
BBC Sounds	Bydd BBC Sounds yn brofiad sy'n canolbwyntio ar radio byw; gyda dulliau cydweithredol newydd o gomisiynu sy'n cyflwyno cynnwys unigryw, digwyddiadau arbennig a chyfleoedd rheolaidd i wrando wedi'u cydgysylltu ar draws darpariaeth linellol ac ar alw.	CYFLAWNWYD
	Peiriant creadigol i'r DU: adnewyddu arlwy ein gorsafoedd radio gwych i sicrhau gwerth i bob cynulleidfa, gan ddatblygu talent amrywiol newydd drwy gynllun Sounds Lab, archwilio ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth â radio cymunedol, a rhoi llwyfan i'r podlediadau Prydeinig newydd a datblygol gorau.	CYFLAWNWYD
	Mwy lleol nag erioed: ei gwneud yn haws i ddarganfod gwledydd a chynnwys lleol ar ei ben ei hun neu fel rhan o brofiadau wedi'u curadu.	CYFLAWNWYD – ychwanegwyd gorsafoedd y gwledydd a'r rhanbarthau at yr ap teledu sy'n golygu eu bod yn hygyrch ar draws ein holl lwyfannau
	Yn syml ac yn berthnasol i chi: mwy o werth drwy ddatgloi cynnwys Radio'r BBC o amserlenni i guradu cyflwyniadau wedi'u teilwra at eich dant a digwyddiadau gwrandawr ar alw a thrwy lif newydd wedi'i amserlennu o gynnwys i helpu cynulleidfaoedd ifanc yn benodol i reoli straeon a llesiant drwy gynnwys cerddoriaeth a llafar.	CYFLAWNWYD – Lanswyd Radio 1 Relax ym mis Ebrill 2021, llif 24 awr newydd sbon i helpu gwrandawyr i ymlacio
	Mae ar gael ym mhobman: gan weithio gydag eraill ar draws darpariaeth sain y DU i sicrhau bod radio'n parhau i ddatblygu, yn berthnasol ac yn amlwg yn y car ac ar lwyfannau newydd fel llais.	CYFLAWNWYD

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
BBC News	<p>Bydd BBC News yn dechrau cyflwyno ein profiad gwell i ddefnyddwyr ar wefan sydd wedi'i diweddarau ac ar ap BBC News, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> — Fideo ffurf gryno a phrofiadau rhyngweithiol newydd. — Fformatau stori newydd ar gyfer straeon hirsefydledig cymhleth sy'n galluogi cynulleidfaoedd i benderfynu pa mor hir y maent am ei dreulio ar bwnc. — Mathau arloesol o guradu sy'n ei gwneud hi'n haws i gynulleidfaoedd ganfod a deall straeon allweddol wrth iddynt ddatblygu. — Mwy o dryloywder a phersonoliaeth yn ein newyddion drwy gynnig mwy o wybodaeth am ein harbenigwyr a'r ffynonellau a ddefnyddir ganddynt. — Profiadau ffrydio byw gan ddefnyddio cyfraniadau gan newyddiadurwyr y BBC ar lawr gwlad wrth i newyddion dorri. 	NI CHYFLAWNWYD – Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo. Rydym wedi creu tîm Fformatau Digidol newydd sy'n gweithio i ddatblygu'r fformatau newydd hyn a gwella cynnwys a gaiff ei guradu.
BBC Sport	Bydd BBC Sport yn rhoi sylw i ddiwyddiadau chwaraeon mawr yn cynnwys Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop, Gemau Olympaidd Tokyo, Wimbledon a Chyffres y Llundw yn Awstralia.	CYFLAWNWYD
	Gwasanaeth ar gyfer Uwch-gynghair Lloegr – gyda phrofiad mwy personol, yn seiliedig ar ein cefnogaeth o'r timau, gan ddatgloi cynnwys gorau'r BBC ar gyfer clybiau unigol.	CYFLAWNWYD
	Cynnwys Sport Plus (h.y. straeon chwaraeon mewn diwylliant ac adloniant), ynghyd â mwy o ryngweithio ar-lein (cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, sgoriau, gemau).	CYFLAWNWYD – lanswyd gyda'r rhaglen ddogfen ar Ronaldo
	Personoli, mewngofnodi a phynciau gwell.	CYFLAWNWYD

Nodiadau

- Cyflawnwyd 35% o deitlau CBBC sydd wedi'u hanelu at blant 6-9 oed, a 33% sydd wedi'u hanelu at blant 6-12 oed. Cafodd comisiynau a wynebodd oedi oherwydd COVID-19 yn y blynyddoedd blaenorol eu dangos yn 2021/22. Roedd yr ôl-groniad hwn yn golygu na chafodd rhai o deitlau 2020/21 eu dangos yn ystod y flwyddyn ariannol honno ac felly effeithiodd hynny ar 2021/22.
- Yng Nghynllun Blynnyddol y BBC ar gyfer 2021/22, cafodd y ffigur ar gyfer ein hymrwymiad i gyflawni oriau animeiddio ei labelu'n anghywir fel 30 awr yn lle'r 6 awr a fwriadwyd. Mae hyn wedi cael ei gywiro yn yr ymrwymiad uchod.
- Cyflawnwyd 58% deitlau CBeebies ar gyfer plant 4-6 oed, a 42% ar gyfer plant 0-3 oed. Effeithiodd oedi yn sgil COVID-19 ar y ddarpariaeth hon, gweler nodyn 1 uchod.

Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four a BBC iPlayer	Mae ein cynlluniau cynnwys ar gyfer 21/22 yn cynnwys amrywiaeth o allbwn i adlewyrchu a chynrychioli cymunedau amrywiol yn cynnwys <i>My Name is Leon</i> , <i>Ralph and Katie</i> , <i>Gentleman Jack</i> , <i>Superhoe</i> , <i>Man Like Mobein</i> , <i>Our international NHS</i> ac <i>Independence Day</i> . O fis Ionawr 2022, caiff <i>Morning Live</i> ei gyflwyno'n fyw o Salford. BBC One fydd yr unig sianel yn y DU sy'n darlledu ei holl allbwn byw yn y bore o'r tu allan i Lundain.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn lansio drama newydd yn ystod y dydd, sef <i>Hope Street</i> , sydd wedi'i lleoli yn ardal wledig County Down, i ategu cyfres arall yn ystod y dydd o Ganolbarth Lloegr.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn darlledu o leiaf 20 o deitlau drama a chomedi sydd yn amlwg wedi'u lleoli mewn trefi, dinasoedd a siroedd ledled y DU.	CYFLAWNWYD – lanswyd 30 o deitlau
	Byddwn yn darlledu hyd at ddeg cyfres ffeithiol newydd o'r pedair gwlad o ganlyniad i waith BBC Three a BBC Two i gefnogi cwmnïau o'r gwledydd a'r rhanbarthau drwy COVID-19.	CYFLAWNWYD – lanswyd 10 cyfres
	Bydd Teledu Rhwydwaith a'r Gwledydd a'r Rhanbarthau yn parhau i gydweithio i roi model cydgomisiynu newydd ar waith a fydd yn gweld y BBC yn cyflwyno mwy o gomisiynau a arweinir gan bortreadau ar y prif sianelau rhwydwaith ac ar iPlayer.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn symud pencadlys BBC Writers-room i Salford a byddwn yn penodi pedair rôl comisiynu Drama newydd, un ym mhob gwlad, a fydd yn arwain y gwaith o ddatblygu awduron newydd ac yn cefnogi'r Golygyddion Comisiynu i adeiladu'r amrywiaeth a'r cyflenwad o leisiau newydd ledled y DU.	CYFLAWNWYD
	Bydd BBC Three yn adeiladu ar lwyddiant ei chynllun Northern Voices, drwy lansio cyfle i greu rhaglenni dogfen ar gyfer cynhyrchwyr o Ganolbarth Lloegr gyda BBC England, i hyrwyddo cwmnïau lleol sydd am adrodd straeon rhanbarthol ifanc a dyls.	CYFLAWNWYD

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus Ymrwymïadau'r Cynllun Blynyddol – parhad

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymïad y BBC	Canlyniad
	Ymysg pethau eraill, bydd ein cronfa amrywiaeth gwerth £2 filiwn yn cefnogi cynllun talent amrywiol ar draws cyfres 6 a 7 o <i>Shetland</i> gan ganolbwyntio ar rolau lefel mynediad, lefel ganolig a golygu sgriptiau; yn cyd-ariannu dau gynhyrchydd cyfres dan hyfforddiant gyda <i>Dragonfly North</i> a'r gyfres nesaf o <i>Ambulance</i> ; ac yn ariannu tair rôl gynhyrchu ychwanegol ar gyfer pobl o gefndir dosbarth gweithiol ar gyfer Cyfres 3 o <i>Angels of the North</i> er mwyn gwella'r amrywiaeth economaidd-gymdeithasol ac atgyfnerthu'r broses o ddatblygu talent yn ardaloedd Newcastle a Darlington.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn cynyddu nifer y rolau comisïynwyr Rhwydwaith sydd wedi'u lleoli yng ngogledd Lloegr er mwyn cefnogi synïadau lleol a chwmnïau yn y rhanbarth.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn adnewyddu derbynwyr ein cronfa i gwmnïau bach annibynnol er mwyn helpu i dyfu ac ehangu'r amrywiaeth o gwmnïau a gomisiynir gennym – gan ganolbwyntio ar gynhyrchwyr y gwledydd a'r rhanbarthau a arweinir gan amrywiaeth.	CYFLAWNWYD
CBBC	Bydd CBBC yn adlewyrchu'r amrywiaeth o blant yn y DU er mwyn sicrhau bod pawb yn gweld eu hunain a'u bywydau'n cael eu cynrychioli ar y sgrin.	CYFLAWNWYD
	Bydd animeiddio yn chwarae rhan gynyddol yn ein strategaeth i gynulleidfaoedd yn y dyfodol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a byddwn yn lansio menter beilot i gefnogi'r economi greadigol drwy feithrin talent animeiddio greadigol newydd yn y DU.	CYFLAWNWYD – lansïwyd menter beilot Ignite ym mis Medi 2021, gan dderbyn mwy na 1,000 o gyflwynïadau
CBeebies	Bydd CBeebies yn adlewyrchu'r amrywiaeth o blant yn y DU er mwyn sicrhau bod pawb yn gweld eu hunain a'u bywydau'n cael eu cynrychioli ar y sgrin.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 1	Bydd Radio 1 yn cefnogi diwydiannau creadigol y DU ledled y DU wrth iddynt ailagor ar ôl y cyfyngiadau symud, gan ddathlu cerddoriaeth fyw, gwyliau a chlybiau pan fydd y canllawiau perthnasol yn caniatáu hynny.	CYFLAWNWYD – yn cynnwys dwy raglen Essential Mix o glybiau sydd wedi ailagor, darllediadau awyr agored o wyl Reading ac Out Out! Live Radio 1, sef digwyddiad byw am ddim yn Arena Wembley
BBC Radio 1Xtra	Bydd taith 1Xtra o amgylch y DU yn rhoi llwyfan i 16 o ddinasoedd ym mis Ebrill.	CYFLAWNWYD
	Mewn partneriaeth â BBC Introducing a Plant mewn Angen, byddwn yn rhoi llwyfan i ddoniau artistiaid a phobl greadigol leol, yn ogystal ag adlewyrchu straeon gan y rheini sy'n gweithio er budd cymunedau lleol.	CYFLAWNWYD – cafodd y gwaith gyda Plant mewn Angen ei ad-drefnu i'w lansio ym mis Ebrill 2022
BBC Radio 3	Bydd Radio 3 yn cefnogi'r gwaith o ailadeiladu'r diwydiant cerddoriaeth glasurol a'r diwylliant o berfformïadau byw ar ôl y pandemig, drwy ddarparu perfformïadau a recordïadau penodol o amrywiaeth eang o wyliau a neuaddau cyngerdd ledled y DU, pan fydd y canllawiau perthnasol yn caniatáu hynny.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 3 yn parhau i amlygu a dathlu gwaith cyfansoddwyr benywaidd a Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a esgeuluswyd, boed yn fyw neu'n farw.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 4 a Radio 4extra	Byddwn yn ymgysylltu â phobl ledled y DU ac yn adrodd eu straeon drwy raglenni dogfen, <i>The Listening Project</i> a lansiad llinyn sgwrsio newydd sy'n archwilio sefyllfaoedd sy'n newid bywydau.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn archwilio hanes y fasnach Brydeinig mewn caethweision a'i dylanwad parhaus ar ein bywydau heddiw.	CYFLAWNWYD
	Bydd cyfres newydd yn archwilio hanes a hunanddealltwriaeth y DU mewn cydweithrediad ag amgueddfeydd lleol.	CYFLAWNWYD
	Bydd cyfres o raglenni dogfen yn archwilio agweddau at yr Undeb, gyda phedair rhaglen o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.	CYFLAWNWYD
	Bydd cyfres o ddeg drama, o bum rhan wahanol o'r DU, yn cynnwys 50 o awduron newydd a sefydledig sydd â hunaniaethau rhanbarthol nodedig, yn creu cyfres o straeon am fywyd cyfoes ledled y DU.	CYFLAWNWYD
BBC Radio 5 live a 5 live Sports extra	Bydd 5 live yn parhau i adlewyrchu cynulleidfaoedd ledled y DU fel yr unig orsaf lafar ledled y DU sydd wedi'i lleoli yng ngogledd Lloegr.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 5 live yn rhoi sylw i fwy o chwaraeon i fenywod nag unrhyw ddarlledwr radio arall.	CYFLAWNWYD

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
BBC Radio 6 Music	Bydd Radio 6 Music yn nodi Pride gyda chyfres eiconig o raglenni, rhestrau chwarae a chymysgeddau a arweinir gan artistiaid.	CYFLAWNWYD
	Nod 6 Music fydd cefnogi cerddoriaeth a pherfformiadau byw ar lawr gwlad, ledled y DU, gan dynnu sylw at fentrau fel Wythnos Lleoliadau Annibynnol, a gwahodd artistiaid newydd ac sy'n dod i'r amlwg i berfformio mewn sesiynau pan fydd canllawiau cadw pellter cymdeithasol yn caniatáu hynny.	CYFLAWNWYD
BBC Asian Network	Bydd Asian Network yn dechrau gweithio i gydrynhoi mewn un lleoliad yn Birmingham.	CADARNHAWYD – lansiwyd Asian Network Chill ym mis Hydref 2021 ac mae'n cael ei gynhyrchu gan gwmni annibynnol a leolir yn Birmingham
	Yn dilyn menter 'lleisiau newydd', bydd Asian Network Represents ar nos Sul yn rhoi llwyfan i gyfres amrywiol o gyflwynwyr newydd drwy gydol 2021. Mae'r cyflwynwyr yn cynnwys nifer sy'n newydd i radio, gyda phob DJ yn mwynhau mis i rannu ei angerdd tuag at ddiwylliant Asiaidd Prydain.	CYFLAWNWYD
BBC One Wales a BBC Two Wales	Yn ystod y cyfnod hwn, bydd cyfresi poblogaidd iPlayer <i>Keeping Faith</i> a <i>Hidden</i> yn dychwelyd am eu cyfresi olaf a bydd y ddrama drosedd <i>The Pact</i> yn cael ei lansio.	CYFLAWNWYD
	Mae comedi yn rhan greiddiol o gynnwys o hyd gyda 'Festival of Funny' ar y gweill ar gyfer yr hydref a bydd y gyfres comedi sefyllfa boblogaidd <i>The Tuckers</i> ac <i>In My Skin</i> , a enillodd wobrau, yn dychwelyd.	CYFLAWNWYD
	Bydd lluo o raglenni ffeithiol nodedig yn parhau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys <i>The Celtic Deep</i> a <i>Snowdonia Farmers</i> .	CYFLAWNWYD
BBC Radio Wales	Darllediadau gwleidyddol o etholiadau'r Senedd ar raglenni allweddol, yn cynnwys <i>Radio Wales Breakfast</i> , <i>Drive</i> a <i>Sunday Supplement</i> . Darperir cynnwys ychwanegol hefyd drwy bodlediadau fel <i>Walescast</i> .	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn cynnig darllediadau eang, yn cynnwys sylwebaeth fyw o bob gêm Cymru ym Mhencampwriaeth Pêl-droed Ewrop yn 2021. Byddwn hefyd yn cynnig darllediadau o athletwyr Cymru yn y Gemau Olympaidd, Taith y Llewod a Chwpan Rygbi'r Byd i Fenywod.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn parhau i gefnogi diwylliant Cymreig, gan gynnwys Gŵyl Gomedï Machynlleth a Gŵyl Ddigidol y Gelli.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn denu cynulleidfaoedd iau drwy greu podlediadau a chynnwys pwrpasol ar gyfer BBC Sounds – gan gynnwys <i>The Hayley Pearce Podcast</i> .	CYFLAWNWYD
	Bydd comedi hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer BBC Radio Wales, gydag amrywiaeth o raglenni peilot yn cefnogi talent newydd, ynghyd â dychweliad cyfresi sefydledig fel y sioe sgets gan fenywod, <i>Welcome Strangers</i> .	CYFLAWNWYD
BBC Radio Cymru a Radio Cymru 2	Bydd y rhaglen newyddion yn y bore a lansiwyd yn ddiweddar gan Radio Cymru, <i>Dros Frecwast</i> , yn cynnig darllediadau cynhwysfawr a hygyrch yn 2021 o'r pandemig, Etholiadau Senedd Cymru a digwyddiadau chwaraeon mawr.	CYFLAWNWYD
	Mae cynlluniau ar waith i gynnig ymateb creadigol ar yr awyr i'r ffaith bod y prif wyliau diwylliannol Cymraeg eu haith wedi cael eu gohirio, ynghyd â chyfres o gyngherddau a sesiynau gydag artistiaid Cymraeg poblogaidd.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn parhau i ehangu ein cynnwys Cymraeg a gynhyrchir yn arbennig ar gyfer BBC Sounds a byddwn yn creu mwy o ofod i leisiau amrywiol ac yn atgyfnerthu ein harlwy i gynulleidfaoedd ifanc.	CYFLAWNWYD
BBC One Scotland	Drama fydd ein prif arlwy rhwydwaith i gynulleidfaoedd, gyda dychweliad <i>Shetland</i> (am ei chweched gyfres) a dwy ddrama gyffro chwe rhan newydd – <i>Vigil</i> a <i>The Control Room</i> . O ran comedi, byddwn yn gweld trigolion Latimer Crescent yn dychwelyd yn <i>Two Doors Down</i> ac, i'r gwylwyr ifancach, bydd <i>Molly and Mack</i> yn dychwelyd ar CBBC. Bydd <i>Tricky</i> yn dychwelyd i bodlediadau Radio 4 am ail gyfres o drafodaethau cyfoes.	CYFLAWNWYD – cafodd <i>The Control Room</i> ei hailamsertlennu i 2022/23
	Bydd rhaglennu newyddion yn parhau i chwarae rhan amlwg ar BBC One Scotland, gyda darllediadau o ddigwyddiadau allweddol ledled y flwyddyn, yn cynnwys etholiadau Holyrood ym mis Mai, Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop a'r Gemau Olympaidd yn ystod haf 2021 a chynhadledd hinsawdd y byd, COP26 yn Glasgow.	CYFLAWNWYD

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus

Ymrwymïadau'r Cynllun Blynyddol – parhad

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymïad y BBC	Canlyniad
BBC Scotland	Bydd cynnwys ffres ac arloesol, fformatau a thalent newydd yn parhau i ddiffinio sianel BBC Scotland.	CYFLAWNWYD – 800 awr o gynnwys gwreiddiol a ddarledwyd ar amrywiaeth eang o genres
	Ymysg y rhaglenni ffeithiol a fydd yn dychwelyd yn ystod y flwyddyn bydd <i>Inside Central Station</i> , <i>Inside the Zoo</i> a <i>Scotland's Home of the Year</i> . Hefyd, bydd cyfres newydd o <i>Murder Case</i> a <i>Crime Files</i> gan David Wilson a bydd <i>Who Owns Scotland?</i> yn craffu ar berchenogaeth tir trefol a gwledig.	CYFLAWNWYD – cafodd <i>Murder Case</i> ei hailamserlennu i 2022/23
	Bydd <i>Guilt</i> , a enillodd sawl gwobr, yn dychwelyd i sianel BBC Scotland a BBC Two am ail gyfres.	CYFLAWNWYD
	Bydd Iain Connell a Robert Florence o Burnistoun yn cyflwyno cyfres gomedi newydd ar y sgrin gyda <i>The Scotts</i> .	CYFLAWNWYD
	Bydd <i>TUNE</i> a <i>Loop</i> yn rhoi llwyfan i'r straeon gorau yn y byd cerddoriaeth a'r celfyddydau o bob cwr o'r Alban.	CYFLAWNWYD
BBC Alba	Bydd BBC Alba yn darlledu wythfed cyfres, a'r olaf, o'r ddrama a leolir ar Ynysoedd Heledd, <i>Bannan</i> , a bydd cyfres ddrama uchelgeisiol newydd i blant a gaiff ei chydariannu, <i>Na h-Òstairean</i> , yn cael ei chynhyrchu.	CYFLAWNWYD
BBC Radio Scotland	Bydd darllediadau gwleidyddol o etholiadau Holyrood ym mis Mai yn cynnwys ein hallbwn newyddion, yn cynnwys <i>Sunday Show</i> a gyflwynwyd yn ddiweddar.	CYFLAWNWYD
	BBC Radio Scotland fydd 'Home of the Euros' yn ystod haf 2021, gyda rhaglennu ychwanegol a digwyddiadau arbennig.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn lansio ein cystadleuaeth ysgrifennu i blant ar gyfer COP26 – <i>Climate Tales</i> – gan arwain at ddiweddgo a gyd-ddarlledir gyda sianel BBC Scotland.	CYFLAWNWYD
BBC Radio nan Gàidheal	Bydd BBC Radio nan Gàidheal yn parhau i ddarparu ei chymysgedd unigryw o raglenni llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Gaeleg a rhoddir blaenoriaeth i dalent newydd.	CYFLAWNWYD
BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland	Darparu dramâu teledu trawiadol i gynulleidfa oedd rhwydwaith y BBC, yn cynnwys <i>Line of Duty</i> a <i>Hope Street</i> .	CYFLAWNWYD
	Cydweithio â BBC Three ar raglenni a gynhyrchir yn lleol ar gyfer cynulleidfa oedd ieuengach ac ar draws amrywiaeth o genres.	CYFLAWNWYD
	Cynnal ehangder ac apêl ein hamserlen teledu lleol gyda chymysgedd o linynnau sy'n dychwelyd a chomisiynau newydd.	CYFLAWNWYD
	Darparu rhaglenni dogfen nodedig ar faterion hanesyddol a themâu pwysig, yn cynnwys <i>Road to Partition</i> .	CYFLAWNWYD
	Adlewyrchu amrywiaeth cymunedol a bywyd cyfoes drwy linynnau yn cynnwys <i>True North</i> , <i>Home Ground</i> a'n hallbwn ieithoedd lleiafrifol.	CYFLAWNWYD
	Gweithio i sicrhau ei bod yn haws dod o hyd i raglenni teledu a gynhyrchir yn lleol/perthnasol ar BBC iPlayer.	CYFLAWNWYD – cafodd rhaglenni BBC Northern Ireland eu hyrwyddo y tu hwnt i gategori Gogledd Iwerddon a'u hargymell i wylwyr drwy ddulliau amrywiol.
	Comisiynu <i>A Season of Arts</i> , dathliad trawslwyfan o'r celfyddydau a chreadigrwyd.	CYFLAWNWYD
Cynnal ehangder, effaith a natur nodedig ein newyddiaduraeth yn <i>BBC Newslines</i> , <i>Spotlight</i> a <i>The View</i> .	CYFLAWNWYD	
BBC Radio Ulster a Radio Foyle	Cydgrynhoi'r amserlen a newidiadau eraill ar BBC Radio Ulster/Foyle, gan gynnal natur nodedig a datblygu cyfleoedd ar gyfer talent newydd a lleisiau mwy amrywiol.	CYFLAWNWYD
	Rhoi llwyfan i dalent cerddoriaeth drwy gystadleuaeth BBC Radio Ulster ar gyfer Unawdydd y Flwyddyn i Ddisgyblion Ysgol a menter Young Musicians' Platform.	CYFLAWNWYD
	Disgrifio, egluro a hwyluso trafodaeth i nodi canmlwyddiant y rhanid a sefydlu Gogledd Iwerddon.	CYFLAWNWYD

Gwasanaeth y BBC	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
	Datblygu ein llinyn rhaglen ddogfen, <i>Assume Nothing</i> , ac arddangos talent a gwaith ysgrifennu comedi.	CYFLAWNWYD – mwy na dwy filiwn o wrandawyr ers ei lansio
	Rhoi newyddion, gwybodaeth a dadansoddiadau am COVID-19 a materion ar ôl Brexit i gynulleidfaoedd.	CYFLAWNWYD
	Cydweithio â sefydliadau eraill i gyflwyno mentrau rhaglenni, yn cynnwys Book Week with Libraries NI.	CYFLAWNWYD
	Datblygu proffil, cyrhaeddiad ac effaith allbwn a gynhyrchwyd lleol ar BBC Sounds, yn cynnwys podlediadau fel <i>Year 21</i> .	CYFLAWNWYD
	Ehangu ymgysylltiad gwrandawyr â rhaglenni'r BBC, gan adlewyrchu lleisiau a phrofiadau amrywiol o bob cwr o'r rhanbarth.	CYFLAWNWYD
	Darparu fforwm ar gyfer rhannu straeon, safbwyntiau a phryderon gwrandawyr ar raglenni gan gynnwys <i>The Nolan Show</i> .	CYFLAWNWYD
